

Adroddiad Blynyddol 15/16 a Cynllun Gwella 16/17



Os hoffech chi dderbyn y ddogfen hon mewn fformat arall, e.e. print bras, ar dâp sain neu mewn Braille, cysylltwch â Rheoli Perfformiad ar 01267 224486

I gael crynodeb 'Cychwyn cyflym' byr ar gyfer y ddogfen hon gweler ein [Crynodeb](#)

I fonitro cyflawniad y cynllun hwn, ewch i –
www.sirgar.llyw.cymru/perfformiad

Croeso gan Arweinydd y Cyngor

Mae'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers imi gael fy ethol yn Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mai 2015. Yn ddi-os, roedd cael fy ethol yn Arweinydd ar Gyngor mor llwyddiannus yn fraint o'r mwyaf.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn hunanasesu ac yn gwerthuso ein perfformiad a'r modd rydym yn llywodraethu fel Cyngor cyn pennu ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac rydym yn ffodus iawn ein bod yn gallu cynnwys ffynhonnell annibynnol i grynhoi ein perfformiad.

Ym mis Ionawr eleni, cynhaliwyd Aseiad Corfforaethol o'r Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, a roddodd ganmoliaeth uchel inni am feddu ar weledigaeth oedd wedi ei sefydlu'n dda ac oedd yn cael ei gyrru yn ei blaen gan gydarweinyddiaeth gadarn o du'r Bwrdd Gweithredol a'r Timau Rheoli Corfforaethol.

Nodai'r adroddiad fod fframwaith clir o gynlluniau a strategaethau sydd wedi'u halinio'n dda wedi peri i gamau gweithredu gael eu cymryd ynghylch y blaenoriaethau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella cyfun wedi'i alinio'n uniongyrchol i'r *Strategaeth Gymunedol Integredig* yr ydym wedi cytuno arni gyda'n partneriaid. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cyflawni ein rhan ni o'r cytundeb. O ran y pum *canlyniad* a'r 30 *nod* y cytunom arnynt, mae'n amlinellu cynnydd y Cyngor y llynedd a'i amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad yn gyson bod ein hadroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn "*deg ac yn gytbwys*", ac, yn ogystal â newyddion da, rydym yn adrodd am newyddion anghyfleus, er nad oes llawer ohono. *Rydym yn mynd i wneud y Cyngor yn gyngor mwyaf agored a thryloyw Cymru i'n galluogi i wella'n barhaus*. Bydd cynllun gweithredu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn datblygu a gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn parhau i gael ei gyflawni.

Fy mhrif flaenoriaeth yw adfywio'r economi leol, creu swyddi a chadw pobl ifanc yma i gyflawni eu potensial. Rydym wedi cryfhau'r *Canlyniad – mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy ffyniannus*.

Yn wyneb toriadau llym i'r gyllideb, rydym wedi cyflawni llawer ac yn bwriadu cyflawni rhagor, er bod llai o gyllid. Byddwn yn parhau i ymgynghori'n eang ynghylch cynigion o ran lleihau'r gyllideb a byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwrando ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn gwneud gwell defnydd o adnoddau, yn adeiladu gwell cyngor, ac yn sicrhau bod gwerthoedd craidd y Cyngor yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Mae'n gyfnod heriol ac ansicr ond mae ansicrwydd yn creu cyfleoedd a byddwn yn wynebu'r heriau ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau er lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Sir Gaerfyrddin.

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni:

Gwrando Arnoch Chi, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch neges e-bost atom GwrandoArnochChi@sirgar.gov.uk

Y Cyngorydd Emlyn Dole

Yr Arweinydd



Mark James CBE

Y Prif Weithredwr



Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	4
➤ Canlyniad: A. Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	yn cynnwys Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella - KIOP 13
➤ Canlyniad: B. Adeiladu Gwell Cyngor	yn cynnwys KIOP 27
Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Gwella ar gyfer cyflawni ein rhan ni o'r Strategaeth Gymunedol Integredig lle bu i ni a'n partneriaid gytuno ar y 5 Canlyniad a'r 30 Nod a bennwyd	
Canlyniad: C. Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach	
➤ C1: Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd	
➤ C2: Atal afiechyd ac annog ffyrdd iach ac egniol o fyw	
➤ C3: Gwella iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol pawb yn y sir	
➤ C4: Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd	yn cynnwys KIOP 39
➤ C5: Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd	yn cynnwys KIOP
➤ C6: Gwella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau agored i niwed	
➤ C7: Lleihau camdefnyddio cyffuriau ac alcohol	
Canlyniad: D. Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	
➤ D1: Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb	yn cynnwys KIOP
➤ D2: Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb	yn cynnwys KIOP 68
➤ D3: Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant	
➤ D4: Datblygu Cymdeithas Gynhwysol	
➤ D5: Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg	
Canlyniad: E. Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	
➤ E1: Cynnal ac anelu at leihau ymhellach lefelau troseddau sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr	
➤ E2: Gwella hyder cymunedau lleol ein bod ni'n rhoi sylw i'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddau	
➤ E3: Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol	88
➤ E4: Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol	
➤ E5: Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gam-fanteisio arnynt	
➤ E6: Lleihau goryrru a nifer y damweiniau traffig ffyrdd	
Canlyniad: F. Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy	
➤ F1: Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear, a lleihau ein hallyriadau carbon	
➤ F2: Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff	
➤ F3: Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy	101
➤ F4: Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y Sir	
➤ F5: Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy	
➤ F6: Datblygu dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy	yn cynnwys KIOP
➤ F7: Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig	
Canlyniad: G. Mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy ffyniannus	
➤ G1: Datblygu twf busnes, cadw arbenigedd (gan gynnwys cadw pobl ifanc)	
➤ G2: Creu cynifer o swyddi â phosibl i bawb	yn cynnwys KIOP
➤ G3: Datblygu'r economi wybodaeth ac arloesedd	116
➤ G4: Sicrhau lleoedd nodedig a fframweithiau cystadleuol	
➤ G5: Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol	yn cynnwys KIOP
➤ G6: Creu economi a gweithlu dwyieithog	
Atodiadau – Ein Mesurau Statudol – canlyniadau 2015/16 a'r targedau ar gyfer 2016/17	138

Bydd y cynllun hwn yn rhoi sylw i'r holl addewidion a wnaed, yn eu tro, ac yn ceisio cloriannu lle'r ydym arni, edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael o ran bodlonrwydd cwsmeriaid, canfyddiadau rheoleiddiol neu ddata perfformiad, amlinellu'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf, nodi a oes unrhyw un ar ei ennill, a phennu gwelliannau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cyflwyniad

Pwrpas:

Mae dogfen yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn cael ei chynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Uchelgais y Cyngor yw bod y cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru.

Mae rheoleiddwyr allanol wedi cydnabod bod Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Gwella blaenorol yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr mewn ffordd deg a chytbwys. Ym mis Mawrth 2016 daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:-

'Mae adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn deg a chytbwys. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn glir ac maent yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, y cynnydd y mae'n ei wneud a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.'

Swyddfa Archwilio Cymru - Cynllun Gwella Blynyddol Mawrth 2016

Dyletswydd Gyfreithiol:

Yn ôl y gyfraith, o dan [Fesur Llywodraeth Leol \(Cymru\)](#) mae'n rhaid inni:

- Cyhoeddi Cynllun Gwella cyn gynted ag y mae'n *rhesymol* ymarferol i wneud hynny ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol h.y. Ebrill 1^{af} a
- Chyhoeddi Adroddiad Blynyddol am berfformiad yn y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref¹ bob blwyddyn.
- Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella cyfun yw'r ddogfen hon.
- Drwy gyfuno'r dogfennau hyn gallwn adolygu'r hyn a wnaethom y llynedd cyn penderfynu ar yr hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod. Rydym yn adrodd ynghylch ein canlyniadau ein hunain ar gyfer 2015/16 ac yn ystyried ein perfformiad o flwyddyn i flwyddyn gan asesu unrhyw welliannau sydd eu hangen.
- Fodd bynnag, o achos amseriad y cyhoeddiad hwn, ni fyddwn yn gallu cymharu ein canlyniadau ar gyfer 15/16 â phob Cyngor arall yng Nghymru hyd nes y bydd canlyniadau Cymru Gyfan wedi eu cyhoeddi ym mis Medi 2016.

Dyletswydd i Wella:

Mae llywodraeth leol, ledled y DU, yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol difrifol ar hyn o bryd. Mae'r disgwyliadau a'r galw am wasanaethau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan ddarparu 'mwy (neu hyd yn oed yr un faint) am lai'.

Gweithio gyda Phartneriaid:

Fel Cyngor nid ydym ar ein pennau ein hunain yn ein gwaith i wella bywydau dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Cytunom ar un [Strategaeth Gymunedol Integredig](#) gyda'n partneriaid yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2011. O'r blaen roedd cynlluniau partneriaeth ar wahân ar gyfer Adfywio, Plant a Phobl Ifanc, Iechyd a Diogelwch Cymunedol.

Yn ei Hasesiad Corfforaethol o'r Cyngor, Ionawr 2016, nododd Swyddfa Archwilio Cymru *'Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth'*.

¹ Ar ôl dyddiad cau yr adroddiad ym mis Hydref bydd modd i Gynghorau gymharu eu perfformiad â chanlyniadau holl Gynghorau eraill Cymru nad ydynt ar gael nac yn cael eu harchwilio tan fis Medi.

Strategaeth Gorfforaethol

Mae ein [Strategaeth Gorfforaethol 2015 - 2020](#) yn pennu dyheadau a blaenoriaethau strategol y Cyngor a sut y byddwn yn cefnogi cyflawni canlyniadau a nodau'r Strategaeth Gymunedol Integredig am y pum mlynedd nesaf.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae [Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol](#) yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â 'nodweddion gwarchoddedig', fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisiau. Yn gyffredinol, mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys cyfres o amcanion cydraddoldeb, ynghyd â chynllun gweithredu, gyda golwg ar hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch.

Mae ymgynghori'n rhan annatod o ddatblygu [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) newydd, ac, o'r herwydd, ceisiwyd barn y cyhoedd i ategu a chryfhau'r Cynllun. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid ledled Dyfed Powys a chyda Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin i gynnal ymgynghoriad manwl. Defnyddiwyd ymagwedd dulliau cymysg i geisio barn a phrofiadau rhanddeiliaid ledled Dyfed Powys.

Cytunwyd i lunio un prif arolwg (a chwaer fersiynau) a chynnal digwyddiadau rhanddeiliaid lleol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. Roedd yr ymagwedd hon wedi cynyddu cadernid y data a gasglwyd ac wedi hwyluso cymhared y canlyniadau. Hefyd, roedd arolwg yr ymgynghoriad ymysg y deunydd a anfonwyd at y Panel Dinasyddion (tua 600) ac at aelodau'r Fforwm 50+ (tua 2400) ym mis Medi 2015.

Defnyddiwyd adborth o'r ymgynghoriad i baratoi'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol, a hefyd bydd yn allweddol o ran paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod gweithredu nesaf.

Yr Iaith Gymraeg

Yn ystod 2015/16 mae'r pwyslais wedi bod ar y gwaith paratoi sydd ynghlwm wrth gyflwyno [Safonau'r Gymraeg](#) yn y Cyngor. Rydym wedi paratoi cynllun gweithredu manwl ar gyfer y cam gweithredu cychwynnol, a hwn fydd sylfaen ein [Hadroddiad Blynyddol](#) ar gyfer eleni.

Mae'r cyfnod paratoi wedi bod yn un prysur, ac mae cyfathrebu wedi bod yn elfen allweddol o gynyddu ymwybyddiaeth o'r newidiadau ymysg staff. O ganlyniad, rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau gan adrannau. Mae hwn wedi bod yn gyfle da inni edrych ar ein sefyllfa bresennol o ran cydymffurfio a phennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.


Yn ystod y gwaith paratoi, daeth yn glir y byddai mwy o bwysau ar yr Uned Gyfieithu. Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau a chefnogi gweithlu dwyieithog, gwnaed buddsoddiad ychwanegol yng nghyllideb yr Uned er mwyn penodi rhagor o staff a buddsoddi mewn systemau a fydd yn cefnogi ei gwaith. Mae gan yr Uned rôl allweddol o ran hwyluso'r Safonau ac o ran helpu adrannau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle wrth inni adeiladu capasiti mewnol.

Hunanasesu a Blaenoriaethu Gwella

Er mwyn asesu perfformiad a chlustnodi blaenoriaethau gwella, rydym yn defnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau rhesymol, teg a chytbwys. Rydym hefyd wedi cynnal Seminar gydag aelodau etholedig i nodi eu barn ar flaenoriaethau ar gyfer gwella.

Drwy ddod â'r ystod eang hon o wybodaeth a safbwyntiau ynghyd, rydym yn gallu archwilio tystiolaeth er mwyn penderfynu ar yr hyn sydd bwysicaf ac ar y meysydd y mae angen inni ymdrechu fwyaf ynddynt.

Clustnodwyd y Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella canlynol ar gyfer 2016/17:-




Canlyniad	Ein KIOP am 2015/16	KIOP am 2016/17
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	<i>Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt</i>	<i>Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt - gan roi ystyriaeth i'r toriadau yn y gyllideb gan y llywodraeth ganolog a'u heffaith</i>
Adeiladu Gwell Cyngor	<i>Gwella'r trefniadau o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored a thryloywder</i>	<i>Parhau i wella'r trefniadau o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored a thryloywder a sicrhau bod Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn eu hadolygu'n rheolaidd</i>
Iechyd	<i>Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn i gynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth wrth heneiddio</i>	<i>Hyrwyddo Annibyniaeth a Lles ar gyfer Pobl Hŷn</i>
	<i>Gwella stoc dai y Cyngor a helpu pobl leol i gael mynediad i dai rhent a thai fforddiadwy</i>	<i>Cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a'r cartrefi ar rent sydd ar gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy</i>
Dysgu	<i>Gwella Cyrhaeddiad mewn Ysgolion</i>	<i>Gwella Cyrhaeddiad Dysgwyr</i>
		Newydd – Lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
Yr Amgylchedd		Newydd – Gwella'r seilwaith priffyrdd i gefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach
Economi	<i>Mynd i'r afael â thlodi</i>	<i>Mynd i'r afael â thlodi</i>
		Newydd – Creu swyddi a thwf ledled y sir

Newyddion allweddol am berfformiad cyffredinol Dyfarniad y Dinasyddion

Ym mis Mawrth 2014, anfonwyd holiadur â'r cwestiwn canlynol at y Panel Dinasyddion:

'O ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn gyffredinol?'



Panel Dinasyddion ^{#1}	a	b	c	d	e	f	g	h	c-h
	Bodlon iawn	Eithaf bodlon	Hollol fodlon	Nid y naill na'r llall	Dim barn	Eithaf anfodlon	Anfodlon iawn	Hollol anfodlon	Bodlonrwydd Net ^{#2}
Mawrth 2014 376 o ymatebion	9%	49%	58%	16%	3%	14%	9%	23%	35%
Ebrill 2012 461 o ymatebion	7%	45%	52%	25%	4%	16%	3%	19%	33%
Mai 2010 538 o ymatebion	6%	52%	58%	19%	4%	14%	4%	18%	40%

1 Nid yw'r arolwg eto yn 2016. Fel rhan o'i waith, bydd y Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnal arolwg o 600 o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn ystod 2016/17.

#2 Mae defnyddio bodlonrwydd net yn unol â'r arferion arferol ar gyfer ymchwil i'r farchnad ac ymagwedd Arolwg Cenedlaethol Cymru

#3 Efallai fod canlyniadau'r Panel Dinasyddion yn fwy beirniadol na chanlyniadau'r Arolwg Preswylwyr. Yn ôl canlyniadau Arolwg Preswylwyr 2010 roedd 82% o'r preswylwyr yn fodlon – yn ôl canlyniadau Panel Dinasyddion 2010 roedd 58% yn fodlon, sy'n wahaniaeth o 24%.

Dyfarniad y Rheoleiddwyr

Mae rheoleiddwyr yn darparu asesiad annibynnol pwysig o'r Cynghorau a'r modd y maent yn gwarchod arian cyhoeddus.



Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad Corfforaethol - Ionawr 2016

Yn 2013-14 dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol ar gyfer yr awdurdodau gwella yng Nghymru. Yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwelliant ac archwiliadau o ddulliau'r Cyngor o gynllunio gwelliant ac o adrodd arno, golyga hyn fod pob awdurdod yn derbyn asesiad corfforaethol trwyadl unwaith ym mhob cylch o bedair blynedd. Yn ystod yr hydref yn 2015 cafodd Sir Gaerfyrddin ei harchwilio ac ym mis Ionawr 2016 daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i law.

Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol:

Gan arddangos uchelgais yn ei weledigaeth, a chyda chydarweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a didwyll, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion. Fodd bynnag, mae rhai dulliau wedi dyddio, a gallent arafu'r cynnydd.

At ei gilydd roedd yr adroddiad yn ffafriol iawn ac ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe chynnig ar gyfer gwella a chaiff y rhain sylw yn adrannau *Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau a Bod yn Well Cyngor* y cynllun hwn.

Swyddfa Archwilio Cymru - Cynllun Gwella Blynyddol- Mawrth 2016

At ei gilydd roedd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn ailadrodd canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol ac yn ychwanegu rhagor o sylwadau ynghylch ymagwedd ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cynllun Gwella:

Mae'r adolygiad cyfunol o berfformiad yn y gorffennol â'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd nesaf, o fewn un ddogfen, yn galluogi'r darllenydd i gael darlun cytbwys o ba mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn hirfaith ac yn fanwl ac mae crynodeb defnyddiol hefyd. Gyda'i gilydd maent yn darparu'r holl wybodaeth y gallai fod ar y darllenydd ei hangen. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella a'r crynodeb yn Gymraeg a Saesneg, gyda threfniadau priodol ar gyfer cyhoeddu'rwydd. Mae'n hawdd dod o hyd i'r adroddiad ar wefan y Cyngor.

Gan fod ein hymagwedd wedi cael ei chymeradwyo fel hyn, rydym wedi penderfynu ailadrodd y broses ar gyfer 2016/17 gyda rhai gwelliannau pellach.

Sut ydym yn Cymharu

Pan gyhoeddodd [Strategaeth Gorfforaethol 2015 - 2020](#), pennwyd y mesurau canlyniadau canlynol gennym i gloriannu ein cynnydd:-

Thema	Mesurau'r Canlyniadau	Cynnydd
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Y cyhoedd yn fwy bodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor	✓
	Gostyngiad mewn 'costau cynnal' sefydliadol	✓
	Mwy o weithgarwch ar-lein er mwyn rhoi sylw i ymholiadau gan y cyhoedd a thrafodion	✓
Adeiladu Gwell Cyngor	Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd	✓
	Y staff yn fwy bodlon	✓
	Gostyngiad yn lefelau absenoldeb salwch y staff	✗
Iachach	Gostyngiad yn yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant	✓
	Mwy o gartrefi fforddiadwy a chartrefi ar rent ar gael	✓
	Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden	✗
Addysg	Gwell cyrhaeddiad mewn addysg	✓
	Gwell cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion	✓
	Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Blwyddyn 11 ✗
	Ysgolion mewn gwell cyflwr	Blwyddyn 13 ✓
Diogel	Darparu cymorth priodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd	✓
	Gostyngiad yn nifer y rheiny a gafodd eu hanafu/lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd	✗
	Gostyngiad yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd	✗
	Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol	✓
Yr Amgylchedd	Cyfraddau ailgylchu uwch	✓
	Gwell mynediad digidol	✓
	Gwell cysylltiadau trafniadaeth	✓
	Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy	✓
Economi	Mwy o gyflogaeth	✓
	Lleihad yng nghanran y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra allweddol	✓
	Mwy o gynhyrchedd a gweithgarwch economaidd	✓

Hefyd mae cyfres o **fesurau Cenedlaethol**[#] y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu.

Mae dwy brif ffordd o fesur gwelliant:-

- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn
- Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn

Yn ystod 2015/16, bu gwelliant yn **59%** o'n mesurau, tra bo **24%** wedi dirywio ac **17%** wedi aros yr un fath; mae hyn yn adeiladu ar y gwelliant a wnaed yn 2014/15 ac mae'n galonogol o hyd yn yr hinsawdd bresennol o gwtogi ar gyllidebau. Dengys y tabl isod y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn:

Blwyddyn	Wedi gwella	Cyson	Wedi dirywio	Gwelliant Net (Wedi gwella - Wedi dirywio)
2015/16	59% (24 o fesurau)	17% (7 o fesurau)	24% (10 o fesurau)	35% [#]
2014/15	56% (24 o fesurau)	14% (6 o fesurau)	30% (13 o fesurau)	26%
2013/14	59% (26 o fesurau)	11% (5 o fesurau)	30% (13 o fesurau)	29%

Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

Ffordd sefydledig o gymharu canlyniadau yw edrych ar gyfran y dangosyddion sydd gan awdurdod yn chwarter uchaf y canlyniadau, y chwarter isaf, ac uwchlaw ac islaw'r canlyniad canolrif.

Dengys y tabl isod sut mae ein canlyniadau'n cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru yn **2014/15**

****	Canlyniadau chwarter uchaf	15 Canlyniad 36%	60%
***	Canlyniadau canol uwch	10 Canlyniad 24%	
**	Canlyniadau canol is	7 Canlyniad 16%	40%
*	Canlyniadau chwarter isaf	10 Canlyniad 24%	

Ar gyfer 2014/15, mae **60%** o'n mesurau yn y ddau chwarter uchaf ac mae **40%** yn y ddau chwarter isaf o gymharu â rhaniad o tua 50:50 ar gyfer 2013/14, sy'n gyflawniad rhagorol.

[#] Gweler **rhestr o'r holl fesurau** yn y tablau uchod, sy'n dangos y canlyniadau sut y maent wedi gwella, dirywio neu aros yr un peth yn **Atodiad A**. Hefyd mae'n dangos sut ydym yn cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, ond yn bennaf ar gyfer 2014/15, gan y bydd canlyniadau 2015/16 ar gyfer holl Awdurdodau Cymru yn cael eu cyhoeddi gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ym mis Medi 2016.

Mae **Atodiad B** yn rhoi gwybodaeth fanwl am bob mesur ynghyd ag eglurhad ynghylch y perfformiad.

Deddfwriaeth Newydd

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* fel cam diweddaraf y gwaith o sicrhau bod datblygiad cynaliadwy yn rhan annatod o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi dweud bod y Ddeddf yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd, ac wedi nodi ei photensial mewn perthynas â'r nodau datblygu cynaliadwy byd-eang y cytunwyd arnynt yn ddiweddar.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu mewn modd cynaliadwy, gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal. Mae'n gosod dyletswydd lesiant ar y cyrff cyhoeddus hynny i bennu a chyhoeddi amcanion sydd wedi'u dylunio er mwyn cyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant cenedlaethol. Hefyd mae'n ofynnol iddynt gymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Y bwriad yw cryfhau datblygiad cynaliadwy yn y cyrff hyn drwy lywodraethu effeithiol. Mae'r Ddeddf yn clustnodi pum ffordd o weithio sy'n gallu cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol – integreiddio, cydweithio, tymor hir, cyfranogiad, ac atal.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cafodd [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ei phasio gyda'r bwriad o wella llesiant pobl Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlinellu sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio, a chydweithio, i gyflawni hyn.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd wedi cael ei sefydlu yn Sir Gaerfyrddin (fel sy'n ofynnol yn holl siroedd eraill Cymru), a'i rôl yw cynnwys dinasyddion a'r gymuned leol mewn modd effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

Y nod yw gwneud gwahaniaeth er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y sir.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn cynnwys pedwar sefydliad statudol:

- [Cyngor Sir Gaerfyrddin](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)
- [Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)
- [Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

Yn ogystal mae nifer o gyrff eraill wedi derbyn gwahoddiad i fod yn gysylltiedig â'r Bwrdd, gan gynnwys:

- [Llywodraeth Cymru](#)
- [Heddlu Dyfed-Powys](#)
- [Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys](#)
- [Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr](#)
- [Yr Adran Gwaith a Phensiynau](#)
- [Coleg Sir Gâr](#)
- [Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#)
- [Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol](#)
- [Cwmni Adsefydlu Cymunedol](#)
- [Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog](#)
- [Cyngor Celfyddydau Cymru](#)

① [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin](#) newyddlen

Cyhoeddi Amcanion Llesiant y Cyngor

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei *Amcanion Llesiant* ar gyfer y flwyddyn i ddod erbyn mis Mawrth 2017.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n creu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo llesiant y rheiny y mae angen gofal a chymorth arnynt (yn cynnwys gofalwyr). Yn ogystal â chefnogi llesiant, mae'r Ddeddf yn ceisio rhoi pobl, partneriaeth ac atal wrth wraidd datblygiad gwasanaethau. Rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG weithio'n agosach gyda'i gilydd i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio asesiadau o anghenion, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â byrddau iechyd, i drefnu gwasanaethau ataliol priodol sy'n lleihau'r angen am gymorth mwy ffurfiol yn eu hardal.

Canlyniad A: Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau...

Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol a pharhaus o ran y gyllideb, ac mae sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn bwysicach nag erioed. Byddwn yn sicrhau bod y sefydliad yn gweithio mor effeithlon â phosibl er mwyn amddiffyn a chynnal gwasanaethau rheng flaen lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl inni barhau i wneud rhai o'r pethau yr ydym wedi eu gwneud yn y gorffennol, a byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid i ganfod ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion lle bo'n briodol.



Nodau:

- A1 – Gwella'r rheolaeth ar arian a chaffael
- A2 – Gwella'r rheolaeth ar eiddo
- A3 – Gwella gwasanaethau trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth Gyfrifiadurol

Ein Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella (KIOP) yw:

Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng-flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt - gan roi ystyriaeth i'r toriadau yn y gyllideb gan y llywodraeth ganolog a'u heffaith

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Y cyhoedd yn fwy bodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor	✓
Gostyngiad mewn 'costau cynnal' sefydliadol	✓
Mwy o weithgarwch ar-lein er mwyn rhoi sylw i ymholiadau gan y cyhoedd a thrafodion	✓

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 15/16 / Y Gwelliant sydd wedi'i Drefnu ar gyfer 16/17:

Nod: A1 Gwella'r rheolaeth ar arian a chaffael

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Yr hinsawdd ariannol heriol a thynhau'r Sector Cyhoeddus oedd un o'r prif feysydd y canolbwyntiwyd arno yn 2015/16. Roedd anawsterau penodol yn perthyn i Baratoi'r Gyllideb ar gyfer cyfnod 2016/19, o achos yr hinsawdd economaidd ac o achos hysbysu hwyr o ran y setliad dros dro a'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2016, a chymeradwywyd Pennu'r Dreth Gyngor ar 10fed Mawrth 2016.

'Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r broses o bennu'r gyllideb yn enwedig yn gadarn ac amserol, ac yn cynnwys ymgysylltu da â'r Aelodau.'

(Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Asesu Corfforaethol, Ionawr 2016)



Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Cafodd y gwaith o Gau ac Archwilio Cyfrifon yr Awdurdod ei gwblhau'n llwyddiannus erbyn y dyddiadau perthnasol, a chafodd y Cyfrifon eu cau o fewn y gyllideb.
- ✓ Roedd y gyfradd gasglu ar gyfer Ardrethi Annomestig wedi gwella ychydig, ac roedd fymryn yn uwch na'r targed, a oedd yn galonogol o ystyried y pwysau ariannol a wynebier o hyd gan lawer o fusnesau.
 - % yr ardrethi annomestig yn ddyledus ar gyfer 2015/16 (CFH/008)**
 - Targed ar gyfer 2015/16 - 98%
 - % Gwirioneddol a Gasglwyd – 98.4% (Gwelliant o 0.08 pwynt canran o gymharu â ffigur 2014/15)
- ! Bu i'r gyfradd gasglu ar gyfer y Dreth Gyngor ostwng ychydig, sef 0.47 pwynt canran. Yn anffodus, roedd nifer o faterion wedi cael effaith andwyol ar y Tîm Adennill yn 2015/16, gan effeithio ar yr amserlenni adennill arferol. Roedd y rhain yn cynnwys oedi o ran ymarferion adennill ar ddechrau'r flwyddyn, a oedd wedi deillio o broblem ynghylch costau llys (yn dilyn yr achos llys proffil uchel *Parch. Nicholson v Ynadon Tottenham ex parte Haringey LBC*).
 - % yr ardrethi annomestig yn ddyledus ar gyfer 2015/16 (CFH/007)**
 - Targed ar gyfer 2015/16 - 97.10%
 - % Gwirioneddol a Gasglwyd – 96.63% (0.44% yn llai o gymharu â ffigur 2014/15)
- ✓ Rydym wedi sicrhau bod y defnydd gorau posibl o Fuddion Cymunedol yn cael ei wneud yn yr holl gaffaeliadau, lle mae budd o'r fath yn bosibl. Rydym wedi cynnal Gweithdai 'Cyflwyniad i Fuddion Cymunedol' i 24 o gyflenwyr ac wedi cwblhau'r Dull Mesur Budd Cymunedol ar gyfer ein contractau bwyd (nwyddau sych, cig a bwyd rhewedig) gan ein cyflenwr, Castell Howell.

**Buddion cymunedol –
Sicrhau'r gwerth gorau ar
gyfer y bunt Gymreig**



Ar gyfer y £6.5 miliwn a wariwyd dros y cyfnod o 12 mis, am bob £1 a wariwyd yng Nghymru, cafodd £1.96 ei ail-fuddsoddi yn economi Cymru.

- ✓ Bu i Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, bennu ei gweledigaeth ar gyfer Caffael yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, drwy ail-lansio '*Datganiad Polisi Caffael Cymru*' ym mis Mehefin 2015. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran y 10 Egwyddor Datganiad Polisi drwy gymryd Camau Allweddol, ac rydym yn y broses o ddatblygu Strategaeth Gaffael newydd gyda chroestoriad o Aelodau'r Grŵp Craffu Polisi ac Adnoddau er mwyn helpu i ddatblygu'r strategaeth newydd.

Mae'r polisi'n nodi'r arferion caffael a'r camau penodol y mae angen i bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd.

Mae Polisi Caffael Cymru wedi cael ei ddatblygu i gefnogi gweithredu argymhellion adroddiad McClelland. Mae'n nodi 10 egwyddor a sut y cânt eu cyflawni

(Llywodraeth Cymru 12^{fed} Mehefin 2015)

- ✓ Mae Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) wedi helpu i gefnogi 14 prosiect ac adolygiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tîm wedi helpu i gefnogi mwy na 25 prosiect ers lansio Rhaglen TIC yn 2012.

Rydym bob amser wedi gwneud ein gorau i roi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, a thros y blynyddoedd diwethaf mae toriadau cyllidebol pellach gan y llywodraeth wedi peri inni nodi hwn yn un o Brif Flaenoriaethau Amcanion Gwella y Cyngor.

Cyflawnwyd £12.6 miliwn o arbedion yn 2015/16, ochr yn ochr â chyfeirio mwy o adnoddau at wasanaethau rheng flaen, er gwaethaf y pwysau ar gyllidebau'r Cyngor yn gyffredinol

Yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol, Mawrth 2016, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:-

'Er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae perfformiad yn parhau i wella ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor ac mae lefelau boddhad y cyhoedd â gwasanaethau'r Cyngor yn cynydduMae gwasanaethau rheng flaen wedi'u diogelu, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol a ffyrdd mwy effeithlon o weithio.'



Enghreifftiau o Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16

Rheoli Fflyd y Cyngor: Arbedion o £744,000

- Newidiadau i'r math o gerbydau a'u gwaith £322,000
- Caffael y Fflyd – arbedion o £210,000
- Gostyngiad yn y gwariant ar deithio staff – £212,000

Argraffu a Gohebiaeth Allanol: Arbedion o £401,400

- Nifer y peiriannau ffrancio wedi'u lleihau o 16 i 8 – £37,400
- Prosiect argraffu canolog gyda 272 o ddyfeisiau wedi'u gosod, gostyngiad net o 30% o ran dyfeisiau argraffu – £200,000
- Herio'r dulliau presennol o gyfathrebu a gostyngiad mewn postio dosbarth 1^{af} – £164,000

Arlywyo - Prydau Ysgol : Arbedion o £24,000

- Ffurfenni ar y we a newid mewn prosesau gwaith.

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2014/15	2015/16	Camau a Gymerwyd Hyd yn Hyn
Bod yn fwy effeithlon			
Arbedion Effeithlonrwydd Blynyddol	£11.9 miliwn	£12.6 miliwn	Arbedion effeithlonrwydd sy'n parhau
Rhesymoli adeiladau er mwyn lleihau costau a rhyddhau asedau i'w gwerthu er mwyn creu derbyniadau cyfalaf - i'w buddsoddi mewn adeiladau newydd neu rai sydd eisoes yn bodoli (2.1.2.12)	£6,706,838 Derbyniadau Cyfalaf	£1,268,589 Derbyniadau Cyfalaf	Gwrthodwyd
Mwyafu ein hincwm ein hunain			
% y Dreth Gyngor a gasglwyd(CFH/007)	97.06%	96.63%	Gwrthodwyd
Lleiafu'r Cynnydd yn y Dreth Gyngor			
Treth Cyngor Band D (Elfen y Cyngor yn unig, heb gynnwys praeseptau)	£1,076.22 (tâl am 15/16) cynnydd o 4.85%	£1,117.67 (tâl am 16/17) cynnydd o 3.85%	Mae % ein cynnydd yn uwch na'r cyfartaledd o 3.63%, er ei fod yn is na'r tâl cyfartalog o £1,127.40
Cynnal Perfformiad Gwasanaethau Rheng Flaen			
Perfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir gan holl Gyngorau Cymru	56%	59%	59% o'n mesurau wedi gwella, tra bod 24% wedi dirywio a 17% yn aros yr un fath

Arbedion Effeithlonrwydd a Gyflawnwyd

2011/12	£10.8 miliwn
2012/13	£9.1 miliwn
2013/14	£6.7 miliwn
2014/15	£11.9 miliwn
2015/16	£12.6 miliwn

Pam mae'r mesurau hyn yn bwysig

Mae'r mesurau hyn yn bwysig oherwydd eu bod yn mesur ein sefyllfa fel Awdurdod, yn enwedig ar yr adeg hon, pan fo holl awdurdodau Cymru wedi dioddef pwysau ariannol yn sgil y dirwasgiad. Rydym wedi casglu refereniw trwy waredu adeiladau a chasglu'r Dreth Gyngor, ac mae'n bwysig ein bod yn monitro'r mesurau hyn yn chwarterol, i weld a ydym yn cyrraedd y targed, ac os nad ydym, i weld a allwn ni ddarganfod pam.


Nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16 'Yn ôl dangosyddion cenedlaethol ar gyfer 2014-15 mae perfformiad mewn 60 y cant o DPau uwchlaw cyfartaledd Cymru o gymharu â 51 y cant y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd nifer y DPau a wellodd yn fwy na nifer y DPau na wellodd.'

Ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn

Ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau, mae'n hanfodol bod gennym gynlluniau cadarn ar gyfer darparu ein gwasanaethau o fewn yr adnoddau a ddyrennir inni, ac ein bod yn monitro gwariant a pherfformiad yn erbyn targedau drwy gydol y flwyddyn er mwyn gallu ymateb i unrhyw wasgfeydd neu ddiffyg perfformiad a rhoi mesurau priodol ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Yn ogystal â chyflawni'r cyllidebau presennol, mae angen i ni ddiweddarau ac adolygu ein rhagolygon ariannol yn barhaus, gan ystyried y tueddiadau datblygol o ran y galw economaidd a'r galw ar wasanaethau, fel y gallwn ddatblygu'r cynlluniau ariannol angenrheidiol i ateb y galwadau hyn.

Sut rydym yn cymharu ag eraill



(Ffynhonnell: Ffynhonnell: StatsWales.llyw.cymru)

Fel y gwelir o'r graff uchod - mae ein tâl cyfartalog a godir am Dreth Gyngor Band D yn is na chyfartaledd Cymru. Yn achos Sir Gaerfyrddin mae'n £1,117.67 a Chyfartaledd Cymru yw £1,127.40

Beth sydd wedi bod yn digwydd hyd yma

Ymgynghori ynghylch y Gyllideb:

Mae'r setliad gan Lywodraeth Cymru yn heriol inni o ran gwneud gostyngiadau sylweddol i'n costau. Mewn ymateb i hynny, rydym wedi clustnodi arbedion posibl a chynhaliwyd ymarfer ymgynghori i ennyn sylwadau ar lefelau cytundeb, effeithiau posibl, a ffyrdd y gellid lliniaru'r effeithiau cymaint â phosibl.

Defnyddiwyd nifer o ddulliau gwahanol i gasglu sylwadau ar gyllideb 2016-19 yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i 29 o gynigion (gyda chyfanswm gwerth o £24.2 miliwn) wrth lunio'i gyllideb ar gyfer 2016-19.

Cafodd cyfres o seminarau adrannol ar gyfer yr holl Gynghorwyr Sir eu cynnal ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus drwy arolygon ar-lein, sioeau teithiol am y gyllideb, a 'Chwestiwn yr Wythnos' drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafodd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb a ffyrdd o gyfrannu eu dosbarthu'n eang. Roedd sôn am y mater yn Newyddion Sir Gâr a chafodd sylw'n ddwyieithog yn wythnosol ym mhapurau newyddion y *Carmarthen Journal* a'r *Llanelli Star*.

Hefyd rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy grwpiau cydraddoldeb perthnasol gan gynnwys Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin a Chynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gweithredu. Anogwyd Cyngorau Cymuned i gyfrannu drwy gyflwyniad a thrafodaethau yng nghyfarfod y panel cyswllt a chysylltwyd â busnesau i gael eu sylwadau drwy bostio uniongyrchol.

O'r 29 o gynigion:

- cefnogwyd 23
- ni chefnogwyd 4
- gohiriwyd 1
- cyflwyno 1 fesul cam

Wrth wneud arbedion, rydym yn awyddus i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar wasanaethau.

Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC):

Lansiwyd y rhaglen '*Trawsnewid i Wneud Cynnydd*' i ymateb i'r llymaf o heriau ariannol, a hynny yn wyneb disgwyliadau cynyddol uwch y cyhoedd, y cynnydd yn y galw ar wasanaethau a 'gwella'r hyn a wnawn am lai o arian'. Diben y Tîm TIC yw ein helpu i '*wireddu dyfodol ariannol cynaliadwy drwy drawsnewid i wneud cynnydd*'. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlynol:



- | | |
|--------------------------------------|---|
| ❖ Rhoi'r flaenoriaeth i gwsmeriaid | ❖ Gwella ac ail-lunio gwasanaethau |
| ❖ Herio'r ffyrdd presennol o weithio | ❖ Lleihau gwastraff |
| ❖ Cyflawni arbedion effeithlonrwydd | ❖ Hwyluso ac ysgogi newid trefniadaeth |
| ❖ Rhannu dysgu a gwybodaeth | ❖ Chwilio am gyfleoedd i gydweithio a manteisio arnynt i'r eithaf |

Mae'r tîm TIC wedi helpu i gefnogi 15 o brosiectau ac adolygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf; roedd rhai ohonynt yn brosiectau newydd tra bo eraill yn brosiectau parhaus o flynyddoedd blaenorol. Mae nifer o brosiectau mawr, strategol wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen gan gynnwys gweithio symudol ac ystwyth, atgyweiriadau tai, newid sianeli, ac adolygu swyddogaethau cefn swyddfa. Mae'r tîm wedi helpu i gefnogi mwy na 25 prosiect ers lansio Rhaglen TIC gyntaf yn 2012.

Prosiectau TIC 2015:

- | | | |
|-----------------------------|--------------------------|--------------------------------|
| 1) Llinell Gofal | 6) Rheoli Fflyd y Cyngor | 11) Gweithio Ystwyth |
| 2) Argraffu a Gohebiaeth | 7) Trefniadau Gweithio | 12) Gorfodi |
| 3) Gwariant Trydydd Partion | Symudol | 13) Iechyd a Diogelwch |
| 4) Caffael | 8) Atgyweiriadau Tai | 14) Tanysgrifiadau |
| 5) Incwm a Chodi Tâl | 9) Cefn Swyddfa | 15) Gorchmynion Gwarcheidiaeth |
| | 10) Newid Sianeli | Arbennig |

Un o amcanion allweddol y Tîm TIC yw helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol fel rhan o'n hymateb i'r heriau ariannol yr ydym yn eu hwynebu yn y tymor byr, canolig a hir.

O ran y cymorth TIC a ddarparwyd i brosiectau gwasanaeth penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, un ffocws allweddol oedd helpu'r gwasanaethau hynny i gyflawni arbedion effeithlonrwydd sydd eisoes wedi eu nodi yn y rhaglen gyllideb 3 blynedd. Hefyd nod y Rhaglen TIC yw helpu i nodi a chyflawni arbedion newydd, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau corfforaethol neu drawsbynciol, gan y gallai hyn helpu i leihau'r lefel o arbedion sydd ei hangen mewn cyllidebau gwasanaethau rheng flaen yn y dyfodol.

Mae ymarfer i nodi'r manteision ariannol sydd wedi deillio o waith y Rhaglen TIC hyd yn hyn yn dangos bod y tîm wedi helpu i nodi, neu'n helpu i gyflawni, tua £6.4 miliwn o arbedion.

Mae nifer o brosiectau TIC hefyd yn dangos bod modd gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ar yr un pryd â gwneud y gwasanaethau hynny'n fwy effeithlon. Yn ei dro, mae hyn yn caniatáu i'r gwasanaethau gynnal neu hyd yn oed wella safonau'r gwasanaethau a ddarperir, ond parhau i ryddhau arbedion ariannol neu reoli effaith y galwadau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y gwasanaethau hynny.

Ffocws y rhaglen hefyd yw cynnal newid o ran ymddygiad a diwylliant trwy feddwl yn wahanol, gweithredu'n wahanol ac felly gyflawni'n wahanol (h.y. 'nid oherwydd ein bod ni wedi'i wneud fel hyn erioed'). Drwy ddarparu'n unol â'r egwyddorion hyn y canlyniad naturiol a bwriadol yw cael gwared â gwastraff a gwneud mwy gyda llai.

Y Llynedd

Cyflawnwyd 4 o'n 6 ymrwymiad KIOP y Llynedd

Ymrwymadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
Ein nod yw cynyddu % y Dreth Gyngor a gesglir o 97.06% i 97.10 <i>(CFH/007)</i>	✘ Cyflawnwyd Cyfradd Gasglu'r Dreth Gyngor o 96.63% yn ystod y flwyddyn, gyda chyfanswm o £79,943,360.81. Bu i gyfradd gasglu'r Dreth Gyngor ostwng ychydig, sef 0.47%, gan fod cyfres o faterion wedi cael effaith andwyol ar y tîm adennill yn 2015/16, gan effeithio ar yr amserlenni adennill arferol.
Byddwn yn parhau i resymoli adeiladau er mwyn lleihau costau a rhyddhau asedau i'w gwerthu er mwyn ariannu gwelliannau cyfalaf trwy gyflawni perfformiad o 100% yn erbyn y targed, er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf heblaw tai o £1,698,000 <i>(2.1.2.12)</i>	✘ Rydym wedi cynhyrchu £1,268,589 o dderbyniadau cyfalaf heblaw tai yn ystod 2015/16, sy'n cyfateb i 74.71% o'n targed. Mae'r diffyg yn bennaf o achos taliad mawr a gafwyd yn 2014/15, a arweiniodd at ragori'n sylweddol ar y targed ar gyfer y flwyddyn honno. Yn rhannol, taliad ymlaen llaw oedd hwn, sydd wedi cyfrannu at leihad mewn derbyniadau yn ystod 2015/16. Hefyd mae oedi wedi bod yn achos nifer o werthiannau, sydd wedi goferu i flwyddyn 2016/17.
Byddwn yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath, ac yn adrodd am y buddion yn achos pob contract sydd dros £1 filiwn <i>(11645)</i>	✓ Rydym wedi cynnal gweithdai 'Cyflwyniad i Fuddion Cymunedol' i gyflenwyr ac wedi cwblhau'r dull mesur Buddion Cymunedol ar gyfer ein contractau bwyd (nwyddau sych, cig a bwyd rhewedig). Hefyd rydym wedi cytuno ar dempled ffurflen safonol ar gyfer cofnodi Buddion Cymunedol pob prosiect adeiladu, gan weithio gyda Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRCF).

<p>Bydd y tîm TIC yn datblygu rhaglen waith gytbwys er mwyn sicrhau bod TIC yn gallu cynnal a hybu newid a gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir, ochr yn ochr â chydabod yr angen am ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau ariannol yn y tymor byr/tymor canolog. (11646)</p>	<p>Mae'r tîm TIC wedi helpu i gefnogi 15 o brosiectau ac adolygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf; roedd rhai ohonynt yn brosiectau newydd tra bo eraill yn brosiectau parhaus o flynyddoedd blaenorol. Mae nifer o brosiectau mawr, strategol wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen gan gynnwys gweithio symudol ac ystwyth, atgyweiriadau tai, newid sianeli, ac adolygu swyddogaethau cefn swyddfa. Mae'r tîm wedi helpu i gefnogi mwy na 25 prosiect ers lansio Rhaglen TIC gyntaf yn 2012, ac mae'r brosiectau hyn wedi helpu i nodi/a neu sicrhau dros £6 miliwn o arbedion effeithlonrwydd.</p>
<p>Bydd y tîm TIC yn datblygu rhaglenni Dysgu a Datblygu er mwyn sicrhau bod gan reolwyr a staff y sgiliau angenrheidiol i reoli a chynnal newid a thrawsnewid ar draws y sefydliad. (11647)</p>	<p>Fel rhan o gyflwyno'r agenda TIC/gwelliant parhaus ymhellach ar draws y sefydliad, roedd cydweithwyr yn y tîm Dysgu a Datblygu yn gallu trefnu bod y cwrs 'Gwelliant Parhaus – Ymarferydd', y mae meddwl mawr ohono, yn cael ei weithredu yma yn y Cyngor. Rhoddwyd y cyfle hwn i aelodau'r tîm TIC ehangach, ac i gydweithwyr mewn adrannau sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau TIC dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfanswm o 16 o aelodau o staff yn cymryd rhan yn y cwrs prawf hwn, a'n gobaiith wedyn yw ei gyflwyno ar draws y sefydliad.</p> <p>Fel rhan o'r cwrs, mae cyfranogwyr yn gallu datblygu ystod o sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â gwelliant parhaus, ac wedyn rhoddir cyfle iddynt ddefnyddio'r sgiliau hyn yn y gweithle drwy gwblhau prosiect penodol.</p>
<p>Byddwn yn parhau i weithredu Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor, trwy leihau nifer yr adeiladau a chost rheoli'r portffolio trwy leihau'r arwynebedd swyddfeydd ymhellach o 30,522 metr sgwâr i 29,431 metr sgwâr (ar gyfer 15/16) ac o 34,462 metr sgwâr yn gyffredinol. (10861)</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi gwacáu sawl eiddo gweinyddol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys rhifau 1, 2, a 40 Heol Spilman ynghyd â swyddfeydd yn Heol y Prior ac yn West End, Llanelli. Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Cyngor wedi adleoli staff o Rodfa'r Goron i Dŷ Elwyn yn Llanelli drwy wneud gwell defnydd o'r lle sydd ar gael. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ragori ar y targed o ran lleihau (29,431 metr sgwâr). Ar hyn o bryd mae'r arwynebedd swyddfeydd yn 28,927 metr sgwâr, sy'n leihad o oddeutu 16% o gymharu â'r gwaelodlin (34,462 metr sgwâr).</p>

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae Technoleg TG wedi cyrraedd ceginau ysgol

Mae'r rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) wedi bod yn ymchwilio i brosiectau i ddarparu gwelliannau i ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, gan wneud y gwasanaethau hynny'n fwy effeithlon ar yr un pryd. Un o'r brosiectau hyn oedd cyflwyno data prydau ysgol wythnosol o geginau ysgolion i'r Tîm Rheoli Arlwyo. Gwerthuswyd bod gan hynny fanteision clir o ran effeithlonrwydd, a chynigiwyd mabwysiadu dull gweithio ystwyth gan ddefnyddio llecynnau diwifr a osodwyd yn ddiweddar yn holl Ysgolion Sir Gaerfyrddin yn hytrach na ffurflenni papur.

Cafodd ffurflen we ei chreu yn lle'r ffurflen bapur, a oedd yn gwneud yr holl gyfrifiadau a gwiriadau cyn cyflwyno. Ym mis Mehefin 2015 darparwyd llechi i 2 ysgol roi cynnig arnynt hyd at ddiwedd y tymor. Gwnaed arbedion effeithlonrwydd yn syth gan fod ffurflenni'n dod i law yn brydlon. Hefyd roeddent yn gywir ac wedi'u cwblhau felly nid oedd angen bwrw golwg arnynt, ac aed i'r afael ag unrhyw fethiannau o ran dilysu yn llygad y ffynnon a gallai'r rheolwyr gael adroddiadau cryno.

Ychwanegwyd 6 chegin arall at y treial a chafodd cwrpas y prosiect ei ehangu i gynnwys: Taflenni amser, E-fancio, Anfonebau cyflenwyr cegin, Archebu bwyd, Llythyrau newyddion electronig i'r staff, Cyrsiâu e-ddysgu, a Thaliadau ar-lein i ysgolion.

Ym mis Chwefror 2016 archebwyd gliniaduron ar gyfer pob cegin mewn ysgol gynradd yn y sir. Mae cyflwyniadau electronig yn gwneud y broses yn hawdd ac yn gwbl gywir i staff y gegin, ac mae'r tîm canolog yn arbed cryn amser. Mae'r penderfyniad i fuddsoddi mewn gliniaduron ar gyfer pob cegin yn gwaredu cryn dipyn ar ymyrraeth â llaw drwy fewnbwn uniongyrchol a sicrwydd bod y system electronig yn gywir. Mae gwaredu prosesau cefn swyddfa ac ailbennu dyletswyddau wedi arwain at arbed £24,000 y flwyddyn ac at ddefnyddio'r adnoddau ar gyfer gwaith gwerth ychwanegol yn well.

Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Beth byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant
Ein nod yw cynyddu % y Dreth Gyngor a gesglir o 96.63% i 97.00 (CFH/007)
Byddwn yn parhau i resymoli adeiladau er mwyn lleihau costau a rhyddhau asedau i'w gwerthu er mwyn ariannu gwelliannau cyfalaf trwy gyflawni perfformiad o 100% yn erbyn y targed, er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf heblaw tai o £2,620,000 (2.1.2.12)
Byddwn yn gwella adroddiadau ariannol drwy: <ul style="list-style-type: none"> • datblygu cysylltiadau cliriach rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau, gan gynnwys llunio cyd-adroddiadau ar arian a pherfformiad i'r Aelodau. (11987) • monitro ac adrodd ar dargedau arbed unigol er mwyn sicrhau bod meysydd lle cyflawnir yn well neu'n waelach na'r disgwyl yn cael eu nodi'n glir, fel bo modd herio'n effeithiol, cymryd camau unioni, a rhannu arfer da. (11974) • Darparu gwybodaeth ddigonol am gronfeydd wrth gefn a thrywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau ynghylch y cronfeydd hynny. (11975) • Cysylltu â'r Aelodau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn cyd-fynd â'u hanghenion (11976) (Cynigion ar gyfer Cam Gwella)
Byddwn yn parhau i weithredu rhaglen waith gytbwys er mwyn sicrhau bod y rhaglen 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' (TIC) yn gallu cynnal a hybu newid a gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir, ochr yn ochr â chydabod yr angen am ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau ariannol yn y tymor byr/tymor canolig. (11977)
Byddwn yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath, ac yn adrodd am y buddion yn achos pob contract sydd dros £1 filiwn. (11978)

 Ffynonellau eraill o wybodaeth Crynhoad o'r Gyllideb [Crynhoad o'r Gyllideb](#) Datganiad o'r Cyfrifon [Datganiad o'r Cyfrifon](#)

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Ein nod yw casglu o leiaf 98.4% o'r ardrethi annomestig yn ystod 2016/17 (CFH/008)
2. Ein nod yw cryfhau'r trefniadau caffael trwy:
 - Adolygu'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau a chymryd camau unioni er mwyn atal hyn rhag digwydd eto. (P2.4.1)(11980)
 - Datblygu ymhellach e-dendr atebion meddalwedd Bravo Cymru ar gyfer cofrestri Contractau a Thendr. (P2.4.2)(11981)
 - Llunio a chadw rhestr o weithrediadau tendr sengl, ac adrodd yn rheolaidd aml wrth y Pwyllgor Archwilio. (P2.4.3)(11982)
 - Adolygu'r gwahaniaethau yn nefnydd y Cyngor o gontractau fframwaith er mwyn ysgogi proses fwy cyson i'r dyfodol. (P2.4.4) (11983)
3. Byddwn yn datblygu ymhellach dulliau o rannu dysgu ac arfer da â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC). (11984)
4. Byddwn yn datblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y cynllun ariannol tymor canolig (CATC) a chynlluniau gwella'r Cyngor, gan fanylu ar effaith cyfyngiadau ariannol ar ganlyniadau i ddinasyddion. (P2.1)(11985)
5. Byddwn yn datblygu a defnyddio meincnodau a Dangosyddion Gwerth am Arian wrth bennu cyllidebau, er mwyn creu sail well wrth wneud penderfyniadau, a chreu cyfleoedd pellach i drafod a herio costau presennol, gan ganfod arbedion effeithlonrwydd pellach o bosib. (P2.2)(11986)

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Mae gwella'r rheolaeth ar eiddo yn faes allweddol i'r Awdurdod, ac rydym wedi canolbwyntio ar reoli a gwneud y defnydd gorau o eiddo ac asedau'r Cyngor, gan roi pwyslais ar resymoli swyddfeydd a rhannu â phartneriaid eraill, yn ogystal â hwyluso perchenogaeth y gymuned ar asedau sydd er budd y gymuned.

Mae ein Gweithdrefnau Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu Canllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol Llywodraeth Cymru, ac roedd ein swyddogion yn rhan o Weithgor Llywodraeth Cymru ar Drosglwyddo Asedau.

Dyweddodd yr Archwilydd penodedig:

“bod angen gwella dull y Cyngor o brisio asedau”

“Mae gallu'r Cyngor i reoli ei sail asedau yn effeithiol yn cael ei lesteirio ar hyn o bryd gan nifer o ffactorau”

(Swyddfa Archwilio Cymru, Cynllun Gwella Blynnyddol Mawrth 2016)



Ni oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yn y DU i fapio ei holl asedau drwy'r system ePIMS genedlaethol ac rydym wedi bod yn gweithio gyda holl gyrff eraill y sector cyhoeddus i ddefnyddio'r system i hybu rhannu data a nodi cyfleoedd cydweithredol. Cafodd y prosiect ei ddewis fel un o'r 9 Prosiect Partneriaeth gan Weithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Leol. Mae'r prosiect yn edrych ar yr holl eiddo yr ydym ni a phartneriaid eraill yn berchen arnynt ac yn edrych ar y potensial i werthu tir diangen, cyd-leoli staff a gwasanaethau, a hefyd i drosglwyddo eiddo/tir i elusennau/grwpiau cymunedol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ehangu a'i fabwysiadu fel ffrwd gwaith effeithlonrwydd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin, a bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn cymryd camau o ran y gwaith hwn yn 2016/17.

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd mae'r lefelau gosod eiddo manwerthu, diwydiannol ac amaethyddol yn dal i fod yn dda, ac mae'r incwm gros yn dal i fod yn fwy na £3 miliwn y flwyddyn. Mae diddordeb cynyddol wedi bod mewn marchnata stondinau a siopau gwag ym marchnadoedd Caerfyrddin a Llanelli, gyda chynigion cystadleuol am stondinau a siopau gwag. Mae'r ddwy farchnad dan do bron yn llawn am y tro cyntaf ers blynnyddoedd lawer.



Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Rydym wedi parhau i weithredu Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor, trwy leihau nifer yr adeiladau a chost rheoli'r portffolio trwy leihau'r arwynebedd swyddfeydd ymhellach o 34,462 metr sgwâr yn 2012/13 i 28,927 metr sgwâr yn 2015/16. Mae hyn yn ostyngiad o tua 16% dros y 4 blynedd diwethaf.
- ✓ Mae meddiannaeth y 400 o unedau diwydiannol sydd gan y Cyngor yn dal i fod yn uchel (tua 96%) ac yn gyfrifol am tua 2,000 o swyddi. Mae trosiant cynyddol o ran tenantiaid, yn enwedig mewn unedau llai o faint, lle mae trosiant y tenantiaid wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf.
- ✓ Rydym wedi cychwyn ar y gwelliannau mecanyddol a thrydanol ym Marchnad Llanelli a'r dyddiad cwblhau yw Mehefin 2016.

- ! Mae'r ôl-ddyledion rhent ar draws y portffolios yn dal i fod yn broblem gan fod nifer bychan o fusnesau yn ei chael hi'n anodd iawn i gyflawni eu hymrwymiaadau ariannol. Fodd bynnag mae lefel y ddyled yn dal i fod o fewn y lefelau targed.
- ✓ Ar ôl llwyddo i gwblhau'r arolygon Ysgolion Cynradd yn 2014-15 at ddibenion Addysg, cafodd yr ymarferiad ei helaethu i gynnwys Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig, lle bu i'r Tîm Cofnodion Eiddo gydgyssylltu arolygon safle a chynhyrchu cynlluniau llawr wedi'u diweddarau i wella rhagor ar y cofnodion ar gyfer swyddogaethau rheoli asedau.
- * Mae'r farchnad eiddo yn dal i fod yn wan mewn rhai ardaloedd, ac, o ganlyniad, mae'n gallu cymryd mwy o amser i werthiannau gael eu cwblhau, wrth i brynwyr geisio bwrw dyddiadau cwblhau ymlaen er mwyn gohirio gwariant cyfalaf. Cafodd derbyniadau o **£1.269 miliwn** eu creu yn sgil gwerthu eiddo diangen; mae sicrhau derbyniadau cyfalaf yn dal i fod yn her yn yr hinsawdd bresennol.

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae'r gwaith ar fuddsoddi bron **£1 filiwn** ym Marchnad Llanelli a'i Rhodfeydd wedi dechrau, ac mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r larwm tân, y system awyru a'r prif gyflenwad trydan, a'r rhwydwaith di-wifr cyhoeddus yn Neuadd y Farchnad a Rhodfeydd Stepney/y Farchnad/Cowell. Mae'r Farchnad a'r Rhodfeydd yn dal i fod ar agor ac mae busnes yn parhau fel arfer gan fod y gwelliannau'n cael eu gwneud y tu allan i oriau gan y contractwyr lleol, Lloyd a Gravell.



Cyngor Sir Caerfyrddin yw perchennog a rheolwr Marchnad Llanelli a'r rhodfeydd cyfagos. Dywedodd y Cynghorydd David Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau: *“Gall siopwyr fod yn dawel eu meddwl fod y farchnad ar agor a bod busnesau'n masnachu yn ôl yr arfer yn ystod y cyfnod hwn. “Wrth reswm, bydd rhywfaint o darfu ar siopwyr a masnachwyr, ond bydd cyn lleied ohono â phosibl gan fod contractwyr yn cyflawni'r gwaith y tu allan i oriau agor.”*

Bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau dyfodol tymor hir y farchnad, sy'n darparu amgylchedd adwerthu mawr o fewn y dref. Hefyd bydd yn diogelu tua 73 o fusnesau unigol a 210 o swyddi.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn atgyfnerthu'r cynlluniau rheoli asedau ar lefel gwasanaeth a gwella'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau hyn a'r cynllun rheoli asedau corfforaethol troswaol. Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru P4.1 (11988)
2. Byddwn yn rhoi adroddiadau i'r Aelodau bob chwarter ar gynnydd yn erbyn y cynllun rheoli asedau corfforaethol a'r strategaeth swyddfeydd. Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru P4.1 (11979)
3. Byddwn yn parhau i ddatblygu ymagwedd strategol at Reoli Asedau ledled y sefydliad drwy:
 - Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer 2016-2019. (11989)
 - Parhau i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau'r Trydydd Sector ar drosglwyddo asedau er mwyn hwyluso perchenogaeth leol ar asedau. (11990)
4. Byddwn yn parhau i weithio tuag at rannu adeiladau â sefydliadau partner lle bo'n bosibl er mwyn gwneud arbedion ac ymagwedd amlasiantaeth at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. (11991)
5. Byddwn yn dal i wella'r modd y rheolir portffolios eiddo y Cyngor drwy barhau i weithredu Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor a'r egwyddorion Gweithio Ystywyth, sy'n ceisio lleihau nifer yr adeiladau a chynyddu effeithlonrwydd y portffolio (11992)

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei **Adroddiad Asesu Corfforaethol**:

'diffyg cysylltiad honedig rhwng y gwasanaeth busnes a'r gwasanaeth TGCh ac yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion busnes'
(Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Asesu Corfforaethol, Ionawr 2016)

A

'nad yw seilwaith TGCh wedi gallu cefnogi Gweithio Ystwyth mewn modd effeithiol'
(Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Asesu Corfforaethol, Ionawr 2016)

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y gwasanaeth TGCh, cafodd Pennaeth TGCh newydd ei recriwtio ym mis Medi 2015 fel cytundeb ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro.

Rydym wedi gweithredu Gwasanaeth Rheoli Argraffu Corfforaethol a fydd yn helpu i arbed costau, lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth sensitif drwy esgeulustod, a rheoli faint sy'n cael ei argraffu.

Bydd Gwasanaeth Rheoli Argraffu yn:

- Diogelu argraffu ar bob dyfais
- Lleihau datgelu gwybodaeth sensitif drwy esgeulustod
- Argraffu dilyn fi
- Lleihau costau
- Lleihau allyriadau carbon deuocsid
- Lleihau nifer yr argraffwyr



Rydym wedi cefnogi datblygiad Newid Sianeli a Hunanwasanaeth er mwyn darparu gwasanaethau ar-lein a chynyddu nifer y taliadau a wneir ar-lein. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o wasanaethau trafodaethol wedi cael eu datblygu sydd ar gael i'r cyhoedd drwy'r wefan gorfforaethol a gwefannau Lleol-i fel rhan o'r ymgyrch *'Ar-lein Amdani'*. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Casgliadau Gwastraff Swmpus (apwyntiadau a thaliadau ar-lein)
- Talu Dirwyon Parcio (taliadau ar-lein)
- Adnewyddu Cyflym ar gyfer Hawlenni Parcio i Breswylwyr (taliadau ar-lein)
- Archebu Eitemau Ailgylchu

Fe
Ddwedsoch
Chi

Fe
Wnaethom NI

Y byddech yn hoffi gallu gwneud taliadau â charden yn yr Hwb, Llanelli

Bydd ciosgau taliadau hunanwasanaeth yn cael eu gosod yn yr Hwb yn ystod 2016/17, gan alluogi cwsmeriaid i wneud taliadau â charden (ac arian parod).

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Caiff prif gyfarfodydd y Cyngor eu gweddarlleddu, yn cynnwys cyfarfod y Cyngor Llawn a'r Bwrdd Gweithredol.
- ✓ Rydym wedi parhau i wella'r gwasanaeth a gyflwynir i ysgolion trwy:
 - Gweithredu system hidlo'r we briodol yn yr holl ysgolion
 - Sicrhau bod gan bob ysgol yn Sir Gaerfyrddin rwydweithiau di-wifr wedi eu gosod bellach
 - Sicrhau bod rhwydweithiau di-wifr amldeffnyddwyr ar gael yn yr holl ysgolion
 - Dechrau ar waith i sicrhau bod pob disgybl ysgol yn cael profiad dysgu digidol cyson. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio llwyfan dysgu HWB a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- ! Mae Prosiect Newid Sianeli/Gweithio Ystwyth/Symudol wedi cael ei sefydlu ac mae 6 blaenoriaeth i'w targedu wedi cael eu sefydlu gan gynnwys:
 - Datblygu 'Fy Nghyfrif'
 - Mwyhau'r defnydd o e-ffurflenni ac awtomateiddio Prosesau Busnes
 - Mwyhau'r defnydd o negeseuon testun
 - Trafod galwadau'n awtomataidd (e.e.) galwadau'r switsfwrdd neu daliadau ffôn awtomatig
 - Cysylltiadau y gellir eu hosgoi. Lleihau cysylltiadau gwastraff
 - Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo (allanol a mewnol)

Mae'r gwaith wedi dechrau eisoes ar rai o'r 6 blaenoriaeth, a bydd gwaith pellach yn mynd rhagddo yn rhaglen waith 2016/17.

- ✓ Mae gennym 165 o bwyntiau mynediad di-wifr yn y prif adeiladau ac ystafelloedd cyfarfodydd ledled y sir, sy'n cyfrannu at yr agenda gweithio ystwyth/gweithio symudol.
- ✓ Bellach mae 'Skype for Business' yn cael ei gyflwyno ac mae wedi cael ei roi ar brawf gyda thros 400 o swyddogion. Ar hyn o bryd mae ar gael i dros 1000 o'r staff, a'r bwriad yw y bydd ar gael i bawb erbyn dechrau 2016/17. Gellir defnyddio hyn ar gyfer negeseua gwib, galwadau llais a fideo-gynadledda. Bydd hyn yn lleihau'r gofyniad i deithio i gyfarfodydd ac ati, a hefyd gellir ei ddefnyddio gyda sefydliadau eraill. Mae Sir Gaerfyrddin wedi ffedereiddio eisoes gyda Chynghorau Sir Benfro, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, a Phowys.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar:

- Sicrhau bod y Gwasanaethau TGCh yn gweithredu fel galluogwr a chyfrwng i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau ar draws yr Awdurdod i ddinasyddion.
- Gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill i nodi meysydd ar gyfer gwasanaethau ar rennir, ac arbedion maint i leihau costau cynnal. Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ynghylch a yw Gwasanaethau TGCh Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn mynd i gael eu cyfuno'n un gwasanaeth a rennir.
- 'Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd' drwy ddatblygu ymhellach ymagweddau at ymgysylltu a chyfathrebu â'n preswylwyr a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys mwy o ddefnydd o dechnolegau digidol.
- Lansio'r system *Modern.gov* ar y cyd â'r Gwasanaethau Democrataidd i hwyluso cyfarfodydd di-bapur a gwella tryloywder drwy well mynediad cyhoeddus i agendâu, cofnodion ac adroddiadau cyfarfodydd.
- Dylunio, gweithredu, a defnyddio atebion Rheoli Dyfeisiau Symudol, Llechi, a Ffonau Clyfar er mwyn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad i wasanaethau allweddol ar-lein a galluogi staff i gysoni rhaglenni gwaith bwrdd gwaith â dyfeisiau symudol, gan hwyluso gwell trefniadau gweithio symudol/gweithio ystwyth.

- Gwella cynhwysiant digidol yn y sir drwy sicrhau mynediad i offer TG, datblygu llythrennedd digidol, a chefnogi cysylltedd ar gyfer Cymunedau.
- Gwella'r rhwydwaith cyfathrebu i gefnogi cysylltedd a datblygu economaidd pellach

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Llyfrgell o'r Radd Flaenaf i Rydaman

Bydd Llyfrgell Rhydaman yn cael gwedd newydd a gwasanaethau ychwanegol. Mae llu o welliannau ar y gweill megis peiriannau hunanwasanaeth RFID (Adnabod Amledd Radio) a bydd nifer fawr o lyfrau newydd ar gael yn ogystal â DVDs a chryno ddisgiau newydd. Yn ogystal bydd modd i bobl ddefnyddio stondin newyddion ar-lein fwyaf y byd, sef Zinio, lle gallwch bori casgliad o deitlau poblogaidd heb orfod cadw llyfrau, dim cyfnod benthyca, a dim terfyn ar nifer y cylchgronau y gallwch eu lawrlwytho.



Hefyd bydd llyfrgell fenthyca newydd i oedolion, cyfleusterau TG ac oriel addas ar gyfer arddangosfeydd a chynadleddau, ynghyd â pharth i bobl ifanc, llyfrgell i'r plant ac ystafelloedd cyfarfodydd. Bydd y gwaith ailwampio yn gwella'r llyfrgell er mwyn creu canolbwynt dysgu, cymunedol a diwylliannol ar gyfer y dref a'r ardal gyfagos.

Dywedodd Jane Davies, Uwch-reolwr Gwasanaethau Diwylliannol y Cyngor: *“Mae hwn yn brosiect cyffrous iawn ac rydym ni wrth ein boddau ein bod yn gallu cynnig i'n cwsmeriaid wasanaeth o'r radd flaenaf y maen nhw'n ei haeddu.”*

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn sicrhau bod y Ffrydiau Gwaith TGCh yn datrys y diffyg cysylltiad honedig rhwng y gwasanaeth busnes a'r gwasanaeth TGCh.
 - Sefydlu grŵp llywio TGCh ac arno gynrychiolwyr o'r holl adrannau gwasanaeth (11993)
 - Cynhyrchu Cyd-strategaeth Ddigidol sy'n canolbwyntio ar fusnes ledled Cyngorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro Cynigion ar gyfer Cam Gwella (11994)
2. Byddwn yn gwella cyfleoedd i gwsmeriaid gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor drwy dechnolegau digidol
 - Cwblhau datblygu 'Fy Nghyfrif' (11995)
 - Hyrwyddo'r defnydd o e-ffurflenni i wasanaethau (11996)
3. Byddwn yn sicrhau bod technolegau a systemau yn gadarn ac yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion busnesau a chwsmeriaid.
 - Parhau i gyflwyno Office 2013 a Skype for Business ym mhob rhan o CSC (11997)
 - Symud ysgolion i lwyfan dysgu newydd HWB ar-lein (11998)
4. Symleiddio a rhesymoli prosesau, gweithdrefnau, a thechnoleg i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl.
 - Cadarnhau technolegau yn yr amgylchedd Canolfan Ddata. (11999)
 - Gwella mynediad i ddewisiadau hunanwasanaeth ar-lein (12000)

Canlyniad B: Adeiladu Gwell Cyngor...

Mae'r Cyngor bob amser wedi gweithio tuag at adeiladu gwell Sir Gaerfyrddin ac mae wedi bod yn llywyddiannus yn y gorffennol o ran cyflawni hynny. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn newid, ac fel Cyngor mae angen i ni ymateb ac addasu i'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi anghenion ein trigolion yn y dyfodol.



Nodau:

- B1 – Bod yn agored, ymddiriedaeth, gonestrwydd, uniondeb
- B2 - Rhoi cwsmeriaid yn gyntaf
- B3 – Gwrando a chyflawni ein haddewidion
- B4 - Gweithio mewn partneriaeth
- B5 - Gosod gwerth ar ein staff
- B6 – Sicrhau cyfle cyfartal
- B7 – Gwella ein gwasanaethau

Ein Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella (KIOP) yw:

Byddwn yn adolygu'r trefniadau o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored, a thryloywder

Cipolwg ar gynnydd:


Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd	✓
Y staff yn fwy bodlon	✓
Gostyngiad yn lefelau absenoldeb salwch y staff	✗

Gwerthoedd Craidd

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau llywodraeth leol fwy effeithlon, moesegol, tryloyw ac atebol, sy'n cefnogi ac yn gwella cyfranogiad y cyhoedd a democratiaeth.

Rydym bob amser wedi gweithio tuag at adeiladu gwell Sir Gaerfyrddin ac rydym wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol o ran cyflawni hynny. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn newid, ac fel Cyngor mae angen i ni ymateb ac addasu i'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi anghenion ein trigolion yn y dyfodol.

Wrth greu gwell Sir Gaerfyrddin mae'n bwysig bod ein camau gweithredu wedi'u seilio ar werthoedd ac egwyddorion craidd sy'n tywys ein symbyliad a'n menter:-



Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2015, dywedodd **42%** o ddinasyddion Sir Gaerfyrddin *fod y cyngor yn dda am roi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio* – (39% yn anghytuno). Hwn oedd y canlyniad **7^{fed}** gorau yng Nghymru (51% oedd y canlyniad gorau) ac roedd ein canlyniad un safle'n uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Un o'n Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella yn 2015/16 oedd adolygu llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored, a thryloywder.

Mae'r Cyngor yn gwella tryloywder ei drefniadau llywodraethu

Yn nhymor yr hydref 2015, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru [Asesiad Corfforol](#) o'r Cyngor. Roedd hwn yn rhan o gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar gyfer holl Gynghorau Cymru. Daeth i'r casgliad canlynol:-

'Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw. Serch hynny, ceir cyfleoedd am welliannau pellach er mwyn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol.'

- Roeddem wedi comisiynu adolygiad cymheiriaid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o faterion llywodraethu yn 2014. Cafodd yr adroddiad a luniwyd ei archwilio'n fanwl gan yr aelodau a chafodd ei 39 o argymhellion eu hystyried gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad o aelodau.
- Rhoddodd y Cyngor Sir ystyriaeth i adroddiad Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 17eg Mehefin 2015, a chafodd yr argymhellion a dderbyniwyd ganddynt eu cynnwys yn y Cyfansoddiad a'u cymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 9fed Medi 2015.
- Mae'r Cyfansoddiad diwygiedig ar-lein bellach. Mae'r Cyfansoddiad yn ddogfen fyw. Mae Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn dal i fodoli a bydd yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw addasiadau eraill y mae angen eu gwneud i'r Cyfansoddiad o bosibl.

Bu i Swyddfa Archwilio Cymru gydnabod y newidiadau canlynol yn benodol:-

- 1) Gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Cynllunio.
- 2) Cyflwyno eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd a chynghorwyr; ac
- 3) Adolygu ei weithdrefn galw i mewn er mwyn galluogi unrhyw dri Aelod o'r Cyngor i alw penderfyniad y Weithrediaeth i mewn.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Yn ystod y flwyddyn mae rhai o agendâu busnes y Cyngor wedi'u rhyddhau fel bod y Cynghorwyr yn cael gweld mwy o gyflwyniadau a thrafodaethau ar wahanol bynciau, ac yn eu plith yr oedd:-

9 ^{fed} Mehefin 2015	Cyflwyniad – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
9 ^{fed} Medi 2015	Cyflwyniad – Band Eang Cyflym Iawn BT
10 ^{fed} Chwefror 2016	Prosiect GlawLif Dŵr Cymru

Gwelliant Pellach

Mae cyfleoedd i wneud gwelliant pellach er mwyn galluogi aelodau i fod yn fwy effeithiol yn eu rolau fel y nodwyd yn Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, bydd yn dal i fod yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella yn 2016/17, ond bydd rhagor o bwyslais ar ei adolygu'n rheolaidd gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.

CYNLLUN GWEITHREDU PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP) 2016/17

Byddwn yn parhau i wella'r trefniadau llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored a thryloywder, ac yn sicrhau bod Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn eu hadolygu'n rheolaidd

Beth byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant	Targed 2016/17
Byddwn yn sicrhau bod gan yr holl Bwyllgorau Flaenraglen Waith sydd wedi'i diweddarau a'u bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. (12001) <i>Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P1.1</i>	Mawrth '17
Cyhoeddi cofrestr benderfyniadau sydd wedi'u dirprwyo (12002) <i>Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P1.2</i>	Mawrth '17
Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau perthnasol ar waith ar gyfer Datblygu'r Aelodau, a fydd yn clustnodi'r anghenion dysgu er mwyn helpu â swyddogaeth y Cynghorydd. (12003) <i>Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P1.3</i>	Mawrth '17
Byddwn yn adolygu maes gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'n unol â'r disgwyliadau ar ei gyfer. (12004) <i>Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P1.4</i>	Mawrth '17
Byddwn yn cynnal arolwg sampl o'r aelodau i weld a oes gwelliant wedi bod o ran y wybodaeth maent yn ei chael am waith neu ddatblygiadau sy'n digwydd yn eu wardiau. (Yn benodol, o ganlyniad i'r adborth gafodd yr aelodau mewn gweithdai KIOP).(12005)	Mawrth '17
Byddwn yn cynhyrchu canllaw syml i'r Cyfansoddiad ar gyfer yr aelodau a'r cyhoedd (12006)	Mawrth '17
Byddwn yn parhau i adolygu unrhyw gyfle i wella'r modd y mae'r Cyngor yn agored ac yn dryloyw drwy Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad ac yn gweithredu unrhyw argymhellion a wneir gan y grŵp a fydd yn parhau i gwrdd yn flynyddol (12007)	Mawrth '17
Byddwn yn cynnwys yn y Cyfansoddiad unrhyw ddarpariaethau newydd sydd yn Neddf Llywodraeth Leol Cymru drwy Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad (12008)	Mawrth '17
Byddwn yn sicrhau bod holl ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hadlewyrchu ym mhroses y Cyngor(12009)	Mawrth '17

- ✓ Rydym yn parhau i weithio gydag Aelodau Etholedig i hwyluso a chefnogi llunio Adroddiadau Blynyddol. Mae'n debygol y bydd deddfwriaeth sydd ar fin dod i rym yn ei gwneud yn orfodol i Aelodau Etholedig Iunio Adroddiadau Blynyddol.
- ✓ Hefyd mae'r rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd wedi cael ei hasesu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr asesiad yn nodi:

"Mae gan y Rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid (TIC) fodel llywodraethu cadarn, amcanion clir ac mae'n cyfrannu at well canlyniadau ac arbedion ariannol....." ac "Mae'r rhaglen TIC yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion, gwasanaethau mwy effeithlon ac arbedion ariannol....."


Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu'n llawn at ddatblygu'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) newydd (12010)
2. Byddwn yn sefydlu cofrestr Risg Asedau Gwybodaeth gadarn ar gyfer y Cyngor er mwyn sicrhau diwylliant cryf o ran llywodraethu gwybodaeth ar draws y Cyngor (12011)
3. Byddwn yn parhau i geisio ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) oddi mewn i'r terfyn amser Statudol - fodd bynnag, byddwn yn parhau i bwysleisio atebion da a digonol(2.1.1.17)

Mae'r toriadau heriol i gyllidebau ac argaeledd technoleg newydd wedi ysgogi newidiadau i'r ffordd rydym yn ymdrin â chwsmeriaid, ac rydym wedi wynebu pwysau i arloesi, cydweithio ac arbed. Mae'r cyflawniadau canlynol drwy gydol y flwyddyn wedi canolbwyntio ar ddarparu gwell gwasanaeth am gost well.

- ✓ Gyda'r Aelodau Etholedig rydym yn archwilio'r cyfleoedd i wella cyfleuster i gwsmeriaid o ran darparu gwasanaeth mewn Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid. Cafodd dau weithdy i'r Aelodau Etholedig eu cynnal yn ystod y flwyddyn (24 Mawrth a 6 Hydref 2015) er mwyn trafod dewisiadau'r dyfodol o ran newidiadau. Ar y cyfan roedd yr Aelodau Etholedig yn derbyn y dylid defnyddio technoleg fodern lle gall hynny wella'r gwasanaeth a ddarperir (h.y. yn aml mae'n gynt ac mae modd ei defnyddio 24x7), ond roedd yn rhaid i anghenion cwsmeriaid hŷn ac agored i niwed gael eu diwallu'n llawn.
- ✓ Gan weithio ar y cyd â rhannau eraill o'r sefydliad, mae'r Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi llwyddo i leihau'n raddol nifer y cysylltiadau a geir gan gwsmeriaid. Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymdrin â chysylltiadau â chwsmeriaid â llai o staff yn y dyfodol. Ar draws y Ganolfan Gyswllt a'r Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid, mae gostyngiad graddol o oddeutu 5% y flwyddyn wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.

- ✓ Dengys canlyniadau'r ganolfan gyswllt ar gyfer 2015/16 fod gostyngiad o ychydig o dan 4% wedi bod yn nifer y galwadau ffôn, a gostyngiad o oddeutu 11% yn nifer y cysylltiadau wyneb yn wyneb



- ✓ Llwyddom i symud Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Llanelli i leoliad agosach at ganol y dref, i'r un man â gwasanaeth Un Sir Gâr. Gwnaed hyn am gyfnod prawf i gychwyn, ond yn dilyn ymgynghori â chwsmeriaid a ddaeth i'r ganolfan yn ystod mis Awst 2015, dywedodd dau o bob tri ei bod yn well ganddynt y lleoliad newydd. Felly penderfynom aros yno'n barhaol. Bellach rydym yn mynd i'r afael â phryderon y traean arall yr oedd yn well ganddynt y lleoliad blaenorol.
- ✓ Rydym yn parhau i annog cwsmeriaid i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor ar-lein. Ers lansio ein gwefan **arleinamdani** Lleol-i ym mis Ebrill 2015 mae:-
 - 882,669 o ymweliadau wedi bod â gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae 2,576,474 o dudalennau wedi eu hagar
 - 165,730 o ymweliadau wedi bod â Lleol-i ac mae 383,458 o dudalennau wedi eu hagar. 130,858 o ymweliadau â Fy Nghartref gyda phobl yn gweld pryd mae eu biniau'n cael eu casglu - ymweliadau ar eu huchaf dros Wyl y Banc
 - 1,339 wedi dewis cael rhybuddion sy'n rhoi gwybod i ddinasyddion am unrhyw newidiadau i wasanaethau'r Cyngor

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn sicrhau bod cyflymdra ateb galwadau i'r Ganolfan Gyswllt ar gyfartaledd (mewn eiliadau) o dan 25 eiliad (2.2.2.20)
2. Byddwn yn hwyluso ac yn hybu newid sianeli er mwyn galluogi cwsmeriaid i reoli'r modd y maent yn rhyngweithio â'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys datblygu 'Fy Nghyfrif' ar wefan y Cyngor er mwyn annog yn benodol ragor o bobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, yn cynnwys cynyddu'r defnydd o negeseuon testun i gwsmeriaid i anfon negeseuon rhybuddio, cadarnhau, ac atgoffa ar gyfer yr holl apwyntiadau, a thrafod galwadau'n awtomataidd ar gyfer ymholiadau symlach. (12012)
3. Byddwn yn hyrwyddo'r Cynllun Adfywio 15 mlynedd mewn partneriaeth â'r cyfryngau lleol, a thrwy'r we a'r cyfryngau cymdeithasol. (12013)
4. Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth bellach o'r ymgyrch 'Ar-lein Amdani' er mwyn annog rhagor o bobl i rhyngweithio drwy'r wefan. (12014)

B3 – Gwrando a chyflawni ein haddewidion

Yn yr [Asesiad Corfforaethol](#) o'r Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, ymhlith canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru oedd:-

'Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r cyd-destun lleol y mae'n gweithredu ynddo, sy'n seiliedig ar Gyd-asesiad Anghenion Strategol a hanes da o ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau a rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys y Panel Dinasyddion, arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid lleol a chenedlaethol, arolygon Fforymau Dros Hanner Cant, ymgysylltu â thenantiaid a sioeau teithiol i ymgynghori ar y gyllideb.' Asesiad Corfforaethol para 13

'Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n helaeth ar gynigion ar gyfer arbedion cyllidebol, a gwnaed tybiaethau cynllunio cynhwysfawr a rhesymol wrth bennu'r diffyg yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2015-16. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth o senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd i fodelu amcanestyniadau ar gyfer diffygion cyllidebol y cyfnod 2016-17 hyd 2018-19.'

Asesiad Corfforaethol para 36

Cynnydd mewn cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn:-

Trwy ein gwefan mae nifer o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori sylweddol wedi'u cynnal yn ystod 2015-16, ac mae canlyniadau'r rheiny yn helpu i lywio ein gwaith:-

- **Astudiaeth tloidi gwledig** – roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys dadansoddi data o fwy na 1,000 o ymatebion i'r arolwg a digwyddiad ymgysylltu. Anfonwyd yr arolwg at y 39 o Wardiau nodwyd fel ardaloedd gwledig yn y Cynllun Datblygu Gwledig. Daethpwyd â'r wybodaeth ymchwil, ymgynghori ac ymgysylltu at ei gilydd mewn adroddiad sydd wedi'i ddefnyddio gan y Grŵp Cefn Gwlad i benderfynu ar flaenoriaethau cyllido ar gyfer ei raglen yn y Sir Gaerfyrddin wledig.
- Defnyddiwyd ymagwedd ar y cyd ar lefel ranbarthol Dyfed-Powys ar gyfer y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**, yr oedd 10 sefydliad sector cyhoeddus arall yn ymwneud ag ef gan gynnwys cynghorau perthnasol, byrddau iechyd, Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru, yr heddlu, y gwasanaeth tân, Parc Cenedlaethol Sir Benfro, a cholegau addysg bellach. Cafwyd 774 o ymatebion i'r arolwg a chynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ym mhob un o bedair ardal y Cyngor. Sicrhodd y gweithgareddau ymgysylltu fod y cyhoedd wedi cael mewnbyn sylweddol i'r ddogfen strategol allweddol.
- Roedd yr ymgynghoriad ynghylch **cyllideb y Cyngor** yn cynnwys arolwg, digwyddiadau sioe deithiol, a defnyddio 'cwestiwn yr wythnos' drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mabwysiadwyd ymagwedd arloesol at ymgysylltu ag ieuenctid drwy gynnal sesiwn 'Cipolwg' i ddisgyblion chweched dosbarth o ysgolion Sir Gaerfyrddin. Roedd strwythur i'r sesiwn fel y gallai disgyblion ffurfio 'byrddau gweithredol', a gafodd y dasg o benderfynu pa gynigion arbed i'w cefnogi.
- Ymhlith yr enghreifftiau eraill o waith ymgysylltu pellach a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd: Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan i dwristiaid (649 o ymatebion); ac arolwg hamdden 'cael mwy o bobl i fod yn fwy egniol yn amlach' (500 o ymatebion).
- Roedd ein **hymrwymiad i Dai Fforddiadwy** a'r cynllun darparu cysylltiedig, a ddatblygwyd ar sail yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys digwyddiadau ac arolwg y cafwyd 780 o ymatebion iddo. Arweiniodd yr ymgysylltu hwn yn uniongyrchol at lunio pum blaenoriaeth arweiniol a gynhwyswyd yn un o'n Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ar gyfer 16/17 (gweler Adran C5)

Fe
Ddwedsoch
Chi

Fe Wnaethom Ni

Y gallai staff y Ganolfan Gyswilt a'r Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid, er eu bod yn barod iawn i helpu, wella'r sail wybodaeth eang oedd ganddynt ynghyd â'u harbenigedd mewn rhai meysydd.

Mae'r staff yn cael sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant parhaus yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor.

! Yn ystod y flwyddyn mae ystyriaeth wedi'i rhoi i gyflwyno deisebau electronig – fodd bynnag, nid ydym wedi gallu cyflwyno'r cyfleuster hwn ar ein system reoli *modern.gov* fel yr oeddem wedi gobeithio, o achos anallu'r system i ddarparu'r cyfleuster yn ddwyieithog. Yn y cyfamser, mae gennym gyfleuster ar gyfer cwblhau deisebau'n ysgrifenedig ac rydym yn gwneud ymchwil gyda'n gwasanaeth TG mewnol i weld a ellir datblygu cyfleuster mewnol pwrpasol.

✓ Yn astudiaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2014/15, roedd Sir Gaerfyrddin yn y 9^{fed} safle (canlyniad o 21%) ar gyfer y datganiad "*Rwyf yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol*", a oedd yn welliant o gymharu â'r canlyniad blaenorol o 15% (18^{fed} safle).

Sut y mae ein canlyniadau'n cymharu â'r 22 o gynghorau eraill yng Nghymru:-

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15																					
"Rwyf yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol"																					
Safle canlyniadau	Y canlyniadau gwaethaf yng Nghymru											Y canlyniadau gorau yng Nghymru									
	22	21	20	19	18	17	16	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2
2014/15														21%							25%

Ein canlyniad ar gyfer 2013/14:

Arfer
bod yn
15%

[Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15](#)

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn datblygu ymagweddau ymgynghori ac ymgysylltu y Cyngor ymhellach yn unol â'r Strategaeth Gyfathrebu newydd. (12015)
2. Byddwn yn datblygu methodoleg ac yn cefnogi gweithrediad yr ymagwedd ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer asesiad lles y tair sir, sy'n ofynnol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. (12016)
3. Byddwn yn cefnogi datblygiad Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. (12017)
4. Byddwn yn ceisio cynyddu'r lefelau presennol o ran cofrestru pleidleiswyr drwy fynd ati i hyrwyddo'r neges ynghylch mor bwysig yw "*Dweud eich Dweud*". (12018)

Daeth Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad "Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull effeithiol o weithio mewn partneriaeth sydd yn gwella canlyniadau i'w ddinasyddion."

Hefyd mae'r Asesiad Corfforaethol yn crybwyll:-

"Mae'r bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) yn arbennig o gryf, a chydweithio wedi cael ei 'brif-ffrydio' i'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad, gyda nifer o swyddi wedi'u sefydlu ar y cyd." a

"... Mae'r Cyngor a BIPHDd yn gweithio ar agweddau mwy cymhleth ar waith partneriaeth fel strategaethau cyffredin, canolfan comisiynu ar y cyd a chyllidebau cyfun. Mae'r naill a'r llall yn cydnabod bod y rhain yn hollbwysig er mwyn ysgogi mwy o integreiddio ac effeithlonni a chanlyniadau gwell i ddinasyddion."

Asesiad Corfforaethol Mehefin 2015 para 80

Er mwyn monitro llwyddiant meddwl gyda'n gilydd a gweithredu gyda'n gilydd fel partneriaeth, roeddem wedi pennu **45 o Ddangosyddion Poblogaeth** i bwysu a mesur a oeddem yn:-

'Galluogi pobl i fyw bywydau iach a bodlon trwy gydweithio i greu cymunedau cadarn, dwyieithog a chynaliadwy.' (Ein Gweledigaeth fel partneriaeth)

Dangosyddion poblogaeth partneriaeth 2014/15 (i fesur effaith cydweithio yn y sector cyhoeddus)

44#	Wedi gwella	Yn gyson	Wedi dirywio	Gwelliant Net
Nifer	23	4	17	13%
Canran	52%	9%	39%	

Gellir mesur 'Gwella Gwasanaethau'n Barhaus' (CSI) yn achos 44 o'r rhain

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r [Strategaeth Gymunedol Integredig - adroddiad Dangosydd Poblogaeth 2014/15](#). Caiff y mesurau hyn eu diweddarau a'u cyhoeddi fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Gymunedol Integredig yn nhymor yr hydref 2016.


- ✓ Yn ystod y flwyddyn cynhaliom adolygiad llawn o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaeth ategol. Cafodd yr adroddiad ynghylch yr adolygiad o'r Bartneriaeth ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mis Gorffennaf 2015. Gwnaed Cytundeb mewn egwyddor ar y ffordd ymlaen, a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i baratoi Cylch Gwaith, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd canllawiau drafft ynghylch gofynion y Ddeddf eu cyhoeddi ym mis Medi 2015 a chymerir camau ffurfiol ynghylch y rhain o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn cyflwyno trefniadau newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r bartneriaeth trwy ddatblygu trefniadau cyfathrebu a gwefan newydd. (12019)
2. Byddwn yn cynorthwyo o ran ein cyfathrebu cydweithredol ac yn creu grŵp cyfathrebu newydd a fydd yn darparu Newyddion Sir Gâr ddwywaith y flwyddyn a gwefan newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac e-rybuddion. (12020)
3. Byddwn yn cefnogi datblygiad yr Asesiad Lles, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Cyngor, yn ogystal â chydweithwyr o Geredigion, Sir Benfro, a phartneriaid eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. (12021)
4. Byddwn yn sefydlu ac yn hwyluso trefniadau newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r bartneriaeth, yn cynnwys datblygu'r trefniadau cyfathrebu a'r wefan newydd. (12022)

Cwblhawyd yr adolygiad *Buddsoddwyr mewn Pobl* yn llwyddiannus, a oedd yn hynod gadarnhaol ac yn dangos cynnydd clir o ran rheoli pobl ym mhob rhan o'r Cyngor, gyda rhai agweddau'n cael eu clustnodi'n 'Uchel eu Perfformiad'. Roedd y cyfweiliadau â'r staff yn dangos lefel uchel o **fodlonrwydd staff**.

Cafodd y Rhaglen Barod am Waith ragor o gyllid ym mis Ebrill 2015, sydd wedi ei galluogi i recriwtio 10 o brentisiaid newydd ac 8 o raddedigion ar draws yr holl adrannau, gydag ystod amrywiol o rolau, yn cynnwys cyfrifydd dan hyfforddiant, cyfreithiwr dan hyfforddiant, cadét adeiladu, prentis gweinyddu busnes, a pharcmon dan hyfforddiant.

- ✓ Daeth Aseiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:
 - "Mae dull y Cyngor o reoli pobl yn gweithio'n dda..."
 - "Mae uned busnes DaD wedi cwblhau llawer o waith effeithiol er mwyn datblygu gweithlu'r Cyngor....."
 - Mae'r Cyngor yn gweithredu mentrau'n llwyddiannus mewn sawl maes er mwyn cynyddu galluogrwydd pobl a chyflawni nodau Strategaeth y Cyngor ar gyfer Pobl.
- ✓ Roeddem wedi adnewyddu ein Gwerthoedd Craidd drwy wrando ar dros 300 o leisiau, a oedd yn cynnwys aelodau o'r staff, cynghorwyr, uwch-reolwyr ac Undebau Llafur.
- ✓ Roeddem wedi cefnogi'r ymgyrch "Amser i Newid" (ymgyrch gwrth-stigma mewn perthynas â salwch iechyd meddwl) drwy lofnodi'r "Addewid" i herio'r stigma sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl a gwahaniaethu yn y gweithle.
- ✓ Cafodd Archwiliad Sgiliau Iaith ei lansio ledled y Cyngor ar ddiwedd 2015/16 – bydd y canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i lywio sut ydym yn helpu'r staff i ddatblygu eu sgiliau iaith.
- ✓ Rydym wedi darparu cyfleoedd dysgu i fwy na 4,200 o aelodau o'r staff ac wedi cyflwyno mentrau megis *Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol*.
- ✗ Roedd cynnydd bach yn ein **lefelau absenoldeb salwch** o 9.6 i **10.1** o ddiwrnodau. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi ein staff, ochr yn ochr â hyrwyddo rheolaeth gadarn o ran absenoldeb salwch mewn adrannau.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a datblygu'r broses Helpu Pobl i Berfformio eleni ac yn cynyddu % yr achosion o Helpu Pobl i Berfformio a gwblhawyd o 86% i 88%. (1.3.2.11a)
2. Byddwn yn lleihau nifer y dyddiau gwaith / shifftiau am bob gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch o 10.1 diwrnod i 9.6 diwrnod. (CHR/002)
3. Byddwn yn sicrhau nad yw % y gweithwyr (yn cynnwys athrawon a staff mewn ysgolion) sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod lleol, boed ar sail wirfoddol neu anwirfoddol, yn fwy na 7%. (CHR/001)
4. Byddwn yn gweithio tuag at gynnal Gwobr Blatinwm Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru. (12027)

5. Byddwn yn datblygu datganiad ymddygiad trosfwaol sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd newydd er mwyn sicrhau bod gweithwyr a rheolwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall y Ddyletswydd Cydraddoldeb a sut y mae'n berthnasol i'w rôl yn ein sefydliad (SEPA). (12028)
6. Byddwn yn helpu'r sefydliad i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol ac i ddatblygu cynllun gweithlu strategol ar gyfer y Cyngor. (12029)
7. Byddwn yn llunio rhaglen integredig ynghylch datblygu'r Iaith Gymraeg ar gyfer ein gweithwyr (SEPA). (12030)
8. Byddwn yn cynnal archwiliad o Sgiliau Iaith ein gweithwyr (SEPA). (12031)
9. Byddwn yn cwblhau ac yn gweithredu'r strwythur diwygiedig ar gyfer yr Is-adran Rheoli Perfformiad. (12023)
Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru 3.1
10. Byddwn yn sicrhau bod gan bob aelod o staff arfarniad unigol o berfformiad. (12024)
Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru 3.2
11. Byddwn yn symleiddio mecanweithiau cyfathrebu oddi mewn i RhPPH a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu â'r gweithlu ehangach ynghylch mentrau rheoli pobl. (12025)
Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru 3.3
12. Adolygu'r cyfarpar a systemau TGCh a ddefnyddir oddi mewn i RhPPH ac ysgogi datblygiadau. (12026)
Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru 3.4

B6 – Sicrhau cyfle cyfartal

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad Amlasiantaeth ynghylch ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol hyn yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â 'nodweddion gwarchoddedig', fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisiâu. Mae ymgynghori'n rhan annatod o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, ac, o'r herwydd, ceisiwyd barn y cyhoedd i ategu a chryfhau'r Cynllun.

- ✓ Cafodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin ei ddiweddarau ynghylch y cynnydd o ran yr ymagwedd leol tuag at ddarparu a chefnogi'r cynllun Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria ledled y DU. Y disgwyl yw y bydd Sir Gaerfyrddin yn cael ei charfan gyntaf o ffoaduriaid ddechrau 2016. Er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod hwn, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen amlasiantaeth wedi cael ei sefydlu'n lleol a bydd y grŵp yn ystyried rhaglen waith wedi'i seilio ar bedair prif flaenoriaeth: lechyd; Tai; Gwaith; ac Addysg, er mwyn sicrhau bod gan yr holl ffoaduriaid o Syria fynediad i gyfleoedd i'w hintegreiddio'n llawn i'r Sir pan fyddant yn cyrraedd yma drwy'r cynllun.
- ✓ Rydym yn dal i fod ar restr Stonewall o'r 100 Cyflogwr Gorau ar gyfer ein gwaith drwy Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17


1. Byddwn yn parhau i weithio i oresgyn rhwystrau o ran cael mynediad i wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig gweithio tuag at system ar sail apwyntiadau yn y Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid. (12032)
2. Byddwn yn gweithio gyda sectorau penodol yn ein cymuned, yn enwedig pobl ifanc Sir Gaerfyrddin a Phobl â Gofal dros Gartrefi Preswyl/Nyrsio, i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio. (12033)
3. Byddwn yn sicrhau bod gofynion yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses asesu effaith ehangach sy'n cael ei datblygu yn rhan o ofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. (12034)
4. Byddwn yn darparu canlyniadau'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymdeithasol am 2016/17. (12035)
5. Dyletswydd y Cyngor yw hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle. (12036)

Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn gofyn y cwestiwn ‘a yw'r Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel?’

- Yn ystod 2014/15, roedd **58%** o'r dinasyddion o'r farn ein bod yn darparu gwasanaethau o safon uchel - **6^{ed} yng Nghymru**
- Yn ystod 2013/14, roedd 53% o'r dinasyddion o'r farn ein bod yn darparu gwasanaethau o safon uchel - **15^{fed} yng Nghymru**
- Gwelliant o 5 pwynt canran a 9 safle'n uwch.

Gweler graff 2014/15 isod:-

‘A yw'r Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel?’



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15

- ✓ Byddwn yn parhau i ddatblygu fframwaith cadarn ar gyfer herio perfformiad ar bob lefel ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu ymdrin â'r holl heriau sydd o'n blaen. Fel yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod yn ei Adroddiad Corfforaethol o'r Cyngor "Atgyfnerthwyd arweinyddiaeth wleidyddol yr agenda ar gyfer gwella." Cafodd holl gynlluniau busnes y gwasanaeth eu herio gan yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am bortffolios.
- ✓ Ym mis Mawrth 2016, cawsom y Grant Cytundeb Canlyniadau yn llawn (£1.9 miliwn) gan Lywodraeth Cymru, ar sail ein 'hadroddiad hunanasesu'r gwasanaeth a pherfformiad ar gyfer 2014/15'.
- ! Fodd bynnag nid ydym wedi cyrraedd y lefel o 'newid sianeli' a ystyrir yn ddichonadwy ac yn ddymunol. Penderfynwyd ar ddichonoldeb drwy adolygu'r dechnoleg oedd ar gael ar y farchnad, a thrwy ymweliadau ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sydd ar y blaen o dipyn o ran newid sianeli. Ysgogir dymunoldeb gan ddau ffactor; y disgwyliad cynyddol ymysg cwsmeriaid y byddant yn gallu gwneud busnes gyda ni 24x7, a'r angen i leihau nifer y swyddi rheng flaen o achos toriadau i'r gyllideb. Y prif beth sy'n cyfyngu ar newid sianeli yw'r diffyg adnoddau TG i ddatblygu systemau newydd a'r systemau presennol, a diffyg cyllideb i brynu o'r tu allan.

- ✓ Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi cyd-leoli Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Llanelli gydag Un Sir Gâr, fel cynllun prawf ar gyfer cyd-leoli'n barhaol o bosibl. Roedd y cynllun prawf yn llwyddiannus a phenderfynwyd bod y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid yn aros yn yr Hwb, Llanelli, yn unol â dymuniad y cwsmeriaid.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn sicrhau bod gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael eu bodloni, er mwyn sicrhau bod y 7 nod llesiant cenedlaethol a 5 ffordd o weithio yn cael eu hystyried ym mhopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud ac er mwyn cyflwyno tystiolaeth bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r effaith ar holl bolisiâu a phenderfyniadau'r Cyngor. **(12037)**
2. Byddwn yn cyflwyno gofynion newydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu yn ein fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer 2017/18. **(12038)**
3. Byddwn yn gweithredu system archebu electronig ar-lein ac yn galluogi'r cyhoedd, fesul cam, i wneud apwyntiadau ar gyfer y Cofrestrydd. **(12039)**
4. Byddwn yn parhau i wella gwefan y Cyngor er mwyn rhoi gwell mynediad i'r cwsmeriaid i wasanaethau 24/7. **(12040)**
5. Byddwn yn cyflwyno Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol diwygiedig i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol *Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P6.1a (12041)*
6. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau Corfforaethol ar gyfer Cynllunio Busnes yn cael eu cymhwyso'n gyson. *Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P6.1b (12042)*
7. Byddwn yn parhau â her y Bwrdd Gweithredol gyda Phenaeithiaid Gwasanaeth a'r her rhwng cymheiriaid o Gynlluniau Busnes gyda Phenaeithiaid y Gwasanaeth. *Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P6.1c (12043)*
8. Byddwn yn datblygu cysylltiadau cliriach rhwng cynllun ariannol y tymor canolig a chynllunio gwelliannau'r Cyngor, gan fanylu ar yr effaith y mae cyfyngiadau ariannol yn ei chael ar ganlyniadau i ddinasyddion. *Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella - P2.1 (11985)*

Canlyniad C: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach ...

Mae ein ffordd o fyw yn newid. Mae pobl yn byw'n hwy, gydag ansawdd bywyd uwch, ond mae ein hanghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth. Yr her yr ydym yn ei hwynebu nawr yw atal afiechyd yn y lle cyntaf.



Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

C1 – Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd

C2 – Atal afiechyd a hybu byw'n iach ac yn weithgar

C3 – Gwella iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol pawb yn y sir

C4 – Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd

C5 – Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd

C6 – Gwella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau agored i niwed

C7 – Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOP) yw:

- Hyrwyddo Annibyniaeth a Lles ar gyfer Pobl Hŷn
- Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a'r cartrefi ar rent sydd ar gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Gostyngiad yn yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant	✓
Mwy o gartrefi fforddiadwy a chartrefi ar rent ar gael	✓
Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden	✗

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 15/16 / Y Gwelliant sydd wedi'i Drefnu ar gyfer 16/17:


Nod: C1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd:

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd yn ystod cwrs bywyd. Gosodir y sylfeini ar gyfer bron pob agwedd ar ddatblygiad dynol – corfforol, deallusol ac emosiynol – yn ystod plentyndod cynnar. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn (gan ddechrau yn y groth) yn cael effeithiau gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl, i gyflawniad addysgol a statws economaidd. I gael effaith ar anghydraddoldebau iechyd, mae angen i ni ymdrin â graddiant cymdeithasol plant o ran eu mynediad i brofiadau cynnar cadarnhaol. Mae ymyriadau diweddarach, er eu bod yn bwysig, gryn dipyn yn llai effeithiol lle na chafwyd sylfeini cynnar da.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Ymddiriedolaeth GIG [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) ei phedwaredd Rhaglen Mesuriadau Plant Cymru sy'n cynnwys casgliadau'r rhaglen mesuriadau plant a gynhaliwyd gyda phlant sy'n mynychu dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion yng Nghymru yn 2014/15.

- Mae'r **nifer a gyfrannodd** at y rhaglen wedi cynyddu mwy na 10% mewn tair blynedd, o 84.3% o'r holl blant yn 2012/13 i 94.5% yn 2014/15. Mae'r gyfradd gyfranogi yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 88% i 92%.
- Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn aml yn parhau i oedolaeth, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon, a rhai canserau
- Mae % y bobl sydd dros bwysau neu'n ordew yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o **26.2%** yn 2013/14 i **30.7%** yn 2014/15, gan symud o'r safle 9^{fed} isaf ac o fod yn is na chyfartaledd Cymru (26.5%) i fod yn y safle 3ydd uchaf ac yn uwch o dipyn na chyfartaledd Cymru, sydd wedi gostwng i 26.2%.
- Mae cyfran y plant sy'n ordew yn dal i gynyddu o **10.9%** yn 2012/13 i 11.6% yn 2013/14 ac **13.6%** yn 2014/15



Mae **darpariaeth gofal plant** yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei chynnig mewn partneriaeth â'r sectorau preifat, gwirfoddol a statudol, ac mae wedi parhau i ddatblygu. Ar hyn o bryd mae gennym:

- **107** o warchodwyr plant cofrestredig (gyda **553** o leoedd)
- **36** o feithrinfeydd dydd cofrestredig (gyda **1,288** o leoedd)
- **43** o glybiau cofrestredig y tu allan i'r ysgol (gyda **1,294** o leoedd)
- **63** o leoliadau gofal sesiynol cofrestredig (gyda **1,171** o leoedd) gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg.
- **Cyfanswm o 249 o ddarparwyr**, gyda **4,306** o leoedd cofrestredig.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Nod **rhaglen blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg** (rhan allweddol o agenda *Trechu Tlodi* Llywodraeth Cymru) yw cefnogi teuluoedd â phlant 0-3 oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad, gan ddarparu ystod o wasanaethau ataliol dwys i wella iaith plant, datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol ac iechyd corfforol, yr ydym yn gallu eu darparu trwy:

- Gwell gwasanaeth ymwelwyr iechyd
- Gofal plant rhan-amser o ansawdd da am ddim i blant 2-3 oed
- Cymorth rhianta (yn cynnwys rhaglenni rhianta a sgiliau sylfaenol)
- Cymorth ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu

Mae 29 Lleoliadau Dechrau'n Deg mewn 17 maes (Betws, Parc Waun Dew, Maesllyn, Bigyn, Llwynhendy, Felinfoel, Carwe, Morfa, Trimsaran, Pwll, Pen-bre, Gogledd Tref Caerfyrddin, Glanaman, Garnant, Bury Port, Pantyffynnon a Dafen) ar hyn o bryd.

i Gweler hefyd nod **G5 Trechu Tlodi a'i effaith ar yr economi leol**

Mesurau Allweddol Dechrau'n Deg		Canlyniad ad 2014/15	Targed 2015/16	Canlyniad ad 2015/16	Sylw
!	Byddwn yn cynyddu % y plant a gofrestrodd i fanteisio ar y lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg am ddim (9.1.8.0)	79.8%	80.0%	70.4%	Heb gadw at y targed ond Wedi gwella #Gweler y sylw isod
✓	Y % sy'n bresennol yn y lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg am ddim (9.1.8.1)	77%	75%	79%	Yn cadw at y targed ac wedi gwella
✗	Nifer y plant sy'n byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg sy'n gallu cyrchu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg drwy atgyfeiriadau allgymorth. (9.1.8.2)	18	23	17	Heb gadw at y targed ac wedi dirywio #Gweler y sylw isod
✓	% y teuluoedd angen uchel sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg sy'n derbyn o leiaf gyswllt misol gan Wasanaeth Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg (9.1.8.3)	90%	90%	96%	Yn cadw at y targed ac wedi gwella
✓	% y plant sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg sydd wedi bod yn destun asesiad anghenion lle defnyddir yr Offeryn Asesu Teuluoedd o fewn mis i ymuno â'r gwasanaeth. (9.1.8.4)	100%	100%	100%	Yn cadw at y targed ac yn dal i fod wedi cyrraedd yr uchafswm
✓	% y teuluoedd sydd ag anghenion llesiant cymdeithasol ychwanegol cysylltiedig â thlodi sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac sy'n derbyn ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach (9.1.8.6)	95%	93%	96%	Yn cadw at y targed ac wedi gwella
✗	Nifer y plant 0-4 oed yn Sir Gaerfyrddin sy'n elwa ar ddarpariaeth ddwys gan y Gwasanaeth Dechrau'n Deg (9.1.8.7)	1671	1800	1570	Heb gadw at y targed ac wedi dirywio #Gweler y sylw isod

#Mae'r cydgysylltydd gofal plant wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r lleoliadau gofal plant a'r ymwelwyr iechyd i sicrhau bod plant sydd wedi'u cofrestru yn mynychu'n rheolaidd. Y tymor hwn roedd cwmp sylweddol yn y niferoedd oedd yn gymwys i gofrestru, ond mae hyn yn bennaf o achos niferoedd isel o ran cyfradd geni, ac felly mae'r peth y tu hwnt i'n rheolaeth. (9.1.8.0)

#Mae nifer y plant sy'n byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg sy'n gallu cyrchu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg drwy atgyfeiriadau allgymorth wedi'i bennu'n 23 gan Lywodraeth Cymru, gydag amrywiant o 10%. Yn anffodus, o achos anawsterau wrth recriwtio ymwelwyr iechyd cymwysedig (sy'n broblem genedlaethol), nid oeddem yn gallu derbyn rhagor o atgyfeiriadau allgymorth, a hefyd nid oeddem yn gallu cynyddu'r capasiti. Byddwn yn cynnal digwyddiad recriwtio cyn bo hir er mwyn ceisio denu diddordeb. (9.1.8.2 & 9.1.8.7)

- ✓ Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymwelwyd â gwefan y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** 9,486 o weithiau, agorwyd 40,620 o dudalennau, gyda 67% ohonynt yn ymweliadau newydd.



Ym mis Chwefror cynhaliwyd digwyddiad adrodd storiâu ysbrydoledig sy'n procio'r meddwl ac a fynychwyd gan fwy na 50 o deuluoedd a'u plant. Trefnwyd digwyddiad 'Un tro...pam dechrau'n gynnar' gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg a'r Tîm Gofal Plant a Chwarae. Y bwriad oedd hybu dysgu fel teulu fel gweithgaredd a rennir a gweithgaredd i'w fwynhau, codi dyheadau a pharodwydd i ddysgu.

- ✓ Rydym wedi darparu rhaglen lawn ar gyfer gwyliau'r ysgolion a gweithdai i'r teulu yn Oriol Myrddin, gan gynnwys clwb llyfrau rheolaidd 'am ddim', a sgysiau traws-ddisgyblaethol ar ystod eang o themâu e.e. pensaernïaeth, ffermio, cerddi ac archeoleg.
- ✓ Mae pob un o'n 14 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig yn darparu'r cynllun gweithgarwch corfforol allgyrsiol [5x60](#) ac mae **100%** o'n hysgolion cynradd yn rhan o gynllun gweithgareddau allgyrsiol [Aml-sgiliau / Campau'r Ddraig](#), gan gysylltu â nifer o glybiau chwaraeon cymunedol. Mae 60% o'n disgyblion ysgol yn aelodau o glwb chwaraeon.
- ✓ Rydym wedi darparu [nofio am ddim](#) i blant (dan 16 oed) ym mhob pwll nofio a gynhelir gan CSC ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgolion, ac mae'r rhaglen yn gysylltiedig â llwybr Dysgu Nofio Cymru, [Pasbort y Dŵr](#).
- ✓ Ceir [Llysgenhadon Ifanc](#) ar gyfer chwaraeon bellach ym mhob ysgol uwchradd ac mewn 80% o ysgolion cynradd, a byddant yn datblygu i fod yn arweinwyr y dyfodol drwy ysbrydoli eu cyd-ddisgyblion i fod yn egnïol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu hyn drwy gyflwyno Llysgenhadon 'Efydd a Mwy' ym Mlwyddyn 7 i gadw Llysgenhadon Ifanc Efydd a datblygu eu sgiliau arwain wrth iddynt symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.
- ✓ Rydym wedi darparu gwersi nofio i fwy na 4,100 o blant yn ystod amser ysgol ac i fwy na 2,000 o blant y tu allan i oriau ysgol.
- ✓ Roedd 83 o ysgolion cynradd wedi ymweld â'n Canolfan Addysg Awyr Agored ym Mhentywyn i ddysgu am weithgareddau antur awyr agored a'r amgylchedd.
- ✗ Yn anffodus nid oeddem wedi cyrraedd ein targed o 270,000 ar gyfer mynychu cyfleoedd chwaraeon a drefnwyd gan y Swyddogion Chwaraeon a Hamdden, gan gyrraedd **197,899** yn unig. Y rheswm dros y dirywiad a'r diffyg yw am fod dwy swydd wedi bod yn wag am gyfnod. Bellach maent wedi cael eu llenwi ac mae ein swyddog datblygu Hoci wedi bod yn absennol o'r gwaith am 5 mis, sydd wedi arwain at ddirywiad yn y gweithgareddau hoci. Hefyd roedd Undeb Rygbi Cymru wedi dirwyn y bartneriaeth datblygu rygbi i ben ym mis Hydref 2015.

(3.4.2.8)

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae rhagor o gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi helpu i hyrwyddo'r manteision iechyd a lles sydd ynghlwm wrth chwarae h.y. lleihau risg gordewdra ymysg plant, lleoedd chwarae di-fwg. Felly mae wedi bod yn dymor o hwyl yn yr haf yn ein Canolfannau Plant Integredig, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo **'byw'n iach'** drwy ymarfer corff a chwaraeon er mwyn hyrwyddo ffitrwydd a lles.

Yn gweithio gyda CrossFit, Llanelli, ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe.

Gwnaeth AGGCC sylw cadarnhaol ar ein darpariaeth Dechrau'n Deg yn Sir Gaerfyrddin (Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014-15)



"Wrth ymweld â gwasanaeth Dechrau'n Deg, cadarnhawyd bod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei reoli'n dda, a bod rheolwyr yn rhoi arweiniad strategol cadarn gyda phwyslais clir ar waith amlddisgyblaethol effeithiol. Mae'r gwasanaeth wedi ehangu dros y deuddeg mis diwethaf, pan sefydlwyd naw ardal newydd, ac mae 17 o gymunedau Dechrau'n Deg erbyn hyn. Cryfhaodd hyn yn fawr y gwasanaethau ataliol sydd ar gael i deuluoedd, yn unol â strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru".

[Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2014/15](#)

Mae'r 14 o brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf sydd newydd gael eu comisiynu wedi cefnogi cyfanswm o **8,626** o unigolion, ac o'u plith roedd **6,829** yn unigolion a oedd yn newydd i'r gwasanaeth. Maent i gyd yn defnyddio ymagwedd Tîm o Amgylch y Teulu i gasglu tystiolaeth a yw'r teulu **'ar ei ennill'** o ganlyniad i'r ymyriad. Roedd **canlyniadau'r arolwg** yn gadarnhaol ac roedd **99%** wedi dweud **y byddent yn argymhell y gwasanaeth** i eraill. Yn anffodus mae'r grant Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gwtogi 12% y flwyddyn nesaf, ac er y bydd pob un o'r 14 o brosiectau a gomisiynwyd yn parhau, bydd y gwasanaeth a ddarperir yn lleihau yn gyffredinol.

Rydym wedi defnyddio'r gwerthusiad o'r **Uned Plentyn a Theulu** – 'y peilot ailberchenogi gwaith cymdeithasol' i ailstrwythuro ein timau gwaith cymdeithasol plant yn y tymor hir. Dechreuodd Tîm Gofal Plant Dinefwr weithredu o fewn fframwaith **POD** o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'r PODs yn cynnal cyfarfodydd wythnosol i drafod achosion, gyda mewnbwn gan y Seicolegydd Addysg, ac wedi mireinio elfennau o'r model yn unol ag anghenion y tîm. Mae'r gweithwyr wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r 'Seren Ddeilliannau' a fydd yn helpu defnyddwyr gwasanaeth a staff i werthuso effeithiolrwydd y mewnbwn. Bydd y gwaith o roi'r model ar waith ym mhob un o'r timau gofal plant tymor hir yn wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Er gwaethaf cynnydd yn nifer y lleoedd a brynwyd oherwydd ehangu, ein nod fydd presenoldeb o 77% o leiaf yn y lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg am ddim (9.1.8.1)
2. Ein nod fydd lleihau % yr absenoldeb heb ganiatâd yn y lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg am ddim o 6.38% i 6% (9.1.8.8)
3. Ein nod fydd cynyddu nifer y plant sy'n byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg sy'n gallu cyrchu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg trwy atgyfeiriadau allgymorth o 17 i 23 (9.1.8.2)
4. Byddwn yn sicrhau bod o leiaf 93% o'r teuluoedd angen uchel sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn derbyn o leiaf gyswllt misol gan Wasanaeth Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg (9.1.8.3)
5. O'r teuluoedd sydd ag anghenion llesiant cymdeithasol ychwanegol cysylltiedig â thlodi sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, byddwn yn sicrhau bod o leiaf 95% yn derbyn ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach e.e. Gweithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Cymorth Teulu neu Weithiwr Prosiect Cam-drin Domestig neu Fydwraig (9.1.8.6)
6. Ein nod fydd sicrhau bod o leiaf 85% o blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cyrraedd, yn rhagori ar, neu o fewn un band oedran o'u carreg filltir o ran datblygiad yn 2 flwydd oed (aseswyd yn 23-25 mis) (9.1.8.9)
7. Ein nod fydd sicrhau bod o leiaf 90% o blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cyrraedd, yn rhagori ar, neu o fewn un band oedran o'u carreg filltir o ran datblygiad yn 3 flwydd oed (aseswyd yn 35-37 mis) (9.1.9.0)
8. Byddwn yn gweithredu'r model systematig Uned Plentyn a Theulu o weithio ym mhob tîm gwasanaethau plant (12044)
9. Byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n bresennol bob blwyddyn mewn cyfleoedd chwaraeon a drefnir gan Swyddogion Chwaraeon a Hamdden o 197,899 i 208,000 (cynydd o 5%) (3.4.2.8)
10. Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n gallu nofio am 25 metr yn 11 oed o 63.6% i 65% (3.4.2.1)
11. Byddwn yn cynyddu nifer y bobl ifanc (0-16) sy'n cael sesiynau nofio am ddim o 16,000 i 17,000 (3.4.2.2)


🕒 I weld Camau pellach, ewch i nod **G5 Trechu Tlodi a'i effaith ar yr economi leol ac E5 Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gam-fanteisio arnynt**

Nod: C2 Atal afiechyd ac annog ffyrdd iach ac egniol o fyw

Ein nod yw darparu ystod o gyfleusterau, gweithgareddau a rhaglenni sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles, y maent i gyd wedi'u hanelu at gael mwy o bobl yn fwy egniol yn amlach, er mwyn gwella iechyd a llesiant ein preswylwyr. Rydym am sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r lle mwyaf egniol ac iach yn y DU, a bod pawb yma yn rhan o 'Glwb Cymunedol' neu 'Gyfleuster Hamdden / Diwylliannol', a bod pob plentyn yn dwlu ar weithgarwch Hamdden / Diwylliannol gydol eu hoes.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Mae % yr oedolion sy'n cydymffurfio â'r canllawiau gweithgarwch corfforol (30 munud ar 5 diwrnod neu ragor) yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu i 33% yn 2013 a 2014 o gymharu â 30% yn 2012 a 2013. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru sef 30%.



- ✘ O ran nifer yr atgyfeiriadau Meddyg Teulu ar gyfer y rhaglen ymarfer corff yn ystod 2015/16, gwelwyd nifer is o atgyfeiriadau **(1,129)** na'n targed heriol o 1,245, a'r prif reswm dros hynny yw absenoldeb salwch y Cydgysylltydd Gweithgareddau yn gynharach yn y flwyddyn, a gafodd effaith ar y ffigurau ar ddiwedd y flwyddyn. Er gwaethaf hyn, rydym wedi rhagori ar y targed o 1,008 a bennwyd gan ein corff cyllido sef Iechyd Cyhoeddus Cymru. **(3.4.2.5)**
- ✘ Mae nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn, lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol wedi gostwng fesul 1,000 y boblogaeth o 7028 i 6905 =123 yn llai -1.75% **(LCS/002b)**
- ✓ Rydym wedi archwilio **100%** o'r safleoedd risg uchel o safbwynt hylendid bwyd a safonau masnach. **(PPN/001i)**
- ✓ Rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd, ac rydym wedi codi'r % o 93% i 94.98% ar gyfer 2014/15. **(PPN/009)**
- ✘ Yn anffodus nid ydym wedi gallu cyrraedd ein targed o 100% o ran archwilio safleoedd iechyd anifeiliaid, gan gwblhau 99%. **(PPN/001iii)**
- ✓ Rydym wedi adolygu strwythur y Gwasanaeth Arlwyyo ac wedi cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16
- ✓ Mae bron 400,000 o bobl wedi ymweld â Pharc Gwledig Pen-bre yn ystod y flwyddyn ac mae mwy na 70 o bobl yn cymryd rhan yn nigwyddiad 'Parkrun' sy'n cael ei gynnal bob dydd Sadwrn yn Llyn Llech Owain

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer 2015 gan [Chwaraeon Cymru](#) yn dangos bod bron **47%** o bobl ifanc ar draws y sir yn bod yn egniol ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon – cynnydd o 7 pwynt canran o'i gymharu â 40% yn 2013. Bu cynnydd aruthrol yn nifer y merched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu ragor yr wythnos. Y ganran bresennol yw 42.9% o'i chymharu â 34.5% yn 2013.

O ran canran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon drwy weithgareddau allgyrsiol, mae ffigur Sir Gaerfyrddin fwy nag un y cant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae aelodaeth pobl ifanc o glybiau chwaraeon hefyd yn fwy na dau y cant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.



Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn sicrhau bod o leiaf 1,000 o bobl yn cael eu hatgyfeirio i'r "Cynllun Bywiogi" (NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff) yn ystod 2016/17. (3.4.2.5)
2. Byddwn yn cynyddu % y bobl a atgyfeirir i'r Cynllun NERS ac sy'n mynychu sesiwn 1af y rhaglen o 49.7% i 56% (3.4.2.6)
3. Byddwn yn sicrhau bod o leiaf 50% o bobl a atgyfeirir i'r cynllun NERS yn cwblhau'r rhaglen 16 wythnos. (3.4.2.7)
4. Byddwn yn cynyddu % yr ysgolion sy'n cyflawni Cam 4 o'r Fenter Ysgolion Iach o 59% i 60% (8.3.1.5)
5. Byddwn yn cynyddu nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden y Cyngor o 6,905 i 7,251 fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCS/0022b)
6. Byddwn yn cynnal 100% o'r archwiliadau safonau masnach ar gyfer busnesau risg uchel (PPN/001i)
7. Er gwaethaf llai o adnoddau, byddwn yn cynnal 100% o'r archwiliadau hylendid bwyd ar gyfer busnesau risg uchel (PPN/001ii)
8. Byddwn yn cynnal 100% o'r archwiliadau iechyd anifeiliaid ar gyfer busnesau risg uchel (PPN/001iii)
9. Byddwn yn sicrhau bod y ganran uchel o safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd, yn parhau'n 93% neu'n uwch (PPN/009)
10. Byddwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Hamdden newydd Llanelli, sydd â chysylltiad â'r pentref llesiant a'r hwb gwyddorau bywyd (12045)

Nod: C3 Gwella Iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol pawb yn y sir

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi cyflwyno newidiadau pwysig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan osod dyletswyddau cyfreithiol newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o ran asesu a thrin y rheiny y mae eu hiechyd meddwl yn wael, a gwella mynediad i wasanaeth eirioli annibynnol ar gyfer iechyd meddwl. Mae gweledigaeth y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl yn symud i ffwrdd o'r syniad o salwch meddwl i un o les meddwl, ac ymatebiri i hyn drwy ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, ymyriad cynnar, cyfleoedd dydd arloesol, a mabwysiadu model adfer.

Rydym wedi wynebu rhai heriau mewn perthynas â darparu ein gwasanaeth ymarferwr iechyd meddwl oedolion 24 awr. *“Er bod y pryderon hyn wedi cael eu datrys drwy wasanaeth gwell, mae angen i'r cyngor barhau i'w monitro i sicrhau bod gwasanaeth cyson ac ymatebol ar gael ar gyfer y grŵp bregus hwn.”*

(Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2014/15)

Mae'r Tîm Pontio wedi ailstrwythuro er mwyn cydweddu'n well â'r gwasanaethau plant. Eleni mae'r tîm yn canolbwyntio ar ddatblygu'r wybodaeth a roddir i bobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein perthnasoedd â Choleg Sir Gâr, Addysg, y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion, gan gynnal cyfarfodydd rheolaidd i geisio mynd i'r afael â nifer o'r problemau ymarferol a gyflwynwyd yn yr adroddiad **Datgloi Potensial** a cheisio datblygu atebion creadigol sy'n atal yr angen i bobl ifanc gael eu haddysg y tu allan i Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad mae nifer y bobl ifanc anabl sydd gennym mewn colegau preswyl yn isel. Mae llwyddiant parhaus yr ymagwedd hon yn hollbwysig wrth inni geisio sicrhau bod pobl ifanc anabl yn cael yr un cyfleoedd ag unrhyw berson ifanc ac yn gallu bod mor annibynnol â phosibl.

Ni fydd y prosiect **Cyfleoedd Gwirioneddol** yn mynd rhagddo fel prosiect annibynnol ond bydd yn rhan o brosiect 'Cynnydd', sef prosiect rhanbarthol a arweinir gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Byddwn yn datblygu ffyrdd o sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc anabl.

Rydym wedi bod yn adolygu sut ydym yn darparu **Gwybodaeth, Cyngor a Mynediad** i'n gwasanaethau i blant a theuluoedd fel rhan o Fwrdd Rhaglen Gwasanaethau Plant Cydweithredfa Canolbarth a Gorllewin Cymru (yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014). Roedd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus wedi gwerthuso'r hyn sy'n cael ei ddarparu'n

Ileol ac yn rhanbarthol, gan ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhanbarthol, ac roedd wedi cadarnhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion lleiaf ac felly ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Y cam nesaf yw datblygu cynllun cyflawni sy'n canolbwyntio ar:

- Y Gweithlu
- Perfformiad
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Dinasyddion
- Ansawdd Data

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Rydym yn dal i weithio gyda'n partneriaid tai. Nid oes gennym unrhyw bobl ifanc agored i niwed mewn gwely a brecwast ac rydym wedi datblygu gwasanaethau ochr yn ochr â chefnogi pobl i sicrhau bod hyn yn gynaliadwy.
- ✓ O ran ein gwaith gwarchodaeth statudol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, rydym yn parhau i berfformio'n well o ran ein hamserau ymateb i geisiadau am asesu, ac mae mwy na 90% o'r asesiadau yn cael eu cwblhau o fewn 48 awr ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cwblhau ar yr un diwrnod
- ✓ Rydym wedi cael nifer o ganlyniadau cadarnhaol o ran ein gwaith achosion tymor hir gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn camu i lawr o ofal preswyl cost uchel er mwyn bod yn fwy annibynnol.
- ✓ Yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983, rydym yn cydgysylltu ac yn cynnal asesiadau a all arwain at dderbyniad gorfodol i'r ysbty yn achos y person a atgyfeiriwyd. Ar ôl rhoi prosiect peilot wrth gefn ar waith yn llwyddiannus er mwyn sicrhau gwasanaeth y tu allan i oriau, byddwn yn datblygu ymhellach ac yn integreiddio'r model i oriau'r swyddfa er mwyn darparu gwasanaeth 24 awr effeithiol.
- ✓ Rydym wedi helpu mwy o gleientiaid 18-64 oed sydd â phroblemau iechyd meddwl i fyw yn y gymuned yn ystod y flwyddyn (9.2.5.4) (o 80.13% i 85.24%).
- ✓ Rydym wedi cwblhau ymarfer cwmpasu ar gyfer cynllun comisiynu strategol i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- ✓ Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a ddaeth i 629 o geisiadau yn 2015/16? Wrth ymateb i'r cynnydd hwn rydym wedi datblygu prosesau mwy effeithiol ac amserol o ran gwneud penderfyniadau.

"Wrth fynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol hwn, mae'r cyngor wedi cynyddu'r nifer o aseswyr budd pennaf ac wedi rhoi proses rheoli risg ar waith"

(Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2014/15)

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Trwy Brosiect Dewis, dewiswyd Sir Gaerfyrddin yn un o ddwy ardal beilot yng Nghymru, er mwyn dylunio a phrofi ymagwedd newydd at gyfiawnder ar gyfer pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Mae'r ymchwil yn cael ei gwneud ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth a chafodd cynhadledd ei chynnal ym mis Hydref er mwyn i bobl drafod ystod o bynciau a sut y maent yn ymwneud â'u cymunedau eu hunain. Roedd nifer dda yn bresennol yn y digwyddiad a oedd yn cynnwys darlithoedd cyhoeddus gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac Eleri Butler, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru.



Roedd y **Clinig Cof Cymunedol yn Llandybïe** hefyd wedi cael canmoliaeth uchel yng ngwobrau'r Bwrdd Iechyd, yn eu categori 'Gwella Profiad y Cwsmer'. Mae cefnogi 'gofal yn nes at gartref' yn amcan allweddol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu cymorth a chynghor i bobl â dementia a'u teuluoedd yng nghymuned Llandybïe.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu newidiadau i sut ydym yn darparu gwybodaeth, cynghor, a chymorth i'n gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) (12046)
2. Byddwn yn datblygu cynllun comisiynu ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. (12047)
3. Byddwn yn adolygu sut ydym yn diwallu anghenion oedolion ifanc sydd ag anabledd corfforol fel rhan o'r trefniadau pontio. (12048)
4. Byddwn yn datblygu Strategaeth Gwybodaeth ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y staff a'r cyhoedd. (12049)

Nod: C4 Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd

Yn gyffredinol rydym wedi gweithio'n galed i leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd drwy ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i gynnal a chefnogi annibyniaeth pobl. Rydym yn ymwybodol bod angen inni ddarparu gwasanaethau i gefnogi pobl ac rydym wedi datblygu "Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf." Mae hyn yn pennu sut y byddwn yn wynebu'r heriau sydd ynghlwm wrth boblogaeth sy'n heneiddio â chyllideb sy'n crebachu. Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, rydym yn gwneud cynnydd.

"Yn eu cynlluniau a'u strategaethau, mae'r Cyngor wedi dangos dealltwriaeth glir o'r materion y bydd yn eu wynebu yn y dyfodol wrth helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r materion hyn yn seiliedig ar boblogaeth sy'n heneiddio, y ffaith y bydd pobl yn byw'n hirach a chynnydd yn y cyflyrau a geir ymhlith pobl hŷn.


Swyddfa Archwilio Cymru, Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol, Hydref 2015.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Rydym wedi llwyddo i gwblhau ein cyfleusterau tai gofal ychwanegol yng Nghartref Cynnes yn Nhre Ioan, Caerfyrddin a Thŷ Dyffryn yn Rhydaman mewn partneriaeth â Thai Teulu. Bydd y datblygiad hwn yn helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth drwy ddarparu fflatiau 1 a 2 ystafell wely hunangynhaliol gan ddarparu ar gyfer pobl â gwahanol anghenion. (10842)
- ✓ Rydym wedi lleihau canran y bobl hŷn (+ 65 oed) y mae'r awdurdod yn eu cynnal mewn cartrefi gofal o 831 i 778 o gleientiaid (18.74%) (SCA/002b)
- ✓ Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chydgyssylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal (TOCALs) wedi bod yn ased gwerthfawr i'r ysbyty ac wedi cael effaith sylweddol ar lif cleifion. Mae'r wybodaeth sydd gan aelodau'r tîm Aml-ddisgyblaeth wedi gwneud cyrchu gwybodaeth yn haws ac wedi galluogi cleifion i gael eu rhyddhau'n ddiogel gyda gwasanaethau cymunedol na fyddent wedi bod mor hygrych o'r blaen.

Roedd cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 a bydd yn dal i fod yn un ar gyfer 2016/17.

Mae gan y Sir 'seilwaith' Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol integredig. Mae'r model hwn yn cyd-fynd â'r cyfeiriad cenedlaethol a lleol o ran polisi, gan gyfeirio at ddarparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig. Atgyfnerthir yr achos dros ofal integredig gan yr angen i ddatblygu gweithio system gyfan ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â'r anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â chyd-forbidrwydd a bregusrwydd (yn cynnwys dementia). Felly un o'r pethau allweddol y canolbwyntir arno yn ein cynllun busnes yw datblygu system gofal integredig sy'n rhoi sylw i hyrwyddo lles a chynnal annibyniaeth ar gyfer ein poblogaeth sy'n oedolion, gan gefnogi'r anghenion gofal tymor hir a diogelu'r bobl fwyaf bregus ac agored i niwed.



Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol yn cynnwys Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol, Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, ac ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol sy'n gweithio fel tîm amlddisgyblaeth i gefnogi asesu a rheoli gofal ar gyfer unigolion y mae angen cymorth arnynt.

I reoli iechyd a lles poblogaeth Sir Gaerfyrddin a chynnal annibyniaeth ein pobl hŷn am gyn hired â phosibl mae gwasanaethau cymunedol integredig yn darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau ar draws y tri maes 'cynnig' a amlinellwyd yn nogfen Cyngor Sir Gaerfyrddin, 'Darparu Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn yn Sir Gaerfyrddin'.

Yn fras, gellir rhannu'r rhain yn dair brif haen:

Haen Un: Mae Gwasanaethau ac Ymyriadau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, lles, ymgysylltu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol megis gwybodaeth, cyngor a chymorth, cyfeirio pobl at wasanaethau cymunedol.

Haen Dau: Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau wedi eu targedu er mwyn i unigolion adennill annibyniaeth a lles o'r un lefel ag o'r blaen yn dilyn cyfnod aciwt neu anaf, a hefyd gall helpu i osgoi derbyniad i'r ysbyty. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau Haen 1 i sicrhau cymorth parhaus o ran iechyd a lles gan eu cymuned eu hunain

Haen Tri: Mae darparu gwasanaeth ar y lefel hon yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal arbenigol a thymor hir. Bydd gwasanaethau yn yr haen hon yn cydlynu â gwasanaethau yn haen 2 er mwyn sicrhau bod pobl, adeg anafiadau neu gyfnodau aciwt o salwch, yn adennill annibyniaeth ar yr un lefel ag o'r blaen.

Mesurau Llwyddiant Allweddol

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2014/15		2015/16	
	Gwirioneddol	Cyfartaledd Cymru	Gwirioneddol	Cynnydd Gwirioneddol
Cyfradd y trosglwyddiadau gofal a ohiriwyd am resymau gofal cymdeithasol am bob 1,000 o bobl 75 oed a throsodd (SCA/001)	6.18 (113 o gleientiaid)	4.83	4.69 (87 o gleientiaid)	Wedi gwella 26 o gleientiaid yn llai
Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed ac yn hŷn) a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth (SCA/002a)	61.87 (2,510 o gleientiaid)	67.30	57.92 (2405 o gleientiaid)	Wedi gwella 105 o gleientiaid yn llai

Pam mae'r mesurau allweddol hyn yn bwysig

Ystyr oedi cyn trosglwyddo gofal (*SCA/001*) yw lle bo cleifion yn barod i ddychwelyd adref o'r ysbyty neu drosglwyddo i ffurf arall o ofal ond yn cael eu hatal rhag gwneud hynny am nifer o resymau. Gall hyn gael effaith niweidiol ar eu hiechyd a'u lles. Gall oedi tymor hir gael effaith sylweddol ar allu unigolyn i fod yn annibynnol unwaith eto a chael effaith negyddol ar ei les meddyliol.

Mae tîm amlddisgyblaeth yn gweithio yn y ddau ysbyty cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin er mwyn gwella'r cysylltiadau rhwng y sector aciwt a'r gymuned. Maent yn datblygu modelau sy'n helpu i osgoi derbyniadau a lleihau hyd arosiadau mewn ysbytai, gan wella lles pobl hŷn y mae cael eu derbyn i'r ysbyty yn gallu cael canlyniadau negyddol iddynt.

Mae gwasanaeth gofal cartref Ymateb Cyflym wedi cael ei sefydlu i ymateb yn syth er mwyn atal derbyniadau i'r ysbyty, helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, a hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn gynnar.

Mae'r tabl Mesur Llwyddiant Allweddol uchod yn dangos ein bod yn cefnogi mwy o bobl yn y gymuned o gymharu â'r llynedd. (*SCA/002a*) Mae'r mesur statudol hwn yn disgwyl bod cynifer o bobl hŷn â phosibl yn cael cymorth i fyw gartref. Fodd bynnag, rydym am hyrwyddo byw'n annibynnol a nod ein hystod arloesol o wasanaethau yw helpu pobl drwy wasanaethau yn y gymuned. Dengys ymchwil genedlaethol fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn dda iawn yn y gorffennol o ran gwneud i bobl fod yn ddibynnol, er bod hyn yn groes i'r hyn roedd y rhan fwyaf o bobl eisiau. Ein cyfeiriad strategol yw lleihau'r niferoedd rydym yn eu cynnal yn y gymuned.

Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Fel rhan o'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, sy'n ceisio alinio gwaith cynghorau lleol yn strategol â'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, ac, yn arbennig, y pum nod blaenoriaeth (*Cymunedau sy'n Cynorthwyo'r Oedrannus; Atal Cwmpo; Cymunedau sy'n Cefnogi Dementia; Cyfleoedd ar gyfer Dysgu a Chyflogaeth; ac Unigrwydd a bod yn Ynysig*), rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Lleol yn ystod 2015/16 yn amlinellu sut y bydd yn cyfrannu at y nodau crynodol hyn gyda'i bartneriaid.

Mae pob un o'r pum nod blaenoriaeth yn cynnwys tri amcan cyflawnadwy, ac rydym wedi cynnal arolwg o'n Fforwm 50+ i gasglu eu barn.

"Cael fy mharchu fel rhywun hŷn, heb gael fy ystyried yn faich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol leol"

Beth sy'n gweithio

Mae gennym ystod o ddewisiadau cymunedol i helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol wrth heneiddio

"Roedd hi'n effeithlon iawn yn y modd yr aeth i'r afael â'r amgylchiadau."

(Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol)

"Roedd y gofal a gafodd yn wych, ac roedd y staff i gyd wedi rhagori ar fy nisgwyladau o ran eu consyrn, eu cefnogaeth, a'u proffesiynoldeb. Roedden nhw wedi ymdrin â'i dirywiad a'i marwolaeth gydag urddas a thosturi, a hefyd roedden nhw wedi gofalu amdanaf i a'm merch. Gallaf ond diolch iddyn nhw o waelod fy nghalon."

(Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Gofalwyr Mewnol)

"Darparwyd Cymorth Gwych gan y Tîm Ailalluogi"

"Rhagorol....Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd gan y gofalwyr yn garedig ac yn feddylgar iawn"

Y Llynedd

Cyflawnwyd 14 o'n 15 ymrwymiad KIOP y llynedd

Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd rydym wedi pennu targedau heriol ar gyfer pob un o'n Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella. Adlewyrchir hyn yn y perfformiad a amlinellir isod.

Ymrwymiadau'r Llynedd		Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn cynnal Achrediad Allanol Blynyddol yn y Gwasanaeth Llinell Gofal (11618)	✓	Mae'r gwasanaeth Llinell Gofal wedi cyrraedd y safonau Achrediad Allanol Blynyddol ar gyfer 2015/16.
Byddwn yn cynyddu nifer y cleientiaid sy'n oedolion (347 o gleientiaid) a gaiff daliad uniongyrchol gan yr Adran Gofal Cymdeithasol i'w galluogi i sicrhau ffynhonnell ar gyfer eu gofal eu hunain yn annibynnol (9.2.5.7)	✓	Rydym wedi cynyddu nifer y cleientiaid sy'n cael taliad uniongyrchol o 331 i 360 yn 2015/16 i'w galluogi i sicrhau ffynhonnell ar gyfer eu gofal eu hunain yn annibynnol.
Byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygiad tai gofal ychwanegol newydd Caerfyrddin, sef y cam nesaf yn ein Rhaglen Fuddsoddi Gofal Ychwanegol/Gofal Preswyl, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Teulu. (10842)	✓	Mae'r prosiect hwn wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac mae Cartref Cynnes yn Nhref Ioan yn llawn. Hefyd bydd datblygiad Tŷ Dyffryn yn Rhydaman yn agor ddechrau 2016/17. Mae'r datblygiad hwn wedi'i ddylunio i helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth drwy ddarparu fflatiau 1 a 2 ystafell wely hunangynhaliol gan ddarparu ar gyfer pobl â gwahanol anghenion.
Byddwn yn lleihau'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr mae'n cymryd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002) (Targed - 235 o ddiwrnodau)	✓	Rydym wedi llwyddo i leihau'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau i 232 o ddiwrnodau yn sgil y system garlam (Achosion Blaenoriaeth Uchel), sydd yn ei dro wedi dylanwadu ar welliant.
Byddwn yn lleihau'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr rhwng cyswllt cychwynnol ar gyfer addasiad a chael asesiad Therapydd Galwedigaethol ar gyfer pob math o Ddeiliadaeth (7.3.1.10) (Targed - 91 o ddiwrnodau)	✗	Mae ein canlyniad ar gyfer 2015/16, sef 98 o ddiwrnodau yn is na'r targed. Mae galw uchel o hyd am asesiadau Therapydd Galwedigaethol. Cafodd pob achos blaenoriaeth uchel ei dargedu'n gyntaf, ac mae achosion blaenoriaeth is yn cael sylw'n awr, ac mae'r amser y mae'r rhain wedi bod yn aros wedi cael effaith ar y perfformiad cyffredinol.
Byddwn yn lleihau cyfradd y bobl hŷn (+ 65 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal (SCA/002b) (Targed 19.59 - 831 o gleientiaid)	✓	Mae cyfradd y bobl hŷn (+65 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal wedi lleihau i 18.74 o 20.48 y llynedd. Mae hyn yn golygu yr oeddem yn cefnogi 778 o gleientiaid ar ddiwedd 2015/16, sef 53 o gleientiaid yn llai. Helpu pobl i aros yn eu cartrefi yw'r dewis cyntaf a ystyrir o hyd ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal.
Cyfradd y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n 65 oed neu'n hŷn. Byddwn yn ceisio lleihau dibyniaeth ddiangen trwy roi help i bobl fod yn annibynnol trwy wasanaethau megis y gwasanaeth 'Ailalluogi' ac ati. (SCA/002a) (Targed 58.93 fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+ oed / 2500 o gleientiaid)	✓	Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sicrhau bod nifer y bobl a gefnogir yn y gymuned 105 yn llai. (57.92 fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+ oed / cyfanswm o 2,405 o gleientiaid)
Byddwn yn cynyddu canran y cleientiaid sydd ag anghenion iechyd meddwl a gefnogir yn y gymuned (9.2.5.4) (Targed 80.13% / 242 o gleientiaid)	✓	Rydym wedi cynyddu canran y cleientiaid iechyd meddwl a gefnogir yn y gymuned i 85.24% (283 o gleientiaid) ar ddiwedd 2015/16
Byddwn yn lleihau'r gyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed y mae oedi cyn trosglwyddo gofal yn effeithio arnynt am resymau gofal cymdeithasol (SCA/001) (5.77 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ / 110 o gleientiaid)	✓	Mae nifer y bobl y mae oedi cyn trosglwyddo gofal yn effeithio arnynt am resymau gofal cymdeithasol 26 o gleientiaid yn llai (4.69 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed / 87 o gleientiaid)
Byddwn yn cynyddu canran y cleientiaid sydd ag anableddau dysgu a gefnogir yn y gymuned	✓	Rydym wedi cynyddu canran y cleientiaid anabledd dysgu a gefnogir yn y gymuned i 87.94% (569 o gleientiaid) ar ddiwedd

(9.2.5.1) (87.76% / 559 o gleientiaid)		2015/16
Byddwn yn ceisio cael nifer uchel o ymwelwyr unigryw â gwefan newydd well gofal cymdeithasol i oedolion (11159) (35,700)	✓	Gwnaethpwyd 39,807 o ymweliadau unigol â thudalennau o 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016.
Byddwn yn parhau i gynyddu niferoedd y cleientiaid sy'n cael adolygiadau yn y Gwasanaeth i Oedolion (11660)	✓	Rydym wedi cynyddu nifer yr adolygiadau a gwblhawyd ar gyfer 15/16 (2,867) o gymharu â 14/15 (2,518) +349 o adolygiadau (29 o adolygiadau ychwanegol y mis).
Byddwn yn datblygu Gweledigaeth 10 Mlynedd i Bobl Hŷn ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a gefnogir gan gynllun gweithredu er mwyn ei rhoi ar waith (11657)	✓	Cymeradwyodd y Cyngor y Weledigaeth a'r Strategaeth 10 mlynedd ym mis Hydref 2015. Mae rhaglen waith fanwl wedi cychwyn er mwyn gweithredu'r strategaeth.
Byddwn yn datblygu, yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, Gynllun Heneiddio'n Dda ar gyfer Sir Gaerfyrddin, wedi'i seilio ar bum thema graidd:- 1. Unigrwydd a bod yn ynysig, 2. Cyfleoedd ar gyfer Cyflogaeth a sgiliau newydd, 3. Atal cwmpo, 4. Cymunedau sy'n Cefnogi Dementia, 5. Cymunedau sy'n Cynorthwyo'r Oedrannus(11659)	✓	Yn dilyn ymgynghoriad (950 o ymatebion), rydym wedi datblygu Cynllun Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2016. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod camau o fewn cynlluniau busnes 2016-17 yr Awdurdod.
Byddwn yn adolygu modelau gofal a chymorth o fewn y Gwasanaethau Cartref h.y. Ymateb Cyflym ac Ailalluogi (11658)	✓	Mae'r gwasanaethau Ymateb Cyflym ac Ailalluogi yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd

Oes unrhyw un ar ei ennill?

- *Roedd y Cyngor a Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar y cyd wedi ennill gwobr Gwelliant ac Effeithlonrwydd (Trawsnewid mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol) ar gyfer y prosiect "Rhyddhau Amser i Ofalu". Mae'r prosiect yn darparu model newydd o ofal cartref sy'n gwella ansawdd bywyd trigolion agored i niwed gan sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy'n ariannol ar yr un pryd.*
- *Mae'r fenter Gweithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei chydabod gan Lywodraeth Cymru fel 'Esiampl Bevan' ac mae'n cael ei hyrwyddo ledled Cymru fel esiampl o ofal darbodus rhagorol ar waith.*
- *Yng Ngwobrau Gorau Iechyd Hywel Dda, enillodd y Gwasanaeth Cyngori a Chydgysylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal (TOCALs) wobwr yn y categori "Gwella Iechyd a Lles" a Gwobr y Prif Weithredwr. Cafodd Clinig Cof Cymunedol Aman/Gwendraeth ganmoliaeth uchel yn y categori "Gweithio mewn Partneriaeth".*
- *Roedd y Clinig Cof Cymunedol yn Llandybie hefyd wedi cael canmoliaeth uchel yng ngwobrau'r Bwrdd Iechyd, yn eu categori 'Gwella Profiad y Cwsmer'. Mae cefnogi 'gofal yn nes at gartref' yn amcan allweddol i ddarparu'r iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu cymorth a chynghor i bobl â dementia a'u teuluoedd yng nghymuned Llandybie.*

Gwneud pethau'n wahanol mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Bu Stephen Moore, sydd newydd ei benodi'n Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn ymweld â'r Timau Adnoddau Cymunedol, Ysbytai Cymunedol ac unedau ymadfer Llys-y-Bryn. Dywedodd, "Mae graddfa'r integreiddio sydd wedi digwydd yn Sir Gaerfyrddin wedi gwneud argraff fawr arnaf - roedd yn amhosibl dweud y gwahaniaeth rhwng staff iechyd a staff gofal cymdeithasol."

Astudiaeth Achos

Mae Mrs J yn 87 oed ac mae'n byw ar ei phen ei hun. Mae ei merch yn byw'n lleol ac yn ei helpu â'i siopa a'i bancio. Fe gwmpodd Mrs J pan oedd ei merch ar wyliau, ac aethpwyd â hi i'r Adran Achosion Brys gan fod ei phen-glin dde wedi chwyddo. Er nad oedd niwed i'r esgyrn, yn sgil anhawster symud, cafodd Mrs J ei derbyn i'r ysbyty hyd nes y gellid gwneud trefniadau am gymorth

gofal cymdeithasol dros dro. Ar y ward, roedd y nyrsys yn arsylwi ac yn cofnodi bod Mrs J yn cael pyliau o ddryswch a cholli cyswllt â'r amgylchedd ac er ei bod hi, ar adegau, yn cydymffurfio â'r gofal nyrsio, roedd hefyd rai achlysuron lle roedd hi'n gwrthod unrhyw gymorth ac yn dangos ymddygiad heriol ac anodd. Yn ogystal, roedd Mrs J yn methu ag ymatal rhag gwlychu a baeddu. Awgrymwyd mai Lleoliad Preswyl i'r Henoed Llesg eu Meddwl fyddai'n diwallu anghenion Mrs J orau. Gofynnwyd i ferch Mrs J am wybodaeth gyfochrog a nododd fod statws corfforol a synhwyraidd ei mam cyn iddi fynd i'r ysbyty yn sylweddol wahanol i'r ffordd yr oedd hi'n ymddwyn ar y ward. Cynhaliwyd asesiad clinigol gan ddefnyddio offeryn 'Dull Asesu Dryswch' a ddilyswyd a chafwyd canlyniad cadarnhaol a oedd yn dangos deliriwm. Ystyriwyd yr achosion am y newid sydyn yn statws meddyliol Mrs J a chafodd driniaeth wrthfotig drwy wythien a'i hannog i symud pan oedd yn gallu. Cafodd Mrs J fynd adref a darparwyd ychydig o gymorth gan y gwasanaeth ailalluogi.

Mae geiriad y KIOP hon wedi newid ychydig ar gyfer 2016/17 yn unol â'n dogfen – Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf 2015-2025



Hyrwyddo Annibyniaeth a Lles ar gyfer Pobl Hŷn

Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Beth byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant	2016/17 Targed
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai 6 mis yn ddiweddarach (SCA/20a)	Gwaelodlin Dangosydd Perfformiad newydd i'w gadarnhau
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd heb becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach (SCA/20b)	Gwaelodlin Dangosydd Perfformiad newydd i'w gadarnhau
Lleiau'r amser cyfartalog y mae pobl hŷn (sy'n 65 neu'n hŷn) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl (SCA/21)	Gwaelodlin Dangosydd Perfformiad newydd i'w gadarnhau
Y gyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed y mae oedi cyn trosglwyddo gofal yn effeithio arnynt am resymau gofal cymdeithasol (SCA/001now SCA/19) (Gwaelodlin 2015/16 – Cyfradd 4.69 - 87 o gleientiaid)	4.51
Nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002) (Gwaelodlin 2015/16 – 232 o ddiwrnodau)	220 o ddiwrnodau
Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr rhwng cyswllt cychwynol ar gyfer addasiad a chael asesiad Therapydd Galwedigaethol ar gyfer pob math o Ddeiliadaeth (7.3.1.10) (Gwaelodlin 2015/16 – 98 o ddiwrnodau)	91 o ddiwrnodau
Byddwn yn datblygu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cadarn ac effeithlon (12050)	Mawrth 17
Byddwn yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag adolygiadau sydd heb eu cwblhau a cheisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. (12051)	Mawrth 17
Byddwn yn cynnal asesiad poblogaeth ar lefel leol i'w ddefnyddio at ddibenion asesiad anghenion poblogaeth a chynllunio gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol newydd. (12052)	Mawrth 17
Byddwn yn moderneiddio ein gweithlu i gefnogi gweithredu'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r amcanion a amlinellwyd yng 'Ngweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf' a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. (12053)	Mawrth 17
Byddwn yn cymryd camau ymlaen o ran y Cynllun Darparu ar gyfer Heneiddio'n Dda yng Nghymru a byddwn yn sicrhau ein bod yn cysylltu â chynlluniau eraill y Cyngor a chyda phartneriaid perthnasol eraill. (12054)	Mawrth 17

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mrs A Gwella Trefniadau o ran Rhyddhau o'r Ysbyty

Cafodd Mrs A ei derbyn i'r ysbyty drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan fod ei hiechyd wedi dirywio'n gyffredinol a chan ei bod yn ddryslyd. Pan oedd hi ar y ward, mynegodd y staff a gŵr defnyddiwr y gwasanaeth bryderon fod iechyd a symudedd Mrs A wedi dirywio yn y misoedd cyn iddi gael ei derbyn i'r ysbyty, gan arwain at edema a briwiau ar y ddwy goes. Roedd Nyrsys Ardal wedi bod yn ymweld â hi'n ddyddiol. Gan nad oedd yn gallu gofalu am ei hun, arweiniodd hynny at broblemau hyfywedd meinwe, a gwnaethpwyd pethau'n waeth gan fod Mrs A yn cysgu ar gadair ogyddol am y 12 mis diwethaf. Pan gafodd ei derbyn i'r ysbyty, nid oedd Mrs A yn gallu cynnal ei phwysau, ac felly defnyddiwyd teclyn codi bob tro roedd angen ei symud.

Ymyriad Ymateb Cyflym

Er i staff yr ysbyty roi cymorth therapiwtig a nyrsio sylweddol, y pecyn cymorth ar gyfer mynd adref oedd ymweliad gan 2 Weithiwr Cymorth Cartref bedair gwaith y dydd er mwyn helpu â gofal personol, gwisgo, dadwisgo, mynd i'r toiled a symud

Y Canlyniad

Cefnogwyd gŵr Mrs A trwy sicrhau bod anghenion maethiad ei wraig wedi'u diwallu trwy ddarparu prydu, byrbrydu a diodydd. Yn ystod yr wythnosau cyntaf, gweithiodd y staff Ymateb Cyflym yn agos gyda Mr a Mrs A. Cafodd cynnydd ei wneud a chafodd y pecyn gofal ei leihau o bedwar ymweliad y dydd i ddau ymweliad y dydd. Yn dilyn cael ei throsglwyddo i'r gwasanaeth Ailalluogi, cafodd cynnydd parhaus ei wneud o ran symudedd Mrs A a dim ond un gofalwr oedd ei angen ddwywaith y dydd i helpu â gofal personol.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn clustnodi cryfderau ac adnoddau o fewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles eu poblogaeth. (12055)
2. Byddwn yn comisiynu'n effeithiol ymyriadau ac asesiad tymor byr i fwyhau deilliannau annibyniaeth a lles ar gyfer ein poblogaeth. (12056)
3. Byddwn yn cymryd camau o fewn cynllun Bwrdd Gweithredu Dementia Sir Gaerfyrddin ar draws meysydd iechyd a chymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. (12057)
4. Byddwn yn cynnal nifer isel y diwrnodau calendr (8 diwrnod) sy'n cael eu cymryd, ar gyfartaledd, i gyflawni gwaith addasu cost isel mewn preswylfeydd preifat lle nad yw proses y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cael ei defnyddio - (PSR/006)

Nod: C5 Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Ar y cyfan, rydym wedi gwella ansawdd stoc dai y Cyngor trwy gyflawni ein Safon Tai Sir Gaerfyrddin sy'n werth £200 miliwn. Rydym wedi cynyddu nifer yr eiddo gwag sydd bellach yn cael eu haildefnyddio ac wedi cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sydd i'w prynu ac sydd ar rent. Hefyd mae ein dewisiadau tai newydd a'n gwasanaeth cynghori wedi helpu i leihau i'r graddau mwyaf posibl nifer y bobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Rydym wedi sicrhau bod 100% o'n tai Cyngor wedi rhagori ar Safon Ansawdd Tai Cymru yn achos tenantiaid a gytunodd i gael y gwaith wedi'i wneud. (7.5.2.19)
- ✓ Rydym wedi sicrhau bod yr holl gartrefi fforddiadwy newydd a gyllidwyd drwy'r Grant Tai Cymdeithasol wedi bodloni Côt Cartrefi Fforddiadwy lefel 3+ (7.3.2.26)
- ✓ Drwy gydol y flwyddyn mae cyngor ynni wedi cael ei roi mewn mwy na 40 o ddigwyddiadau ar ffurfiau gwahanol yn cynnwys sioeau teithiol cyhoeddus, sgysiau â chlybiau a grwpiau, ymgyrchoedd postio a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- ✓ Rydym wedi lleihau nifer y teuluoedd digartref sy'n gorfod treulio amser mewn llety gwely a brechwast i ddau deulu ar gyfer 2015/16. (7.3.2.18a)

Rydym wedi darparu'r rhaglen i wella stoc dai y Cyngor ac rydym yn parhau i gynyddu mynediad i fwy o gartrefi sydd ar rent a chartrefi fforddiadwy er mwyn cefnogi anghenion pobl leol.

Yn 2006 dechreuodd y Cyngor ar ei raglen uchelgeisiol i gyflawni'r hyn a elwid ar y pryd yn Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2015. Rydym wedi llwyddo i gyflawni'r rhaglen ar amser, mewn cartrefi lle mae tenantiaid wedi cytuno i gael gwaith wedi'i wneud.

Rydym wedi parhau i ehangu ein Hasiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol ac wedi ychwanegu 12 eiddo ychwanegol yn ystod 2015/16. Rydym wedi sicrhau bod 153 eiddo gwag ychwanegol yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor fel cartrefi teuluol y mae dirfawr eu hangen.

Hefyd rydym wedi darparu gyda'n partneriaid 185 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol, sy'n cynnwys 111 o fflatiau gofal ychwanegol yng Nghartref Cynnes yng Nghaerfyrddin ac yn Nhŷ Dyffryn yn Rhydaman.

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2014/15 Canlyniad	2015/16 Canlyniad	Cynnydd
% y cartrefi sy'n bodloni Safon Tai Sir Gaerfyrddin (7.5.2.7)	88.20%	100%	Wedi ei gwblhau
% y preswylfeydd yn y sector preifat fu'n wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill a ailfeddianwyd yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol (PSR/004)	5.45% (135/2479)	5.73% (153/2671)	Wedi gwella
Nifer yr eiddo newydd ychwanegol a reolwyd gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol (7.3.2.25)	11 Eiddo Ychwanegol	12 Eiddo Ychwanegol	Wedi gwella

Erbyn diwedd 2015, roeddem wedi cwblhau Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer yr holl gartrefi a oedd yn dymuno i waith gael ei wneud.

	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Safon Tai Sir Gaerfyrddin /Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)	6%	7%	8%	8%	9%	37%	52%	70%	88%	😊
Toeau ac Elfennau Cysylltiol	100%	😊	😊	😊	😊	😊	😊	😊	😊	😊
Ffenestri a Drysau	58%	65%	74%	86%	95%	100%	😊	😊	😊	😊
Atigau	0	0	19%	67%	89%	100%	😊	😊	😊	😊
Ceudod	44%	53%	77%	78%	96%	100%	😊	😊	😊	😊
Synwryddion Mwg Gwifrog	37%	38%	51%	57%	63%	74%	80%	86%	90%	😊
Systemau Trydanol	28%	28%	36%	44%	53%	65%	74%	81%	90%	😊
Gwres Canolog Llawn	73%	78%	79%	83%	86%	91%	94%	95%	97%	😊

Gwres Canolog Effeithlon o ran Ynni	3%	6%	8%	22%	30%	52%	64%	76%	88%	😊
Ceginau	7%	7%	12%	20%	29%	46%	58%	71%	88%	😊
Ystafelloedd ymolchi	7%	7%	12%	24%	34%	52%	64%	74%	88%	😊
Goleuadau Diogelwch	10%	10%	16%	26%	36%	48%	63%	74%	88%	😊
Synwryddion CO	10%	10%	16%	26%	36%	53%	64%	74%	88%	😊
Socedi Trydan	4%	7%	14%	24%	35%	51%	63%	74%	88%	😊
Sgôr Ynni (SAP >65)	22%	30%	40%	55%	60%	67%	68%	69%	85%	😊

Pam y mae hyn yn bwysig

Cartref diogel, cynnes, fforddiadwy sy'n cael ei gynnal a'i gadw ac sy'n diwallu anghenion pob un sy'n byw ynddo yn ffactor iechyd allweddol. Hefyd mae'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer adeiladu cymunedau cynhwysol. Felly byddwn yn parhau i gynnal ein cartrefi a'u gwella yn y dyfodol drwy Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy. Yn ogystal rydym wedi ceisio cynyddu nifer yr eiddo gwag sydd bellach yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor fel cartrefi teuluol ac wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn gwneud hyn er mwyn mwylhau ein hadnoddau. Mae ein Hasiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yn gam pwysig er mwyn i bobl allu cael mynediad i lety sydd ar rent, yr ydym ni yn eu rheoli ar ran landlordiaid lleol.

Ym mis Ebrill 2015, gadawodd y Cyngor System Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, yr oedd tenantiaid y Cyngor yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn noddï Trysorlys Ei Mawrhydi drwyddo ers blyneddau lawer. Gan ein bod wedi gadael System Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, mae hynny'n golygu bod gennym fwy o adnoddau i'w buddsoddi mewn creu cartrefi fforddiadwy ychwanegol ar rent yn Sir Gaerfyrddin. Bydd ein [Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy](#) yn darparu dros 1000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros y 5 mlynedd nesaf.

Sut rydym yn cymharu ag eraill

Rydym yn cydnabod bod eiddo gwag yn wastraff adnoddau tai ond hefyd eu bod yn cael effaith ehangach ar sylwedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ein cymunedau megis denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau gwerth eiddo cyfagos, a chostio cymaint â £9,000 - £11,000 y flwyddyn i'r perchenogion.

Roeddem wedi sicrhau bod 153 eiddo yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor yn ystod 2015/16. Roedd gwelliant o ran ein perfformiad yn 2014/15, sef 135 eiddo. Fel y gellir gweld yn y tabl isod, gan Sir Gaerfyrddin yr oedd y nifer 6ed uchaf o ran aildefnyddio eiddo gwag yn ystod 2014/15.

Fodd bynnag, rydym am wneud yn well a'r llynedd cwblhawyd Adolygiad Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor Craffu Cymunedau gennym o'r Eiddo Gwag yn y Sector Preifat. Lluniwyd rhestr o argymhellion ynghylch sut y mae datblygu ein hymagwedd at ymdrin yn llwyddiannus â'r heriau sy'n codi yn sgil eiddo gwag.

Awdurdod Lleol - canlyniadau ar gyfer 2014/15	Cartrefi Gwag yn ôl mewn ddefnydd	Nifer y cartrefi gwag	% Cartrefi Gwag yn ôl mewn ddefnydd
Castell-nedd Port Talbot	1,153	1,681	68.59
Tor-faen	165	292	56.51
Sir Ddinbych	142	641	22.15
Abertawe	456	2,101	21.70
Bro Morgannwg	175	994	17.61
Wrecsam	43	250	17.20
Ynys Môn	109	829	13.15
Sir Fynwy	64	623	10.27
Caerdydd	91	1,391	6.54
Pen-y-bont ar Ogwr	76	1,172	6.48
Gwynedd	68	1,193	5.70
Merthyr Tudful	36	651	5.53
Sir Gaerfyrddin	135	2,479	5.45
Caerffili	42	932	4.51
Blaenau Gwent	21	540	3.89
Sir y Fflint	30	774	3.88
Sir Ceredigion	27	747	3.61
Rhondda Cynon Taf	114	3,381	3.37
Casnewydd	42	1,250	3.36
Conwy	42	1,569	2.68
Sir Benfro	30	1,240	2.42
Powys	28	1,530	1.83
Cymru	3,089	26,260	11.76

Y gobaith yw y bydd y camau hyn, ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith, yn gwella rhagor ar ein perfformiad o ran ailddedfnyddio eiddo gwag fel cartrefi i deuluoedd y mae dirfawr eu hangen.

Mae llawer o awdurdodau a chymdeithasau tai heb gwblhau [Safon Ansawdd Tai Cymru](#). Rydym wedi cwblhau Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar amser, fel y cytunwyd gyda'n tenantiaid a'n Haelodau.

Y Llynedd

Cyflawnwyd 18 o'n 18 ymrwymiad KIOP y llynedd

Ymrwymiadau'r Llynedd		Sylw ar Gynnydd
Er mwyn cwblhau 100% o holl elfennau Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn 3.1.12.15 (ac eithrio methiannau derbyniol) byddwn yn cwblhau'r saith elfen hyn.. Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi tenantiaid sydd â.... systemau gwres canolog sy'n defnyddio tanwydd yn effeithlon (125), ceginau (225), ystafelloedd ymolchi (175), synwryddion carbon monocsid (200), goleuadau diogelwch allanol (200), pwyntiau pŵer ychwanegol (200) a synwryddion mwg gwifredig (125)(11649-11655)	✓	Mae'r holl elfennau hyn wedi cael eu cwblhau ac mae'r rhaglen uchelgeisiol i gyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2015 wedi cael ei darparu ar amser mewn cartrefi lle mae'r tenantiaid wedi cytuno bod gwaith yn cael ei wneud.
Byddwn yn buddsoddi hyd at £300,000 er mwyn sicrhau bod prosiectau'r Cynllun Amgylcheddol Lleol yn cael eu rhoi ar waith mewn cymunedau (11643)	✓	Mae £300,000 o'r gyllideb wedi cael ei ymrwymo ar 58 o brosiectau gwahanol. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys dymchwel a gwaredu garejis a oedd yn anniogel ac a oedd yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ystadau. Gwella ac ymestyn y ddarpariaeth parcio ceir ar ystadau. Gwella lleiniau gwyrdd cymunol ar ystadau a hybu perchenogaeth gan y gymuned. Gwella lonydd, ffiniau safleoedd, ac arwyddion ar ystadau.
Byddwn yn gwerthuso'r effaith y mae prosiectau'r Cynllun Amgylcheddol Lleol wedi ei chael ar gymunedau lleol lle bo prosiect wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. (11162)	✓	Mae 58 prosiect wedi eu cwblhau. Mae prosiectau wedi canolbwyntio ar helpu tenantiaid i deimlo'n ddiogel, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella gwedd yr ardal a gwella iechyd a lles. Mae'r tenantiaid hynny sydd wedi cwblhau a dychwelyd y ffurflenni gwerthuso yn gwbl fodlon.
Byddwn yn cynyddu % y cartrefi Awdurdod Lleol sydd wedi cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin fel % o Stoc Dai'r Awdurdod Lleol (7.5.2.7) (Targed 100%)	✓	Mae'r rhaglen uchelgeisiol i gyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2015 wedi cael ei chwblhau .
Byddwn yn cynnal lefel boddhad uchel o 87% o leiaf yn achos y prosesau Atgyweirio a Chynnal a Chadw, ar sail adborth cwsmeriaid(11642)	✓	O achos pwysau staffio mae wedi bod yn anodd clustnodi adnoddau digonol i gyflawni'r broses ymgysylltu hon yn llawn gyda thenantiaid yn ystod 2015/16, sydd wedi golygu mai bach yw'r nifer a arolygwyd. Er gwaethaf hyn, dengys y canlyniad bod lefelau uchel o foddhad yn cael eu cyrraedd yn gyson.
Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy yn y sir (11662) (152 o gartrefi)	✓	Rydym wedi darparu, mewn partneriaeth, 185 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn y sir yn ystod 2015/16. Datblygiadau Grant Tai Cymdeithasol oedd yn bennaf gyfrifol am y ffigur hwn, ynghyd â nifer gyfyngedig o dai a adbrynwyd yn y sector preifat a chyfraniadau gan ddatblygwyr. Roedd y ffigur yn uwch na'r arfer yn sgil dau gynllun gofal ychwanegol mwy o faint yng Nghaerfyrddin a Rhydaman gyda 110 o gartrefi.

Byddwn yn datblygu Cynllun Tai Fforddiadwy: <i>Eich Cartrefi. Eich Dyfodol – Cyrraedd y Nod gyda'n Gilydd</i> , sy'n cynnwys ymgynghoriad cynhwysfawr â thrigolion Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn ein helpu i gynyddu'r cyflenwad o eiddo fforddiadwy yn y sir (11663)	✓	Datblygwyd Cynllun Ymrwymiad Tai Fforddiadwy 2015-20 ar ôl ymgynghori helaeth â'r cyhoedd - mwy nag 800 o ymatebion a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 9/9/15. Cytunwyd ar y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy, a fydd yn lleihau'r bwlch rhwng nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen a'r cyflenwad, gan y Cyngor Llawn ar 10fed Mawrth, 2016
Byddwn yn cynyddu nifer y preswylfeydd sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis a ddychwelir i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. (PSR/004) (Targed 5.24%, 140 eiddo)	✓	Mae 5.73% o'r eiddo a fu'n wag o'r blaen wedi cael eu dychwelyd i feddiannaeth yn ystod 2014/15, sy'n cyfateb i 153 eiddo. Mae hwn yn welliant da a'n nifer uchaf hyd yn hyn.
Byddwn yn mynd i'r afael ag argymhellion gan Adolygiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau o Eiddo Gwag yn y Sector Preifat, sydd wedi'u hanelu at wella'r gwasanaeth yn y dyfodol. (11664)	✓	Rydym wedi datblygu ac yn y broses o lunio cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael ag argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen
Byddwn yn cynnal nifer isel y diwrnodau calendr sy'n cael eu cymryd, ar gyfartaledd, i gyflawni gwaith addasu cost isel mewn preswylfeydd preifat lle nad yw proses y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cael ei defnyddio - (PSR/006) (Targed 8 diwrnod)	✓	Rydym wedi cynnal, ar gyfartaledd, 8 diwrnod i gyflawni addasiadau cost isel.
Byddwn yn cynyddu rhagor ar bortffolio eiddo ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol gydag eiddo ychwanegol newydd (7.3.2.25) (12 eiddo ychwanegol)	✓	Cafodd 12 eiddo ychwanegol eu hychwanegu at bortffolio'r asiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol yn ystod 2015/16.
Byddwn yn cynnal Astudiaeth Effaith ar Iechyd i werthuso'r effaith y mae Safonau Tai Sir Gaerfyrddin wedi ei chael ar ein tenantiaid (11656)	✓	Cafodd yr arolwg diwethaf o denantiaid ei gynnal yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2016 a'r disgwyl oedd y byddai'r canlyniadau'n dod i law ym mis Mehefin/Gorffennaf 2016. Dilynir hyn gan yr astudiaeth academiaidd sylweddol ar iechyd tenantiaid (dadansoddi union ddata iechyd dros gyfnod rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin) sydd i fod i gael ei chyflwyno erbyn tymor yr hydref 2016

Oes unrhyw un ar ei ennill?

"Mae adborth cadarnhaol gan denantiaid yn dangos bod 90 y cant yn teimlo bod eu cartref bellach yn diwallu eu hanghenion."

Dyfyniad o [Adroddiad Gwella Blynyddol](#) Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016

Credwn fod rhan hanfodol gan ansawdd tai o ran gwella iechyd a lles ein cymunedau. I'n helpu i ddeall hyn yn well, rydym wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr o Brifysgolion Caerdydd ac Abertawe am y 5 mlynedd diwethaf i sefydlu Astudiaeth Effaith ar Iechyd.

Yn ystod 5 mlynedd yr astudiaeth, mae tenantiaid eiddo y gwnaed gwelliannau llawn iddynt wedi rhoi gwybod am lai o broblemau tai na thenantiaid nad oes gwelliannau wedi'u gwneud i'w heiddo a thenantiaid eiddo sydd wedi'u gwella'n rhannol. Daeth canlyniadau'r astudiaeth yn 2014 i'r casgliad:

- Ar y cyfan, mai tenantiaid a oedd yn byw mewn eiddo y gwnaed gwelliannau llawn iddynt a oedd fwyaf bodlon ar yr agwedd thermol.
- Roedd nifer gyfartalog y symptomau anadlol, ar gyfartaledd, y rhoddwyd gwybod

amdanynt wedi lleihau'n sylweddol dros 5 mlynedd yr astudiaeth hon.

- Roedd lleihad yn nifer y triniaethau ar gyfer cyflyrau cardiofasgwlaidd y rhoddwyd gwybod amdanynt, yn enwedig pwysedd gwaed uchel ac angina.

Bydd yr arolwg terfynol yn cael ei gynnal ddechrau 2016 a byddwn yn annog pob tenant i gymryd rhan drwy ystod o fentrau ymwybyddiaeth.

Stori David - Inswleiddio Waliau Allanol yn Llangennech

Mae David a'i deulu wedi cael deunydd inswleiddio allanol wedi'i osod yn ei gartref. Mae'r gwaith, sydd yn rhan o Safon Tai Sir Gaerfyrddin, wedi'i ddylunio i wella effeithlonrwydd ynni ei gartref a lleihau costau gwresogi.

Caiff deunydd inswleiddio waliau allanol ei osod ar ochr allanol cartrefi sydd heb waliau ceudod, neu nad ydynt yn addas ar gyfer inswleiddio waliau ceudod

Yn ôl David
"Mae fy nghartref yn
fwy cynnes o lawer ers
i'r gwaith gael ei
wneud. Hefyd mae
wedi gwneud
gwahaniaeth mawr i
wedd y stad".

Mae pwyslais y KIOP wedi newid i adleisio cwblhau rhaglen wella stoc dai y Cyngor (Safon Tai Sir Gaerfyrddin) a'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg difrifol mewn cartrefi ar rent a chartrefi fforddiadwy ar draws y sir.



Dywed ein hasesiad o anghenion wrthym, er mwyn ateb y galw uchaf am dai, y byddai'n rhaid inni ddarparu o leiaf 2,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol erbyn 2020, sef cyfartaledd o 400 y flwyddyn.

Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein gweledigaeth 5 mlynedd [Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy](#) er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin. Diben y cynllun hwn yw egluro sut y byddwn yn darparu mwy na **1,000** o dai fforddiadwy ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf, sef cyfanswm buddsoddiad o fwy na **£60 miliwn**. Hefyd byddwn yn egluro sut y gallwn bron ddyblu nifer y tai ychwanegol drwy ddatblygu dewisiadau darparu ar gyfer cynlluniau adeiladu newydd.

- Cynyddu'r llety sydd ar rent
- Cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy
- Adeiladu tai newydd
- Ailddefnyddio tai gwag

Mesurau Llwyddiant Allweddol	Canlyniad 2014/15	Canlyniad 2015/16	Cynnydd
Tai fforddiadwy ychwanegol yn y sir (7.3.2.24)	48	185	Wedi gwella

Pam y mae hyn yn bwysig


Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Rydym yn gwybod nad yw'r tai hyn ar gael yn achos llawer o leoedd a llawer o bobl. O ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2015 gwnaethom gyhoeddi [Ein Hymrwymiad i Dai Fforddiadwy](#). Bydd y cynllun hwn yn helpu i unioni'r sefyllfa annerbyniol hon.

Er mai ar dai sydd ar rent fydd y pwyslais, byddwn hefyd yn cydnabod uchelgeisiau a dyheadau ein cymunedau. Felly byddwn hefyd yn galluogi ac yn darparu perchentyaeth cost isel lle mae'n briodol gwneud hynny.

Roedd datblygu ein cynllun tai fforddiadwy yn adlewyrchu ymarfer ymgynghori sylweddol gyda'r cyhoedd a'r sefydliadau partner, a wnaeth bara hyd at ddiwedd mis Mai 2015. Cafwyd bron 800 o ymatebion ac mae'r rhain wedi llunio meysydd blaenoriaeth y cynllun a amlinellir isod:

"Mae'r Cyngor yn ateb yr her enfawr sy'n ei wynebu drwy geisio cau'r bwlch rhwng y galw am gartrefi fforddiadwy a nifer y cartrefi sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd."

Dyfyniad o [Adroddiad Gwella Blyneddol](#) Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16 a avhoeddwd ym mis Mawrth 2016



Bod angen am gartrefi llai eu maint, sef tai ar rent a thai i bobl leol yn bennaf. Roeddech am inni wneud y defnydd mwyaf posibl o gartrefi presennol, yn enwedig defnyddio tai gwag unwaith eto.

Rydym wedi datblygu cynllun tai fforddiadwy sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ac sy'n pennu sut y byddwn yn darparu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros y 5 mlynedd nesaf, gan fuddsoddi mwy na £60 miliwn.

Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Mae [Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy](#) yn pennu ein gweledigaeth 5 mlynedd i gynyddu'r cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin, wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:


- ❖ Targedu cymorth lle mae ei angen fwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig, trwy ddarparu tai mwy fforddiadwy i'w rhentu
- ❖ Bod yn fwy hyblyg – boed trwy sicrhau bod tai adfeiliedig yn cael eu defnyddio, prynu tai presennol neu adeiladu rhai newydd.
- ❖ Gwneud beth bynnag sydd ei angen trwy ddatblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o ddarparu rhagor
- ❖ Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau posibl trwy sicrhau cynifer o dai newydd â phosibl
- ❖ Defnyddio arbenigedd, sgiliau ac adnoddau'r rhai sy'n gweithio gyda ni

Dengys y tabl isod ein darpariaeth tai fforddiadwy dros y pum mlynedd nesaf

Darparu Tai Fforddiadwy	Nifer y tai (amcangyfrif)	Ffynhonnell Gyllid	Buddsoddiad Cyfrif Refeniw Tai (£ miliynau)	Cyfanswm buddsoddiad (£ miliynau)
Rheoli tai yn y sector preifat (yn cynnwys yr Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol)	242	Cyfrif Refeniw Tai	1.1	1.1
Defnyddio tai gwag unwaith yn rhagor	280	Cronfa "Troï Tai'n Gartrefi"	4.0	5.6

		LIC /Cyfrif Refeniw Tai		
Prynu tai sy'n bodoli eisoes yn y sector preifat	187	Cyfrif Refeniw Tai	20.2	20.2
Datblygiad Cymdeithas Dai – cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt	59	Y Grant Tai Cymdeithasol		0.5 ²
Datblygiad Cymdeithas Dai – blaenoriaethau'r dyfodol				
Ardaloedd Gwledig	6	Y Grant Tai Cymdeithasol	0.1	1.0
Mentrau adfywio	43			5.3
Grant heb ei Ddyrannu	77			10.3
Caffael Tir ac Adeiladau Newydd y Cyngor Adeiladau Newydd: Rhydaman a Dyffryn Aman, Llanelli a'r Cylch Caffael Tir Caerfyrddin a'r Gorllewin Trefi Gwledig a Threfi Marchnad Sir Gaerfyrddin	45	Cyfrif Refeniw Tai	5.6	5.6
Cyfraniad datblygwyr at dai yn yr ardal ³	88	Cyllid Preifat		11.0
Cyfanswm	1027*		£31.0	£60.6

*Serch hynny, mae'r asesiad o anghenion a gynhaliwyd yn nodi bod angen inni ddarparu 2,000 o dai fforddiadwy dros 5 mlynedd i ateb y galw uchaf am dai, sef cyfartaledd o 400 o dai flwyddyn. Rydym wedi pennu targed uchelgeisiol o ddarparu 1027 dros yr un cyfnod, sy'n gynydd sylweddol ar gyfartaledd y tai fforddiadwy yr ydym wedi gallu eu darparu yn y gorfennol (70 y flwyddyn). Byddwn yn cynyddu'r ffigur hwn i 200 y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf ac rydym yn edrych yn barhaus am ffynonellau cyllid newydd er mwyn gallu darparu cynifer o dai fforddiadwy â phosibl drwy ddefnyddio adnoddau presennol.



Beth byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant	2016/17 Targed
Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y sir drwy ddarparu blwyddyn gyntaf y cynllun tai fforddiadwy (7.3.2.24)	160 o dai ychwanegol
Byddwn yn cynyddu % y tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn (PLA/006b)	30%
Byddwn yn comisiynu ymchwil er mwyn gwella ein dealltwriaeth o anghenion o ran tai mewn ardaloedd gwledig. (12058)	Mawrth 2017

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Stori Len – Rhyngrwyd ddi-wifr mewn tai gwarchod

Yn 2015, gosodwyd rhyngrwyd ddi-wifr mewn lolfeydd cymunol yn ein cynlluniau tai gwarchod.

Len o Gapel Hendre yw un o'r tenantiaid sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Dywedodd:

"Mae cael mynediad i'r rhyngrwyd ddi-wifr yn golygu fy mod yn gallu defnyddio fy llechen gartref. Mae sawl un ohonon ni yma yn ei defnyddio. Rwy'n gobeithio bod tenantiaid eraill yn dechrau gweld y manteision ac o bosibl yn defnyddio'r rhyngrwyd i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a pherthnasau, a hyd yn oed dechrau ei defnyddio i siopa".

Gwelliannau eraill ar gyfer 2016/17


1. Byddwn yn darparu cymorth a chyfarwyddyd i'r rheiny sy'n gadael gofal plant lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn atal digartrefedd (SCC/35)
2. Byddwn yn cwblhau'r Astudiaeth Effaith ar Iechyd, gan edrych ar union iechyd tenantiaid, yn ystod cyfnod buddsoddiad Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn ystod 2016 (11656)
3. Byddwn yn cynyddu canran y preswylfeydd sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis a ddychwelir i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol o 5.73% (153 eiddo) i 6% (160 eiddo) (PSR/004)
4. Byddwn yn bwrw ymlaen â Chynllun Gweithredu Eiddo Gwag y Sector Preifat 2016, a ddeilliodd o Adolygiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac argymhellion sydd wedi'u hanelu at wella'r gwasanaeth yn y dyfodol. (12059)
5. Byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo ychwanegol newydd a reolir gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol o 12 i 24. (7.3.2.25)

Nod: C6 Gwella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau agored i niwed

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Rydym yn gweithio i wella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau agored i niwed gyda'n partneriaid. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn eu hardal leol, roedd 53% yn cytuno.

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15- Sut mae ein canlyniadau'n cymharu â'r 22 Cyngor arall yng Nghymru

Safle canlyniadau	Y canlyniadau gwaethaf yng Nghymru											Y canlyniadau gorau yng Nghymru										
	22	21	20	19	18	17	16	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1
Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn fy ardal leol	43%										53%											61%
	Canlyniad bodlonrwydd Sir Gaerfyrddin oedd 53% – y canlyniad 12fed orau yng Nghymru																					

Cafodd y newidiadau i'n strwythur rheoli eu cydnabod yn [Adroddiad Aseu Corfforaethol](#) Swyddfa Archwilio Cymru 2015:

"Mae cylchoedd gwaith diwygiedig y cyfarwyddiaethau'n ysgogi gostyngiad cadarnhaol mewn seilos mewnol, gan ddod â gwasanaethau ynghyd. Enghraifft dda o hyn yw'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau, sydd bellach yn cynnwys Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Diogelu'r Cyhoedd a Thai a Hamdden a Chwaraeon. Mae cydleoli penaethiaid gwasanaeth hefyd yn esgor ar fanteision ychwanegol, ac yn amlygu effaith newidiadau yn un rhan o'r gyfarwyddiaeth ar y rhannau eraill."

Mae'r AGGCC yn cydnabod ein hymrwymiad i wasanaethau atal yn ei [Hadroddiad Gwerthuso Perfformiad](#) (2014/15):

"Mae'r cyngor yn parhau i adeiladu a datblygu ei strategaethau ataliol, ac wrth ymweld â'r gwasanaethau hyn, cadarnhawyd bod trefniadau effeithiol ac arloesol ar waith, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy".

"Mae'r cyngor yn sicrhau bod twf a datblygiad yn ei wasanaethau ataliol er mwyn sicrhau nad yw ymyrraeth statudol yn digwydd ond pan fo angen."

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Mae cynnydd parhaus wedi bod eleni o ran datblygu'r **gwasanaeth Pontio** ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Mae gwaith wedi'i wneud gan yr Uned Pobl a Gwaith er mwyn llunio datganiad sefyllfa'r farchnad ranbarthol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n cynnwys rhai sydd ag anabledau. Rydym yn ailsefydlu fforwm i ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd, yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, awdurdodau cyfagos, y trydydd sector, y sector annibynnol a theuluoedd i adolygu ein bwriadau comisiynu a'n strategaeth Bontio yn y flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn hynod bwysig o ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Rydym wedi cynnal adolygiad o'n gweithgarwch gyda'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus. Mae'r adolygiad wedi dod i gasgliad ynghylch a yw ein systemau a'n prosesau yn ein helpu i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau i blant anabl a'u teuluoedd. Bydd yr adolygiad yn llywio'r modd rydym yn cynllunio busnes ar gyfer y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael beth sydd ei angen arnynt, a hynny pan fo'i angen arnynt. Mae ymgynghori â theuluoedd a rhanddeiliaid eraill yn digwydd fel rhan o'r broses hon.

Er nad oes dim cyfleoedd cyllid Ewropeaidd newydd ar gael ar hyn o bryd i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed, mae'r rhaglen '**LEADER**' wedi cael ei lansio ac ymchwilir i gyfleoedd i ddatblygu gofal plant fforddiadwy ymhellach yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â bylchau a glustnodwyd yn ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae rhaglen LEADER yn cael ei chyllido drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru (2014-20) ac yn cael ei llunio i sicrhau bod pobl, busnesau a chymunedau lleol yn ymwneud â darparu atebion cynaliadwy ond arloesol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu ardaloedd gwledig.

Mae grwpiau llywio a rhanddeiliaid Anhwylder Sbectrwm Awtistig wedi parhau i gwrdd drwy gydol 2015/16. Mae cynllun gweithredu interim wedi cael ei ddatblygu ac rydym wedi bod yn ei roi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei Strategaeth Cymru Gyfan ddiwygiedig, yr ymgynghorir yn ei chylch ar hyn o bryd. Pan fydd y ddogfen wedi ei chwblhau byddwn yn datblygu cynllun gweithredu lleol i roi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar waith. Wrth ddisgwyl am strategaeth Llywodraeth Cymru, mae llawer iawn o waith wedi parhau yn Sir Gaerfyrddin i gynyddu ymwybyddiaeth, cynnig gwybodaeth a chymorth, a datblygu gwasanaethau. Mae Sir Gaerfyrddin yn dal i fod yn aelod o fforwm Arwain ar Anhwylder

Sbectrwm Awtistig Cymru Gyfan, ac mae rôl allweddol wedi bod gan y sir o ran helpu i ddatblygu mentrau a hyrwyddo'r agenda yn lleol ac yn genedlaethol.

- ✓ Mae un pwynt mynediad Sir Gaerfyrddin i wasanaethau sef 'Llinell Gofal' yn cael ei ailddylunio ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben, yn ddiogel, ac yn gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fo'r angen yn y pwynt cyswllt cyntaf. Mae Llinell Gofal yn darparu llinell arbennig a gwasanaeth monitro Teleofal i oddeutu 30,000 o bobl ar draws De-orllewin Cymru, yn ogystal â darparu gwasanaeth derbyn atgyfeiriadau a gwasanaeth darparu gwybodaeth i bobl Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei wella er mwyn sicrhau amserau ymateb diogel ac er mwyn helpu'r staff i allu bod yn gyson yn eu hymagwedd at wasanaethau.
- ✓ Yn ystod 2015/16, llwyddom i drosglwyddo'r Gronfa Byw'n Annibynnol i Grant Byw'n Annibynnol Cymru heb fod unrhyw darfu ar y gwasanaeth. Mae 147 o unigolion sydd ag anabledd dysgu yn cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru, ac mae cyfanswm o £3.1 miliwn wedi ei roi i gyd.
- ✓ Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd arall y gall unigolion gael mynediad i amrywiaeth o gyfleoedd i fod yn annibynnol drwy allu dewis pwy sy'n darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Yn 2015/16, cafodd 138 o gleientiaid daliadau uniongyrchol (cynnydd o 7 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).
- ✓ Rydym wedi datblygu offeryn rheoli perfformiad fel y gallwn wirio pa mor dda yr ydym yn darparu'r 'cynnig gweithredol', h.y. rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd rydym yn helpu staff i wella eu sgiliau Cymraeg drwy gyfleoedd dysgu a datblygu uniongyrchol, a thrwy ymgysylltu â hyrwyddwyr yr iaith Gymraeg yn eu timau eu hunain.
- ✓ Rydym wedi datblygu 'Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf'. Mae'r strategaeth hon yn amlygu'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran y sefyllfa ddemograffig bresennol ac yn y dyfodol, ac mae'n pennu cynllun ar gyfer darparu gwasanaethau mwy cynaliadwy dros y degawd nesaf.
- ✓ Mae Strategaeth y Mesur Gofalwyr yn dal i gael ei chyflwyno ar draws y rhanbarth. (11714)
- ✓ Rydym wedi gallu cynnal Achrediad Allanol Blyneddol yn y Gwasanaeth Llinell Gofal i sicrhau gwasanaeth o ansawdd da sydd o safon y diwydiant i gwsmeriaid.
- ✓ Rydym wedi gallu datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer gwasanaethau i bobl sydd â dementia, a chymorth i'w gofalwyr gyda Bwrdd Gweithredu Dementia Sir Gaerfyrddin.

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

"Mae'n wych beth mae cael pobl i ymddiried ynddoch yn gallu ei wneud. Gallaf gael fy mywyd yn ôl nawr. Ni allaf feddwl am anrheg well." (Y Gwasanaeth Camddeffnyddio Sylweddu)

- ✗ Er ein bod wedi gallu cynyddu % y cleientiaid â chynlluniau gofal a adolygwyd yn ystod y flwyddyn o 71.92% i 74.72%, nid ydym wedi cyrraedd ein targed o 80% (SCA/007)

- ✓ Rydym wedi cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eleni i 100% o'n gofaluwr sy'n gofalu am oedolion. (SCA/018a)
- ✓ Rydym wedi gallu lleihau dibyniaeth ddiangen drwy ddarparu cymorth i bobl fod yn annibynnol drwy wasanaethau megis y gwasanaeth "Ailalluogi" ac ati, o 83.05% i 79.49% (SCA/020)
- ✓ Rydym wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr unigryw â gwefan newydd well gofal cymdeithasol i oedolion, sef cyfanswm o 39,807.
- ✓ Mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Teulu, rydym wedi gwneud cynnydd o ran datblygiad tai gofal ychwanegol newydd Argel ac mae rhywun yn byw yn y fflatiau i gyd.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Gweithredol' ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. (12061)
2. Byddwn yn datblygu strategaeth bontio amlasiantaeth a'i gweithredu mewn partneriaeth â phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. (12062)
3. Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl yn cael cymorth i gael cyfleoedd gwaith, addysg, hyfforddiant a hamdden. (12063)
4. Byddwn yn cynnal adolygiad o'n gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ac yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. (12064)
5. Byddwn yn datblygu achos busnes dros ymestyn darpariaeth arbenigol ar safle Garreglwyd i blant a phobl ifanc ag Anhwylder Sbectrum Awstistig. (12065)

Nod: C7 Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Mae'r Tîm **Camddefnyddio Sylweddau** yn dal i weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd a darparwyr y trydydd sector, yn ogystal â'r gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r pwyslais ar yr achosion hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, ac mae'r tîm yn darparu cyngor a chymorth proffesiynol i dimau gwaith cymdeithasol eraill. Rydym yn dal i gydgyssylltu'r safle amlasiantaeth yn Llanelli ar ran ein partneriaid. Mae'r newid fu eleni yn y trefniadau comisiynu ar gyfer camddefnyddio sylweddau wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau, ac rydym wedi sicrhau bod gennym gynrychiolwyr ar y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol bellach.

Rydym wedi adolygu'r trefniadau Pontio i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Erbyn hyn mae'r tîm Pontio yn ymdrin â'r holl ymholiadau gan y gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal lefel briodol o sgrinio a chyfeirio ymlaen. Rydym yn dal i ddatblygu trefniadau ar gyfer gofal integredig i blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaethau arbenigol i bobl dan 18 oed wedi'u lleoli yn awr yn Uned 3 yn Llanelli. Maent wedi eu lleoli gyda'n gwasanaethau eiriolaeth a llety â chymorth lleol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â Throseddu Ieuencid, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, a'r trydydd sector i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn. Eleni rydym wedi gwneud gwaith gyda Phennaeth yr Unedau Cyfeirio Disgyblion mewn ymateb i gynnydd mewn camddefnyddio sylweddau gan ddisgyblion sy'n mynd i'r unedau, gan sicrhau ymagwedd gyfannol.

Rydym wedi cynnal cynllun peilot gyda'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd, lle bu uwchymarferdydd ar gyfer y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd yn gweithio gyda'r ddau dîm, gan gynnal achosion rhieni â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Mae llawer o fanteision wedi

bod gan yr ymagwedd hon, ac mae'r timau bellach yn sgrinio'r holl achosion ar y cyd er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth priodol. Roedd cyd-leoli a rhannu arferion rhwng timau yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol gan staff, a bydd dewisiadau ar gyfer trefniadau rhwng y timau yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Eleni mae ein gwasanaethau (trydydd sector) camddefnyddio sylweddau i oedolion gan y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol wedi cael eu hailgomisiynu. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar weithgarwch ein tîm camddefnyddio sylweddau wrth i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith.
- ✓ Mae'r tîm yn ymdrin â'r holl ymholiadau gan y gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal lefel briodol o sgrinio a chyfeirio ymlaen ar gyfer achosion.
- ✓ Rydym wedi datblygu trefniadau ar gyfer gofal integredig i blant a phobl ifanc.
- ✓ Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith gyda Phennaeth yr **Unedau Cyfeirio Disgyblion**. Ymateb yw hwn i'r cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau ymysg disgyblion sy'n mynd i'r unedau. Mae hyn wedi sicrhau bod gennym ymagwedd gyfannol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a bod y staff a'r rhieni'n teimlo eu bod yn gallu ymdrin â'r broblem.
- ✓ Rydym wedi cynnal cynllun peilot gyda'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. Bu uwchymarferedd ar gyfer y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd yn gweithio gyda'r ddau dîm, gan gynnwys achosion rhieni â phroblemau camddefnyddio sylweddau.
- ✓ Rydym yn dal i fynychu cyfarfodydd trais domestig y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar ran y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac rydym wedi cael ein canmol am ein gwaith yn y maes hwn.
- ✓ Gwrthododd 100% o'r safleoedd werthu alcohol i gwsmeriaid dan oedran yn ystod prawf-bryniad. Roedd hwn yn gynnydd o 6% o gymharu â 94% ar gyfer y llynedd.
- ✓ Yn 2015/16, cafodd y Tîm Camddefnyddio Sylweddau 177 o atgyfeiriadau, y maent i gyd wedi eu dyrannu ac roedd 3 o'r atgyfeiriadau ar gyfer plant dan 18 oed.
- ✓ Yn ystod y flwyddyn, aeth 4 o bobl ar leoliad adfer preswyl Haen 4.
- ✗ Mae effaith defnyddio sylweddau ar oedolion â phroblemau iechyd meddwl yn faes y bydd yn rhaid inni ganolbwyntio mwy arno yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn a'r rheiny â Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol.

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Roedd menyw yn eu 30au wedi bod yn ymwneud â'r tîm camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd yn ôl i ddechrau, ond y tro hwn nid oedd wedi bod yn cael triniaeth ers 2012. Ar ddechrau ei chyfnod gyda'r tîm, roedd hi'n yfed seidr cryf yn ddibynnol ac yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon eraill, ac ar y pryd rhoddodd radd o 5 allan o 20 am ansawdd ei bywyd. Roedd pryderon ynghylch cam-drin domestig, ei gorffennol trawmatig, a'i lles meddyliol.

Cynigiwyd cymorth yn y gymuned iddi a chafodd wasanaethau megis cwnsela, cymorth hyblyg, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, a chymorth camddefnyddio sylweddau haen 2. Yn anffodus, nid oedd ei sefyllfa wedi gwella ac arweiniodd hyn at dderbyniadau i'r ysbyty. Ar ôl cyfnod arall o fewnbwn, a oedd yn cynnwys cwnsela a drefnwyd drwy wasanaethau camddefnyddio sylweddau, cafodd gefnogaeth gan ei gweithiwr cymdeithasol i ystyried adsefydlu preswyl fel dewis. Gan weithio gyda'r tîm iechyd, bu i'r gweithiwr cymdeithasol glustnodi a sicrhau mynediad i leoliad menywod yn unig.

Fe wnaeth gynnydd da iawn yn ystod ei rhaglen 12 wythnos; roedd yn aelod cadarnhaol o'r gymuned adsefydlu ac fe fanteisiodd i'r eithaf ar y gwasanaethau oedd ar gael.

Pan ddychwelodd i Sir Gaerfyrddin, llwyddodd i beidio â chamddefnyddio sylweddau ac mae'n rheoli ei

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn parhau i gynnal rhaglen o brawf-brynu er mwyn sicrhau bod safleoedd yn gwrthod gwerthu i gwsmeriaid o dan oed (7.4.3.5)
2. Byddwn yn gwerthuso ac yn gweithredu dewisiadau i integreiddio'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau a'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. (12066)
3. Byddwn yn adolygu'r trefniadau pontio ar gyfer pobl ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, er mwyn sicrhau bod hwylustod wrth iddynt symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion. (12067)
4. Byddwn yn adolygu effaith defnyddio sylweddau ar oedolion â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn a'r rheiny â Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol. (12068)

Canlyniad D - Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon. Rydym am wella canlyniadau ar gyfer pobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes

Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

- D1 - Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb
- D2 - Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb
- D3 - Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant
- D4 - Datblygu cymdeithas gynhwysol
- D5 - Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOP) yw:

- Gwella cyrhaeddiad dysgwyr
- Lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Gwell cyrhaeddiad mewn addysg	✓
Gwell cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion	✓
Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Blwyddyn 11 ✗
	Blwyddyn 13 ✓
Ysgolion mewn gwell cyflwr	✓

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 15/16 / Y Gwelliant sydd wedi'i Drefnu ar gyfer 16/17:

Nod: D1 Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb



Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cyflawnodd ein disgyblion ysgol eu canlyniadau arholiadau TGAU gorau erioed, sef 61.1% o gymharu â Dangosydd Lefel 2 Allweddol Cynhwysol (pasio o leiaf 5 TGAU gradd A* i C yn cynnwys mathemateg ac iaith) gydag asesiadau athrawon ar bob cyfnod allweddol arall mewn addysg yn gwella ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill.

Cafodd y Gwasanaethau Plant adolygiad da iawn arall gan AGGCC. Pleser yn wir oedd cael sylwadau AGGCC sef "o ran perfformiad gwasanaethau plant, mae'r Cyngor yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru."

O fewn ein Rhaglen Moderneiddio Addysg, cwblhawyd prosiectau datblygu ysgolion sylweddol yn Ysgol Bro Dinefwr, ac Ysgol Dyffryn Aman, rhan o'r gwaith i drawsnewid addysg uwchradd yn ardal Dinefwr, ac yn Ysgol Gynradd Porth Tywyn, ac Ysgol Carreg Hirfaen, gyda miloedd o blant ar eu hennill.

Catgoreiddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru:



- ✓ Ar 77%, mae dros dri chwarter o'n hysgolion bellach mewn **ategori Gwyrdd neu Felyn**, 8% yn uwch na 2014-15.
- ✓ Mae cyfran yr **ysgolion Gwyrdd** yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu 2% o gymharu â 2014-2015. (11661)

Roedd yr adolygiadau gan Estyn yn gadarnhaol iawn, ac Ysgol Gynradd Brynman oedd yr ysgol gyntaf yng Nghymru i gael y farn 'Rhagorol' yn y barnau cyffredinol, pob un o'r tri chwestiwn allweddol a phob un o'r deg dangosydd ansawdd.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried gwella cyrhaeddiad dysgwyr yn KIOP ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, oherwydd y mae'n hanfodol i ddatblygu addysg yn y sir. Yn ystod seminar diweddar i'r Aelodau ym mis Ebrill 2016, nodwyd bod hon yn brif flaenoriaeth gan yr Aelodau sydd wedi'i chysylltu'n agos ag adfywio. Roedd yr aelodau am sicrhau bod buddsoddi yn parhau i ddatblygu ein hanghenion addysgol ymhellach.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)
Gwella cyrhaeddiad dysgwyr

Yr Awdurdod yn llwyddo i gael y cyrhaeddiad dysgwyr gorau erioed

Cyrhaeddiad dysgwyr gorau erioed

Mae addysg yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau pennaf y Cyngor, gan arfogi ein pobl ifanc â'r sgiliau a'r cymwysterau a fydd yn eu galluogi i sicrhau swyddi cyflog da yn y dyfodol. Rydym am i Sir Gaerfyrddin fod yn gymuned lle mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr gyflawni eu potensial addysgol llawn. Rydym yn parhau i gyflawni gwelliant yn y mesurau isod.

Mesur Llwyddiant Allweddol	Blwyddyn Academaidd 2012/13	Blwyddyn Academaidd 2013/14	Blwyddyn Academaidd 2014/15			Blwyddyn Academaidd 2015/16
	Canlyniad au	Canlyniad	Targed	Canlyniad	Cynnydd	Targed
% y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg (EDU/017)	53.9%	58.7%	61.1%	61.1%	Wedi gwella	61.6%

- ✓ Mae ein canlyniad ar gyfer 2014/15 (blwyddyn academaidd) 4% yn well na chanlyniad y flwyddyn flaenorol, ac yn dangos ein llwyddiant gorau hyn yn hyn o ran y dangosydd allweddol hwn. Mae mynd y tu hwnt i'r 'trothwy 60%' yn llwyddiant rhagorol. Mae'n dangos yn glir ymdrechion ein hysgolion a'n swyddogion ar y cyd sydd wedi canolbwyntio ar godi safonau.
- ✓ Mae'r canlyniad yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r 7^{fed} uchaf yng Nghymru.

Pam y mae hyn yn bwysig

Mae % y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg yn cael ei hystyried fel y mesur allweddol o gyflawniad ar ddiwedd addysg orfodol. Fodd bynnag, ni fydd dangosydd Lefel 2 cynhwysol yn cael ei ystyried yn ddangosydd perfformiad allweddol yn 2017 pan fydd y 'Mesur 9 wedi'i gapio' yn dod i rym.

Yn ogystal â'r mesur allweddol hwn, mae hefyd angen i ni wella'r mesurau cyrhaeddiad canlynol...

Dangosyddion Perfformiad	Blwyddyn Academaidd 11/12	Blwyddyn Academaidd 12/13	Blwyddyn Academaidd 13/14	Blwyddyn Academaidd 14/15	Cyfartaledd Cymru 2014/15	Sylwadau	Blwyddyn Academaidd 2014/15
% y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 yn cyflawni iaith, mathemateg a datblygiad personol) (5.0.2.9)	80.0	81.6	84.1	86.8	86.8	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac mae'r canlyniad yr un lefel â chyfartaledd Cymru.	87.3
% y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylidig disgyblion Blwyddyn 6 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/003)(OAG)	83.9	85.4	87.4	88.2	87.7	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r dangosydd pynciau craidd yn CA2 yn parhau i wella ac mae ar ei lefel uchaf erioed.	88.7
% disgyblion CA3 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylidig disgyblion Blwyddyn 9 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/004)(OAG)	74.3	77.1	84.5	85.1	83.9	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r canlyniadau yn CA3 yn parhau i wella ac maent ar eu uchaf erioed.	85.6
% y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor, gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol (Lefel 2) (5.0.2.2)(OAG)	69.5	78.0	84.7	87.0	84.1	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru a hwn yw'n canlyniad gorau erioed.	87.5
Cymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim							
% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf a mathemateg (5.0.3.1)	amherthn asol	29.3	28.9	33.7	31.6	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac mae'r canlyniad yn uwch na chyfartaledd Cymru.	34.2

GWELER ADRODDIAD PERFFORMIAD A CHYFLAWNIAD YSGOLIION AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2014/15


- ✓ Wedi gwella'n llwyddiannus berfformiad disgyblion **sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim** ledled bron bob un o'r Cyfnodau Allweddol. Mae'r llwyddiant yn adlewyrchu effaith y gwaith a wnaed mewn partneriaeth gan ganolbwyntio'n uniongyrchol ar gyrhaeddiad uwch ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed. Mae defnydd effeithiol o gyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n cynnwys ystod o strategaethau ac ymriadau penodol yn sail i'r llwyddiant hwn. *(Cam Gweithredu 11699, mesur 5.0.3.1)*

Sut rydym ni'n cymharu ag eraill

Mae 22 o Gynghorau yng Nghymru a gellir cymharu cynnydd Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:-

Tabl er mwyn cymharu canlyniadau yn erbyn mesurau allweddol

Y 41 o fesurau a gyhoeddwyd gan bob cyngor yng Nghymru, ein canlyniadau ar gyfer 2015/16 a os a ydynt wedi gwella ar 2014/15		Sut mae ein canlyniadau rheng o'i gymharu â 21 awdurdod yng Nghymru ac os mae newid yn ein sefyllfa																					
Mae'r canlyniad am 2015/16 a'r newid	Ein canlyniad am 2015/16 a'r newid	22ain	21ain	20fed	19eg	18fed	17eg	16eg	15fed	14eg	13eg	12fed	11eg	10fed	9fed	8fed	7fed	6ed	5ed	4ydd	3ydd	2il	1af
		Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau										
		Mae'r saethau yn dechrau â ein sefyllfa 2013/4 at ein sefyllfa 2014/15																					
% disgyblion a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 (EDU/017)	61.1	↑	2.4																				
% y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 yn cyflawni iaith, mathemateg a datblygiad personol) (5.0.2.9)	86.8	↑	2.7																				
% Disgyblion sy'n cyrraedd DPC Cyfnod Allweddol 2 (EDU/003)	88.2	↑	0.8																				
% Disgyblion sy'n cyrraedd DPC Cyfnod Allweddol 3 (EDU/004)	85.1	↑	0.6																				
% y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor, gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol (Lefel 2)(5.0.2.2)	87.0	↑	2.3																				



Mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gwella ar gyfer Dangosydd Lefel 2, Lefel 2 cynhwysol a'r Cyfnod Sylfaen. Er bod ein tuedd ar i fyny yn parhau o ran canlyniadau ar gyfer Dangosyddion CA2 a CA3, mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gostwng. Nid oedd y 'naid' i fyny ar gyfer pob un o'r dangosyddion hyn mor amlwg â'r blynyddoedd blaenorol.

Sut ydym yn cymharu yng Nghymru o ran canlyniadau a chost fesul disgybl

Roedd dau Awdurdod wedi cael gwell canlyniadau gyda chyllideb debyg, sef Gwynedd a Sir Fynwy, dwy sir wledig iawn gyda llai o ddisgyblion, dim canolfannau

trefol, a llai o garfannau sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd dau Awdurdod wedi cael gwell canlyniadau ar gyllideb is; Abertawe a Bro Morgannwg, dwy sir sy'n fach yn ddaearyddol ac yn drefol a chyda llai o faterion trafniadaeth.

Cyflawnwyd 20 o'n 28 ymrwymiad KIOP y llynedd

Ymrwymiadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
Parhau i gyflawni ein Rhaglen Moderneiddio Addysg / Cynllun Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif	
Byddwn yn cynyddu nifer y lleoedd gwag a gafodd eu dileu o ganlyniad i ad-drefnu Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif Sir Gaerfyrddin o 46 i 394 (4.3.1.7)	✓ Cafodd 394 o leoedd gwag eu dileu fel a ganlyn: Cafodd 1120 o leoedd eu dileu, Llanfynydd, 41, Llansawel, 60, Ysgol Gynradd Porth Tywyn, 98, Maes y Gwendraeth, 464, Bro Dinefwr, 313, Dyffryn Aman, 144, fodd bynnag cafwyd cynnydd o 726, Ffwrnes, 329, Strade, 397.
Byddwn yn cynyddu % yr ysgolion a raddiwyd fel rhai "Da" (Categori A) neu "Boddhaol" (Categori B) o ran cyflwr adeilad yr ysgol o 53% i 55% (4.3.1.8)	✓ Mae hyn wedi gwella i 55% o 53% y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn fesur sy'n dangos cynnydd araf oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i wella ac adeiladu ysgolion newydd. Ni fydd ysgolion newydd yn cael eu hagor bob blwyddyn, felly bydd canlyniadau yn cael eu gosod fesul cam wrth i bob prosiect adeiladu ddirwyn i ben.
Byddwn yn cwblhau'r gwaith adeiladu ar Ysgol Gynradd Gymunedol newydd Porth Tywyn (11622)	✓ Cafodd y gwaith adeiladu ei gwblhau ac mae'r disgyblion yn adeilad newydd yr ysgol yn dilyn yr hysbysiad statudol ar 01/09/15.
Byddwn yn cwblhau'r gwaith adeiladu ar Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen (11623)	✓ Cafodd y gwaith adeiladu ei gwblhau ac agorwyd yr ysgol newydd i'r disgyblion ar 23 ^{ain} Chwefror 2016.
Byddwn yn parhau â'r gwaith adeiladu a'r adnewyddu ar safle Ysgol Maes y Gwendraeth (11620)	✓ Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda yn unol â'r amserlen gyda'r nod o'i gwblhau yn barod i'r disgyblion erbyn Medi 2018.
Byddwn yn parhau ac yn cwblhau'r gwaith adeiladu ar Ysgol Uwchradd Bro Dinefwr (dyddiad cwblhau Ionawr 2016) (11621)	✓ Roedd yr Awdurdod wedi cymryd perchenogaeth o adeilad newydd yr ysgol ddydd Llun 22 ^{ain} Chwefror 2016.
Byddwn yn cwblhau'r gwaith adeiladu ar Ysgol y Strade (11624)	✓ Cafodd y gwaith adeiladu ei gwblhau ar amser ac roedd yn barod i'r staff a'r disgyblion ar ddechrau'r tymor academaidd newydd 2015.
Byddwn yn parhau ac yn cwblhau'r gwaith adeiladu yn Ysgol Dyffryn Aman (11625)	✓ Cafodd y Rhaglen Adeiladu ei chwblhau a chynhaliwyd yr Agoriad Swyddogol ddydd Llun 7 ^{fed} Rhagfyr 2015
Byddwn yn dechrau ar y gwaith adeiladu ar gyfer Prosiect Coedcae, yn amodol ar gael cymeradwyaeth achos busnes gan Lywodraeth Cymru (11626)	✓ Mae buddsoddiad o £6.7 miliwn yn cael ei wneud yn Ysgol Coedcae sy'n cynnwys adeilad gwyddoniaeth newydd ac adnewyddu'r adeilad presennol. Mae Cam 1 yn mynd rhagddo'n dda ar y safle gyda gwaith i ddymchwel adeilad ac adeiladu'r bloc gwyddoniaeth newydd eisoes ar waith.
Byddwn yn dechrau'r gwaith adeiladu ar Brosiect Seaside, yn amodol ar gael cymeradwyaeth achos busnes gan Lywodraeth Cymru (11627)	✓ Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo a'r ymgynghoriad statudol wedi'i gwblhau. Dechreuwyd ar y gwaith gan y contractwr ar 22 ^{ain} Chwefror 2016.
Byddwn yn cwblhau'r gwaith ar ddarparu bloc sgiliau adeiladu galwedigaethol yn Ysgol Bryngwyn (11745)	✓ Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda yn unol â'r amserlen a disgwyllir iddo gael ei gwblhau erbyn Awst 2016.
Ein nod yw dechrau ar y gwaith i adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Trimsaran, prosiect gwerth £6.8 miliwn yn amodol ar gael cymeradwyaeth achos busnes gan Lywodraeth Cymru. (11733)	✓ Cafodd yr Achos Busnes Llawn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 29/01/16. Y bwriad yw dechrau ar y gwaith adeiladu ar y safle ym mis Mai 2016.
Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol – Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif	
Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd o 95% - 95.2%	✓ Mae'r canlyniad wedi gwella o 95.0% i 95.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hwn yw canlyniad gorau'r Awdurdod Lleol erioed a'r 5 ^{ed} gorau yng Nghymru.
Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion cynradd o 4.3% i 4.1% (4.1.2.3)	✓ Gwell canlyniad nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, 4.0% o'i gymharu â 4.3% oherwydd gwell ffocws ar bresenoldeb.
Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd o 93.9% i 94.2 (EDU/016b)	✓ Mae'r canlyniad wedi gwella o 93.9% i 94.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hwn yw canlyniad gorau'r Awdurdod Lleol erioed, mae'n uwch na chyfartaledd Cymru a'r 9 ^{fed} gorau yng Nghymru.
Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion uwchradd o 5.6% i 5.3% (4.1.2.2)	✓ Gwell canlyniad nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, 5.1% o'i gymharu â 5.6% oherwydd gwell ffocws ar bresenoldeb.
Asesiadau Athrawon ac Arholiadau	
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion 15 oed sy'n	✓ Mae'r canlyniad wedi gwella o 95.0% i 95.2% o'i gymharu â'r

cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg o 58.7% to 61.1% (EDU/017)	flwyddyn flaenorol. Hwn yw canlyniad gorau'r Awdurdod Lleol erioed a'r 5 ^{ed} gorau yng Nghymru.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 yn cyflawni iaith, mathemateg a datblygiad personol) o 84.1 i 88.7%(5.0.2.9)	! Mae'r canlyniad o 86.8% heb gadw at y targed , ond mae'r perfformiad a gyflawnwyd yn cynrychioli gwelliant o 2.7 pwynt canran ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a chanlyniad gorau'r Awdurdod Lleol hyd yn hyn .
Byddwn yn cynyddu % disgyblion CA2 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylidig disgyblion Blwyddyn 6 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) o 87.4% i 88.7% (EDU/003)	! Mae'r canlyniad o 88.2% heb gadw at y targed ond mae'n parhau i wella , yn uwch na chyfartaledd Cymru ac ar ei lefel uchaf erioed .
Byddwn yn cynyddu % disgyblion CA3 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylidig disgyblion Blwyddyn 9 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) o 84.5% i 86.5% (EDU/004)	! Mae'r canlyniad o 85.1% heb gadw at y targed ond mae'n parhau i wella , yn uwch na chyfartaledd Cymru ac ar ei lefel uchaf erioed .
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol o 84.7% to 87.4% (5.0.2.2)	! Mae canlyniad 87.0% heb gadw at y targed , ond mae wedi gwella 2.3 pwynt canran, mae'n uwch na chyfartaledd Cymru a hwn yw ein canlyniad gorau erioed .
Gweithredu fframwaith cefnogaeth, her ac ymyrraeth rhanbarthol cyson	
Byddwn yn cyflymu datblygiad gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), gan gynnwys ein cyfranogiad yn Hwb y Gorllewin, gyda'r nod o helpu ysgolion i godi safonau) (11640)	✓ Mae datblygiad cychwynnol 'Hwb Gweithio'r Gorllewin' wedi aeddfedu cryn dipyn fel enghraifft ledled amrywiaeth o weithgareddau allweddol a meysydd darpariaeth o ran cefnogi gweithio'n rhanbarthol. Mae'r cydweithio rhwng Timau Gwella Ysgolion Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi cryfhau gyda'r ddau dim yn cyfrannu at ddarpariaeth a pherfformiad ei gilydd mewn ffyrdd gwerthfawr.
Byddwn yn cynyddu nifer yr ysgolion Cynradd ac Uwchradd sy'n rhan o categorïau cymorth gwyrdd a melyn y System Genedlaethol ar gyfer Categorioidio. (Yn 2010/15 roedd 69 ysgol gynradd a 9 ysgol uwchradd yng nghategoriâu cymorth gwyrdd a melyn) (11661)	✓ Mae cyfran yr ysgolion Gwyrdd (System Genedlaethol ar gyfer Categorioidio) yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu 2% o'i chymharu a 2014/15
Gwella deilliannau Arolygiadau Ysgol Estyn	
Byddwn yn sicrhau bod llai o ysgolion yn cael eu rhoi yn y categorïau 'Monitro gan Awdurdod Lleol', 'Monitro gan Estyn' a'r categorïau statudol gan Estyn drwy sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gwella ysgolion yn dynodi ac yn ymyrryd yn gynnar (11641)	✓ Wedi gostwng nifer yr ysgolion sy'n cael eu gosod yng nghategori Estyn ar gyfer Monitro gan Awdurdod Lleol (15% o 16%)
Gostwng gwaharddiadau cyfnod penodol	
Byddwn yn gostwng % y diwrnodau ysgol sy'n cael eu colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion cynradd o 0.008% to 0.007% (EDU/010a)	* Mae'r canlyniad wedi dirywio i 0.015%. Yn anffodus eleni roedd pedair ysgol wedi cael anawsterau difrifol gyda nifer fechan o ddisgyblion gan arwain at gyfradd gwahardd uwch.
Byddwn yn gostwng % y diwrnodau ysgol sy'n cael eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd o 0.039% to 0.037% (EDU/010b)	* Mae'r canlyniad wedi aros yn gyson o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hwn ar lefel isel iawn o ran gwaharddiadau gyda chanlyniadau ymhlith y tri uchaf yng Nghymru am nifer o flynyddoedd.
Datblygu gwerthoedd a sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes	
Byddwn yn cynyddu % y bobl 17 oed a gofrestrodd am gasgliad o gymwysterau sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch a gyrhaeddodd drothwy Lefel 3 (2 Safon Uwch gradd A-E) o 98.6% i 99% (5.0.2.3)	* Mae'r canlyniad wedi gostwng i 98.1% o 98.6% y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd cyfartaledd Cymru hefyd wedi gostwng ac roedd safle'r Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gwella o ran dau safle a bellach mae'n 4 ^{ydd} .
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (canlyniad 2014 91.8%). Gweler y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gael rhagor o wybodaeth. (11628)	* Yn anffodus, cafwyd gostyngiad yn 2015, o 91.8% i 85.25%, fodd bynnag nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros ddewis y disgyblion/rhieni.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae cyrhaeddiad addysg plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys eu gallu i gael cymwysterau da, yn rhoi sylfaen gadarn iddynt er mwyn dilyn addysg a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae pawb yn haeddu cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd. Mae addysg dda o ansawdd uchel yn ffurfio rhan o'r disgwyliad hwnnw. Nid yn unig y mae'n caniatáu i bobl ifanc gael gwybodaeth a sgiliau newydd ond mae hefyd yn ymestyn eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol, a'u galluogi i gymryd rhan lawn a gweithgar ym mywyd y gymuned, ehangu cyfleoedd addysg yn y dyfodol a'u paratoi ar gyfer bywyd gwaith yn yr 21^{ain} ganrif.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd gan holl ddisgyblion ysgol Sir Gaerfyrddin a oedd wedi gadael addysg gymhwyster allanol cymeradwy.

Mae ystadegau gan [StatsCymru](#) yn dangos bod gan 33.6% o oedolion o oedran gweithio yn Sir Gaerfyrddin gymwysterau hyd at Lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn 2015 (32.6% yn 2014). Mae hyn yn welliant cyson wrth gymharu â'n ffigurwr o 22.8% yn 2005, ond rydym yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru sy'n 36.1%.

Mae canran yr Oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau ychydig eto i 11.1% yn 2015 o 11.2% yn 2014.

Sut rydym ni'n bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Yn benodol eleni rydym am wella canlyniadau'r disgyblion hynny sy'n gymwys i dderbyn pryddau ysgol am ddim.

Yr hyn byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant	2016/17 (blwyddyn academaidd 2015/16) Targedau
Parhau i gyflawni ein Rhaglen Moderneiddio Addysg / Cynllun Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif	
Byddwn yn dirwyn i ben Strategaeth Trawsnewid Addysg Uwchradd Dinefwr drwy gwblhau'r buddsoddiad moderneiddio ysgolion yn Ysgol Maes y Gwendraeth, ategu'r buddsoddiadau sylweddol yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Dyffryn Aman a gafodd eu cwblhau yn 2015, gan ddirwyn i ben yr ad-drefnu sylweddol o ran darpariaeth uwchradd yn y rhanbarth a buddsoddiad sy'n werth cyfanswm o £69miliwn. (12069)	Mawrth 17
Byddwn yn buddsoddi tua £19 miliwn mewn gwaith adeiladu sylweddol a phrosiectau moderneiddio ysgolion yn Seaside, Coedcae, Trimsaran, Llangadog a Pharc y Tywyn. (12070)	Mawrth 17
Byddwn yn cynyddu nifer y lleoedd gwag a gafodd eu dileu o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin(4.1.1.7)	141 (2015/16 – 394)
Byddwn yn cynyddu % yr ysgolion a raddiwyd fel rhai "Da" (Categori A) neu "Boddhaol" (Categori B) o ran cyflwr adeilad yr ysgol. (4.3.1.8) Mae hwn yn arolwg hunanwerthuso yn seiliedig ar arolwg a gwblhawyd yn 2010 gan Lywodraeth Cymru ar ran yr Awdurdod. Diffiniad o'r categorïau A – D A - da (dim dirywiad) B - boddhaol (ychydig o ddirywio) C - gwael – (dirywiad sylweddol) D - gwael iawn (wedi cyrraedd diwedd ei oes)	56% (2015/16 – 55%)
Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol – Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif	
Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EDU/016a) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 95.2%)	95.4%
Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion cynradd (4.1.2.3) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 4.0%)	3.9%
Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EDU/016a) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 94.2%)	94.4%
Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion uwchradd(4.1.2.2) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 5.1%)	5.0%

Asesiadau Athrawon ac Arholiadau	
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg (EDU/017) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 61.1%)	61.6%
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 yn cyflawni iaith, mathemateg a datblygiad personol) (5.0.2.9) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 86.8%)	87.3%
Byddwn yn symud argymhellion adroddiad y Cyfnod Sylfaen yn eu blaenau (12071)	31/03/17
Byddwn yn cynyddu % disgyblion CA2 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylledig disgyblion Blwyddyn 6 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/003) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 88.2%)	88.7%
Byddwn yn cynyddu % disgyblion CA3 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylledig disgyblion Blwyddyn 9 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/004) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 85.1%)	85.6%
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol (5.0.2.2) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 87.0%)	87.5%
% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf a Mathemateg (5.0.3.1) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 33.7%)	34.2%
Byddwn yn gwella deilliannau ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog (MATH)(12072)	31/12/16
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (2 Safon Uwch gradd A-E)(5.0.2.3) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 98.1%)	98.6%
Gweithredu fframwaith cefnogaeth, her ac ymyrraeth rhanbarthol cyson	
Byddwn yn gweithio i wella ansawdd arweinyddiaeth a'i effaith ar wella deilliannau ledled y cwricwlwm. (12073)	Mawrth 17
Byddwn yn gwella cyfran yr ysgolion yn y categori Gwyrdd neu Felyn yn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion. (12074)	Mawrth 17
Gwella deilliannau Arolygiadau Ysgol Estyn	
Byddwn yn cynyddu % y Deilliannau Da neu Well o ran Barnau Estyn (12075)	Mawrth 17
Gostwng gwaharddiadau cyfnod penodol	
Byddwn yn gostwng % y diwrnodau ysgol sy'n cael eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol mewn Ysgolion Cynradd (EDU/010a) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 0.015%)	0.013%
Byddwn yn gostwng % y diwrnodau ysgol sy'n cael eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd (EDU/010b) (Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 0.039%)	0.037%
Datblygu gwerthoedd a sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes	
Byddwn yn darparu cyrsiau llythrennedd, rhifedd a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd ddyfodiad i'r Sir (12076)	Mawrth 17

Gwaith allweddol arall ar gyfer y nod hwn

- ✓ **Mae Safonau Rhifedd a Llythrennedd** yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 wedi gwella yn ôl yr hyn a gafodd ei fesur gan yr Asesiadau Athrawon. Cafwyd llwyddiant hefyd o ran dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 a 5. Rydym wedi cynnal ffocws cadarn ar hybu dysgu ac addysgu o ansawdd uchel drwy seminarau arweinyddiaeth, rhaglenni datblygu a gwella cydweithio rhwng ysgolion a'r Awdurdod Lleol/ERW. (11679)
- ✓ **Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol:** Rydym wedi parhau i ddatblygu ein partneriaeth ag ERW wrth roi cymorth i godi safonau ledled ein holl ysgolion. Mae gweithgarwch o'r fath, yn bennaf trwy weithredu Ymweliadau Craidd ERW (cymorth a her), wedi cael effaith dda ar gyrhaeddiad a deilliannau ein dysgwyr. (11640)
- ✓ **Cwricwlwm Cenedlaethol** Dechreuwyd gweithredu argymhellion adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm cenedlaethol yn gwricwlwm lleol bywiog a diddorol(11732)

Presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion: Gweler Nod D3 Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant

Sut ydym ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae disgyblion Ysgol Glan-y-Môr wedi cael llwyddiant ysgubol yn 2015.

- ✓ Mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol o ganlyniadau o ran TGAU/Sgiliau Allweddol/Hanfodol a Chymwysterau Bagloriaeth Cymru
- ✓ Roedd y pymtheg disgybl gorau wedi cael llwyddiant ysgubol trwy sicrhau 100 gradd A* a gradd A.
- ✓ Mae gwelliant y Dangosydd Lefel 2 Allweddol Cynhwysol dros y blynyddoedd diwethaf yn gamp nodedig. Mae'r ysgol wedi dyblu'r mesur perfformiad pwysicaf dros y tair blynedd o 30% yn 2012 i 60%.

Yr hyn ddywedodd y disgyblion.....

"Rwy'n hapus dros ben â'm canlyniadau. Diolch i'r holl staff yn yr ysgol am eu cefnogaeth. Roedden nhw'n wych" **Robbie Williams**
"Rwyf wrth fy modd â'r hyn rwyf wedi'i gyflawni. Diolch i Glan-y-Môr gallaf bellach barhau â fy llwybr gyrfa ddewisedig!" **Tane Davies**
"Roedd yr ysgol yn wych. Rwy'n hapus dros ben. Diolch i bawb yn yr ysgol, rwyf wedi cyflawni popeth roeddwn am ei gyflawni" **Rebecca Roberts**

- ! O ran cwestiwn **Arolwg Cenedlaethol Cymru** 'Beth oedd eu barn am gyflwr addysg yng Nghymru?' cafodd Sir Gaerfyrddin sgôr o 6.6 allan o 10 (y sgôr gyfartalog yng Nghymru). Gofynnwyd i 600 o drigolion ym mhob Cyngor yng Nghymru.

Gwelliannau yn 2016/17

1. Byddwn yn cynyddu % y disgyblion 15/16 oed sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd. Y disgyblion hynny sy'n cyflawni o leiaf radd C mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad o 58.22% i 58.7% (5.0.2.6)
2. Byddwn yn cynyddu sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion a oedd yn 15 oed ar 31 Awst blaenorol o 580.3 to 581.0 (EDU/011)
3. Byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o'r boblogaeth o 6,806 to 7,274 (LCL/001b)
4. Byddwn yn parhau i ddal yr holl ysgolion ac ERW yn gyfrifol am wella safonau a deilliannau ymhellach i ddysgwyr, gan ymyrryd mewn ysgolion lle nad yw'r perfformiad yn foddhaol (12077)
5. Byddwn yn rhoi cymorth i ysgolion, ar y cyd ag ERW, i wella deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion ond gyda phwyslais arbennig ar gynyddu cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. (12078)
6. Byddwn yn parhau i lunio Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr eraill; er mwyn cynnwys datblygiadau polisi cenedlaethol wrth iddynt ddod i'r amlwg; cyrraedd cerrig milltir allweddol yn unol â'r strategaeth ddatblygu Palmantu'r Ffordd gan gynnwys cyhoeddi Datganiad Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin fel cam datblygu dros dro. (12079)
7. Byddwn yn gweithredu'r camau a nodir yn y **Rhaglen Moderneiddio Addysg** ar gyfer 2016/17 o ran
 - Prosiectau Adeiladu, Cynigion Trefniadaeth Ysgolion, Achosion Busnes, Data, Capasiti Ysgol, Ardaloedd Dalgych a Rheoli Ystadau(12080)

Ym mis Rhagfyr 2013 mabwysiadodd y Cyngor [Strategaeth Datblygu Economaidd 2013–2030](#) Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae **gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb** sy'n rhan o'r strategaeth, yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn datblygu economi wybodaeth gynaliadwy sy'n ffynnu gyda chyflogaeth gwerth uchel a fydd yn golygu bod angen gwelliant sylweddol yn lefel ein sgiliau, er mwyn sicrhau y bydd pobl leol yn gallu cynnig y sgiliau a'r arbenigedd sy'n ofynnol ar fusnesau gwybodaeth ddwys.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned


Pwyslais darpariaeth cyrsiau'r Awdurdod o hyd yw datblygiad personol tymor hir dysgwyr er mwyn eu galluogi i symud ymlaen at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae gan y Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned 218 o bobl wedi'u cofrestru ar gyfer tua 19 o gyrsiau. Roedd 281 o ddysgwyr wedi cwblhau 27 o gyrsiau ar ddiwedd Tymor yr Hydref.

Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd yn cynnwys 292 o ddysgwyr unigol sydd wedi cofrestru ar 31 o gyrsiau. Bydd y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled Cymru yn destun newidiadau sylweddol yn ystod 2016-2017, gydag endid newydd ar gyfer Cymru gyfan yn goruchwyllo'r ddarpariaeth, gan ddisodli'r pedair canolfan ranbarthol bresennol.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Rydym wedi cael ein canlyniadau gorau erioed o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Cafwyd gwelliant parhaus dros y 5 mlynedd ddiwethaf:-

Dysgu Oedolion yn y Gymuned



- *Cwblhau*: o blith yr holl weithgareddau dysgu ar y cychwyn, faint gafodd eu cwblhau (Bod y dysgwr dal yno ar ddiwedd y cwrs)?
- *Cyrhaeddiad*: o blith yr holl weithgareddau dysgu a gafodd eu cwblhau, faint o ddysgwyr fu'n llwyddiannus yn ennill y cymhwyster yr oeddent yn astudio ar ei gyfer?
- *Llwyddiant*: mae hyn yn cyfuno cwblhau a chyrhaeddiad yn rhan o un mesur cyffredinol: o blith yr holl weithgareddau dysgu ar y cychwyn, faint gafodd eu cwblhau a'u cyflawni'n llwyddiannus?

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Sicrhawyd arian o'r **Grant Gwella** Addysg ar gyfer gweithgarwch 14-19 oed yn cynnwys cyrsiau ar y cyd er mwyn bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru. (11876)
- ✓ Gweithredwyd Argymhellion adroddiad Llywodraeth Cymru *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru:*

Mae'n bwysig iawn gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc. Nodwyd bod hyn yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP) Byddwn yn lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Mae'n hanfodol i'r Sir ymdrechu o'r newydd i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan fentrau adolygu'r cwricwlwm sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan yr Adran Addysg a Phlant, ac amrywiaeth o raglenni gwaith sy'n ymwneud ag addysg gan y Tîm Adfywio. Yn ogystal, bydd y gweithgareddau a gyflawnir trwy brosiect Cynnydd y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yn helpu pobl ifanc i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth yn ystod cyfnod addysg Ôl-16.

Mesur Llwyddiant Allweddol	Blwyddyn Academaidd 2012/13	Blwyddyn Academaidd 2013/14	Blwyddyn Academaidd 2014/15			Blwyddyn Academaidd 2015/16
	Canlyniadau	Canlyniad	Targed	Canlyniad	Cynnydd	Targed
% ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.1)	3.0% (65 / 2198)	3.4% (69 / 2016)	3.0%	3.5% (69 / 1962)	Wedi dirywio	3.0%
% ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2)	5.5% (40 / 727)	6.0% (46 / 767)	Dim wedi gosod	2.8% (21 / 761)	Wedi gwella	2.6%

Cafwyd ychydig o gynnydd (0.1%) yng nghanran disgyblion blwyddyn 11 sy'n NEET, er bod nifer gwirioneddol y disgyblion yn aros yr un peth â 2014 (roedd 69 o ddisgyblion yn NEET).

Cafwyd canlyniad cadarnhaol iawn (2.8%) o ran canran disgyblion blwyddyn 13 sy'n NEET o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (6.0%).

Pam y mae hyn yn bwysig

Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ostwng nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

Felly mae gostwng nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET ar ôl gadael Blwyddyn 11 yn hanfodol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau posibl ar gyfer y garfan hon. Mae sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu symud ymlaen i'r chweched dosbarth, Colegau Addysg Bellach, hyfforddiant neu waith yn helpu i sicrhau nad yw dysgwyr o oedran gadael ysgol statudol yn cael profiad o effaith tlodi a'u bod yn gallu cyfrannu at eu cymunedau a'r economi ehangach. Mae sicrhau bod disgyblion yn ymwneud â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant ôl 16 oed hefyd yn gostwng y costau ehangach i gymdeithas o ran dibynnu ar fudd-daliadau a chostau cyhoeddus troseddu.

Sut rydym ni'n cymharu ag eraill

- **Blwyddyn 11** - Mae Sir Gaerfyrddin yn 18 o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan sef 2.8%. Er bod amrywiaeth o amgylchiadau lleol wedi cyfrannu at ein perfformiad, bydd angen i ni ystyried pam y mae llawer o'r Awdurdodau Lleol eraill yn dangos gostyngiadau sylweddol iawn o ran niferoedd ar gyfer y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn a gofyn i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am gymorth.
- **Blwyddyn 13** - Ar ddiwedd Blwyddyn 13, mae ein perfformiad yn 3^{ydd} o blith 22 o'r Awdurdodau Lleol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.7%, ac mae'n welliant ar ein perfformiad yn 2014 sef 4% o'r garfan.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Astudiaeth Achos

Cafodd y person ifanc ei nodi gan Weithiwr Ieuenctid mewn Ysgolion oedd yn gweithio gyda'i chwaer. Nid oedd wedi bod i'r ysgol am ddwy flynedd ar ôl cael ei dynnu allan o'r ysgol gan ei fam i dderbyn addysg yn y cartref. Fodd bynnag, nid oedd yn cael dim addysg, ac o ganlyniad roedd wedi colli pob cysylltiad â'r byd tu allan. Mae'n byw gyda'i fam a'i ddwy chwaer ac mae wedi cael magwraeth ddi-drefn sydd wedi arwain at faterion yn ymwneud ag eithrio cymdeithasol. O ganlyniad i'w fagwraeth ddi-drefn mae'n cael anhawster ymddiried mewn pobl ac ni fyddai'n ymgysylltu ag unrhyw un y tu allan i'w deulu. Roedd yn cael cymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ar gyfer problemau iechyd meddwl.

Yn dilyn cymorth un ag un a sesiynau hamdden llwyddodd i oresgyn llawer o'i bryderon ynghylch cynhwysiant cymdeithasol. Mae wedi llwyddo i ddatblygu llawer o sgiliau bywyd megis cael ei gyfrif banc ei hun er mwyn iddo gynilo a gwario ei arian ei hun; gwneud apwyntiadau a chadw atynt, e.e. cael prawf llygaid a sbectol; cymdeithasu â phobl ifanc newydd ac ail ennyn diddordeb ym myd addysg trwy ddechrau Hyfforddeiaeth gyda hyfforddiant LRC.


Sut rydym ni'n bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Yr hyn y byddwn ni'n ei ddarparu a sut y byddwn yn mesur llwyddiant	2015/16 (blwyddyn academaidd)
	Targedau
Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.1)	3.0%
Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2)	2.6%
Byddwn yn gweithredu'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn llawn ym mhob Ysgol Uwchradd ar gyfer Blynyddoedd 7-11 er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod yn gynnar yr holl bobl ifanc allai fynd yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (12081)	Medi 2016
Byddwn yn diweddarau ac yn ehangu map Darpariaeth Sir Gaerfyrddin ac yn cynnal adnoddau ar y we sy'n tynnu sylw at y wybodaeth hon trwy Hwb Un Sir Gâr. (120821)	Hydref 2016
Byddwn yn gweithredu elfennau o brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop Sir Gaerfyrddin sef Cynnydd er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). (12083)	Mawrth 2017
Byddwn yn cefnogi datblygu prosiect rhanbarthol Cam Nesa Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn darparu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar hyn o bryd. (12084)	Mawrth 2017
Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34a)	Mesur Newydd
Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34b)	New Measure
Byddwn yn sicrhau bod panel newydd ar gyfer Pobl Ifanc Sy'n Agored i Niwed yn cael ei roi ar waith i gydlynu cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed yng Nghyfnod Allweddol 4. (12085)	Mawrth 2017

Sut ydym ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Beth ddigwyddodd i'r bobl ifanc adawodd yr ysgol yn 2014/15?

Roedd 96.5% o ddisgyblion Blwyddyn 11 (Blwyddyn Academaidd 2014-15) wedi mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y gweithle.



Gwelliannau yn 2016/17

1. Byddwn yn gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyfnod 2016-2017, gan gynnwys y Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed llawn. (12086)
2. Byddwn yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned eraill drwy barhau i reoli Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin. (12087)
3. Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Cwricwlwm 11-19 oed yn Sir Gaerfyrddin. (12088)
4. Byddwn yn darparu rhaglen o weithgareddau ar gyfer Hwb Seren Sir Gaerfyrddin. (12089)

Nod: D3 Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant

Mae'r gan yr Awdurdod ymrwymiad o hyd i **gefnogi bywyd teuluoel** lle mae plant a phobl ifanc yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd a'u cymunedau pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, gan ddarparu ystod o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Rydym wedi cefnogi teuluoedd drwy amrywiaeth o ymyrraethau **wedi'u targedu** gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a rhaglenni eraill, gan gynnal teuluoedd a lleihau'r effaith bosibl o anfantais ar wasanaethau cyhoeddus.

Gweler y nod: C1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd a Thema Iechyd

Mae **darpariaeth gofal plant** yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei chynnig mewn partneriaeth â'r sectorau preifat, gwirfoddol a statudol, ac mae wedi parhau i ddatblygu. Ym mis Mawrth 2016 mae gennym:

- **107** o warchodwyr plant cofrestredig (gyda **553** o leoedd)
- **36** o feithrinfeydd dydd cofrestredig (gyda **1,288** o leoedd)
- **43** o glybiau cofrestredig y tu allan i'r ysgol (gyda **1,294** o leoedd)
- **63** o leoliadau gofal sesiynol cofrestredig (gyda **1,171** o leoedd (gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg).
- **Cyfanswm o 249 o ddarparwyr**, gyda **4,306** o leoedd cofrestredig

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Cafodd ein **Gwasanaeth Lles Addysg** ei ail-fodelu ychydig dros ddwy flynedd yn ôl ac mae'n parhau i ddatblygu, gan gynnig cymorth i 116 o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin ar faterion presenoldeb (cyfanswm o dros 27,109 o ddisgyblion).
 - Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio mewn partneriaeth â phlant, teuluoedd, ysgolion, cymunedau, asiantaethau statudol ac eraill i geisio gostwng diffyg presenoldeb parhaus a sicrhau hawl i addysg.
- ✓ Mae'r holl rieni yn cael adroddiad blynyddol i rieni gan yr ysgolion sy'n nodi presenoldeb eu plentyn, deilliannau asesiadau athrawon (Blynyddoedd 2,6 a 9), canlyniadau arholiadau a gwybodaeth arall.
- ✓ Mae **presenoldeb ysgolion** cynradd wedi gwella i 95.2% sef y 5^{ed} yng Nghymru, ac mae presenoldeb ysgolion uwchradd yn 94.2% sef y 9^{fed} yng Nghymru. Mae canran yr ysgolion cynradd yn y chwarterli meincnodi 1^{af} ac 2^{il} wedi gwella'n sylweddol gyda 56% yn y chwarterli hyn o'u cymharu â 40% yn 2012/13. Yn 2014-15 roedd 8 o blith 12 o ysgolion uwchradd wedi perfformio ar lefel ei meincnod neu'n uwch na hynny gyda 6 o ysgolion yn y chwarterli 1^{af} neu 2^{il} o'u cymharu ag 1 yn 2012-13. (*EDU/016a, EDU/016b, 4.1.2.3, 4.1.2.2*)
- ✓ Comisiynwyd Area 43 i ddarparu **gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion** sydd wedi'i achredu'n broffesiynol i bobl ifanc o 10 i 18 oed.



Roeddech am fynegi eich dewis wrth ymgeisio am le mewn Ysgol ar gyfer eich plentyn

Rydym yn newid y broses derbyn i ysgolion i ganiatáu i rieni fynegi eu dewis 1af, 2il, a 3ydd wrth ymgeisio am le mewn Ysgol

- ✓ Dros y flwyddyn ddiwethaf cafwyd 9,486 o ymweliadau â'r wefan **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**, a 40,620 o ymweliadau â thudalennau, a 67% o'r rheini yn ymweliadau newydd.

GWELL PRESENOLDEB YN YSGOLION SIR GAERFYRDDIN

Mae ffigurau presenoldeb ledled Sir Gaerfyrddin wedi gwella, gydag ysgolion yn cyrraedd y ganran uchaf erioed, sef 94.1%. Diolchir i rieni a gofalwyr am eu cydweithrediad yn helpu'r sir i gyrraedd y ffigurau, sydd lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 93.8%. Daw hyn wrth i ddata newydd gan Lywodraeth Cymru ddangos bod nifer y disgyblion y cofnodwyd eu bod yn absennol o ysgolion uwchradd ar draws Cymru yn is nag erioed. Mae Huw Lewis, y Gweinidog Addysg, wedi croesawu'r gostyngiad yn y ganran gan ddweud ei fod yn newydd rhagorol. Dywedodd y Cyngorydd Gareth Jones, yr Aelod o'r Bwrdd

Gweithredol dros Addysg, Cyngor Sir Caerfyrddin: *"Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Sir Gaerfyrddin a gwelwyd rhagor o welliant yn y cyfraddau presenoldeb gyda'n hysgolion yn cyrraedd y ganran uchaf erioed, sef 94.1%, sydd lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 93.8%.*

"Mae'r gyfradd absenoldeb a awdurdodwyd wedi gwella ac mae ein cyfradd absenoldeb nas awdurdodwyd yn dal ymhlith y gorau yng Nghymru.

"Yn bennaf, mae hyn oherwydd cydweithrediad rhieni a gofalwyr, dyfalbarhad yr ysgolion a chyfraniad Gwasanaeth Lles Addysg yr awdurdod lleol a'r tîm data ysgolion.

"Dymunaf ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i helpu'r ysgolion i gyrraedd y cyfraddau presenoldeb hyn."

Hybu presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yw prif gyfrifoldeb y Gwasanaeth Lles Addysg.

Mae swyddogion yn rhoi cymorth a chynghor ynghylch y rheoliadau sy'n ymwneud â diffyg presenoldeb, cyflogaeth plant, perfformiad plant, a hebryngwyr plant.

Er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, maent yn gweithio mewn partneriaeth â disgyblion a'u teuluoedd, ysgolion, gwasanaethau cymorth cymunedol a gweithwyr proffesiynol eraill megis gweithwyr cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid a seicolegwyr addysg.

Gall ysgol gyfeirio teulu at y Gwasanaeth Lles Addysg os oes pryder ynghylch presenoldeb plentyn yn yr ysgol.

Gwelliannau yn 2016/17

1. Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb cyson mewn ysgolion er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysg a lles plant gorau posibl, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldebau cyson. (12090)
Gweler hefyd Nod: C1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd (EDU16a, 4.1.2.3, EDU/016b & 4.1.2.2)
2. Byddwn yn treialu'r rhaglen 'Holiday Hunger', gan gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau bwyd iachus, wedi'i hanelu at blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn benodol. (12091)
3. Byddwn yn datblygu'r rhaglen ymgysylltu â theuluoedd ymhellach i roi cymorth i deuluoedd ymgysylltu ag addysg.(12092)

Nod: D4 Datblygu Cymdeithas Gynhwysol

Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol ychwanegol, ac yn hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg a lles plant.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Mae **Garreglwyd** yn **gyfleuster addysg arbenigol ar gyfer hyd at 24 o blant a phobl ifanc 11+ oed ar y Sbectrwm Awstistig**. Yn ogystal â disgyblion sy'n bresennol yn ystod y dydd, mae'r cyfleuster yn darparu llety ar y safle ar gyfer hyd at chwech o ddisgyblion ag anghenion cymhleth sydd wedi cael eu hasesu yn ddisgyblion sydd angen gofal 24 awr. Mae'n cynnig amgylchedd sy'n meithrin lle mae'r holl ddisgyblion/preswylwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a'u herio, a lle gallant sicrhau'r sylfaen briodol o ran sgiliau, gwybodaeth a gwerthoedd sy'n hanfodol er mwyn symud ymlaen yn yr ysgol a thu hwnt, a'r cyfle i gyrraedd eu llawn potensial.

Mae'r cyfleuster addysg arbenigol yng Ngharreglwyd wedi symud o Ysgol Maes y Gwendraeth i gampws newydd Bro Dinefwr o dan yr enw 'Canolfan Cothi', ac yn dilyn cyfnod pontio, dechreuodd y plant yn y ganolfan newydd ar 24 Chwefror 2016.

Roedd y Gwasanaethau Arlwygo wedi gosod **system prydau ysgol di-arian** yn Ysgol Gyfun Emlyn ym mis Hydref 2015, gan sicrhau bod arlwygo di-arian ar gael yn yr holl ysgolion uwchradd. Mae'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwella o ganlyniad i'r system newydd hon heb stigma.

Ym mis Mawrth 2016, roedd 918 o ddysgwyr yn Sir Gaerfyrddin â **Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig** o blith cyfanswm poblogaeth ysgolion o 27,109. Mae'r ffigwr hwn wedi gostwng ers mis Mawrth 2015 pan gafwyd 1,007 o ddatganiadau. Mae tua hanner o'r datganiadau hyn yn cael eu diwygio bob blwyddyn.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Pobl ifanc anabl

- ✓ Rydym wedi parhau i ddatblygu partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Coleg Sir Gâr, Gyrfa Cymru a bwrdd iechyd Hywel Dda er mwyn gweithredu'r adroddiad 'Datgloi'r Potensial' eleni. Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd i geisio mynd i'r afael â llawer o'r materion ymarferol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad Datgloi'r Potensial.

Y Gwasanaeth Namau Synhwyrdd

- ✓ Mae'r Gwasanaeth Namau Synhwyrdd yn parhau i weithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o fewn y gwasanaethau plant, addysg ac iechyd, gan gefnogi plant rhwng 0 a 19 oed sydd â nam ar y golwg neu'r clyw, neu gyfuniad o nam ar y golwg a'r clyw. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau addysgu a chymorth arbenigol er mwyn sicrhau bod plant â nam ar y golwg neu'r clyw yn cael profiadau dysgu ac addysgu o safon uchel ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial fel oedolion ifanc yn arwain bywydau iach a bodlon.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

- ✓ Roedd **% y datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau)** wedi rhagori ar ein targed o 25.0% yn ystod 2015/16 i 34.8% o gymharu â 22.9% yn 2014/15. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau eto'n adlewyrchu'r anawsterau a gafwyd ym maes lechyd o ran recriwtio a chadw meddygon sy'n gweithio ym maes pediatrig a staff gweinyddol yn yr ardal hon. Mae disgyblion yn aros am gyfnod hir cyn cael asesiadau meddygol a cheir oedi hir hefyd o ran cwblhau adroddiadau hyd yn oed ar ôl cael asesiad meddygol (EDU/015a)
- ✗ Nid oedd **% y datganiadau terfynol o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos (heb gynnwys eithriadau)** wedi rhagori ar ein targed o 90.0% ond mae wedi gwella yn ystod 2015/16 i 80.0% o gymharu â 75.0% yn 2014/15. Cafwyd llawer o oedi o ran cael gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol (EDU/015a)

Prydau Ysgol am Ddim

- ✓ Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn ymchwilio i'r gost/mantais o gyflwyno **taliadau ar-lein ar gyfer prydau ysgol**, yr ydym ni o'r farn sy'n gam hanfodol o ran moderneiddio'r gwasanaeth, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfleus i rieni dalu, a sicrhau gwelliannau i'r 'cefn swyddfa' yn cynnwys cysoni incwm a rheoli dyledion. Byddwn yn datblygu achos busnes yn ystod 2016-17.

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

- ✓ Rydym wedi datblygu ymhellach ein dull strategol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Cafodd y **Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc** ei datblygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn, gan nodi'r hyn yw ein blaenoriaethau a sut y byddwn yn mynd ati i'w cyflawni. Cytunodd y Cyngor hefyd ynghylch **Addewid Hawliau Plant** a bydd gwaith i weithredu hwn yn cael ei gynnal yn ystod 2016-17.

Alisha yn Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig

Ddydd Gwener 13 Tachwedd roedd Alisha Gibbons, 14 oed o Dŷ-croes sy'n aelod o Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin wedi cynrychioli Sir Gaerfyrddin a Chymru yn ystod trafodaethau a phleidlais Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig i benderfynu pa ddau fater ddylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymgyrchoedd Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig yn 2015.

Ymunodd Alisha â 300 o Aelodau Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig rhwng 11 a 18 oed a gymerodd ran mewn trafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin.

Er bod Alisha yn un o blith dau ddeg pedwar o bobl ifanc o Gymru i gael ei hethol, hi oedd yr unig berson ifanc o Gymru i gael ei hethol i arwain dadl yn Siambr Tŷ'r Cyffredin, a golyga hyn ei bod yn traddodi o'r blwch dogfennau lle mae'r Prif Weinidog, y cabinet a'r wrthblaid yn siarad.



Seibiant

- ✓ Mae ein dwy ganolfan seibiant **Llys Caradog a Blaenau** wedi parhau i ddarparu seibiant dros nos wedi'i gynllunio ar gyfer plant anabl rhwng 5 a 18 oed sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r canolfannau'n parhau i ddatblygu cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned leol.

Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr

- ✓ Yn Sir Gaerfyrddin mae dros 1,105 o ddisgyblion ar y gofrestr Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Mae 324 o ddisgyblion ysgol cynradd a 165 o ddisgyblion oed uwchradd yn derbyn cymorth mewn 45 o ysgolion cynradd a 10 o ysgolion uwchradd.
- ✓ Ar hyn o bryd mae 166 o blant Sipsiwn/Teithwyr ar gofrestr ysgolion ledled y sir. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda 6 o ysgolion uwchradd ac 8 o ysgolion cynradd i gynyddu presenoldeb a chyflawniadau plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr cymwys. Mae gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill yn help i gefnogi'r meysydd allweddol hyn.

Cymorth Ymddygiad

- ✓ Mae'r Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad yn gweithio gydag ysgolion i'w cynorthwyo i newid ymddygiad disgyblion unigol drwy weithio gyda'r disgybl, ei rieni/gofalwyr a staff yr ysgol. Mae'r Tîm yn rhoi cyngor a chymorth ynghylch technegau rheoli grwpiau/dosbarth cyfan a datblygu polisi ysgol gyfan. Mae'r Tîm yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol. Mae hefyd yn gweithio gydag ysgolion unigol i lunio hyfforddiant pwrpasol mewn ymateb i'r angen.
- ✓ Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2014/15 gweithiwyd gyda 68 o achosion naill ai'n uniongyrchol neu mewn rôl ymgynghorol gyda chyfanswm o 99 o atgyfeiriadau (80 o atgyfeiriadau o ysgolion cynradd a 19 o ysgolion uwchradd).

Gweithiwr Merched

- ! Mae Gweithiwr Merched yn cael ei gyflogi gan Gweithredu dros Blant a'i gomisiynu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i weithio gyda, a chefnogi menywod sydd wedi cael eu hatgyfeirio, ac sydd –
 - â mwy nag un plentyn wedi'i roi mewn gofal, neu
 - sy'n gysylltiedig ag achosion llys ar hyn o bryd, neu
 - mewn perygl o golli eu plant.

Pobl ifanc anabl

! Cymorth Anabledd – yn cynnwys cymorth rianta arbenigol yn y cartref (Tîm Camau Bach). Hwyluso cyfathrebu, bondio, ymlyniad a rhyngweithiad rhwng rhieni a phlant rhwng 0 a 12 oed, strategaethau i reoli ymddygiad, rhaglenni i hyrwyddo datblygiad plant; cymorth un i un er mwyn i blant anabl fynd i leoliadau cyn-ysgol brif ffrwd lleol, grwpiau arbenigol ar gyfer cynlluniau ar ôl ysgol/gwyliau; Camau Enfawr – ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed sydd ag awtistiaeth gweithredu lefel uwch, Asperger, Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwytio (ADHD), anawsterau cyfathrebu cymdeithasol neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, cymorth unigol ac mewn grŵp, ymyriadau pwrpasol.

Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a datblygiadau'r Gwasanaeth Ieuencid

! Eleni rydym wedi sefydlu ac atgyfnerthu gwasanaethau newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu fel rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r prosiect Camau Enfawr yn gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc anabl nad oes arnynt angen gwasanaethau statudol ond a fyddai'n elwa ar rai gweithgareddau a chymorth cadarnhaol boed yn unigol neu fel grŵp.

Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio gyda'n Gwasanaeth Ieuencid sy'n gyfrifol am atal NEET ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys y rheini sy'n anabl.

Rydym wedi datblygu cynigion fel rhan o raglen ranbarthol Cynnydd a fydd yn datblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Gwelliannau yn 2016/17

1. Byddwn yn sicrhau bod **pob disgybl** dros 15 oed yn gadael addysg orfodol, hyfforddiant, neu ddysgu seiliedig ar waith gyda **chymhwyster allanol cymeradwy** (EDU/002i)
2. Byddwn yn sicrhau bod yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal, 15 oed sy'n cael eu haddysgu gan yr Awdurdod Lleol, yn gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith gyda **chymhwyster cymeradwy** (EDU/002ii)
3. Byddwn yn ceisio sicrhau bod pob disgybl sy'n cael ei **wahardd yn barhaol** yn cael cynnig darpariaeth addysg priodol amser llawn o fewn yr amserlen ofynnol (EDU/009a)
4. Byddwn yn cynyddu % y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos yn cynnwys eithriadau o *34.8 to 40.0% (EDU/015a)
5. Byddwn yn cynyddu % y datganiadau terfynol o angen addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 o wythnosau ac eithrio eithriadau o 80.0% to 90.0% (EDU/015b)
6. Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan gyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 (SCC/29a)
7. Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan gyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 (SCC/29b)
8. Byddwn yn gwella rhaglenni ar gyfer diogelu mewn ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn ymgorffori yn llawn arferion a strategaethau recriwtio diogel i fodloni'r ddyletswydd Atal i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag y peryglon o radicaleiddio. (12094)
9. Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r gwasanaethau rheoli ymddygiad ac yn cyflwyno cynigion i ddiwygio darpariaeth. (12095)

Nod: D5 Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Rydym yn cynyddu darpariaeth:

- **Gofal Plant** wrth i ni barhau i wella'n flynyddol nifer y gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, gofal dydd llawn, gofal tymhorol a gofal y tu allan i'r ysgol sy'n cael eu darparu o fewn y Sir.
- **Addysg** – rydym wedi gweld gwelliant parhaus o ran Cymraeg iaith gyntaf yn CA3 dros y 4 blynedd ddiwethaf. Cafwyd gwelliant hefyd o ran Cymraeg iaith gyntaf yn CA2.

- Mae **hyfforddiant** yn parhau i gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd yn cynnwys 292 o ddysgwyr unigol sydd wedi cofrestru ar 31 o gyrsiau.

Mae'r **Cynllun Cymraeg mewn Addysg 2014-2017** wedi'i cael ei adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf:-

- ✓ Lansiodd **'Codi Caerau'** sef siarter iaith yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac mae siarter iaith yr ysgolion uwchradd ac ysgolion ail iaith wedi'i drafftio.
- ✓ Mae pecyn cynhwysfawr o ddeunyddiau wedi cael ei lunio er mwyn hyrwyddo gwerth addysg ddwyieithog.
- ✓ Mae nifer y disgyblion 7 oed sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu.
- ✓ Mae perfformiad lefel uchel wedi cael ei gynnal o ran Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith.
- ✓ Mae % y dysgwyr sy'n dilyn Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi cynyddu i 43%.
- ✓ Mae % y dysgwyr sy'n astudio 5 TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu i 61.5%.
- ✓ Mae % y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefelau disgwylidig yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 wedi gwella.
- ✓ Y materion a nodwyd yn yr adroddiad monitro fydd canolbwynt gwaith yr Adran yn 2016/17. Bydd hyn yn cael ei gydlynu drwy ein Fforwm Cymraeg mewn Addysg.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16

Gofal Plant

Yn gyffredinol, rydym wedi cynyddu nifer y gwasanaethau gofal plant **Cymraeg** sy'n cael eu darparu o fewn y Sir (gweler ffigurau'r llynedd mewn cromfachau):-

- ✓ 107 o warchodwyr plant cofrestredig gyda **53** (43) o'r rhain wedi'u cofrestru yn warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg gyda **283** (256) o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 532.
- ✓ 35 lleoliad gofal dydd llawn cofrestredig gyda **16** (13) o'r rhain wedi'u cofrestru yn **ofal dydd llawn** sy'n siarad Cymraeg gyda 547 (524) o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 1,288.
- ✓ Mae **83%** (82%) (52 yn Gymraeg/cyfanswm o 63) o **leoliadau gofal sesiynol** wedi'u cofrestru yn rhai sy'n siarad Cymraeg gyda **981** (1,076) o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 1,168.
- ✗ Mae **53%** (56%) (23 yn Gymraeg/cyfanswm o 43) o **ofal y tu allan i'r ysgol** wedi'u cofrestru yn rhai sy'n siarad Cymraeg gyda **636** (625) o leoedd cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 1,294.

Mae'n bleser adrodd y cafwyd twf (yn Sir Gaerfyrddin) o ran nifer y darparwyr gofal plant a lleoedd cofrestredig ers 2014-2015. Wrth ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae hyn yn galonogol iawn.

Addysg

Addysgir y Gymraeg fel pwnc i bob disgybl tan ddiwedd Blwyddyn 11 yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn rhoi golwg gyffredinol ar y categorïau iaith o fewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Sir.

Categoriâu Iaith Ysgolion	Nifer yr ysgolion cynradd	Nifer yr ysgolion uwchradd
Dwyieithog - A)	-	3
Dwyieithog - B)	-	2
Cyfrwng Cymraeg)	57	-
Ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg)	5	3
Cyfrwng Saesneg	25	4
Dwy Ffrwd	10	-
Ysgol Drawsnewidiol	4	-

- ✓ Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar yr ysgol categori **2B ddwyieithog** newydd (mae 80% o'r pynciau'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg) sef Ysgol Bro Dinefwr ym mhentref Ffair-fach.
- ✓ Mae plant ardal Cwm-ann wedi symud i mewn i'w hysgol **cyfrwng Cymraeg** newydd gwerth £5.7 miliwn. Cafodd Ysgol Carreg Hirfaen ei chyflawni drwy gyfrwng Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyfrwng Cymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin.
- ✓ Dechreuwyd ar y gwaith o brosesu'r cynigion statudol i gyfuno ysgol fabanod ac ysgol iau Llangennech yn ysgol gynradd **cyfrwng Cymraeg** newydd.
- ✗ Yn anffodus, yn 2015 cafwyd gostyngiad yn nifer y disgyblion ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog **yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg**, o 91.8% i 85.25%, fodd bynnag nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros ddewis y disgyblion/rhieni.

Hyfforddiant

- ✓ Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion ar hyn o bryd yn cynnwys 292 o ddysgwyr unigol sydd wedi cofrestru ar 31 o gyrsiau.
- ! Bydd darpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled Cymru yn destun newidiadau sylweddol yn ystod 2016-2017, gydag endid newydd ar gyfer Cymru gyfan yn goruchwyllo'r ddarpariaeth, gan ddisodli'r pedair canolfan ranbarthol bresennol.

Gwelliannau yn 2016/17

1. Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion sy'n cael **asesiad athro/athrawes** yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 2** o 51.9% i 52.4% (EDU/006i)
2. Byddwn yn cynyddu canran y disgyblion sy'n cael **asesiad athro/athrawes** yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 3** o 43.2% i 43.7% (EDU/006ii)
3. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn drafft o **Siarter Iaith Gymraeg yr ysgolion uwchradd Cyfrwng Cymraeg ac ail iaith**. (12096)
4. Byddwn yn cwblhau'r gweithdrefnau statudol i **newid categori iaith Ysgol Bro Myrddin** o ddwyieithog (2A) i Gyfrwng Cymraeg. (12097)
5. Byddwn yn parhau i symud ymlaen amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. (12098)

Canlyniad: Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel...

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r llefydd mwyaf diogel i fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â gorffwys ar ein rhwyfau ac mae angen i ni ddal ati i gydweithio â'n partneriaid i fynd i'r afael â phroblemau a nodir gan gymunedau lleol.



Nodau: (fel y cytunwyd â phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

- E1 - Cynnal ac anelu at leihau ymhellach lefelau troseddu sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr
- E2 - Gwella hyder cymunedau lleol ein bod ni'n rhoi sylw i'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu
- E3 - Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol
- E4 - Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol
- E5 - Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gamfanteisio arnynt
- E6 - Lleihau goryrru a nifer y damweiniau traffig ffyrdd

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Darparu cymorth priodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ôl y gofyn.	✓
Gostyngiad yn nifer y rheiny a gafodd eu hanafu/lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd	✗
Gostyngiad yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd	✗
Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol	✓

Canlyniad: Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel...

Gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd orau o hyd o sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn un o'r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hi ac felly mae ein blaenoriaethau a'n nodau yn parhau i gyd-fynd yn agos â blaenoriaethau ein partneriaid a'r Strategaeth Gymunedol Integredig.

Gwrthderfysgaeth a'r Ddyletswydd Atal newydd

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid er mwyn mynd i'r afael â materion gwrthderfysgaeth yn lleol. Yn dilyn cyflwyno 'Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015', rydym yn dechrau gweithredu'r 'Ddyletswydd Atal' sy'n golygu ei bod yn ofynnol i ni ac 'awdurdodau penodol' eraill 'gadw mewn cof fod angen rhwystro pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.'

- Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd ac mae codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ehangach i staff a phrosesau atgyfeirio ymhlith y materion sy'n cael eu hystyried.
- Yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y Ddeddf, rydym wedi sefydlu panel Sianel amlasiantaeth.
- Mae'r panel amlasiantaeth lleol sy'n cael ei arwain gan y Cyngor yn cynnig cymorth i nifer fach o unigolion sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn perygl o gael eu radicleiddio.

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 15/16 / Y Gwelliant sydd wedi'i Drefnu ar gyfer 16/17:

Nod: E1 Cynnal ac anelu at leihau lefelau troseddau sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr

Cafwyd cynnydd o 10.1% yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau o ran cofnodi data gan yr heddlu i wella cywirdeb cofnodi.

Yn 2015/16 roedd y ffigurau troseddau fel a ganlyn:-

Y troseddau a gofnodwyd	2014/15	2015/16	
	7,381	8,128	Cynnydd o 10.1%

Mae'r mathau mwyaf cyffredin o droseddau yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:-

Sir Gaerfyrddin	Blwyddyn Ariannol 2014-15	Blwyddyn Ariannol 2015-16	Newid yn nifer y troseddau	% y Newid	Cynnydd/Gos tyngiad
Llosgi Bwriadol a Difrod Troseddol	1,316	1,503	187	14.2%	↑
Byrgleriaeth Ddomestig	227	262	35	15.4%	↑
Bwrgleriaeth o fannau heblaw preswylfeydd	299	320	21	7.0%	↑
Troseddau Cyffuriau	1,092	949	-143	-13.1%	↓
Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas	133	148	15	11.3%	↑
Meddiant arfau	53	44	-9	-17.0%	↓
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	360	272	-88	-24.4%	↓
Lladrad	13	9	-4	-30.8%	↓
Troseddau Rhywiol	276	328	52	18.8%	↑
Achos o Ddwyn	1,553	1,779	226	14.6%	↑
Troseddau sy'n ymwneud â cherbydau	373	311	-62	-16.6%	↓
Troseddau Treisgar	1,686	2,203	517	30.7%	↑
Cyfanswm	7,381	8,128	747	10.1%	↑

Ffynhonnell - Crynodeb Perfformiad Awdurdod Unedol Dyfed-Powys – Mawrth 2016

Mae'r cynnydd a welwyd yn achos troseddau penodol yr adroddwyd amdanynt yn parhau i ddilyn y tueddiadau cenedlaethol, a chredir eu bod o ganlyniad i ddull newydd mwy cywir o gofnodi troseddau. Cafwyd newid sylweddol yn y broses o gofnodi troseddau yn ardal Dyfed-Powys, yn dilyn argymhellion gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi. Mae'r newid gweinyddol/yn y broses wedi cael effaith ar y ffigurau troseddau a gofnodwyd yn 2015, gan arwain at gynnydd mewn troseddau a gofnodwyd ac felly'n golygu bod unrhyw gymariaethau â ffigurau 2014 yn llai dilys.

Fel Cyngor rydym yn gweithio gyda'n partneriaid diogelwch cymunedol i ostwng lefelau troseddau ymhellach:-

- ✓ Trawsnewid/Transform – mae'r cynllun Rheoli Troseddwy'r Integredig, sy'n ymdrin ag ymddygiad troseddol ein troseddwy'r mwyaf mynych – wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod y flwyddyn. Mae'r data perfformiad diweddaraf (cyfnod 12 mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2015) yn dangos bod 89 o droseddau yn llai, sy'n golygu arbedion cost o dros £800,000. Mae'r datblygiadau yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys:-
 - gwell ymgysylltiad ag asiantaethau gan gynnwys Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
 - cysylltiadau â rheoli troseddwy'r treisgar difrifol a'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer oedolion.
 - lleoliadau profiad gwaith
 - mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid bellach yn mynychu'r sesiynau briffio dyddiol
- ✓ Mae Ymgyrch y Rhuban Gwyn yn erbyn cam-drin domestig wedi cael cefnogaeth wrth i gynghorwyr a swyddogion lofnodi addewid i beidio â chyflawni na chydoddef trais yn erbyn menywod na merched

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn ni'n sicrhau Dyfarniad Tref Ymgyrch y Rhuban Gwyn, sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor a'i sefydliadau partner i drechu cam-drin domestig, ac yn cynnwys yn arbennig ddynion a bechgyn, a gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod. (11724)
2. Byddwn yn hyrwyddo prosiectau atal troseddau, yn cynnwys sgamiau a diogelu pobl sy'n agored i niwed ac eiddo. (12099)

Nod: E2 Gwella hyder cymunedau lleol ein bod ni'n rhoi sylw i'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu

Roedd yr asesiadau Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb (PEEL), a gafodd eu cyflawni'n ddiweddar gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, wedi rhoi sylwadau ffafriol ynghylch gweithio mewn partneriaeth:

"Gwelodd arolygwyr dystiolaeth o weithlu brwdfrydig a phrofiadol yn gweithio gyda phartneriaid i atal troseddu a hyrwyddo diogelwch cymunedol. Er enghraifft, golyga gwaith ar y cyd gyda'r tîm iechyd meddwl cymunedol fod gan y rhai sy'n dioddef o salwch iechyd meddwl fynediad uniongyrchol at lwybrau triniaeth; mae hyn yn osgoi eu cadw yng nghelloedd yr heddlu wrth aros am asesiad meddygol."

Mae'r cynnydd ar gyfer 2015/16 yn cynnwys y canlynol:-

- ✓ Mae'r heddlu a swyddogion Safonau Masnach wedi bod yn ymweld â dioddefwyr posibl sy'n agored i niwed sydd wedi cael eu twyllo gan sgamiau yn y post, ar y rhyngwrdd ac ar y ffôn. Cyflwynwyd y cynllun peilot yn ardal Rhydaman ac mae bellach yn cael ei sefydlu yn Llanelli. Mae mwy na 600 o dioddefwyr posibl yn Sir Gaerfyrddin.
- ✓ Mae swyddogion Safonau Masnach wedi rhoi awgrymiadau a chyngor i helpu pobl i osgoi cael eu twyllo gan seiberdroseddu sy'n broblem gynyddol. Mae Safonau Masnach hefyd yn

ymchwilio i seiberdroseddu drwy gyfrwng uned fforensig ddigidol y Cyngor – yr unig un yng Nghymru.

- ✓ Mae 'Gwarchod Adeg Gwyliau' yn gynllun arloesol sy'n rhoi benthyg offer diogelwch adeg gwyliau ac mae wedi cael ei sefydlu gan Dîm Datblygu Bro Heddlu Dyfed-Powys gyda chymorth Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gâr. Mae'r cynllun wedi'i anelu at unrhyw un sydd â mesurau diogelwch annigonol yn eu cartrefi neu ar gyfer pobl sy'n poeni'n fawr y bydd trosedd yn digwydd pan fyddant i ffwrdd ar eu gwyliau.
- ✓ Mae Timau Plismona Bro wedi parhau i hyrwyddo amrywiol ffyrdd o ymgysylltu â thrigolion lleol ac mae'r rhain yn cynnwys:-
 - System negeseuon gymunedol newydd, sy'n disodli OWL (Online Watch Link)
 - Fan gorsaf heddlu symudol sydd bellach yn weithredol ac yn cael ei defnyddio mewn gwahanol rannau o'r sir a fydd yn helpu i gynyddu'r cyswllt â chymunedau lleol.
 - Cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio gan dimau plismona bro lleol i dynnu sylw at negeseuon allweddol ynghylch atal troseddau, yr hyn sy'n digwydd yn lleol a materion penodol.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn ni'n sicrhau bod nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerir i atgyweirio pob lamp stryd sy'n methu yn parhau o dan 4 diwrnod (*THS/009*)
2. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn gweithredu'r 'Ddyletswydd Atal', sef y ddyletswydd lle mae'n rhaid i ni a'n partneriaid roi sylw dyledus i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. (*12100*)
3. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol a hysbysebu gweithio mewn partneriaeth sy'n helpu i ostwng troseddau ac anhrefn. (*12101*)

Nod. E3 Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol

Mae digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau yn ystod 2015/16.

Cyfanswm digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddwyd amdanynt	2014/15	2015/16	Cynnydd
	7,624	6,443	Gostyngiad o 15.5%

Mae gwelliannau ym mhroses yr heddlu o nodi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod y cyswllt cyntaf â'r ganolfan gyfathrebu, wedi arwain at lai o alwadau sy'n cael eu categoreiddio'n Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Hefyd, mae'r pwyslais ar gofnodi troseddau'n gywir wedi arwain at nifer o alwadau, a fyddai wedi cael eu cofnodi yn y gorffennol yn rhai Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ond sydd bellach yn cael eu cofnodi yn droseddau lefel isel, sy'n esbonio'r cynnydd yn y ffigurau troseddau a'r gostyngiad o ran lefel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Bellach, gweithir yn agosach gyda Gwalia sy'n darparu'r gwasanaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a hynny mewn partneriaeth â sefydliadau. Maent wedi parhau â'r broses o anfon llythyrau rhybudd, a chafwyd gwell cysylltiadau â'r Gwasanaeth Cymorth Ieuentid er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymwneud ag atgyfeiriadau sy'n berthnasol i bobl ifanc. Mae datblygiadau'r cynllun yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys y canlynol:

- Gwelliant o ran rhannu gwybodaeth rhwng y systemau rheoli achosion a ddefnyddir gan Gwalia a'r Heddlu.
- Mae Gwalia wedi parhau i fynychu grŵp gweithredu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd

ynghylch y gwasanaeth. Trafodir gwybodaeth am berfformiad â phartneriaid a cheir gwell cysylltiadau.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Aethom ati i gynnal gwerthusiad o'r **Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig** yn ystod y flwyddyn. Roedd y gwerthusiad wedi canfod bod y Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig wedi bod yn llwyddiannus yn mynd i'r afael ag yfed mewn mannau cyhoeddus, ac ystyriwyd bod y Gorchymyn yn ddefnyddiol ac wedi cael ei orfodi mewn modd effeithiol. Nid oedd y problemau wedi symud i ardaloedd eraill ac ni chafwyd tystiolaeth i awgrymu y dylid adolygu ffiniau'r Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig.
- ✓ Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i weithredu'r **ddeddfwriaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol newydd** ar lefel leol a rhanbarthol, o ran y ddeddfwriaeth a'r arfer gorau o ardaloedd eraill gyda gwybodaeth yn cael ei chylchredeg i asiantaethau partner. Mae trafodaethau penodol bellach wedi cael eu cynnal ar lefel leol ynghylch gweithredu'r pwerau newydd a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth, ac mae prosesau wedi cael eu cwblhau gyda chydweithwyr yn yr heddlu er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.

Gwelliannau yn 2016/17

1. Byddwn yn ystyried mabwysiadu proses Asesu Risg ar gyfer digwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau bod y lefel o risg yn cael ei nodi a chymau gweithredu priodol yn cael eu rhoi ar waith. (12102)

Nod. E4 Gweithio i leihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol

Mae'r ffigurau ar gyfer digwyddiadau cysylltiedig ag alcohol fel a ganlyn:

	2013/14	2014/15	2015/16	
Cyfanswm y trais cysylltiedig ag alcohol yn Sir Gaerfyrddin	705	631	630 Noder - mae'r dull newydd o gofnodi data'n fwy manwl wedi cael effaith ar y ffigurau hyn.	Mae lefelau troseddu cysylltiedig ag alcohol wedi parhau'n sefydlog yn ystod y flwyddyn ac mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fynd i'r afael â'r broblem.

Ffynhonnell: Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Deallusrwydd - Heddlu Dyfed-Powys

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda safleoedd trwyddedig a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â digwyddiadau cysylltiedig ag alcohol, er enghraifft:-

- problemau yng nghanol trefi gyda'r hwyr mewn perthynas â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau.
- yn aml ymgwymerir â gwaith gyda daliwr y drwydded, y bragdy a goruchwylwyr drysau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau.
- mae ymweliadau ar y cyd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn gan dîm, trwyddedu'r Cyngor a'r heddlu, ac ymgwymerwyd â gwaith rhagweithiol adeg y Nadolig ac yn ystod gemau'r Chwe Gwlad.
- mae'r heddlu'n parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Safonau Masnach mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag yfed a gwerthu dan oed i bobl ifanc.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Mae ymgyrch Addewid Paul sef **ymgyrch sy'n ymwneud â thrais cysylltiedig ag alcohol** wedi parhau i gael ei hyrwyddo yn ystod y flwyddyn, yn y wasg leol ac ar gyfryngau cymdeithasol:-
 - Ail-lansiwyd Addewid Paul adeg y Nadolig er mwyn atgoffa pobl i fod yn ymwybodol o oblygiadau trais cysylltiedig ag alcohol yn ystod nosweithiau cymdeithasol.

- Ym mis Mawrth, bu Paul Pugh yn ymweld ag Ysgol Maes y Gwendraeth. Bu Paul a'r swyddogion yn siarad â thua 900 o ddisgyblion o Flwyddyn 8 ac uwch i ddangos canlyniadau trais ac alcohol. Cafodd hyn dderbyniad da iawn gan y disgyblion.
- Cafodd neges drydar am ymgyrch Addewid Paul, a anfonwyd gan Dîm Plismona Bro Cross Hands, ei ail-drydaru 10 gwaith, cafodd ei hoffi 13 gwaith a chyrraeddodd 7,070 o bobl.
- Mae'r ymgyrch hefyd wedi ymddangos ar y teledu gyda rhaglenni dogfen yn cael eu dangos ar ITV Wales ac S4C

! Yn anffodus, nid yw'r ymgais i estyn y cynllun bugeiliaid stryd 'Nightlight', sy'n cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin ar nosweithiau Sadwrn, i Lanelli wedi bod yn llwyddiannus. Roedd cynrychiolwyr yr eglwysi wedi cyfarfod â swyddogion yr heddlu i drafod y cynllun ond yna penderfynwyd nad oeddent am arwain y gwaith o drefnu cynllun tebyg.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn parhau i hyrwyddo yr ymgyrch cysylltiedig ag alcohol - Addewid Paul. *I(12103)*
2. Byddwn yn sicrhau bod gwaith yn parhau gyda'r safleoedd trwyddedig, siopau trwyddedig a phartneriaid eraill er mwyn mynd i'r afael â phroblemau mewn cymunedau a chartrefi gyda'r hwyr yn ymwneud â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau. *I(12104)*

Nod. E5 Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gamfanteisio arnynt

Diogelu Corfforaethol

Diogelu pobl rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod yw ein prif flaenoriaeth fel Cyngor.

Rydym yn defnyddio'r ymagwedd 'mater i bawb' ac eleni rydym wedi datblygu [Polisi Diogelu Corfforaethol](#) newydd er mwyn sicrhau bod yr holl adrannau yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu o ran plant ac oedolion.

Diogelu Plant

Ym mis Mehefin 2014 cafodd y Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru eu gosod mewn rhanbarthau er mwyn cydlynu diogelu ar lefel ranbarthol. Yn Sir Gaerfyrddin rydym yn rhan o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru a elwir yn CYSUR. Mae'r strwythur wedi'i adolygu yn unol â datblygiad y Bwrdd Diogelu Oedolion er mwyn ystyried y dull gorau o weithio o ran materion diogelu sy'n gorgyffwrdd e.e. cam-drin domestig a thrais. Mae CYSUR hefyd wedi llunio polisi ranbarthol mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a chynhaliwyd y gynhadledd ranbarthol gyntaf ym mis Mawrth 2016.

Mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (sy'n dal i fyw gyda'u teulu ond sy'n destun cynllun diogelu) wedi gostwng i **88** eleni o 104 y llynedd. Ar 31^{ain} Mawrth 2016 roeddem yn gofalu am **215** o blant/pobl ifanc, sy'n ostyngiad sylweddol o 239 yn 2015 a 247 yn 2014 ac mae cyfradd y plant sy'n dod yn rhai sy'n derbyn gofalu yn parhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru ers 2012. Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014](#) yn rhoi cryn dipyn o bwyslais ar ymyrraeth ac atal cynnar, ac rydym o'r farn bod ein ffocws parhaus yn y maes hwn yn dechrau llwyddo drwy gyfrwng y rhaglenni a ddarperir gan raglen Dechrau'n Deg a'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae AGGCC wedi cydnabod ein hymrwymiad i wasanaethau ataliol yn ei [Hadroddiad Gwerthuso Blynyddol 2014-15](#):

"Mae'r cyngor yn parhau i adeiladu a datblygu ei strategaethau ataliol, ac wrth ymweld â'r gwasanaethau hyn, cadarnhawyd bod trefniadau effeithiol ac arloesol ar waith, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy."

"Mae'r cyngor yn sicrhau bod twf a datblygiad yn ei wasanaethau ataliol er mwyn sicrhau nad yw ymyrraeth statudol yn digwydd ond pan fo angen."

Yn 2015/16 rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Datblygu'r Canolbwynt Amlasiantaeth Diogelu Plant (MASH), y Tîm Atgyfeirio Canolog a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol.
- Gwella ansawdd cynlluniau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau

Mae'r Canolbwynt Amlasiantaeth Diogelu Plant a'r Tîm Atgyfeirio Canolog wedi parhau i weithio'n dda fel modd o wella gwybodaeth a phenderfyniadau ar adeg atgyfeirio, gan ddarparu un pwynt cyswllt sy'n haws i deuluoedd ei ddefnyddio, ac unrhyw un sy'n pryderu am les plentyn, gan sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn gyson. Cynhelir cyfarfodydd trothwy yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau ataliol yn cael eu defnyddio'n llawn ac o ganlyniad rydym wedi gweld nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol yn lleihau yn ystod y flwyddyn.

Atgyfeiriadau	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
	1,063	1,090	1,144	1,572	1,354


Yn anffodus, nid yw'r ymrwymiad gan asiantaethau eraill i osod staff yn rhan o MASH wedi digwydd eto, ac mae hyn bellach yn fater y mae CYSUR yn ei gyflwyno yn rhanbarthol.

Rydym yn gwella **ansawdd ein cynlluniau gofal** yn barhaus, i ganolbwyntio ar ganlyniadau, ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Mae sesiynau datblygu wedi cael eu cynnal gyda'r holl dimau gofal plant, asesu a'r Swyddog Adolygu Annibynnol. Mae ein Panel Parhad yn cadw golwg ar gynlluniau gofal i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Mae **Diogelu mewn Addysg** yn parhau yn brif flaenoriaeth. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol ar amddiffyn plant yn parhau i gael ei ddarparu i'r holl staff mewn ysgolion (cafodd 32 o ysgolion yr hyfforddiant eleni). Disgwylir i'r holl lywodraethwyr fynd ar hyfforddiant diogelu.

Mae **gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol** Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2014. Ers mis Mehefin 2015, mae'r Panel Mabwysiadu yng Nghaerfyrddin yn ddi-bapur, gyda'r holl wybodaeth yn cael ei rhannu'n electronig, mae hyn wedi arwain at ddefnyddio amser gweinyddol yn fwy effeithiol a llai o gostau.

	Mesurau Allweddol Diogelu Plant	14/15	15/16	Sylw
✓	% y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn cyn pen 15 diwrnod gwaith yn dilyn cyfarfod strategaeth (SCC/014)	99.4%	100%	Gwelliant (gweler y siart isod)
✓	% yr adolygiadau a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol (SCC/045)	89.4%	89.4%	Sefydlog
✗	% yr Asesiadau Cychwynnol lle roedd y plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol (SCC/011a)	83.1%	80.7%	Gostyngiad # gweler y sylw isod
✗	% yr Asesiadau Cychwynnol lle roedd y plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol ar ei ben ei hun (SCC/011b)	47.3%	46.5%	Gostyngiad # gweler y sylw isod
✗	% yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal y disgwylid eu cynnal yn ystod y flwyddyn a ddigwyddodd yn unol â'r rheoliadau (SCC/025)	98.5%	98.2%	Ychydig o ostyngiad
✓	% y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal a ddechreuodd y flwyddyn gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu (SCC/001a)	100%	100%	Sefydlog
✓	% y plant cymwys, perthnasol, neu sy'n arfer bod yn berthnasol sy'n meddu ar gynlluniau llwybr yn ôl y gofyn. (SCC/041a)	100%	100%	Sefydlog
✗	% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud lleoliad deirgwaith neu fwy (SCC/004)	11.7%	14.9%	Gostyngiad#
✓	% y plant cymwys, perthnasol, neu sy'n arfer bod yn berthnasol sy'n meddu ar gynlluniau llwybr yn ôl y gofyn (SCC/002)	5.4%	3.9%	Gwelliant



- ✘ #Er nad ydym wedi cyrraedd ein targed o ran plant yn cael eu gweld, neu'n cael eu gweld ar eu pennau eu hunain, gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig yn ystod yr Aseidiadau Cychwynnol, rydym yn perfformio'n uwch na chanran Cymru gyfan yn 2014/15 sef 78% a 44.8%. Dynodir yr aseidiadau i'r gweithwyr perthnasol ac maent yn ddibynnol ar natur yr asesiad. Mae gennym dimau amlddisgyblaethol lle gallai fod yn fwy priodol i weithiwr proffesiynol arall o fewn y tîm, nad yw'n weithiwr cymdeithasol ond yn hytrach yn 'weithiwr allweddol' ar gyfer y plentyn, i weld y plentyn fel rhan o Aseiad e.e. gweithiwr iechyd o ran plentyn ag anabledd. Ni fydd pob achos yn golygu bod yn rhaid gweld y plentyn ar ei ben ei hun oherwydd oed, a bydd eraill yn gwrthod cael eu gweld ar eu pennau eu hunain. (SCC/011a) (SCC/011b)
- ✘ #Mae canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud lleoliad deirgwaith neu fwy wedi cynyddu yn ystod 2015/16. Rydym wedi gweld cynnydd mewn lleoliadau heriol i blant yn eu harddegau yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau a sefydlogrwydd lleoliadau. Mae hyn ynghyd â'r gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi effeithio ar y canlyniad. Nid yw llawer o bobl ifanc yn dymuno bod yn y system ofal er bod hyn er lles pennaf iddynt ac o ganlyniad mae'r lleoliadau'n fregus ac yn dod i ben er gwaethaf ein hymdrechion. Mae Panel Llety wedi cael ei sefydlu er mwyn cynorthwyo â'r broses gydweddu a dyrannu adnoddau, a bydd y Panel Adnoddau'n sicrhau bod adnoddau priodol ar waith er mwyn rhoi cymorth i leoliadau ac osgoi lleoliadau aflwyddiannus. Mae'r adran yn canolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth ar gyfer plant hŷn. (SCC/004).

A ninnau'n asiantaeth arweiniol ar gyfer amddiffyn plant, mae'n bwysig bod ein staff a'r systemau sydd ar waith yn gwasanaethu er mwyn diogelu lles plant. Rydym yn parhau i fonitro llwyth gwaith yn fisol i sicrhau eu bod yn briodol ac o dan reolaeth. Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol i blant yn parhau'n sefydlog gyda lefelau swyddi gwag yn isel ar 2.7% (ar 31/3/16). Mae cadw lefelau swyddi gwag yn isel yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein holl blant mewn angen, y plant y mae angen eu hamddiffyn, a phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu diogelu.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17 – Diogelu Plant

1. Byddwn yn cynyddu % yr aseidiadau sy'n cael eu cwblhau ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol. (SCC/24)
2. Byddwn yn adolygu ein hasesiadau yn sgil gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. (12105)
3. Byddwn yn sicrhau bod Aseidiadau Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ac Aseidiadau Risg o Bobl sydd ar Goll yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn. (12106)
4. Byddwn yn sicrhau bod plant sy'n cael cymorth yn parhau i fyw gyda'u teulu lle bynnag y bo modd. (SCC/25)

5. Byddwn yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn dychwelyd adref ar ôl bod mewn gofal yn ddiogel a chyn gynted â phosibl. (SCC/26)
6. Byddwn yn parhau i wella ansawdd y Cynlluniau Gofal gan sicrhau asesiad amlasiantaeth, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau, ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd. (12107)
7. Byddwn yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn gallu gweithredu fel rhieni corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal. (12108)
8. Ein nod yw lleihau % y plant sy'n ailgofrestru ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol. (SCC/27)
9. Byddwn yn lleihau'r cyfartaledd amser ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn. (SCC/28)
10. Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n gweld deintydd cofrestredig cyn pen 3 mis o dderbyn gofal. (SCC/30)
11. Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod gwaith o ddechrau eu lleoliad. (SCC/31)
12. Byddwn yn gweithio i leihau % y plant sy'n derbyn gofal, rhag symud deirgwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn i 13.5%. (gynt yn SCC/004 bellach yn SCC/33)
13. Byddwn yn cadw % y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol unwaith neu fwy i 5.0% neu'n is. (gynt yn SCC/002 bellach yn SCC/32)
14. Byddwn yn cynnal adolygiadau o ofalwyr maeth yn flynyddol yn unol â'r rheoliadau er mwyn cyrraedd y targed o 100%. (12109)
15. Byddwn yn gweithredu'r cynllun er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliadau. (12110)
16. Byddwn yn gweithredu'r model 'Signs of Safety' yn Sir Gaerfyrddin a'i roi ar waith. (12111)
17. Byddwn yn sicrhau bod y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn unol â'r argymhellion ac yn adfyfrio ar ganlyniadau Adolygiad Llywodraeth Cymru. (12112)
18. Byddwn yn atgyfnerthu'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ac yn datblygu Cymorth Mabwysiadu yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. (12113)
19. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wella dewisiadau llety priodol, a chymorth tai ar gyfer yr holl bobl ifanc sy'n agored i niwed (rhwng 16 a 25 oed) er mwyn sicrhau nad oes yr un plentyn/person ifanc yn gorfod aros mewn Gwely a Brecwast. (12114)
20. Byddwn yn rhoi trefniadau newydd ar waith o ran ein gwasanaethau gadael gofal yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r canllawiau 'Pan Fydda i'n Barod'. (12115)

Diogelu Oedolion

Y Fonesig Esther Rantzen yn siarad â thrigolion hŷn yn ystod digwyddiad 50+ Sir Gaerfyrddin



Roedd dros 550 o aelodau Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin yn bresennol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i ddysgu am yr ymdrechion i wella lles pobl hŷn. Y siaradwyr gwadd oedd y Fonesig Esther Rantzen a Mark Drakeford AS, a rhoddwyd diweddariad i'r rhai oedd yn bresennol ynghylch y **Silver Line**, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ystod y digwyddiad:

- Roedd dros 40 o sefydliadau'n bresennol yn cynghori pobl hŷn am wasanaethau a allai gyfoethogi eu bywydau
- Dosbarthwyd gwybodaeth allweddol berthnasol i oed er mwyn helpu i gefnogi lles pobl hŷn
- Cafwyd amrywiaeth o sesiynau rhagflas, o goginio, dawnsio, ac adweitheg i iPads, er mwyn ysgoqi ymrwymiad hirdymor i les personol.

Mae **diogelu oedolion** wedi parhau'n flaenoriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yn ystod cyfnod o bryder cyhoeddus cynyddol ynghylch y safonau gofal a ddarperir i bobl sy'n agored i niwed. Mae rhagor o sylw hefyd wedi dod i law o ganlyniad i adroddiadau cenedlaethol megis Ysbyty Canolbarth Swydd Stafford, Ymgyrch Jasmine, ac Adroddiad Andrews a hefyd o ran comisiynu gofal cartref. Er mwyn sicrhau bod diogelu oedolion yn cael ei lywodraethu'n effeithiol, mae Bwrdd Diogelu Oedolion Sir Gaerfyrddin amlasiantaeth, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr, wedi parhau i gyfarfod yn chwarterol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae nifer o fentrau wedi cael eu cyflwyno gan gynnwys:

- ✓ Datblygu Canllaw Arferion Da rhanbarthol rhwng diogelu oedolion a cham-drin domestig
- ✓ Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer 750 o staff
- ✓ Perthynas waith dda rhwng asiantaethau partner
- ✓ Diwylliant o ddysgu trwy adolygiad
- ✓ Adolygiad o'r strwythur er mwyn cryfhau'r swyddogaeth reoli

Pan fo oedolion wedi dioddef niwed sylweddol, mae'r tîm wedi ymdrechu i ymateb yn effeithiol ac wedi adolygu prosesau er mwyn sicrhau bod llai o oedi fel yr argymhellwyd gan AGGCC, er mae hyn wedi bod yn her wrth i nifer yr atgyfeiriadau gynyddu. Cydnabyddir bod hwn yn faes y mae angen i ni ei wella'n barhaus.

Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn cael ei chynrychioli ar Fwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac mae'r bwrdd hwn wedi cynnal ei gyfarfod cychwynnol a phennu ei gylch gwaith. Bydd y bwrdd yn monitro arferion a threfniadau diogelu gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17 - Diogelu Oedolion

1. Byddwn yn sicrhau bod o leiaf 75% yr ymholiadau ynghylch diogelu oedolion yn cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod *(SCA/18)*
2. Byddwn yn gosod system sicrhau ansawdd o fewn y timau diogelu, asesu a rheoli gofal. *(12147)*
3. Byddwn yn sefydlu fforymau rheolaidd ar gyfer swyddogion ymchwilio a Rheolwyr Gwasanaethau Oedolion i ddysgu gwersi a rhannu arferion gorau. *(12148)*
4. Byddwn yn ymgymryd ag adolygiad o'r prosesau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu symleiddio'n effeithiol. *(12149)*

Nod. E6 Lleihau goryrru a nifer y damweiniau traffig ffyrdd**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16**

Mae anafiadau yn sgil damweiniau traffig ffyrdd yn digwydd yn ddyddiol ar ffyrdd Cymru, ond byddai modd osgoi unrhyw farwolaethau neu anaf difrifol ar ein ffyrdd. Ni ddylai unrhyw un dybio bod digwyddiadau o'r fath yn ganlyniad anochel i drafnidiaeth ar y ffyrdd. Mae gan holl aelodau cymdeithas gyfraniad i'w wneud i leihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau traffig ffyrdd. Gallai pob gwrthdrawiad olygu canlyniadau trasig i'r rheini yr effeithir arnynt a'u teuluoedd.

Rydym ni ar y cyd â Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella diogelwch ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Rydym yn gweithio er mwyn gwella diogelwch ffyrdd er mwyn cyflawni'r targedau a nodwyd yn Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

Mae'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru yn gosod gweledigaeth ar gyfer "*Parhau i leihau nifer y bobl a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru, gyda'r uchelgais yn y pen draw o sicrhau nad oes unrhyw farwolaethau*"

Mae'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd yn gosod targedau gan ddefnyddio gwaelodlin sy'n defnyddio'r cyfartaledd ar gyfer Cymru rhwng 2004-2008. Y prif flaenoriaethau yw:

- ✓ Gostyngiad o 40% o ran cyfanswm nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.
- ✓ Gostyngiad o 25% yn nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.
- ✓ Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.

Felly, rydym wedi datblygu ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd er mwyn gwella diogelwch ffyrdd drwy weithredu amrywiaeth o fesurau addysgol, peirianyddol neu orfodi y gellir eu monitro a'u mesur o ran effeithiolrwydd.

Hyd yn hyn, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn diogelwch ffyrdd drwy ariannu addysg diogelwch ffyrdd, peirianeg diogelwch ffyrdd a gwerthuso. Rydym wedi parhau i gefnogi gweithredu camau gorfodi gan yr Heddlu a Gan Bwyll trwy ein Gweithgor Rheoli Cyflymder.



Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu ac asiantaethau eraill i geisio datblygu ein llwyddiant blaenorol o leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin ac i dargedu grwpiau risg uchel.

Yn gyffredinol, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael eu hanafu ar y rhwydwaith priffyrdd yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, anafwyd 557 yn 2014 o gymharu â 619 yn 2013 er fod y nifer wedi cynyddu i 596 yn ystod 2015. Mae'r perfformiad yn erbyn targedau 2020, fodd bynnag, yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Roedd rhai grwpiau penodol o ddefnyddwyr ffyrdd a oedd yn peri pryder. Er enghraifft, roedd nifer y gyrwyr beiciau modur a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol yn Sir Gaerfyrddin weddol uchel gyda 17 o farwolaethau ar ddiwedd 2015, ostyngiad sylweddol ar y flwyddyn flaenorol pan gafwyd 24.

Er mwyn helpu i gyflawni'r targedau hirdymor hyn rydym wedi parhau i weithio gyda grwpiau defnyddwyr ffyrdd risg uchel, yn enwedig gyrwyr beiciau modur, gyrwyr hŷn ac iau, er mwyn annog diwylliant o yrru'n fwy diogel. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar addysgu plant a phobl ifanc o ran diogelwch ffyrdd oherwydd bod addysg gynnar yn sicrhau eu bod yn ddefnyddwyr mwy diogel o'r ffyrdd yn y dyfodol.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd er mwyn targedu'r prif ymddygiadau a'r risgiau sy'n arwain at farwolaeth ac anafiadau difrifol.

Mae perfformiad ledled y flwyddyn o gymharu â 2014 wedi dangos bod cynnydd mewn sectorau penodol, ond mae'r duedd mewn perfformiad yn erbyn y targedau 2020 yn gwella. Figurau gwaelodlin oedd:

Nifer a laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol yn sgil damwain ar y ffordd = 116

Nifer y gyrwyr beiciau modur a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol = 18

Nifer y bobl ifanc (rhwng 16 a 24) a gafodd eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol) = 33

Mae hyn yng nghyd-destun amgylchedd lle mae traffig wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn i 1.95 biliwn o gilometrau cerbyd y flwyddyn o gymharu â 1.83 biliwn o gilometrau'r flwyddyn yn 2012.

Strategaeth Diogelwch Ffyrdd 2020	2014/15	2015/16	Cynnydd
Y nifer a laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol yn sgil damwain ar y ffordd (5.5.2.21)	94	102	Cynyddodd
Nifer y gyrwyr beiciau modur a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (5.5.2.22)	24	17	Llai
Nifer y bobl ifanc (rhwng 16 a 24) a gafodd eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol (5.5.2.23)	21	23	Cynyddodd

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Rydym wedi diweddarau ein Cynllun Diogelwch Ffyrdd, sy'n cynnwys y cyfnod o 2016-2020.
- ✓ Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, Gan Bwyll, y Gwasanaeth Tân ac asiantaethau gan adeiladu ar ein llwyddiant blaenorol.
- ✓ Rydym wedi buddsoddi £439,000 mewn gwaith trin ffyrdd gwledig er mwyn gwella'r A485 o Alltwalis i New Inn, yr A484 o Gydweli i Gwm-ffrwd, a'r B4306 o'r Hendy i Gwm-ffrwd.
- ✓ Rydym wedi buddsoddi £138,000 mewn hyfforddiant Diogelwch Ffyrdd ac ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd agored i niwed, gan gynnwys: - 196 o yrwyr hŷn, 1,165 o yrwyr ifanc, 104 o yrwyr beiciau modur, 713 o bobl ifanc sydd wedi'u hyfforddi o ran diogelwch ymyl y ffordd a hyfforddiant beicio mewn 31 o ysgolion cynradd.
- ✓ Rydym wedi gwneud rhagor o welliannau seilwaith a newidiadau i gyfyngiadau cyflymder yn:
 - Seaside, Llanelli, llwybrau diogel i'r ysgol, mesurau cerdded a beicio
 - A484 Pibwr-lwyd – Cwm-ffrwd, troedffordd newydd
 - Pentref Llangadog, troedffyrdd newydd
 - A484 Pen-bre, troedffordd newydd
 - Heol Tŷ-croes (Cam 1), troedffordd newydd
 - Mynyddygarreg, rheoli traffig/mesurau arafu
 - Ffordd Newydd, Pantyffynnon, arafu traffig
 - B4308, Trimsaran, porth deheuol, arafu traffig
 - Ysgol Saron, arafu traffig a therfyn cyflymder o 20mya

- Heol Picton, Caerfyrddin, croesfan pelican
- ✓ Rydym wedi diweddarau ein meddalwedd cyfrifiadurol i wella ansawdd y wybodaeth reoli y byddwn yn ei defnyddio i dargedu addysg, peirianeg neu ymyriadau gorfodi.
- ✓ Rydym wedi parhau i ddatblygu a chyflawni Strategaeth trin ffyrdd gwledig Sir Gaerfyrddin. Mae'r ymdriniaeth hon o ddiogelwch ffyrdd yn golygu gwelliannau drwy drin ffordd gyfan yn hytrach na safleoedd unigol. Mae hyn yn cynnwys yr ymyriadau canlynol: - gosod arwyddion ar gyffyrdd a throeon, arwyddion sy'n fflachio wrth i gerbydau agosáu, triniaethau i ymylon ac arwynebau ffyrdd i waredu peryglon a therfynau cyflymder is. Bydd arwyddion ffyrdd a marciau ar hyd yr holl ffordd yn helpu gyrwyr i osgoi gwneud camgymeriad a allai arwain at wrthdrawiad, felly helpu'r gyrrwr i yrru mor ddiogel â phosibl.
- ✓ Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn seilwaith cerdded a beicio newydd fel dulliau teithio hyfyw a diogel ac i wella iechyd wrth i gyllid gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.
- ✓ Rydym wedi parhau i ddarparu rhaglenni medrusrwydd beicio a diogelwch ymyl ffordd ar gyfer ysgolion cynradd.
- ✓ Rydym wedi gweithredu nifer o'r cynlluniau terfyn cyflymder a nodwyd yn yr adolygiad terfynau cyflymder ar haen uchaf (dosbarth A a B) ffyrdd gwledig y sir, a chysylltu â'r awdurdod cefnffyrdd er mwyn sicrhau y defnyddir dull cydgysylltiedig wrth newid terfynau lle mae ffyrdd haen uchaf y sir yn ymuno â'r rhwydwaith cefnffyrdd.
- ✓ Mae terfynau cyflymder 20mya y gellir eu gorfodi wedi cael eu cyflwyno mewn ardaloedd trefol gan roi blaenoriaeth i safleoedd ysgol a safleoedd eraill sy'n denu cerddwyr lle mae llawer o ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed.
- ✓ Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd gerllaw ysgolion sy'n cynnwys plant ysgol er mwyn lleihau goryrru. Rydym wedi helpu i ddarparu cynlluniau hyfforddi i wella diogelwch ffyrdd megis hyfforddiant 'Dragon Rider Cymru' am ddim ar gyfer gyrwyr beiciau modur i'w helpu i fod yn fwy diogel, ac annog gyrwyr ifanc i gymryd rhan yn hyfforddiant 'Pass Plus Cymru' i'w helpu i wella eu sgiliau gyrru a chael profiad ychwanegol mewn sefyllfaoedd gwahanol.
- ✓ Mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth tân rydym wedi darparu gwybodaeth a chynngor am y Pump Angheuol – gyrru'n rhy gyflym, gyrru'n ddiogel, defnyddio ffôn symudol wrth yrru, gyrru ar ôl yfed/cyffuriau a pheidio â gwisgo gwregys diogelwch.



Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn parhau i gyflawni'r camau gweithredu a amlinellwyd yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd. (12116)
2. Byddwn yn buddsoddi mewn meddalwedd cyfrifiadurol i wella ansawdd y wybodaeth reoli y byddwn yn ei defnyddio i dargedu addysg, peirianeg neu ymyriadau gorfodi. (12117)
3. Byddwn yn gweithio i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020. (5.5.2.21)
4. Byddwn yn gweithio i leihau nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 25% erbyn 2020. (5.5.2.22)
5. Byddwn yn gweithio i leihau nifer y bobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020. (5.5.2.23)

Canlyniad: Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy...

Mae Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus am ei chymunedau amrywiol a'i hamgylchedd naturiol hyfryd, ac rydym am sicrhau ein bod yn datblygu'n gynaliadwy fel y gall pawb yn y sir fwynhau ansawdd bywyd gwell yn awr ac am genedlaethau i ddod.



Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

- F1: Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear, a lleihau ein hallyriadau carbon
- F2: Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff
- F3: Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfw a chynaliadwy
- F4: Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y Sir
- F5: Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy
- F6: Datblygu dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy
- F7: Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Ein Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella (KIOP) yw:

Gwella'r seilwaith priffyrdd i gefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Cyfraddau ailgylchu uwch	✓
Gwell mynediad digidol	✓
Gwell cysylltiadau trafndiaeth	✓
Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy	✓


Nod: F1 Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hallyriadau carbon

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn lleihau lefel yr allyriadau. Y meysydd y canolbwyntiwyd arnynt yw lleihau'r ynni a ddefnyddir yn ein hadeiladau a'n swyddfeydd, drwy fuddsoddi mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy megis boeleri biodanwydd a solar. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 11.3% yn gyffredinol ers 2013/14 yn y trydan adnewyddadwy a gynhrychir a **2.5+%** ers y llynedd. Hefyd rydym wedi llwyddo i leihau ein fflyd a buddsoddi mewn cerbydau mwy effeithlon sy'n cynhyrchu allyriadau glanach. Yn ogystal rydym wedi buddsoddi mewn goleuadau LED mwy effeithlon, drwy ein cronfa "Buddsoddi er mwyn Arbed", sy'n darparu allbwn mwy effeithlon ac sy'n para'n hwy.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Ers 2010, rydym wedi bod yn rhan o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad Lleihau Carbon, sy'n orfodol ledled y DU. O ganlyniad, mae'n ofynnol i ni brynu lwfansau na ellir eu had-dalu am bob tunnell gymwys o CO₂ sy'n deillio o'r defnydd o ynni. Yn 2015/16 talodd yr Awdurdod £390,000 o



dan y cynllun hwn ar sail ei allyriadau ar gyfer 2014/15. Mae lefel y 'dreth' a godir am bob tunnell o CO₂ a ryddheir wedi cynyddu'n flynyddol o £12 (2013/14) y dunnell o CO₂ i £16.40 (2014/15) y dunnell. Felly mae'n bwysig ein bod yn gweithio tuag at leihau ein hallyriadau carbon. Mae costau cyfleustodau cynyddol, ynghyd â chosbau cysylltiedig am allyriadau

carbon, yn golygu ei bod yn ofynnol i roi rhaglenni effeithlonrwydd ynni mwyfwy heriol ar waith. Hyd yn hyn rydym wedi buddsoddi £2 filiwn mewn rhyw 200 o brosiectau effeithlonrwydd ynni o dan raglen SALIX. Rhagwelir y bydd y prosiectau hyn yn arbed mwy na £7 miliwn / 41,000 tunnell o CO₂ dros oes y technolegau a osodwyd.

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2014/15	2015/16		
	Canlyniad	Canlyniad	Cynnydd	% y newid
Stoc adeiladau cyhoeddus annomestig y Cyngor				
Defnydd (kWh)	72,821,595	Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd i ni (nac i Awdurdodau lleol eraill) gan ei bod yn dibynnu ar ein prif gyflenwr ynni yn cyhoeddi'r data		
Cost (£)	£4,228,683			
CO ₂ (tunelli)	21,787			
Goleuadau Stryd				
Defnydd (kWh)	6,686,418	Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd i ni (nac i Awdurdodau lleol eraill) gan ei bod yn dibynnu ar ein prif gyflenwr ynni yn cyhoeddi'r data		
Cost (£)	£770,839			
CO ₂ (tunelli)	3,565			
Milltiroedd y Fflyd				
Milltiroedd	5,393,714	5,041,173	Wedi gwella	-6.54%
Cost (£)	£1,575,618	£1,268,768.64	Wedi gwella	-19.47%
CO ₂ (tunelli)	4,076	3,799	Wedi gwella	-6.80%
Milltiroedd Busnes				
Milltiroedd	5,157,277	4,562,876	Wedi gwella	-11.5%

Cost (£)	£2,167,066	£1,917,083	Wedi gwella	-11.5%
CO ₂ (tunelli)	1,541	1,363	Wedi gwella	-11.55%
Y Cyfansymiau				
Defnydd (kWh)	79,508,013	Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd i ni (nac i Awdurdodau lleol eraill) gan ei bod yn dibynnu ar ein prif gyflenwr ynni yn cyhoeddi'r data		
Milltiroedd	10,550,991			
CO ₂ (tunelli)	30,969			

Stoc adeiladau cyhoeddus annomestig y Cyngor

- ✓ Rydym wedi gosod Gorchuddion Pwll i leihau costau ynni yng Nghanolfan Hamdden Llanelli, Canolfan Hamdden Dyffryn Aman, Pwll Llanymddyfri, Pwll Castellnewydd Emlyn, ac Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, a Chanolfan Hamdden Caerfyrddin.
- ✓ Rydym wedi buddsoddi system meddalwedd rheoli ynni *SystemsLink* er mwyn monitro'r ynni a ddefnyddir yn well, defnyddio systemau bilio heb bapur, a gwneud arbedion effeithlonrwydd.
- ✓ Rydym wedi cymeradwyo cynnwys *rhaglen solar PV gwerth £1.5 miliwn* yn rhaglen gyfalaf 2016/17 i'w chwblhau erbyn canol y flwyddyn.
- ✓ Rydym wedi agor yr ysgol *fwyaf eco-gydnaws* yng Nghymru, sy'n cyrraedd safon lem Passivhaus o achos ei nodweddion effeithlonrwydd ynni rhagorol.
- ✓ Rydym wedi defnyddio cynllun *Arbed Llywodraeth Cymru* i fuddsoddi £3 miliwn er mwyn gwneud 320 o gartrefi yn Sir Gaerfyrddin yn fwy effeithlon o ran ynni, a hynny drwy osod boeleri newydd a gosod deunydd inswleiddio mewn waliau allanol fel bod cartrefi'n fwy cysurus ac yn rhatach i'w cynnal.
- ✓ Rydym wedi lleihau cyfartaledd *Tystysgrifau Arddangos Ynni (DEC)* adeiladau cyhoeddus yr awdurdod lleol sydd dros 1,000 metr sgwâr o 91.7 i 85.1, mae hwn yn newid cadarnhaol% o 7.2% (CAM/037)
- ✓ Rydym wedi parhau i gael ceisiadau am brosiectau ynni adnewyddadwy a phenderfynu arnynt, yn bennaf ar ffurf tyrbinau gwynt unigol, ond hefyd ar ffurf fferm wynt Gorllewin Brechfa.
- ✓ Roeddem wedi parhau â'n polisi o integreiddio technolegau carbon isel a di-garbon i brosiectau sylweddol, ac ymhlith yr enghreifftiau o hynny y mae'r gosodiadau solar ffotofoltäig a gwblhawyd yn ddiweddar yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Carreg Hirfaen. Hefyd bu inni godi'r adeilad ysgol cyntaf yng Nghymru i gael ei achredu'n llawn gan Passivhaus, yn Ysgol Porth Tywyn.



Milltiroedd y Fflyd

- ✓ Rydym wedi lleihau ein fflyd 8.8% dros y tair blynedd diwethaf. Rydym wedi lleihau'r tanwydd a ddefnyddir gennym 7.6% yn 2015/16, ac rydym wedi lleihau cyfanswm y tanwydd a ddefnyddir gennym 26% dros y pedair blynedd diwethaf. Defnyddiwyd 538,103 yn llai o litrau gennym yn 2015/16 nag yn 2008/9. Mae milltiroedd ein fflyd wedi gostwng o 5,393,714 yn 2014/15 i 5,041,173 yn 2016, ac mae'r milltiroedd mae'r staff yn teithio 594,401 yn llai nag yn 2014/15.

Rydym wedi lleihau ein fflyd weithredol yn fwy na'r targed o 2%, ac, fel y rhagwelwyd, wedi defnyddio 7.6% yn llai o danwydd dros 2015/16

- ✓ Rydym wedi gwneud cynnydd o ran ein rhaglen buddsoddi yn y fflyd er mwyn gwella effeithlonrwydd. Gwnaethom archebu fflyd newydd hyd at werth £5.3 miliwn yn 2015/16. Bydd gan y fflyd newydd y dechnoleg ddiweddaraf o ran lleihau allyriadau.
- ✓ Roeddem wedi adolygu ein strategaeth gaffael ar gyfer cerbydau masnachol ysgafn er mwyn gwneud arbedion refeniw o £120,000 y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf.

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / A oes unrhyw un ar ei ennill?

Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn yn ennill tair gwobr am ei dyluniad arloesol, creadigol ac eco-gydnaws

Rydym wedi parhau i ddatblygu, hybu ac ymchwilio i ymagwedd "adeiladwaith yn gyntaf" er mwyn gwireddu'r potensial ar gyfer *lleihau'r ynni a ddefnyddir* a materion yn ymwneud â gwasanaethu ar gynlluniau lle codir adeiladau o'r newydd neu lle cânt eu hadnewyddu'n sylweddol.

Rydym yn defnyddio'r ymagwedd hon er mwyn atgyfnerthu a llywio prosiectau'r dyfodol, er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r graddau gweithredol, costau, ac fel rhan o'r cyfraniad at ein rhwymedigaeth o ran lleihau allyriadau CO2, yn enwedig pan gyfunir hynny â deunyddiau crai lleol a chynaliadwy. Arweiniodd hyn at godi'r adeilad ysgol cyntaf yng Nghymru i gael ei achredu'n llawn, yn Ysgol Porth Tywyn. Bellach rydym yn datblygu dau gynllun arall gan fabwysiadu egwyddorion *Passivhaus* ochr yn ochr â gofynion Rhagoriaeth BREEAM er mwyn bodloni gofynion cyllidwyr grantiau, gyda golwg ar eu darbwyllio i ystyried yr ymagwedd adeiladwaith yn gyntaf fel y dewis mwyaf cynaliadwy.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn anelu at ddangos newid cadarnhaol yn sgôr gyfartalog Tystysgrifau Arddangos Ynni (DEC) adeiladau cyhoeddus yr awdurdod lleol sydd dros 1,000 metr sgwâr (CAM/037)
2. Byddwn yn clustnodi ac yn cyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni o dan raglen SALIX. (12118)
3. Byddwn yn rhoi rhaglen solar ffotofoltäig ar waith ar adeiladau annomestig y Cyngor – gosodiadau i'w cwblhau erbyn 31ain Awst 2016. (12120)
4. Byddwn yn ymchwilio i fentrau effeithlonrwydd ynni newydd ac arloesol, e.e. ymestyn cyfnod prawf y boeler ion yn dilyn y cyfnod prawf cadarnhaol parhaus yng Nghanolfan y Cei – Mesurir yn chwarterol yn ôl arbedion/gostyngiadau. (12121)
5. Byddwn yn parhau i gaffael rhagor o gerbydau sy'n effeithlon o ran tanwydd drwy ein rhaglen adnewyddu'r fflyd ac yn lleihau'r fflyd weithredol bresennol 2% dros y flwyddyn. (12122)
6. Byddwn yn ail-lansio ein canllaw *Travelwise Workwise* i ysgogi lleihad pellach yn y milltiroedd y mae'r staff yn teithio. (12123)

Nod: F2 Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Rydym yn cyrraedd ein targedau statudol ar gyfer 2019/20 o ran lwfans tirlenwi

Gellid dadlau bod yr agenda ar gyfer gwastraff ymysg yr heriau anoddaf sy'n wynebu'r Awdurdod, o ganlyniad i'r targedau ailgylchu a thirlenwi a osodwyd gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.

Dywed trigolion y sir fod *ailgylchu'n bwysig iddynt*, a heb eu cymorth byddai'n anodd cyrraedd y nod. Gan ddefnyddio llwyddiant y blynyddoedd a fu yn sail, rydym yn parhau i hyrwyddo ailgylchu trwy ein swyddog ailgylchu, y tîm ailgylchu, ac ymgyrchoedd ailgylchu yn y gymdogaeth.

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2014/15		2015/16	
	Gwirionedd ol	Cyfartaledd Cymru	Gwirionedd ol	Cynnydd
% y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (WMT/004b)	18.11% ***	29.38%	5.24%	Wedi gwella
% y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd ar gyfer ei aildefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys bio-wastraff wedi'i wahanu yn y ffynhonnell sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn modd arall (WMT/009b)	59.61% ****	56.23%	63.35%	Wedi gwella

#1 Mae 22 o Gyngorau yng Nghymru (*= y chwarterel gwaethaf (h.y. ymysg y pum gwaelod) **** = y chwarterel gorau (ymysg y pump ar y brig). Bydd data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2015/16 ar gael ym mis Medi 2016



Yn 2003 dim ond 9.4% o'n sbwriel cartref oedd yn cael ei ailgylchu, ond bellach rydym yn ailgylchu mwy na 60% o'r 78,000 o dunelli a gesglir bob blwyddyn. Trwy gyrraedd y targedau ailgylchu heriol rydym wedi osgoi cosbau ariannol enfawr (tua £160,000 am bob 1% yn is na'r targed).

Mae dinasyddion Sir Gaerfyrddin yn fodlon ar y gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu.....

Yn ôl [astudiaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15](#) mae **85%** o ddinasyddion Sir Gaerfyrddin yn **fodlon** ar y **gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu** a ddarperir gan y Cyngor, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac sy'n golygu bod y Cyngor yn gydradd drydydd



Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Rydym wedi rhagori ar ein targed o 15% ar gyfer canran y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (*WMT/004b*) a chael canlyniad o 5.24%.
- ✓ Rydym wedi gwella'n sylweddol ein perfformiad o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, drwy gyflwyno proses trin gwastraff gweddilliol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- ✓ Rydym yn ailddefnyddio, yn ailgylchu, yn compostio, neu'n trin yn fiolegol fwy o wastraff eleni. Mae 63% o'r gwastraff yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon yn awr. (*WMT/009b*)
- ✓ Rydym wedi trefnu diwrnodau cyngor yn y gymdogaeth drwy gydol y flwyddyn er mwyn ateb cwestiynau'r trigolion ar ailgylchu. Hefyd gallai trigolion achub ar y cyfle i gasglu bagiau glas a biniau bwyd newydd gan y tîm ailgylchu.
- ✓ Mae adroddiad Cynllun Lwfansau Tirlenwi 2014/15 wedi'i gyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru fis Hydref diwethaf, sy'n dangos bod y sir hefyd wedi lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddadwy y mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- ✓ Oddeutu 80% o hyd yw canran y cartrefi sy'n rhan o'r cynllun ailgylchu bagiau glas a 40% ar gyfer y cynllun ailgylchu bwyd. Mae rhaglen o weithgareddau ymgysylltu ar drothwy'r drws wedi cael ei rhoi ar waith drwy gydol y flwyddyn, gan roi pwyslais penodol ar ailgylchu gwastraff bwyd o ran cael 15,000 eiddo i dreialu defnyddio leinin biniau.
- ✓ Rydym yn buddsoddi mewn 28 o lorïau sbwriel a fydd yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac yn ein helpu i gyrraedd ein targedau.

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / A oes unrhyw un ar ei ennill?

Daeth Arolwg Sir Gaerfyrddin 50+ i'r casgliad:-

cefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant
datblygu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy
datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy
amgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth
cymunedau sy'n economaidd hyfyw/cynaliadwy
lleihau gwastraff....

o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn anelu at gyrraedd 62% o ran canran y gwastraff trefol a gesglir ac a baratoir ar gyfer ei aildddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys bio-wastraff wedi'i wahanu yn y ffynhonnell sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn modd arall (WMT/009b)
2. Byddwn yn sicrhau bod lefel y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi yn para'n isel, sef 10% neu'n is (WMT/004b)
3. Byddwn yn sicrhau bod canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol ac a baratoir ar gyfer ei aildddefnyddio yn para ar lefel o 0.50% (WMT/010i)
4. Byddwn yn anelu at ailgylchu o leiaf 43.50% o'r gwastraff trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol (WMT/010ii)
5. Byddwn yn cynyddu canran y gwastraff trefol a gesglir fel bio-wastraff wedi'i wahanu yn y ffynhonnell ac sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn modd arall o 17.67% i 18% (WMT/010iii)
6. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau presennol sy'n ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac er mwyn cynyddu ailgylchu. (12124)
7. Byddwn yn cynnal rhaglen o ddrws i ddrws er mwyn cynghori ac annog preswylwyr i fod yn rhan o'n cynlluniau ailgylchu bwyd a deunydd sych. (12125)

Nod: F3 Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy

Ystyr datblygu cynaliadwy yw gwella'r ffordd y gallwn gyflawni ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn wynebu nifer o heriau yn awr ac yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd, tlodi, trafndiaeth, tai, anghydraddoldebau iechyd, mynediad i wasanaethau, a swyddi a thwf. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain mae angen i ni weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill a chyda phobl a chymunedau er mwyn ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd gydgyssylltiedig i roi ansawdd bywyd da i'n plant a'n hwyron. Mae angen i ni feddwl sut y bydd y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn awr yn effeithio arnynt.

Mae ardaloedd gwledig yn ffurfio rhan sylweddol, hyd at 94%, o Sir Gaerfyrddin. Mae ardaloedd gwledig yn cyfrif am fwy na 62% (Ffigurau Poblogaeth Wardiau Cyfrifiad 2011) o boblogaeth y sir.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Adfywio Ffisegol

- ✓ Mae'r gwaith o godi'r adeilad masnachol a digwyddiadau a gyllidir gan Gymunedau Arfordirol ar safle'r Amgueddfa Cyflymder ym Mhentywyn bron â'i gwblhau er gwaethaf anawsterau o ran y tywydd. Mae'r adeilad yn cynnwys pedair uned fasnachol ar y llawr gwaelod, cyfleusterau toiledau cyhoeddus, a bwyty / llecyn i gynnal digwyddiadau ar y llawr uchaf.

LEADER

- ✓ Yn 2015, drwy ein Tîm Cyllid Allanol, bu i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'n ffurfiol ein Strategaeth Datblygu Lleol LEADER am 2014-2020 a dyraniad y gyllideb LEADER fynegiannol yw £4,352,000.00 er mwyn ein galluogi i weithredu rhaglen LEADER yn Sir Gaerfyrddin (trwy bartneriaeth sydd newydd gael ei ffurfio, y Grŵp Gweithredu Lleol - Grŵp Cefn Gwlad)
- ✓ Roedd ein tîm LEADER ar agor i fusnes er mwyn derbyn galwadau i gymunedau lleol, y cyhoedd, y sector preifat, a'r trydydd sector gael mynediad i gyllid drwy ein cronfa LEADER er mwyn cael cymorth ar gyfer prosiectau sydd wedi'u seilio ar arloesedd ac sy'n ddull o dreialu ffyrdd newydd o weithio.
- ✓ Rydym wedi gwahodd 6 sefydliad i gyflwyno ceisiadau manwl am gymorth cyllid drwy raglen LEADER.

Y Biwro Cymunedol

- ✓ Trwy ein Biwro Cymunedol roeddem wedi darparu siop-un-stop i'r trydydd sector a helpu cymunedau o ran arweiniad a gwybodaeth am gyllid
- ✓ Trwy ein Biwro Cymunedol roeddem wedi cefnogi sefydliadau i wireddu eu potensial ac wedi cynnig cymorth gan swyddog penodedig er mwyn datblygu prosiectau hyfyw a chynaliadwy – bu i'r Biwro ymdrin â 500 o ymholiadau ar ei ben ei hun yn 15/16
- ✓ Roeddem wedi cyllido prosiectau cymunedol yn Sir Gaerfyrddin drwy Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws, sef cronfa arloesol sy'n rhoi sylw i'r themâu allweddol canlynol – hamdden, diwylliant, addysg, iechyd, yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd

Cymunedau yn Gyntaf

- ✓ Mae ein Tîm Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i greu buddion i'r sir drwy Raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cyllid yn ardaloedd yr Awdurdod Lleol er mwyn lleihau'r bylchau o ran sgiliau/addysg economaidd ac iechyd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- ✓ Mae ein Tîm Cymunedau yn Gyntaf wedi cynnal 5 Clwb Amcanion a dau Glwb Amcanion 'Cychwyn Arni' i ieuencid yr wythnos mewn lleoliadau cymunedol, gan roi cymorth â llunio neu ddiweddarau CV, cymorth Paru Swyddi, ceisiadau swydd ar-lein, a chymorth Credyd Cynhwysol
- ✓ Hefyd rydym wedi datblygu menter newydd arloesol o'r enw 'Ffit i Gyflogi' sef rhaglen 10 wythnos ar gyfer pobl ifanc 16 - 24 oed, er mwyn cynyddu eu hyder, gwella eu sgiliau, gwella eu cyflogadwyedd, a gwella eu hiechyd cyffredinol
- ✓ Manteisiodd 253 o gyfranogwyr ar y cyngor a'r cymorth ynghylch dyledion a budd-daliadau, a gynigiwyd ar sail un i un mewn lleoliadau allgymorth yn ystod chwe sesiwn yr wythnos
- ✓ Roeddem wedi llwyddo i ennill Tendr Cynllun Datblygu Gwledig gwerth £90,000 ar gyfer *Exploitation of Digital Technology in Rural Carmarthenshire*, ym mis Chwefror 2016. Bydd y prosiect yn creu rôl Cydgysylltydd Digidol, tîm Ymgysylltu Digidol, a grŵp Rhanddeiliaid Strategol Partneriaeth Ddigidol ledled Sir Gaerfyrddin. Cynhelir 12 o Ddigidwyddiadau Ecsbloetio Digidol dros gyfnod o 2 flynedd ac mae 5 o "Hybiau" Digidol yn yr arfaeth.



Pobl Llanelli yn elwa ar ddysgu sgiliau digidol newydd yn eu llyfrgell leol drwy Gymunedau yn Gyntaf

A oes unrhyw un ar ei ennill?

Hwb o £488,000 i Ganolfan Antioch, Llanelli

Ym mis Mawrth 2016, cafodd canolfan boblogaidd Antioch yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin, lle mae banc bwyd, gwasanaeth cyngor ar ddyled, a sesiynau chwarae i blant, y newyddion gwych y bydd yn elwa ar gael £488,000 o gyllid gan Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru er mwyn adnewyddu'r adeilad a'i wneud yn fwy effeithlon o ran ynni. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i osod ffenestri newydd, adnewyddu'r toiledau a'r cawodydd, ailosod rhannau o'r to, ac inswleiddio waliau allanol i wella'r cyfleuster cymunedol hwn sy'n darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau i bobl leol.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17


1. Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy drwy ddatblygu a darparu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan drwy ddatblygu cynllun marchnata a chyfathrebu i gefnogi ymgysylltu cymunedol (12153)
2. Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy drwy ddatblygu a darparu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan drwy gysylltu prosiectau cyflogadwyedd (Cynnydd, Gweithffyrdd+, Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau dros Waith, Esgyn, Cam Nesa, Hwb Un Sir Gâr) â chyfleoedd perthnasol (12154)
3. Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy drwy ddatblygu a darparu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan drwy ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Buddion Cymunedol mewn partneriaeth â'n Tîm Caffael (12155)
4. Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw ac yn gynaliadwy drwy: darparu cymorth i ddatblygu ceisiadau cyllid Ewropeaidd allanol; Clustnodi cyfleoedd cyllid Ewropeaidd ehangach; datblygu'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe (12156)

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Mae partneriaeth dan arweiniad y Cyngor wedi cael £43,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect sy'n parhau â'r gwaith ar bum cors ar dir comin ger Brechfa a Llanfynydd. Bydd y prosiect yn ymchwilio i hanes botanegol y mawnogydd, yn cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynefinoedd a rhywogaethau corsydd, yn edrych ar sut y defnyddid y safleoedd gan fodau dynol yn y gorffennol, ac yn cymryd camau i warchod y cynefinoedd pwysig hyn i'r dyfodol.



Prosiect Brithion y Gors Mynydd Mawr – Mae'r gwaith yn parhau ar brosiect a ddatblygwyd i wneud iawn am effaith datblygiadau yn ardal Cross Hands ar gyfeir y glöyn byw gwarchoddedig hwnnw, brith y gors. Defnyddir cyfraniadau a ddaw i law yn sgil cyflwyno ceisiadau cynllunio i brynu neu i reoli tir yn yr ardal ar gyfer y glöynnod byw hyn. Eleni mae safleoedd wedi cael eu pori ac mae ffensys a chyflenwadau dŵr hollbwysig wedi cael eu gosod. Ar safleoedd eraill, mae'r cynefin wedi cael ei reoli fel y gall pori ddechrau'r flwyddyn nesaf.

- ✓ **Coed Cymru** - Mae swyddogion Coed Cymru (CC) yn parhau i roi cymorth a chyngor mewn ystod helaeth o safleoedd coetir gan gynnwys cynlluniau Coetiroedd Glastir a safleoedd lle mae clefyd coed ynn (*Chalara*) a chlefyd y llarwydd (*Phytophthora*). Mae Cronfa Natur Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £62,000 ar gyfer gwaith ar 30 o gynlluniau Rheoli Pridd a Dŵr ledled Sir Gaerfyrddin. Rydym wedi creu cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys lleiniau cysgodi, adfer perthi, ffensio parthau torlannol, a gwella adeiladau a chlosydd ffermydd er mwyn atal dŵr brwnt rhag llygru cyrsiau dŵr.

- ✓ Gan weithio gydag ecolegwyr lleol, rydym wedi cynnal neu gyfrannu at gyfres o sesiynau hyfforddiant ar rywogaethau a warchodir. Cafodd y swyddogion a'r contractwyr sesiwn ar werth cynefinoedd ymylon ffyrdd. Dysgodd swyddogion sy'n gweithio ar brosiectau tai am ystlumod, a dysgodd peirianwyr pontydd am ddyfrgwn ac ystlumod mewn sesiynau lle trafodwyd datblygu protocolau gweithio newydd. Cynhaliodd ecolegydd lleol sesiwn ar bathewod ar gyfer ecolegwyr eraill a rheolwyr tir



Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / A oes unrhyw un ar ei ennill?

Bu Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar ymweliad ag Ysgol Gynradd Stebonheath, Llanelli i weld sut mae disgyblion yn cael budd o gynllun **GlawLif Dŵr Cymru**, sydd wedi cael cefnogaeth gennym ni.

Mae Ysgol Gynradd Stebonheath wedi chwarae rhan fawr yn y cynllun GlawLif, ac fe'i dewiswyd oherwydd ei bod wedi'i lleoli yng nghanol y prosiect £15 miliwn. GlawLif yw'r cynllun cyntaf o'i fath yn y DU ac fe'i lluniwyd i leihau oddeutu 20% ar faint o ddŵr glaw sy'n mynd i mewn i'r systemau draenio cyhoeddus, gan helpu i leihau'r perygl o lifogydd a llygredd yn y carthffosydd.

- ✓ Mae ffigurau'n dangos bod Sir Gaerfyrddin ymhlith y pum awdurdod lleol gorau yng Nghymru am roi stop ar dipio anghyfreithlon. Gwnaeth nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yn y sir leihau o 1,438 yn 2013/14 i 1,306 yn 2014/15. Cynhaliodd swyddogion gorfodi materion amgylcheddol gyfanswm o 1208 o ymchwiliadau y llynedd yn ogystal â 101 o archwiliadau 'dyletswydd gofal' cysylltiedig.

Mae sawl prosiect wedi cael ei gyflawni yn Llanelli a Thre-gŵyr ers 2014

- Trawsffurfiwyd lle chwarae'r ysgol gyda buddsoddiad o £500,000 i ddarparu pwll, pant, coed a phlanhigion, potiau, llecyn addysgol awyr agored a chasgenni dŵr ar gyfer arbed dŵr.
- Roedd yr ysgol yn arfer cynhyrchu 10,000m³ o ddŵr storm bob blwyddyn ond mae'r lle chwarae newydd yn gwaredu oddeutu 3,000m³ o'r rhwydwaith carthffosydd, gan roi'r dŵr yn ôl yn y cylch dŵr naturiol drwy'r planhigion a'r coed newydd.
- Gan annerch Ei Uchelder Brenhinol a'r gwahoddedigion, dywedodd Mr Littler: *"Mae'r effaith a gafodd y cynllun GlawLif ar yr ysgol yn benodol wedi bod yn un sylweddol. Mae'r plant wedi cael budd mawr o hyn."*

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn cadw'r amser a gymerir ar gyfartaledd (diwrnodau calendr) i waredu baw cŵn yn 1.40 diwrnod neu lai (5.2.2.19)
2. Byddwn yn sicrhau bod yr achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac a gaiff eu clirio o fewn 5 diwrnod gwaith yn parhau'n uchel, sef 98.63% o leiaf (STS/006)
3. Byddwn yn sicrhau bod y priffyrdd a'r tir perthnasol a archwilir sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid yn parhau'n uchel, sef 92% (STS/005b)
4. Byddwn yn sicrhau bod glendid ein priffyrdd ar sail Archwiliadau Mynegai Glendid Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau'n uchel, sef 67% o leiaf (STS/005a)
5. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu a rheoli drwy gytundeb, a, lle bo'n briodol, yn prynu tir sy'n gynefin addas i frithion y gors drwy brosiect Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr. (12126)

Nod: F5 Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy

Gweler y **Canlyniad: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus i gael gwybodaeth am y nod hwn**

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Trwy hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel, rydym wedi darparu ymyriadau trafndiaeth amrywiol. Mae ein [Cynllun Trafndiaeth Lleol](#) yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i deithio cynaliadwy a diogelwch ffyrdd.

Rydym yn parhau i hybu a chefnogi dulliau trafndiaeth cynaliadwy yn y sir er mwyn helpu i ysgogi lleihad yn yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r defnydd o geir preifat. Rydym yn buddsoddi yn y *seilwaith priffyrdd* er mwyn lleihau tagfeydd gan gynnwys adeiladu ffyrdd cyswllt allweddol a gwella *llwybrau beicio a cherdded* er mwyn hybu ffordd o fyw fwy iach ac ysgogi lleihad yn nifer y teithiau byrion mewn ceir.

Hefyd rydym yn parhau i fuddsoddi yn y system *trafndiaeth gyhoeddus*. Mae'r system trafndiaeth gyhoeddus yn helpu pobl nad oes ganddynt gar i deithio, a hefyd mae'n cynnig dewis arall yn hytrach na defnyddio'r car i deithio yn ystod y dydd. Yn ogystal, mae'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yn helpu economïau canol tref gan fod pobl yn teithio i'r dref ar gyfer cyflogaeth, adwerthu, hamdden ac angen cymdeithasol. Mae'n rhan o'r cyfuniad o ddewisiadau trafndiaeth sy'n ofynnol yng nghanol pob tref er mwyn helpu i leihau tagfeydd a lleihau allyriadau.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Datblygiad Seilwaith Priffyrdd

- ✓ Rydym wedi datblygu cysylltiadau trafndiaeth sy'n cefnogi datblygiad economaidd a chynaliadwyedd, ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn ystod 2015/16, cychwynwyd ar y gwaith o adeiladu ffordd gyswllt Gorllewin Caerfyrddin, a'r targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yw dechrau 2017. Cafodd cam 1b o Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands i wella mynediad ar y safle Cyflogaeth Strategol ei gwblhau ac mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer cam 2 y cynllun.
- ✓ Rydym wedi adeiladu llwybrau troed/llwybrau beicio newydd sy'n cael eu defnyddio ar y cyd: Llangennech i Ddafen er mwyn hyrwyddo mynediad i safleoedd cyflogaeth, a chafodd llwybr camlas Pen-bre hyd at Gydweli ei ymestyn er mwyn cefnogi twristiaeth a thripiâu hamdden. Rydym hefyd wedi cwblhau cynllun Llwybr Beicio Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd â'r cynllun o Gwm-ffrwd i Bibwr-lwyd yng Nghaerfyrddin.
- ✓ Rydym wedi gosod wyneb newydd ar 27.98 cilometr o briffyrdd, adnewyddu 9 o bontydd a chwlfery yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn parhau i gynnal 3,417 cilometr o rwydwaith priffyrdd lleol, a hynny mewn sefyllfa lle mae'r adnoddau'n lleihau.
- ✗ Mae canlyniadau Perfformiad Awdurdod Lleol cymharol Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â chanran y ffyrdd A+B+C sydd mewn cyflwr gwael ymhlith y gwaethaf yng Nghymru, er eu bod yn gwella ar hyn o bryd

Diogelwch Ffyrdd, Parcio a Rheoli Traffig

Gweler hefyd y [Canlyniad: Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel / Nod E6: Lleihau goryrru a damweiniau ar y ffordd](#)

Cludiant Teithwyr

- ✓ Rydym wedi cael cyllid i ymestyn gwasanaeth bws Bwcabus, sy'n ymateb i'r galw. Mae Bwcabus yn dal i fynd yn groes i'r duedd o ran y gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio bysiau. Rydym wedi cydweithio â'r cwmnïau bysiau a Llywodraeth Cymru i ddarparu a chynnal y rhwydwaith.

Er enghraifft, rydym wedi dylunio a gweithredu gwasanaeth strategol newydd Traws Cymru o Gaerfyrddin i Aberystwyth a chael cyllid i'w roi ar waith.

- ✓ Rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac rydym yn parhau i wneud hynny, er mwyn datblygu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol i helpu â'r pwysau sydd ar y gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys. Cafodd cynllun prawf ei gyflwyno fel bo modd teithio ar wasanaeth Bwcabus i feddygfeydd; mae ein prosiect SA48 wedi dechrau er mwyn sicrhau bod mwy o deithiau'n cael eu gwneud ar drafndiaeth gyhoeddus. Hefyd rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol i ddatblygu gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad.
- ✓ Rydym wedi parhau i gefnogi gweithrediad y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Yn 2015/16 cafodd ein rhwydwaith cludiant ysgol ei ail-ddylunio'n llwyddiannus er mwyn cefnogi aildrefnu addysg uwchradd yn hen ardal Dinefwr, adeg agor campws Ysgol newydd Bro Dinefwr.

Y Fflyd

Gweler hefyd *Nod F1: Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear, a lleihau ein hallyriadau carbon*

Ymgynghori

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd ynghylch sut y dylem flaenoriaethu'r gwasanaethau a ddarperir wrth i gyllidebau refeniw leihau. Mae pobl yn gwerthfawrogi'r Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn fawr ac roedd llawer iawn yn cefnogi bod y Cyngor Sir yn darparu'r gwasanaethau hyn. Roedd pobl wedi nodi'r cydberthynas rhwng rhwydwaith trafndiaeth gweithredol a'r economi leol. Lle roedd bwriad cwtdogi ar wasanaethau, roedd pobl yn pryderu ynghylch hyd a lled ac effaith gostyngiadau refeniw; er enghraifft:

Roedd pryderon ynghylch sut y gallai gostyngiadau mewn cyllidebau, ynghyd â thwf mewn traffig a mwy o dywydd gwael, gael effaith ar ddiogelwch y cyhoedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Roedd yr adborth yn awgrymu bod angen gosod pwyslais o hyd ar atal, oherwydd bydd ymyriadau adweithiol yn costio rhagor. Roedd rhai Cyngorau Cymuned yn awgrymu y gallent fod o gymorth drwy flaenoriaethu gwaith lleol. Roedd yr ystod ehangach o randdeiliaid yn awgrymu rhai newidiadau i lefel yr arwyddion, gostegu traffig, torri porfa, a'r angen i roi hwb i drafndiaeth gyhoeddus.

Roedd Astudiaeth Tlodi Gwledig Sir Gaerfyrddin wedi nodi mai Trafnidiaeth oedd gwythïen y Sir Gaerfyrddin gwledig: roedd cydnabyddiaeth ymysg sefydliadau a'r sawl oedd wedi ymateb i'r arolwg y byddai gwelliannau mewn trafndiaeth yn creu cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd.

Mae nifer o ostyngiadau wedi bod yn y gyllideb ar gyfer priffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf. Cyflwynwyd rhagor o gynigion o ran yr arbedion cyffredinol y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu gwneud, ond cafwyd gwrthwynebiad cryf iddynt adeg ymgynghori â'r cyhoedd ac aelodau etholedig ynghylch y gyllideb. Hefyd, un o'r **themâu allweddol** a ddeilliodd o'r ymgynghoriad cyhoeddus oedd y "cydberthynas rhwng rhwydwaith trafndiaeth gweithredol a'r economi leol"

Yn ein harolwg yn 2014 ynghylch bodlonrwydd ar wasanaethau a phwysigrwydd gwasanaethau, clustnodwyd *Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Ffyrdd* yn un o'r rhai pwysicaf ac yn un o'r rhai roedd pobl leiaf bodlon arnynt.

Arolwg Pwysigrwydd a Bodlonrwydd ar Wasanaethau

Pwysigrwydd →	Pwysigrwydd uchel / Bodlonrwydd isel <ul style="list-style-type: none"> • Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Ffyrdd <ul style="list-style-type: none"> • Cyfleusterau cyhoeddus • Clybiau a chyfleusterau i bobl ifanc 	Pwysigrwydd uchel / Bodlonrwydd uchel <ul style="list-style-type: none"> • Casglu sbwriel • Ailgylchu • Addysg gynradd ac uwchradd
	Pwysigrwydd isel/Bodlonrwydd isel <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau cynllunio • Lleoedd chwarae • Addysg i oedolion 	Pwysigrwydd isel/Bodlonrwydd uchel <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad i Gefn Gwlad • Theatrau, orielau celf • Gwyliau a digwyddiadau
Bodlonrwydd →		

Mae gwella'r seilwaith priffyrdd er mwyn cefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach wedi cael ei glustnodi fel Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17, oherwydd:-

- Mae rhwydwaith trafndiaeth a phriffyrdd gweithredol yn sylfaenol bwysig o ran symud nwyddau a phobl yn ddiogel ac yn gynaliadwy mewn economi fodern, lwyddiannus.
- Wrth fynd ati i gyrraedd y nod hwn, byddwn yn rhoi nifer o ymyriadau ar waith er mwyn cefnogi datblygiad economaidd



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Byddwn yn gwella'r seilwaith priffyrdd er mwyn cefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach

Mae gan Drafnidiaeth a Phriffyrdd rôl allweddol o ran cynnal ein cymunedau

Mae ein gwasanaethau ym meysydd *Trafnidiaeth a Phriffyrdd* yn hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel. Maent yn galluogi mynediad i nwyddau crai a marchnadoedd, yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad i gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden, a gweithgareddau cymdeithasol.

Ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru ac mae'n cwmpasu 3,343 cilomedr, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd Cymru sef 1,566 cilomedr. Mae'n cwmpasu 16 miliwn metr sgwâr o ffyrdd. Hefyd ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru o ran hyd ffyrdd Dosbarth 1; yn ail i Wynedd yn unig.

Wrth hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel, rydym yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid allweddol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ac yn ein Cynllun Buddsoddi Cyfalaf. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu seilwaith priffyrdd newydd yng Ngorllewin Caerfyrddin, Cross Hands a Rhydaman, a byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cerdded a beicio allweddol yn Llanelli, Dyffryn Tywi a Chaerfyrddin.

Bydd cyllideb refeniw y Gwasanaethau Priffyrdd ar gyfer 2015-16 tua £8.1 miliwn a'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer priffyrdd, pontydd a chwlfery yw £2.15 miliwn. Bydd y buddsoddiad yn ein helpu i wella cyflwr priffyrdd yn gyffredinol ac i leihau canran gyffredinol y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael.

Nodir ein perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf isod:

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2014/15		2015/16	
	Gwirioneddol	Cyfartaledd Cymru	Gwirioneddol	Cynnydd Gwirioneddol
Canran y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011a)	4.3%	4.1%	4.6%	Wedi dirywio
Canran y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011b)	3.6%	5.0%	4.0%	Wedi dirywio
Canran y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011c)	15.6%	17.2%	13.7%	Wedi gwella
DS Mae canran enfawr y ffyrdd dosbarth C yn golygu.....				
Bod canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	11.9%	11.9%	10.7%	Wedi gwella
Canran yr oedolion 60+ sy'n meddu ar docyn teithio rhatach (THS/007)	81.5%	86.8%	80.6%	Wedi dirywio

Pam y mae hyn yn bwysig

Mae darparu seilwaith trafndiaeth a phriffyrdd yn bwysig o ran cefnogi ein heconomi genedlaethol a lleol gan fod hwyluso symudiad traffig yn cefnogi cystadleurwydd yr economi, a chyda'r amrywiol ddatblygiadau seilwaith mae'n helpu i gyflawni gwelliannau mewn iechyd a lles.

Mae rôl allweddol gan y gwasanaethau trafndiaeth a phriffyrdd o ran cysylltu pobl â gwasanaethau, mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, iechyd ac addysg, adwerthu a hamdden.


Sut rydym yn cymharu ag eraill

Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r ffyrdd 4^{ydd} gwaethaf o ran eu cyflwr.

(Ffynhonnell: Perfformiad Gwasanaeth Awdurdod Lleol 2014/15)

O ran cyflwr ffyrdd, cawsom ein graddio yn y 19eg safle o blith 22 ledled Cymru yn 2014/15. Mae'r perfformiad cyffredinol wedi gwella yn 2015/16.

Bydd data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2015/16 ar gael ym mis Medi 2016.



A oes unrhyw un ar ei ennill?

Seilwaith Trafnidiaeth

Priffyrdd

- Mae ein buddsoddiad yn y seilwaith wedi hwyluso datblygiad economaidd yn Cross Hands, a bydd cychwyn ar Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn rhoi bod i ddatblygiad cymysg ac yn dod ag S4C i Gaerfyrddin yn 2018, a fydd yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol. Yn ystod 2015/16 gosodwyd wyneb newydd gennym ar 27.98 cilomedr o briffyrdd.

Cludiant Teithwyr

- Mae'r nifer sydd â thocynnau teithio rhatach ar fysiau yn dal yn uchel, sef 80.6% o boblogaeth 60+ Sir Gaerfyrddin, a hynny mewn sefyllfa lle mae cyllid yn lleihau, ac, yn sgil hynny, gwasanaethau hefyd. Rydym yn parhau i weithio gyda chwmnïau bysiau, ein hawdurdodau cyfagos, a Llywodraeth Cymru er mwyn darparu a chynnal y rhwydwaith cyhoeddus i'r graddau mwyaf posibl.
- Rydym wedi parhau i gefnogi gweithrediad y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Yn 2015/16 cafodd ein rhwydwaith cludiant ysgol ei ailddylunio'n llwyddiannus er mwyn cefnogi aildrefnu addysg uwchradd yn hen ardal Dinefwr, adeg agor campws Ysgol newydd Bro Dinefwr.

Fe
Ddwedsoch
Chi

Fe Wnaethom NI

Roeddech am fwy o sicrwydd wrth anfon eich plant i'r ysgol gyda Chynorthwyyr Teithwyr

Mae'r adain Cludiant Teithwyr wedi atgoffa ein holl gontractwyr cludiant o'r angen i roi gwybod i rieni neu warcheidwaid am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio ac wedi atgoffa ein holl Gynorthwyyr Teithwyr fod yn rhaid gwisgo carden adnabod bob amser a'i dangos pan ofynnir ichi wneud.

Sut rydym ni'n bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Beth fyddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant		2016/17
		Y Targedau
Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Ffyrdd		
Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu hierarchaeth rhwydwaith priffyrdd gyda'r Côd Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Priffyrdd er mwyn gwella sut rydym yn rheoli'r ased priffyrdd (12127)		Mawrth 2017
Byddwn yn buddsoddi £2.125 miliwn o gyfalaf er mwyn gwella cyflwr ein priffyrdd, pontydd a chwlferei (12128)		Mawrth 2017
Byddwn yn lleihau % y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011a) (Canlyniad 2015/16 - 4.6%)		4.0%
Byddwn yn lleihau cymaint â phosibl ar % y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011b) (Canlyniad 2015/16 -4.0%)		4.0%
Byddwn yn lleihau % y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011c) (Canlyniad 2015/16 -13.7%)		12.0%
Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012) - O 10.7% ar gyfer 2015/16		9.5%
Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafndiaeth strategol i gefnogi datblygiad economaidd, drwy:		Mawrth 2017
<ul style="list-style-type: none"> Parhau â'r gwaith o adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin er mwyn cefnogi ail-leoli S4C a hwyluso datblygiad cymysg. (12129) Bwrw ymlaen â Cham 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun yn 2016/17. (12130) Cychwyn ar y gwaith o wella'r seilwaith priffyrdd yn Rhydaman er mwyn gwella llif traffig a lleihau tagfeydd. (12131) 		Mawrth 2017
Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gyflawni cynllun ffordd osgoi Llandeilo. (12132)		Mawrth 2017
Llwybrau Beicio		
Byddwn yn cwblhau'r llwybr troed a'r llwybr beicio o Langennech i Ddafen ac yn cychwyn ar ein prosiect blaenllaw, Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, er mwyn gwella cysylltedd ac annog mathau o deithio sy'n fwy cynaliadwy. (12133)		Mawrth 2017
Cludiant Teithwyr		
Byddwn yn parhau i gefnogi gweithrediad y Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailddylunio rhwydweithiau i hwyluso symudiad disgyblion fel y pennwyd yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. (12134)		Mawrth 2017
Byddwn yn anelu am o leiaf 79% o oedolion 60+ oed i berchen ar docyn teithio rhatach (THS/007)		79%

Sut ydym yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? / A oes unrhyw un ar ei ennill?

Rydym wedi dechrau gwella dros 20 cilomedr o lwybrau troed ledled y sir fel rhan o *Raglen Gyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy*. Bydd buddsoddi £55,000 yn golygu y bydd llwybrau'n fwy hygyrch i gerddwyr ac yn cynnwys arwynebau, arwyddion a phontydd newydd, a bydd cysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru yn Llan-gain. Rheolir prosiect Llywodraeth Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru a chaiff ei weithredu gan ein tîm cefn gwlad. Yn ogystal, fel rhan o'r prosiect, mae 5 o daflenni Teithiau Cerdded Sirol, sy'n cynnwys Llwynywerwd, Llansteffan, Dre-fach Felindre, Cwm-du a Llanymddyfri wedi cael eu diwygio a'u diweddarau.



Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Mae ein Gwasanaethau Hamdden yn allweddol o ran darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Hefyd maent yn allweddol o ran prif ffrydio'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu bod yn rhan o amgylchedd sy'n naturiol ddwyieithog.

Yn sgil adborth gan ein cwsmeriaid a gweithredu Safonau'r Gymraeg, dilynodd yr is-adran Hamdden a Diwylliant gyfres o sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Gofal Cwsmeriaid, lle rhoddwyd cyfle i'r

staff edrych ar arferion presennol a phennu nodau ar gyfer darpariaeth y dyfodol.

Gwelir isod adborth cychwynnol gan yr aelodau o staff a gymerodd ran:

- *Yn meddwl yn wahanol iawn - nid mewn ffordd 'bolisi' ond mewn ffordd ymarferol, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.*
- *Mae wedi fy ngwneud i ymlacio mwy o ran y Gymraeg ac i ymarfer fy Nghymraeg.*
- *Yr angen sylfaenol i ystyried a gwerthuso ein darpariaeth bresennol o ran gwasanaethau cwsmeriaid yn Sir Gaerfyrddin ac efallai demograffeg ein cwsmeriaid a phwysigrwydd cyfathrebu a chefnogi eu gwerthoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.*
- *Mae wedi fy ngwneud i sylweddoli bod siarad Cymraeg o unrhyw lefel yn bwysig iawn i'r canfyddiad sydd gan bobl yng Nghymru o'r busnes/sefydliad.*
- *Sylweddoli bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwella'r profiad a gaiff y cwsmer. Yn rhan annatod o wasanaeth cwsmeriaid da.*
- *Dwyieithrwydd gwirioneddol a sut y gellir sefydlu hynny'n rhan o'r gwasanaeth a ddarperir.*

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

- ✓ Roedd pob myfyriwr a wnaeth sefyll yr arholiadau Cymraeg i Oedolion yn Sir Gaerfyrddin eleni yn llwyddiannus. Mae cyfradd lwyddo o 100% wedi'i chyhoeddi ar gyfer y tair lefel - Mynediad, Sylfaen a Chanolradd.
- ✓ Byddwn yn parhau i fonitro'r ystyriaethau a nodwyd mewn perthynas â gweithredu'r polisi o ran yr iaith Gymraeg a'r diwylliant, a goblygiadau'r Bil Cynllunio sy'n cael ei ddatblygu ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at Banel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr iaith Gymraeg drwy ystyried rôl Cynllunio o ran yr iaith Gymraeg.
- ✓ Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2015, a chyhoeddwyd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru at ddibenion ymgynghori (yn benodol Nodyn Cyngor Technegol 20 ar Gynllunio a'r iaith Gymraeg). Disgwylir canllawiau pellach y flwyddyn nesaf, ar ôl i ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Nodyn Cyngor Technegol gael eu prosesu gan Lywodraeth Cymru.

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg [\(12135\)](#)
2. Byddwn yn monitro ystyriaethau a nodwyd mewn perthynas â'r polisi o ran yr iaith Gymraeg a'r diwylliant, a goblygiadau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol. [\(12136\)](#)

Canlyniad G: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy ffyniannus..

Mae darparu cyfleoedd hyfforddiant a swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Yn y gorffennol, mae gormod o bobl ifanc wedi cael eu gorfodi i adael Sir Gaerfyrddin i ddod o hyd i waith. Gan weithio ar draws yr holl sectorau – cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat – rydym am wella ffyniant i bawb yn y sir.



Nodau: (fel y cytunwyd yn y Strategaeth Gymunedol Integredig gyda phartneriaid)

- G1 – Datblygu twf busnes, cadw arbenigedd (gan gynnwys cadw pobl ifanc)
- G2 – Creu cynifer o swyddi ag y bo modd i bawb
- G3 – Datblygu economi wybodaeth ac arloesedd
- G4 – Sicrhau lleoedd unigryw a seilweithiau cystadleuol
- G5 – Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol
- G6 – Creu economi a gweithlu dwyieithog

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOP) yw:

- Creu swyddi a thwf ar draws y sir
- Trechu tlodi

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Mwy o gyflogaeth	✓
Lleihad yng nghanran y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra allweddol	✓
Mwy o gynhyrchedd a gweithgarwch economaidd	✓

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 15/16 / Y Gwelliant sydd wedi'i Drefnu ar gyfer 16/17:

Nod: G1 Datblygu twf busnes, cadw arbenigedd (gan gynnwys cadw pobl ifanc)

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Trwy wasanaeth cymorth busnes hir-sefydledig, sy'n canolbwyntio ar fusnesau Pareto allweddol a chymorth twristiaeth, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth personol o ansawdd da i'n mentrau allweddol, sydd wedi arwain at ragori ar dargedau ar gyfer creu swyddi, gweithgarwch menter ieuenctid a chreu mentrau sector preifat.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Datblygu Busnes

- ✓ Rydym wedi **Rheoli Cyfrifon cyffredinol 40** o gyflogwyr allweddol neu strategol trwy reoli a chefnogi perthynas waith broffesiynol a busnes gyda nhw. Mae'r rhaglen allweddol 'Byd Gwaith' wedi parhau, ac mae nifer o fusnesau allweddol eisoes yn cymryd rhan gan gynnwys Magstim, Morganstone, a S4C.
- ✓ Mae Strategaeth Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cydnabod yr angen i gefnogi twf busnes ac mae'n targedu'n benodol yr angen i gefnogi prif gyflogwyr presennol mawr ar draws De-orllewin Cymru. Mae grŵp traws-ranbarthol wedi ei ffurfio i ddatblygu'r fenter **Cyflogwyr Parento**, a fydd yn gweld busnesau ar draws y Ddinas-ranbarth yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyfeiriad economaidd y rhanbarth ac yn llunio'r polisi yn unol ag anghenion busnes. Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o gyflogwyr mewn sectorau twf allweddol a thrwy drafod caiff blaenoriaethau eu nodi o hyd. Mae'r cymorth i gyflogwyr yn barhaus, ac mae pob un o'r 40 o gwmnïau strategol ym mhob sir wedi eu nodi'n glir.
- ✓ Rydym wedi helpu busnesau lleol drwy sicrhau bod **94.9% o'r anfonebau wedi cael eu talu** o fewn 30 diwrnod (*CFH/006*)
- ✓ Rydym wedi cynnal **gweithdy cychwyn busnes**, ac roedd 25 o fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn sefydlu eu busnes eu hunain yn bresennol. Mae'r myfyrwyr hyn wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Bwrsariaeth y Goleudy eleni. Byddwn yn dal i gefnogi'r myfyrwyr sy'n dymuno sefydlu busnes drwy gynnig cyngor a chymorth.

Economi Ymwelwyr/Twristiaeth

Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella'r economi drwy dwristiaeth, sef diwydiant sy'n werth £342 miliwn y flwyddyn i'r Sir yn ystadegol, a hynny drwy:

- cynllunio a chyflawni ymchwil strategol sy'n ein helpu er enghraifft mewn astudiaethau llety a gwesty
- bod yn gatalydd a meithrin perthynas â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r 3ydd sector er mwyn gwella twristiaeth
- sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn cael ei hybu'n effeithiol ac yn arloesol fel ardal fyrlymus i aros ac i ymweld â hi
- ✓ Rydym wedi cefnogi 145 o fusnesau drwy gynghori busnesau twristiaeth a lletygarwch ynghylch cynlluniau cymorth grant a arweinir gan y llywodraeth, arwyddion twristiaeth brown, cyfleoedd hyrwyddo, ac arweiniad un-i-un ar amrywiaeth o faterion o ddydd i ddydd.
- ✓ Roeddem wedi sicrhau £4.5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y datblygiad ym Mhentywyn, a fydd yn un o'r prosiectau twristiaeth mwyaf yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf.
- ✓ Rydym wedi cael £60,000 gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ein cynlluniau am 2016 ar gyfer thema **Blwyddyn Antur** Cymru, er mwyn helpu i amlygu'r hyn sydd gan Sir Gaerfyrddin i'w gynnig. Mae busnesau'n cefnogi'r ymgyrch yn llawn, a fydd yn dathlu'r cyfoeth o weithgareddau sydd ar gael i ymwelwyr a phreswylwyr gan gynnwys *Canolfan Antur Bae Morfa*, *Canolfan Farchogaeth Marros*, *Clwb Canŵio Padlwyr Llandysul*, *Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru*, *Cadw a Chastell Carreg Cennen*.



Cefnogi Entrepreneuriaeth

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw pobl leol i'r economi leol, ynghyd â galluogi cenedlaethau'r dyfodol i barhau i ddatblygu'r economi. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi entrepreneuriaeth, rydym wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau allweddol i fyfyrwyr addysg uwchradd, addysg uwch ac addysg bellach.

- ✓ Cafodd rownd derfynol **Bwrsariaeth y Goleudy** 2015 ei chynnal fis Mehefin diwethaf. Y ddau gynnydd busnes buddugol oedd *Rapid IT* a *Women's Workwear Company*. Mae'r ddau'n gwneud cynnydd da, ac mae *Rapid IT* wedi symud i mewn i swyddfa yn Y Goleudy.
- ✓ Roedd chwech o'n hysgolion wedi cymryd rhan ym menter **Dreigiau Busnes Ifanc Bae Abertawe**. Y ddwy ysgol a wnaeth ennill ein rownd gynderfynol oedd Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac Ysgol Sant Ioan Llwyd, ac aethant ymlaen i gynrychioli'r sir yn y rownd derfynol. Rhoddwyd gwobr 'Canmoliaeth Arbennig' i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, a oedd yn gyflawniad gwych iddynt. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r digwyddiad cyfan, a chafwyd canlyniadau cadarnhaol iawn.
- ✓ Mae ein hysgolion yn dal i gymryd rhan yn ein **rhaglen 'Byd Gwaith'** ac mewn partneriaeth ag S4C a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, cafodd digwyddiad ei gynnal fis Tachwedd diwethaf i helpu S4C i ymgysylltu ag ysgolion lleol er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd gyrfa posibl yn sgil y pencadlys newydd – Canolfan yr Egin. Bu i 40 o ddisgyblion blwyddyn 12 fynychu'r digwyddiad, lle cynhaliwyd gweithdai ar y sector creadigol.
- ✓ Mae cymorth wedi cael ei roi i 95 o bobl ifanc drwy'r Mentor leuenctid Ffyniannus a'r Tîm Esgyn
- ✓ Fel rhan o'n cymorth i ysgolion a cholegau ar gyfer Bagloriaeth Cymru, rydym wedi darparu cyflwyniadau ar fusnes a menter iddynt



Disgyblion mewn diwrnod Byd Gwaith

Sut ydym yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?



Y Cyng. Meryl Gravell (Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden) yn y llun gyda Nick Cvetkovic

Yn ystod gweddarlliediad byw y llynedd gyda Syr Terry Matthews, Cadeirydd Dinas-ranbarth Bae Abertawe, pryd y bu i egin entrepreneuriaid o ysgolion uwchradd lleol ofyn cwestiynau ynghylch mentergarwch iddo drwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol, aeth un disgybl o Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, o'r enw **Nick Cvetkovic**, i gwrdd â Syr Terry Matthews ei hun i geisio ei gyngor ar sefydlu ei fusnes ei hun.

Mae Nick wrthi'n sefydlu ei fusnes ei hun, a bydd yn cael defnyddio swyddfa am ddim yn Y Goleudy. Bydd yn creu dwy neu dair swydd a hefyd bydd yn astudio ar gyfer ei gymwysterau Safon Uwch ar yr un pryd. Mae'n cael ei fentora gan Syr Terry Matthew, yn ogystal â chael cyngor a chymorth gennym ni.

Eglurodd Nick: "Byddwn yn creu hunaniaeth brand i gwmnïau, logos ar gyfer eu gwefannau a phob math o ddylunio graffeg ar gyfer eu deunyddiau cyhoeddusrwydd. Rwyf wedi cynllunio ac ymchwilio i'r hyn mae busnesau dylunio yn ei wneud a sut maen nhw'n cael eu rhedeg. Rwy'n gobeithio cyflogi 2-4 o raddedigion i gychwyn. Rwy'n gwneud hyn yn ogystal â'r cyrsiau Safon Uwch ac mae llawer i'w wneud yn yr ysgol hefyd!"

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i ddatblygu twf busnes, cadw busnesau ac arbenigedd yn Ardaloedd Parth Twf Cross Hands a Rhydaman, Caerfyrddin ac Ardaloedd Gwledig, ac Ardaloedd Llanelli a Llain Arfordirol Llanelli drwy fentrau megis Pareto, Rheoli Cyfrifon, Gweithgarwch Menter Ieuencid, Byd Gwaith ac ailymweld â phrosiectau blaenorol sydd wedi cael cymorth ar ffurf grant. (Targed: Creu 20 swydd a diogelu 40) (12157, 12158, 12159) – **Hefyd yn gysylltiedig â Nod G2**
2. Byddwn yn sicrhau bod canran uchel (93.5%) o anfonebau diddadl yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod i helpu llif arian busnesau lleol (CFH/006)

Nod: G2 Creu cynifer o swyddi â phosibl i bawb

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Ar ddiwedd 2015 roedd **82,600** o bobl yn cael eu cyflogi yn Sir Gaerfyrddin, ac o'u plith roedd 78,300 o oedran gwaith 16–64 (StatsCymru (APS/LFS), Mawrth 2016). Roedd hyn yn cyfateb i gyfradd cyflogaeth o **70.9%**, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 70.3% ond sydd dal yn is na chyfartaledd y DU o 73.5%. O'r cyfanswm hwn, roedd 33,800 yn cael eu cyflogi o fewn naw sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r sector preifat yn cefnogi 75.9% o gyfanswm poblogaeth gyflogedig y sir, gan bwysleisio pwysigrwydd menter ac arloesedd i ffyniant a lles cyffredinol y sir a'i thrigolion. Rydym yn sir amrywiol mewn nifer o ffyrdd, ac mae gan ein trefi a'n pentrefi nodweddion unigryw; mae ein dwyieithrwydd yn ein cryfhau ac yn ein diffinio; mae ein cymuned fusnes yn gweithredu ar draws nifer o sectorau twf newydd allweddol.

Mae'r hyn rydym yn ei gynnig o ran twristiaeth a hamdden yn unigryw, ac yn cynnig llawer iawn i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rydym yn cynnig safleoedd cyflogaeth strategol er mwyn i fusnesau a gweithwyr ffynnu. Bellach mae lefelau uchel o gysylltedd digidol mewn grym yn Sir Gaerfyrddin i ni gael manteisio arno yn ein bywydau personol a'n bywydau gwaith, a chan fod mwy o fuddsoddiad ar y gweill ac yn yr arfaeth ar gyfer ein seilwaith trafndiaeth, mae ein sir wedi'i chysylltu'n dda iawn yn awr.

Yn ystod 2015/16, drwy ein portffolio o gynnyrch a gwasanaethau, sydd wedi'u dylunio ar gyfer anghenion cymuned fusnes Sir Gaerfyrddin, gwnaethom greu **180** o swyddi, diogelu **109** o swyddi, a gwella ein seilwaith er mwyn sicrhau **1,220** o swyddi pellach mewn lleoliadau newydd.

Mae creu swyddi a thwf ledled y sir wedi cael ei glustnodi yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17

Mae hyn:

- Gan fod adfywio a swyddi yn brif flaenoriaeth ar gyfer ein Gweinyddiaeth
- Er mwyn inni allu cyrraedd cerrig milltir 2016/17 ar gyfer y Prif Gynllun Adfywio



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP) Creu swyddi a thwf ledled y Sir

Trawsnewidiwyd Sir Gaerfyrddin i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd y Prif Gynllun Adfywio yn amlygu llawer o'r gwaith gwych sydd ar waith o ran adfywio'r sir. Bydd y prif gynllun yn rhoi sylw i 6 phrosiect trawsnewid y mae Cyngor Sir Gaerfyrddin a'i bartneriaid strategol yn bwriadu canolbwyntio arnynt dros y 15 mlynedd nesaf – bydd hyn yn creu mwy na 5,000 o swyddi newydd ac yn ceisio creu economi yn Sir Gaerfyrddin ar lefel sydd yn 90% o gyfartaledd gwerth ychwanegol gros y DU.

Mae ein heconomi yn rhan o Ddinas-ranbarth arloesol Bae Abertawe, sydd eisoes wedi cynnig prosiectau newydd y bydd Sir Gaerfyrddin yn elwa arnynt, ac a fydd yn parhau i wneud hynny yn ddi-os.

Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Yn y gorffennol, mae gormod o bobl ifanc wedi cael eu gorfodi i adael Sir Gaerfyrddin i ddod o hyd i waith. O ganlyniad, bydd creu swyddi a darparu cyfleoedd o ansawdd da ar gyfer prentisiaethau, hyfforddiant a phrofiad gwaith yn flaenoriaeth uchel i ni. Er mwyn gwneud cynnydd o ran y nod hwn, wrth fuddsoddi mewn ysgolion newydd, cartrefi gofal, cynlluniau adfywio a thai, byddwn yn gweithio gyda chontractwyr i sicrhau'r nifer mwyaf posibl o lefydd hyfforddi a chyflogaeth ar gyfer pobl leol.

Mesurau Llwyddiant Allweddol

Mesur	Canlyniad 2014/15	Targed	Canlyniad 2015/16	Targed	Targed 2016/17
Creu Swyddi (5.6.3.5)	352	AMH.	180	91	299
Diogelu swyddi (5.6.3.6)	210	AMH.	109	120	166
Swyddi mewn lleoliad newydd (5.6.3.7)	100	AMH.	1,220	1024	32

Yn gyffredinol, roedd canlyniadau 2015/2016 yn rhagori cryn dipyn ar y targedau o ran swyddi a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf am fod prosiectau ychwanegol yn cael eu cynnal drwy Gronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru, a chanlyniadau uwch na'r disgwyl gan ein gwasanaethau rheoli cyfrifon o ran busnesau a mentrau cymdeithasol.

Cwblhau'r prosiectau chwe blynedd a gyllidir gan Ewrop oedd yn gyfrifol am y cynnydd sylweddol o ran swyddi mewn lleoliad newydd yn 2015/16: megis ADREF; Prosiect Seilwaith Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands; a Chronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru.

Ar ôl cychwyn ar gylchred cyllid Ewropeaidd chwe blynedd newydd yn 2016/17, mae nifer o'r cynigion a nodwyd ar gyfer 16/17 yn gamau i sicrhau cyllid a pharatoi prosiectau i'w rhoi ar waith a fydd yn arwain at allbynnau economaidd sylweddol yn y blynyddoedd i ddod – Llynnoedd Delta (Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd) yw un o'r prosiectau a fydd yn rhoi bod i fanteision economaidd ar draws y rhanbarth a'r tu hwnt.

Beth sy'n gweithio?

Roeddem wedi helpu i greu, cynnal a sicrhau swyddi mewn lleoliad newydd drwy'r canlynol:

- Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru
- Rheoli Cyfrifon busnesau Sir Gaerfyrddin
- Adfywio Canol Tref Llanelli
- Cam 1 Prosiect Seilwaith Dwyrain Cross Hands

Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru

- ✓ Cwblhawyd y rhaglen chwe blynedd yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2015, ac roedd 15 o brosiectau wedi cael cyllid i ddarparu adeiladau diwydiannol ac adeiladau swyddfa newydd ar draws ardal De-orllewin Cymru. Erbyn iddi gael ei chwblhau, roedd y gronfa wedi cyflawni'r allbynnau rhanbarthol canlynol:
 - ❖ Cyfanswm buddsoddiad o tua **£26.6 miliwn**;
 - ❖ **750** o swyddi mewn lleoliad newydd;
 - ❖ **228,970 troedfedd sgwâr** o safleoedd wedi'u creu.



Peter Hughes Griffiths, Cadeirydd y Cyngor, gydag Andrew Bassett, y Datblygwr, yn agoriad y Datblygiad Swyddfeydd yng Nghaerfyrddin a gyllidir gan Gronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru.

Cafodd agoriad adeilad masnachol yng nghanol Caerfyrddin ei ddisgrifio fel un o ddarnau olaf y jig-so yn y gwaith o ailddatblygu'r rhan hon o'r dref. Adeiladwyd Swyddfeydd y Cwrwg yn Heol y Gwyddau gyda chymorth Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru. Mae wedi cyflawni Safon Rhagoriaeth BREEAM am gynaliadwyedd ac mae'n hunangynhaliol o ran ynni. Mae'n bwysig iawn bod busnesau bach a chanolig yn medru dod o hyd i adeiladau addas yn Sir Gaerfyrddin fel y gallant helpu i hybu'r economi leol.

Rheoli Cyfrifon Busnesau Sir Gaerfyrddin

- ✓ Mae pob un o'r 40 o fusnesau **Pareto** yn cael eu rheoli bellach gan grynhoi gwybodaeth allweddol. Mae'r rhaglen allweddol 'Byd Gwaith' yn parhau, ac mae nifer o fusnesau allweddol eisoes yn cymryd rhan gan gynnwys Magstim, Morganstone, a S4C.
- ✓ Mae'r **Biwro Cymunedol** yn cefnogi nifer o fentrau cymdeithasol cyffrous ac uchelgeisiol sydd â chynlluniau twf sy'n unol â Strategaeth Adfywio Economaidd De-orllewin Cymru a Chynllun Cyflawni y Bartneriaeth Ddysgu Rhanbarthol.

Adfywio Canol Tref Llanelli

- ✓ Mae rhaglen **Adref**, gan gynnwys prosiectau'r Gronfa Datblygu Eiddo a'r Grant Gwella Trefi, wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus, gan arwain at yr allbynnau canlynol: 116 o swyddi mewn lleoliad newydd; 31,807 troedfedd sgwâr o safleoedd wedi'u creu / gwella a buddsoddiad o £1.3 miliwn yn y sir yn 2015/16
- ✓ Cychwynnwyd ar brosiect **Stryd Cyfleoedd** i adfywio eiddo ar hyd Stryd Stepney, ar y cyd â Chyllid Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru, ac mae rhif 31 wedi cael ei brynu a'i ddatblygu, a Steps sydd yno bellach.

Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands

- ✓ Cafodd y prosiect i greu seilwaith ar gyfer **safle Cyflogaeth Strategol** newydd yn Cross Hands ei gwblhau ym Mehefin 2015. Bydd y prosiect, lle datblygwyd 8.5 hectar o dir at ddibenion cyflogaeth, yn sicrhau 700 o swyddi mewn lleoliad newydd a buddsoddiad o £2.09 miliwn yn y sir yn 2015/16.

Sut ydym yn gwybod y byddwn yn gwneud gwahaniaeth? / A fydd unrhyw un ar ei ennill?

Llynnoedd Delta – Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd

Y prosiect hwn, sy'n costio miliynau ac sy'n cael ei arwain gan y Cyngor, fydd y cyntaf o'i fath a chaiff ei ddatblygu drwy raglen Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH), sef menter gan Fyrddau Iechyd Abertawe a Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe. Mae ARCH yn cyflwyno model newydd ar gyfer darparu gofal iechyd sydd wedi'i gynllunio'n benodol at anghenion mwyfwy cymhleth ein byd ni heddiw.

Nod y Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd, ar dir datblygu yn Llynnoedd Delta, Llanelli, yw trawsnewid y ffordd y mae'r rhanbarth yn darparu gofal ac yn hyrwyddo lles – gan gyfuno iechyd o'r radd flaenaf, ymchwil a gwyddorau bywyd, â chyfleoedd hamdden arloesol i helpu pobl i fyw bywydau iach



Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, yn cwrdd â chynrychiolwyr o ARCH a'r Cyngor yn ystod ymweliad â'r safle arfaethedig yn Llynnoedd Delta.

Bydd y cynigion yn cynnwys: academi iechyd a lles, busnes a menter, seilwaith, Sefydliad Gwyddorau Bywyd, twristiaeth iechyd/gwestai a darpariaeth gofal sylfaenol. Drwy becyn cyllido ar y cyd (yn cynnwys cyllid allanol/yr UE), gallai'r prosiect hwn roi bod i ddatblygiad cychwynnol o fwy na £100 miliwn, ac mae ganddo'r potensial i greu rhwng 800 a 1,000 o swyddi. *Felly bydd y prosiect yn creu manteision economaidd sylweddol ledled y rhanbarth a'r tu hwnt.*

Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Beth byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant	Targed 2016/17
Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i ddatblygu twf busnes, cadw busnesau ac arbenigedd yn Ardaloedd Parth Twf Cross Hands a Rhydaman, Caerfyrddin ac Ardaloedd Gwledig, ac Ardaloedd Llanelli a Llain Arfordirol Llanelli drwy fentrau megis Pareto, Rheoli Cyfrifon, Gweithgarwch Menter leuencid, Byd Gwaith ac ailymweld â phrosiectau blaenorol sydd wedi cael cymorth ar ffurf grant. (Targed: Creu 20 swydd a diogelu 40) (12157, 12158, 12159) – Hefyd yn gysylltiedig â Nod G2	Swyddi a grëwyd - 20 Swyddi a ddiogelwyd - 40
Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl i bawb yn ardaloedd Llanelli a Llain Arfordirol Llanelli drwy wneud cynnydd o ran prosiectau gan gynnwys prosiect 'Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd'/Llynnoedd Delta (penodi tîm a dyluniad cysyniadol); Prosiect 'Stryd Cyfleoedd' Canol Tref Llanelli (12160)	Swyddi a grëwyd - 4
Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl i bawb yng Nghaerfyrddin ac Ardaloedd Gwledig drwy wneud cynnydd o ran prosiectau gan gynnwys: Lansio ac ymrwymo'n llawn i gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, sydd werth £2 filiwn; lansio ac ymrwymo'n llawn i Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid, sydd werth £3 miliwn; sicrhau a chefnogi tenantiaid newydd Canolfan Fasnachol Parry Thomas (12161)	Swyddi a grëwyd - 12
Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl i bawb yn ardaloedd Parth Twf Rhydaman a Cross Hands drwy wneud cynnydd o ran prosiectau gan gynnwys: darparu cymorth i Ddatblygwyr Sector Preifat a Pherchenogion Busnesau ddod â datblygiadau allweddol arfaethedig a arweinir gan y sector preifat ymlaen yn Rhydaman a Cross Hands (12162)	Swyddi a grëwyd - 200 Swyddi mewn lleoliad newydd - 32
Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl drwy wneud cynnydd o ran prosiectau a nodwyd yn y Cynllun Cyflogaeth a Swyddi ar gyfer y Sir Gyfan gan gynnwys: darparu'r gronfa cyllid a dargedir; darparu cymorth mentrau cymdeithasol; gweithio gyda 40 o sefydliadau/mentrau cyfrifon allweddol (12163)	Swyddi a grëwyd - 23 Swyddi a ddiogelwyd - 46
Gweler Nod F3 i weld ein rhaglenni LEADER a Chymunedau yn Gyntaf sydd hefyd wedi'u cysylltu â'r Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella hwn	

Nod: G3 Datblygu'r economi wybodaeth ac arloesedd

Mewn oes ddigidol, mae'n anodd iawn dal i fyny ond mae'n adeg ddelfrydol i gymryd cam ar y blaen. Ym mis Chwefror 2016, cyflwynodd Dinas-ranbarth Bae Abertawe gynnis Bargen Ddinesig arloesol 'Arfordir y Rhyngwrwd', sy'n fwy na £500 miliwn dros 20 mlynedd, i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnis hwn yn cael ei arwain gan Gadeirydd Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, Syr Terry Matthews, sef biliwnydd cyntaf Cymru sydd wedi gwneud ei ffortiwn fel entrepreneur ym maes uwch-dechnoleg. Mae Syr Terry wedi sefydlu a chyllido mwy na 100 o gwmnïau cyfathrebiadau uwch-dechnoleg hyd yn hyn, ac mae'r cynnis hwn yn defnyddio grym trawsnewidiol cysylltedd digidol i gyflymu twf nid yn unig yn y rhanbarth, ond ledled Cymru a'r DU hefyd.

Mae'r cynnis hwn wedi'i seilio ar ddatblygu **tri llinyn integredig**: *rhyngwrwd ynni, rhyngwrwd iechyd a lles, a rhyngwrwd cyflymiad economaidd*. Yn ei hanfod, nod Dinas-ranbarth Bae Abertawe yw arloesi, profi, treialu a masnacheiddio atebion ar sail y rhyngwrwd a fydd yn trawsnewid dyfodol y sectorau hyn, yn yr un ffordd i raddau helaeth ag y mae'r rhyngwrwd wedi trawsnewid cyfathrebiadau a theleffoni.



Drwy wneud hynny, ochr yn ochr â datblygiadau perthynol mewn uwch-berianeg, nod Dinas-ranbarth Bae Abertawe yw creu swyddi uwch-dechnoleg drwy gychwyn busnesau a thrwy ddenu mewnfuddsoddiad ym meysydd twf uchel, a datblygu i fod yn economi gwerth tua £15 biliwn erbyn 2035 â lefelau cynhyrchiant sydd yn 90% o lefel y DU. Byddwn yn parhau i ddatblygu rhagor ar gynnis Arfordir y Rhyngwrwd yn ystod 2016.

Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol

Mae'r Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol yn bartneriaeth drawsnewidiol sy'n dod â phartneriaid addysg ac adfywio at ei gilydd er mwyn helpu i ddarparu gwell dyfodol ar gyfer dysgwyr a darpar ddysgwyr ar draws rhanbarth de-orllewin a chanolbarth Cymru.



Mae'r bartneriaeth yn gweithredu fel corff hwyluso i sicrhau bod darparwyr dysgu a gyllidir yn gyhoeddus, ynghyd â sefydliadau cysylltiedig, yn cydweithio'n effeithiol ac yn effeithlon ym meysydd addysg ac adfywio er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr a'r economi ranbarthol. Mae'r bartneriaeth, a gyllidir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o lywodraeth leol, addysg uwch, addysg bellach, y trydydd sector, y sector preifat, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau:**GWELEDIGAETH: Cynyddu cynhyrchiant a datblygu swyddi o werth uwch drwy fynd i'r afael â rhwystrau, datblygu cyflogadwyedd, sgiliau a llwybrau dilyniant**

Nod y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol yw cymell twf yn yr economi drwy drawsnewid y profiad dysgu i unigolion a chyflogwyr er mwyn creu diwylliant cynaliadwy, deinamig, entrepreneuriaidd ac arloesol, sy'n ymateb i gyfleoedd busnes yn y dyfodol. Mae defnyddio potensial ein hasedau wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg yn allweddol i ymateb i heriau demograffeg, daearyddiaeth ac economi amrywiol y rhanbarth.

Mae cyflogwyr yn hanfodol i'r broses hon, ac er mwyn cynyddu cynhyrchiant a darparu llwyddiant economaidd yn y rhanbarth mae angen i fusnesau fuddsoddi mewn cynyddu sgiliau'r gweithlu ac ysbrydoli pobl ifanc i gyflawni drwy gynnis profiadau go iawn a lleoliadau gwaith ystyrlon iddynt.

- ✓ Mae'r Cynllun Datblygu Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru wedi cael ei ddiweddarau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a bydd cyfnod ymgynghori dilynol gyda darparwyr hyfforddiant diwydiannol erbyn Gorffennaf 2016.

- ✓ Bu i'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol gynnal **Asesiad o'r Galw a'r Cyflenwad** ar ran Llywodraeth Cymru, a oedd i'w ddefnyddio i helpu i weithredu'r Cynlluniau Cyflawni Rhanbarthol ac i ddylanwadu ar ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau yn y rhanbarth, yn unol â'r anghenion o ran sgiliau. Roedd yr asesiad cychwynnol yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol sef: Ynni a'r Amgylchedd, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, Twristiaeth, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- ! Mae oedi wedi bod o ran prosiect Gweithffyrdd+ yn sgil aros i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r prosiect.

LEADER

Defnyddir y term LEADER i ddisgrifio ymagwedd datblygu leol mewn ardaloedd gwledig, a gaiff ei gweithredu gan bartneriaethau lleol. Bydd cymorth LEADER yn canolbwyntio ar arloesi, rhwydweithio a gweithredu fel mainc arbrofi ar gyfer treialu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r cyfrifoldeb dros reoli a gweithredu LEADER wedi cael ei drosglwyddo i bartneriaethau lleol, a elwir yn Grŵp Gweithredu Lleol. Bydd y bartneriaeth wledig bresennol, Grŵp Cefn Gwlad, yn ymgymryd â'r rôl hon yn Sir Gaerfyrddin.



- ✓ Ddechrau mis Medi, cafodd y Grŵp Gweithredu Lleol gymeradwyaeth ffurfiol mewn perthynas â chyllideb o fwy na £3 miliwn ar ffurf buddsoddiad y Cynllun Datblygu Rhanbarthol, a fydd ar gael i gefnogi treialu syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio mewn ardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y rhaglen (2014-2020).
- ✓ Ym mis Tachwedd 2015, dechreuodd y tîm chwilio'n benodol am brosiectau yn ein cymunedau sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau penodedig a glustnodir gan y Grŵp Gweithredu Lleol. Daeth 18 o Fynegiannau o Ddiddordeb i law, ac o'u plith cymeradwyodd y Grŵp Gweithredu fod 6 yn mynd ymlaen i ail gam y broses ymgeisio.
- ✓ Roeddem wedi cwblhau prosiect partneriaeth Gweithffyrdd (sgiliau cyflogaeth), a gyllidir gan arian Ewropeaidd, ac rydym wedi llwyddo i sicrhau rhagor o gyllid Ewropeaidd i gefnogi rhoi cylch nesaf prosiect Gweithffyrdd+ ar waith yn y sir hyd at 2020.
- ✓ Roeddem wedi ennill contract £90,000 dwy flynedd a gyllidwyd gan LEADER ar gyfer ecsbloetio technoleg ddigidol yn y Sir Gaerfyrddin wledig er mwyn cynnal digwyddiadau ecsbloetio digidol a sefydlu hybiau digidol mewn prif drefi marchnad strategol.
- ! Mae oedi wedi bod o ran cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Gwledig gan Lywodraeth Cymru, ac yn ei dro mae hynny wedi achosi oedi o ran cymeradwyo prosiectau perthnasol

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn datblygu economi wybodaeth ac arloesedd drwy Brosiectau Digidol a nodwyd yn y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan gan gynnwys: Darparu Prosiect Cysylltedd Digidol Trefi Gwledig (12164)
2. Byddwn yn datblygu economi wybodaeth ac arloesedd drwy raglen Gweithffyrdd+ a nodwyd yn y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan, er mwyn gwella cyflogadwyedd Pobl Economaidd Anweithgar a Phobl Ddi-waith Tymor Hir sy'n 25 oed a hŷn ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth o ran cyflogaeth(12165)
3. Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad cynnig Bargaen Ddinesig uchelgeisiol a beiddgar Dinas-ranbarth Bae Abertawe sef 'Arfordir y Rhyngwrd' (12167)
4. Byddwn yn datblygu economi wybodaeth ac arloesedd drwy ddarparu Prosiect LEADER fel y nodwyd yn y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan.(12168)
5. Byddwn yn datblygu economi wybodaeth ac arloesedd drwy Brosiectau'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol a nodwyd yn y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y Sir Gyfan gan gynnwys: paratoi a darparu Cynllun hyfforddiant Cyflogaeth a Sgiliau; hwyluso a gweithredu Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer cyflogaeth a sgiliau ynghyd â chefnogi 'Colofn Sgiliau' Dinas-ranbarth Bae Abertawe (12169)

Nod: G4 Sicrhau lleoedd nodedig a fframweithiau cystadleuol

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cynnwys nifer o leoedd nodedig a deniadol iawn. Mae'n glytwaith o ardaloedd trefol a gwledig ac yn gefndir ysblennydd iddo ceir Parciau Cenedlaethol, arfordiroedd gogoneddus a thirweddau trawiadol. Mae cyfoeth ac amrywiaeth ein hamgylchedd yn gryfder gwirioneddol ac mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn ei gadw ar gyfer y dyfodol.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16

Cafodd nifer o brosiectau seilwaith strategol, a oedd wedi'u datblygu dros y 6 blynedd diwethaf, eu cwblhau yn 2015/16. Cwblhawyd Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru, a Phrosiectau Adref Canol Tref Llanelli ym mis Mehefin 2015 gan greu buddion economaidd sylweddol i'r sir ac i'r ddinas-ranbarth. Ym Mhentywyn, bu i'r gwaith ar Ganolfan Masnachol a Digwyddiadau Parry Thomas barhau, ac mae cynigion y dyfodol i ailddatblygu safle'r 'Amgueddfa Cyflymder' wedi cael hwb gan fod y cynllun yn un o blith 10 a gafodd flaenoriaeth o ran y posibilrwydd y cânt gyllid gan Brosiect Cyrchfannau Denu Twristiaeth Croeso Cymru. Roedd Partneriaethau Canol Tref yng Nghaerfyrddin a Rhydaman wedi parhau i wneud cynnydd trwy ddarparu cynllun Partneriaeth Canol Tref Llywodraeth Cymru, tra bo prosiect Stryd Cyfleoedd yn Llanelli wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran prynu ac adnewyddu eiddo gwag yng nghanol trefi

Mae hyn wedi arwain at:

- Denu mwy na £28.7 miliwn o gyllid allanol / buddsoddiad gan y sector preifat
- Datblygu 162,447 troedfedd sgwâr o ofod ar gyfer cyflogaeth
- 180 o swyddi wedi'u creu a 1,220 o swyddi mewn lleoliad newydd

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?**Rhydaman**

- ✓ Mae gweithgareddau *Canol Tref* yn parhau fel rhan o gynllun cyllido Partneriaeth Canol Tref Llywodraeth Cymru, ac mae peiriant cyfrif nifer yr ymwelwyr wedi cael ei osod i ddarparu data wythnosol i fonitro effeithiolrwydd gweithgareddau ac ymyriadau
- ✓ *Safle Rhos Ffowndri* – gofynnwyd am fynegiannau o ddiddordeb, ac mae datblygwr ffafriedig wedi'i nodi
- ✓ *Heol Cwmaman* - mae'r safle wedi'i farchnata ac mae datblygwyr wedi dangos diddordeb
- ✓ *Gweithdai Glanaman* - ymchwiliwyd i ddewisiadau cynllun a ffynonellau cyllido y dyfodol

**Dwyrain Cross Hands: Safle Cyflogaeth Strategol**

- ✓ Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau ac mae 8.5 hectar o dir wedi'i drawsnewid yn safle cyflogaeth â gwasanaeth llawn, sy'n cynnwys seilwaith prif safle, tirwedd a llwyfandiroedd datblygu hyblyg. Mae diddordeb sylweddol wedi bod yn y safle, ac mae mwy na 12 o ymholiadau'n parhau. Bydd y safle yn darparu'r seilwaith angenrheidiol i greu amgylchedd masnachol o ansawdd da er mwyn creu cyfleoedd sylweddol o ran swyddi. Mae'n gyrchfan cyflogaeth strategol allweddol yn y sir ac mae mewn man da i wasanaethu'r rhanbarth. Rhagwelir y byddai'n datblygiad yn creu 600 o swyddi mewn lleoliad newydd.

- ✓ Mae cais am gyllid yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, sy'n gofyn am tua £5 miliwn o grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer rhanbarth De-orllewin.

Caerfyrddin

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda *Fforwm Adfywio Canol y Dref* i ddatblygu a gweithredu prif gynllun ar gyfer adfywio Caerfyrddin yn economaidd ac wedi cysylltu ardaloedd economaidd a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014 a 2030



- ✓ Mae'r Cynllun, a gyllidir gan Bartneriaeth Canol Tref Llywodraeth Cymru ac a gychwynwyd yn 2014, yn dal i gael ei roi ar waith. Ymhlith y prosiectau a gyflawnwyd y mae 3 digwyddiad newydd yn cynnwys Gŵyl yr Oes a Fu; peiriant cyfrif nifer yr ymwelwyr yn Heol y Brenin; gwelliannau i arwyddion gwybodaeth ym Maes Nott a Heol y Brenin; system daflunio symudol allanol i arddangos delweddau ar adeiladau pwysig; hyfforddiant hyrwyddwr twristiaeth (masnachu) a lansio brand newydd
- ✓ Rydym wedi parhau i helpu Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â pharatoi gwybodaeth ar gyfer cais i Lywodraeth Cymru i glustnodi cyllid llenwi bwloch mewn perthynas â datblygiad ad-leoli Canolfan Yr Egin / S4C
- ✓ Mae'r cynllun '*Busnes yn y Gymuned*' (BITC) Caerfyrddin yn dal i fynd o nerth i nerth a bellach mae 13 o adwerthwyr cenedlaethol yn rhan ohono yng Nghaerfyrddin
- ✓ Mae'r gwaith wedi dechrau ar ddylunio elfennau Lôn Jackson a Heol y Brenin o gynigion y prif gynllun, a disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2017

Llanelli



- ✓ **ADREF (Adfywio Tref Llanelli) – Cysylltiadau:** rydym wedi cwblhau llwybrau cerdded/beicio newydd neu wella rhai presennol i ganol y dref ac oddi yno; *Pyrth:* rydym wedi cwblhau gwelliannau i'r prif gylchfannau (e.e. Trostre, Sandy) i roi croeso gwell i bobl i ganol y dref; *Grant Datblygu Eiddo:* drwy'r grant, rydym wedi creu canolfan newydd yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer Ambiwylans Awyr Cymru.

Pentywyn



- ✓ Mae'r gwaith o godi'r adeilad masnachol a digwyddiadau ar safle'r Amgueddfa Cyflymder, sydd wedi'i gyllido gan 'Cymunedau Arfordirol', bron â'i gwblhau er gwaethaf yr anawsterau o achos y tywydd. Mae'r adeilad yn cynnwys pedair uned fasnachol ar y llawr gwaelod, cyfleusterau toiledau cyhoeddus, a bwyty / llecyn i gynnal digwyddiadau ar y llawr uchaf.

Pibwr-lwyd

- ✓ Mae'r tîm yn dal i weithio'n agos gyda Choleg Sir Gâr i ddatblygu prif gynllun ar gyfer safle strategol sy'n cynnig y potensial i gadarnhau ac ailddatblygu elfennau presennol Coleg Sir Gâr

Sut ydym yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Llanelli (Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Trechu Tlodi: Stryd Cyfleoedd)

Mae tri eiddo wedi cael eu prynu fel rhan o brosiect £1.5 miliwn Stryd Cyfleoedd er mwyn adfywio canol tref Llanelli ymhellach. Cafodd eiddo gwag 10, 12 a 31 Stryd Stepney eu prynu gyda chymorth gan gyllid [Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid](#) Llywodraeth Cymru. Dyrannwyd £1 filiwn i Lanelli o dan y rhaglen dros dair blynedd 2014/17. Prif nod y gronfa yw trechu tlodi drwy greu swyddi, annog pobl i ddatblygu sgiliau, gwella tai, darparu cyfleusterau a helpu pobl i gael gwaith.



Y bwriad yw adnewyddu'r eiddo er mwyn eu hailddefnyddio, a hynny at ddibenion unedau tai yn ogystal â gofod masnachol/gwasanaethau yng nghanol tref Llanelli. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar egwyddorion atal tlodi a helpu pobl allan o dlodi, a'i nod yw darparu atebion i'r angen am dai lleol, hyfforddiant, enillion a chyfleoedd i ddysgu; a gobeithio y bydd y gofod masnachol/gwasanaethau yn denu diddordeb adwerthwyr newydd. Mae prynu'r eiddo hwn yn ffordd uniongyrchol y gallwn helpu i ddatrys problem eiddo gwag oherwydd, drwy gymryd rheolaeth, gellir eu hailddefnyddio at ddibenion buddiol a helpu i wella canol tref Llanelli.

- ✓ Cwblhawyd adnewyddu llawr gwaelod rhif 31 Stryd Stepney i'w ddefnyddio fel siop wib ar gyfer y fasnach Nadolig; roedd hyn hefyd yn rhoi cyfle i Brosiect Menter Gymdeithasol Gofal Cymdeithasol STEPS ddefnyddio'r gofod i fasnachu, gan ei fod yn rhoi iddynt le mwy hygyrch a'r cyfle i hyrwyddo prosiect STEPS yn ehangach.
- ✓ Er mwyn adnewyddu rhifau 10 a 12 Stryd Stepney, cafodd cais cynllunio ei gyflwyno a phenodwyd contractwr ddiwedd mis Mawrth.
- ✓ Hefyd mae cyllid Llywodraeth Leol ychwanegol wedi cael ei gymeradwyo er mwyn prynu eiddo gwag arall, a fydd yn cyfrannu at nodau'r prosiect.

Gweler hefyd Nod G5: *Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol*

Gwelliannau ar gyfer 2016/17


1. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau lleoedd nodedig ac isadeileddau cystadleuol yng Nghaerfyrddin a'r ardaloedd gwledig drwy wneud cynnydd o ran prosiectau fel y nodwyd yng nghynllun 16/17 gan gynnwys: Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn (Sicrhau Cyllid a Pharatoi Dyluniad); Lôn Jackson, Caerfyrddin (Sicrhau Cyllid a Pharatoi Dyluniad); Heol y Brenin, Cynllun Parth i Gerddwyr Caerfyrddin (gorchymyn dylunio a thraffig) *(12170)*
2. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau lleoedd nodedig ac isadeileddau cystadleuol yn ardaloedd Llanelli a Llain Arfordirol Llanelli drwy wneud cynnydd o ran prosiectau a nodwyd yng nghynllun 16/17 gan gynnwys: Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – Prosiect YMCA Llanelli (Sicrhau Cyllid a Dyluniadau); Cronfa Benthyciadau Canol Tref Llanelli ar gyfer adnewyddu a phrosiectau adeiladu newydd (rhyddhau, marchnata a dyrannu'n llawn); Safle Hamdden Masnachol Porth Tywyn (marchnata a sicrhau datblygwr); Prif Gynllun Penrhyn Pen-bre *(12171)*
3. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau lleoedd nodedig ac isadeileddau cystadleuol yn ardaloedd Rhydaman a Cross Hands drwy wneud cynnydd o ran prosiectau a nodwyd yng nghynllun 16/17 gan gynnwys: Cam 1 Prosiect Hunan-adeiladu Dwyrain Cross Hands (sicrhau cyllid a dyluniad); Cam 2 Prosiect Seilwaith Strategol Dwyrain Cross Hands (sicrhau cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) Safle hen orsaf yr Heddlu yn Rhydaman (sicrhau datblygwr); Gwella Maes Parcio Carregaman *(12172)*

Nod: 5 Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol

Mae tlodi'n cyfeirio at sefyllfa economaidd-gymdeithasol berthynol lle nad oes gan bobl yr incwm, yr adnoddau na'r cyfleoedd digonol i'w galluogi i gael safon byw dderbyniol yng nghyd-destun y gymdeithas y maent yn byw ynddi. (Y Cyngor Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd, 2004)

Fel y mae'r diffiniad uchod yn ei ddangos, mae tlodi'n golygu llawer mwy nag arian yn unig. Mae tlodi'n effeithio ar amddifadedd cymdeithasol, diwyllianol, materol, ac emosiynol yn ogystal ag amddifadedd economaidd, ac mae'r pethau hynny'n cael effaith ar dlodi hefyd. Mae tlodi'n eithrio unigolion a chymunedau rhag patrymau byw arferol.

Siart 30: Cyfran y cartrefi lle ceir amddifadedd materol, yn ôl Awdurdod Lleol (wedi'i ddiwygio)



Felly, mae mesurau megis lefelau amddifadedd materol, sy'n edrych ar anallu aelwyd i fforddio nwyddau a gweithgareddau nodweddiadol cymdeithas, yn dod yn fwy arwyddocaol o ran dynodi a deall lefelau tlodi. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 17% o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn profi amddifadedd materol, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 16%. Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (Diwygiedig)

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16**Pam y mae trechu tlodi yn dal i fod yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella yn 2016/17**

- yn ôl y diffiniad, gellir dweud bod ychydig dros draean o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.
- mae tlodi'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc, yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau, ac yn cael effaith andwyol ar iechyd, lles a disgwyliad oes llawer gormod o bobl.
- yn ogystal â bod yn fater sy'n effeithio arnom ni yma nawr, mae tlodi'n cael effaith niweidiol yn y tymor hir ar fywydau pobl a'n cymdeithas yn y dyfodol.
- mae tlodi'n cael effaith niweidiol ar unigolion a chymunedau yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol
- mae natur drawsbynciol tlodi yn effeithio ar bob rhan o gymdeithas a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor
- gwaith Grŵp Ffocws Trechu Tlodi yr Aelodau Etholedig



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Mynd i'r afael â thlodi

“Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i drechu tlodi, sy'n her sylweddol, ond heb ei gyfraniad gallai'r sefyllfa fod yn waeth”

Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad Gwella Blynyddol 2016.

Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi bod yn clustnodi ac yn datblygu'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar draws holl adrannau'r Cyngor mewn perthynas â threchu tlodi.


Mesur Llwyddiant Allweddol:

Ffigurau Incwm Aelwydydd Ffynhonnell: Data 'PayCheck' CACI						
Aelwydydd Pobl sy'n byw mewn tlodi	2013		2014		2015	
	Sir Gaerfyrddin	Cymru	Sir Gaerfyrddin	Cymru	Sir Gaerfyrddin	Cymru
	28,543 (35%)	368,119 (28%)	29,956 (37.1%)	446,586 (33.6%)	29,086 (36.3%)	459,283 (35%)

Pam mae'r mesur hwn yn bwysig?

Yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru, tldi yw pan fo "incwm aelwyd yn llai na 60% o'r incwm canolrifol". Ar gyfer Sir Gaerfyrddin mae hynny'n golygu aelwyd lle mae'r **incwm yn llai nag £16,673 y flwyddyn**.

Aelwydydd Sir Gaerfyrddin sy'n byw mewn Tldi



Data 'Paycheck' CACI


Yn ôl y diffiniad hwn, gellir dweud bod **36.3%** o holl aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tldi yn 2015, sy'n ostyngiad o 0.8% gan mai 37.1% oedd y ganran yn 2014.

! Fodd bynnag, mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn **tldi difrifol** yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer yr aelwydydd sy'n cael incwm o lai na £10,000 y flwyddyn yn codi o 13% yn 2014 i bron 16% yn 2015.

!Tldi Gwledig

O blith y 29,086 o aelwydydd sy'n byw mewn tldi ar draws Sir Gaerfyrddin, mae 58% (16,766) ohonynt mewn ardaloedd gwledig (fel y'u diffinnir o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2015-20).

Data 'Paycheck' CACI



Hefyd mae 59% o wardiau gwledig y sir wedi cofnodi **gostyngiad** yng nghyfartaledd incwm aelwydydd rhwng 2014 a 2015.

Mae hyn yn gyson â thueddiadau Cymru a Sir Gaerfyrddin gyfan, lle mae'r incwm cyfartalog wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein strategaeth ar gyfer trechu tldi yn dilyn blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru sef

- *Atal tldi*
- *Helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith*
- *Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi*

Atal Tldi

Mae byw mewn tldi yn gallu cael effaith sylweddol ar gyfleoedd bywyd plentyn ac felly mae cydberthynas gref rhwng cael eich geni i dlodi a bod yn dlawd gydol eich oes. Mae'r cylchred tldi hwn sy'n pontio'r cenedlaethau yn anghyfiawn ac yn annerbyniol.

Nid ymyrryd yn achos plant a phobl ifanc yn unig sydd angen ei wneud i atal tldi, ond yn achos yr holl grwpiau y mae perygl cynyddol y byddant yn profi tldi. Drwy ddarparu ymyriadau cynnar, cyfannol a dargedwyd i unigolion a grwpiau agored i niwed, rydym nid yn unig yn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi yn ein cymunedau ond yn lleihau'r angen i sefydlu rhaglenni lliniaru ymatebol mwy costus.

Helpu Pobl i gael Gwaith

Mae sicrhau bod pobl yn cael gwaith yn un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol ac effeithiol o drechu tlodi yn ei holl ffurfiau. Yn ogystal ag incwm, mae gwaith yn darparu cyfleoedd o ran datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymenyddol yn ogystal ag iechyd a lles cyffredinol. Er bod pryder cynyddol ynghylch nifer y bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith, mae helpu pobl i gael gwaith ac i wneud cynnydd yn y gwaith yn dal i fod yn ffocws allweddol gan fod y perygl o wynebu tlodi'n cynyddu'n ddramatig mewn aelwydydd heb waith.

Gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi

Bydd wastad amgylchiadau'n bodoli lle mae pobl yn byw mewn tlodi, a hynny am nifer o wahanol resymau na ellir bob amser eu rhagweld na'u hatal. Mae'n hanfodol yn yr achosion hyn fod gan bobl fynediad i gymorth er mwyn cynnal safonau byw sylfaenol, ac i gefnogaeth er mwyn lliniaru yn y lle cyntaf effaith ddyddiol tlodi, ac, yn y pen draw, ddod o hyd i ffordd allan ohono.

Y Llynedd

Cyflawnwyd 10 o'n 12 ymrwymiad KIOP y llynedd

Ymrwymiaidau'r Llynedd		Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn cynnal astudiaeth o Dlodi Gwledig yn Sir Gaerfyrddin i glustnodi angen / tlodi cudd mewn cymunedau gwledig (11825)	✓	Cafodd yr astudiaeth Tlodi Cudd ei chynnal ar ran partneriaeth datblygu gwledig y Grŵp Cefn Gwlad. Roedd yr astudiaeth yn cynnal asesiad llawn o'r angen mewn cymunedau gwledig mewn perthynas â materion megis ffyniant, addysg a thai. Defnyddiwyd y wybodaeth ystadegol bresennol, ynghyd â'r ymchwil arolwg wreiddiol o fwy na 1,000 o aelwydydd gwledig. Roedd yr ymchwil yn rhoi golwg gredadwy iawn ac unigryw ar faterion tlodi gwledig yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cael ei defnyddio fel sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae tîm LEADER yn ymgysylltu â'r bobl leol i glustnodi atebion arloesol i rai o'r materion a godwyd a allai gael eu treialu o dan y rhaglen newydd.
Byddwn yn llunio cynllun gweithredu trechu tlodi ar gyfer Sir Gaerfyrddin, monitro'r prif gamau(11826)	✓	Mae cynllun gweithredu wedi cael ei lunio erbyn hyn a bydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol i gynnwys y gweithgareddau diweddaraf/unrhyw weithgareddau newydd o ran trechu tlodi. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn sail i'r Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella Trechu Tlodi ar gyfer 2016/17. (gweler Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni)
Atal tlodi		
% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg (5.0.3.1) Targed: 31.60%	✓	Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi gwella ym mhob Cyfnod Allweddol bron, ac mae 33.69% wedi cyflawni mesur cynhwysol trothwy Lefel 2 cynhwysol sy'n welliant o 28.85% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r llwyddiant yn adlewyrchu effaith y gwaith a wnaed gan ysgolion a swyddogion sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar gyrraeddad uwch ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed.
Helpu pobl i gael gwaith		
% y bobl 16-64 oed sydd mewn Cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin (Hyd 14 - Medi 15) (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol) (Canlyniad y Flwyddyn Flaenorol: 68.6% Cyfartaledd Cymru: 69.5%)	✓	Mae % y bobl 16-64 oed sydd mewn cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu'n gyson dros y tair blynedd diwethaf o 66.7% ym Medi 2013 i 68.6% ym Medi 2014 ac i 69% ym mis Medi 2015 . Er bod y ffigurau cyflogaeth yn gyson is na chyfartaledd Cymru, mae cyfraddau diweithdra'n dal i fod yn llai nag 1% pwynt yn is yn Sir Gaerfyrddin nag ar gyfer Cymru gyfan.
% y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith (Ffynhonnell: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru - 2014) (Canlyniad y Flwyddyn Flaenorol: 20.4% (Cyfartaledd Cymru 16.5%))	✓	Mae % y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau'n sylweddol o 20.4% ym mis Rhagfyr 2013 i 14.8% ym mis Rhagfyr 2014 , sy'n ostyngiad o fwy na 2000 o blant.
Byddwn yn parhau i weithio i gefnogi ymyriadau sy'n ymdrin â mater pobl ifanc NEET (16-25) (11827)	✓	Mae'r gwaith o roi Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru ar waith yn dal yn mynd rhagddo. Dyma rai o'r camau a gymerwyd i helpu i leihau nifer y bobl ifanc NEET; Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad i Flwyddyn 11 gan staff y Ganolfan Byd Gwaith; Digwyddiadau Gyrfaoedd; Gofynion mynediad Safon Uwch Gyfrannol Blwyddyn 11 sef TGAU

		Mathemateg a Saesneg; Prosbectws Ardal Gyffredin a'r Broses Ymgeisio (CAP) – yn debyg i broses UCAS y Prifysgolion; Adolygiad Addysg 11-19 yn Sir Gaerfyrddin; Cysylltiadau agosach â'n tîm Adfywio
% yr ymadawyr Blwyddyn 11 (15/16 oed) y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.1) Targed 3.0% (3.4% y flwyddyn flaenorol)	✘	Yn anffodus mae cynnydd bach wedi bod yn y % NEET yn achos ymadawyr blwyddyn 11 i 3.5% , ond mae'r nifer wedi aros yr un peth sef 69 disgybl ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf. O achos y gostyngiad yn nifer yr ymadawyr blwyddyn 11 mae % y canlyniad wedi cynyddu. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi bod yn destun ansicrwydd staffio ac ariannol sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd wedi effeithio ar allu'r staff i gefnogi pobl ifanc yn effeithiol. Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuencid wedi ei gwblhau bellach, a'r gobaith yw y bydd y caiff prosiect Cynnydd ei gymeradwyo o'r diwedd, a fydd yn golygu y ceir £2.2 miliwn yn ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET.
Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi		
Byddwn yn lleihau nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd(6.6.1.2) Targed: 24.5 diwrnod	✓	Rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer lleihau'r amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor fwy na 2 ddiwrnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ein targed oedd gostyngiad o 26 o ddiwrnodau i 24.50, fodd bynnag ein hamser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau ar 31ain Mawrth 2016 oedd 21.76 o ddiwrnodau .
Byddwn yn cynnal y nifer cyfartalog isel o ddiwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiaidau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor (6.6.1.3) Targed 5 diwrnod	✘	Mae dirywiad bach wedi bod o ran nifer y diwrnodau a gymerir i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor, a'r cyfartaledd ar ddiwedd 2015/16 oedd 5.23 o ddiwrnodau . Mae ymwybyddiaeth o newid ymagwedd wedi bod, wrth i adnoddau a phrosesau ganolbwytio ar brosesu Hawliadau Newydd, gan roi bod i welliant sylweddol yn y mesur hwnnw. Fodd bynnag mae hyn wedi golygu bod y canlyniadau ar gyfer Newid mewn Amgylchiadau wedi gostwng rywfaint bach. Wedi dweud hynny, mae'r canlyniad yn dal i fod o fewn chwarterel uchaf y data cymharol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru gyfan.
Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Budd-dal Tai / y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl, sef 94% neu'n uwch(6.6.1.9) Targed 94%	✓	Yn ystod 2015/16, roedd 95.45% o'r hawliadau a gyfrifwyd yn gywir, ar sail gwirio sampl, sydd wedi rhagori ar ein targed ac sy'n dangos gwelliant ar ganran y flwyddyn flaenorol sef 93.94%
% y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-dal diweithdra (Tach 14 - Tach 15) (Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol) (Canlyniad y Flwyddyn Flaenorol: 12.5% Cyfartaledd Cymru: 12.7%)	✓	Mae % y boblogaeth oedran gweithio yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael budd-daliadau diweithdra wedi gostwng yn 2015 i 11.1%
Byddwn yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o ddiwygiadau lles, yn arbennig estyn Credyd Cynhwysol, sy'n effeithio ar dderbynyddion Budd-dal Tai, ac ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod cwsmeriaid a landlordiaid yn cael eu cefnogi'n briodol(11794)	✓	Dechreuodd y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol i hawlwr sengl ym mis Hydref '15, ac o ganlyniad dim ond ychydig iawn sydd wedi mynd ymlaen i gael Credyd Cynhwysol. Mae gwybodaeth am Credyd Cynhwysol ar y wefan. Mae'r Cytundeb Partneriaeth Cyflawni gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei le ar gyfer 2016/17, pan fydd yr Awdurdod yn darparu (ymysg pethau eraill) cymorth cyllidebu ac yn cefnogi mynediad digidol lle bo'r angen. Mae Grŵp Llywio y Bartneriaeth Diwygio Lles, sy'n cynnwys nifer o'n gwasanaethau yn ogystal â phartneriaid allweddol, wrthi'n paratoi camau lliniaru effaith i ystyried y ffordd ymlaen.
Byddwn yn helpu rhagor o drigolion yn Sir Gaerfyrddin i drechu tldi tanwydd yn eu cymunedau drwy gydgyfylltu 'Clybiau Tanwydd' i swmp-brynu olew am bris gostyngol. (11164)	✓	Mae pedwar ar ddeg o glybiau'n bodoli bellach ar draws Sir Gaerfyrddin, gan gyflwyno dewisiadau tanwydd rhatach i drigolion wrth i gymunedau swmp-archebu olew a gwasanaethau undeb credyd. Mae cydgysylltwyr clybiau tanwydd wedi cael hyfforddiant i fod yn hyrwyddwyr ynni yn eu cymunedau er mwyn annog eu cyd-drigolion i achub ar gyfleoedd i arbed ynni. (gweler isod i gael rhagor o wybodaeth)

Sut ydym yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae tlodi tanwydd yn gallu cael effeithiau niweidiol difrifol ar iechyd, cyfoeth a lles unigolion a chymunedau. Digwydd tlodi tanwydd yn aml mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, gan nad yw dewisiadau tanwydd rhatach megis prif gyflenwad nwy ar gael mor hwylus. Gan mai sir wledig i raddau helaeth yw Sir Gaerfyrddin, mae ei thrigolion yn dibynnu ar ffynonellau tanwydd drutach, ac mae adran gwasanaethau tai Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn gweithio gyda thrigolion ers nifer o flynyddoedd i gefnogi pobl sy'n profi tlodi tanwydd neu sy'n ei chael yn anodd talu biliau tanwydd.



Mae sawl clwb tanwydd wedi cael eu ffurfio gan wirfoddolwyr er mwyn arbed arian, lle daw trigolion ynghyd i osod archebion mawrion gyda darparwyr tanwydd lleol, gan elwa ar arbedion grŵp sylweddol drwy wneud hynny.



Bellach mae pedwar ar ddeg o glybiau ledled Sir Gaerfyrddin, ac mae gan rai ohonynt dros 500 o aelodau sy'n arbed cryn dipyn ar eu biliau tanwydd gan leihau'r gost o wresogi eu cartrefi. Mae aelodau Clwb Tanwydd Dre-fach Felindre er enghraifft yn arbed £20 fesul archeb ac mae'r gymuned yn ei chyfanrwydd yn arbed £750 y mis sy'n £9,000 y flwyddyn. Mae'r arbedion hyn yn cael eu hadleisio ar draws clybiau'r sir ac mae rhai o'r clybiau mwyaf yn arbed cymaint â £50,000 y flwyddyn.

Mae'r cynllun wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol mewn dwy wobwr nodedig eleni. Yng ngwobrau Feel the Heat 2016, sy'n cael eu cynnal gan yr elusen tanwydd tlodi National Energy Action (NEA), daeth Clybiau Tanwydd Sir Gaerfyrddin yn ail ac enillodd y categori Syniad Newydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Tai Cymru 2015 (yr unig Awdurdod Lleol i wneud hynny).



Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Beth byddwn yn ei wella a sut byddwn yn mesur llwyddiant	2016/17 Targed
Byddwn yn datblygu datganiad Polisi Trechu Tlodi a fydd yn amlinellu ymagwedd gyffredinol y Cyngor at drechu tlodi. (12137)	Awst 2016
Byddwn yn sefydlu Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi i oruchwylio'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi a helpu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Drechu Tlodi i gyflawni eu cyfrifoldebau. (12138)	Awst 2016
Byddwn yn diweddarau'r cynllun gweithredu trechu tlodi fel ei fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 a'u sefydlu'n rhan o'r KIOP. (12139)	Gorffennaf 2016
Atal Tlodi	
Byddwn yn datblygu ymhellach yr ymagwedd Tîm o Amgylch y Teulu ledled y sir ar gyfer pobl 0-25 oed, fel ffordd o gael mynediad i wasanaethau ataliol, yn unol â gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Byddwn yn mynd ati i gynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol a chynaliadwyedd yn sgil newidiadau i'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, ac yn canolbwyntio ar leihau'r angen am ofal a chymorth statudol. (12140)	Mawrth 2017
Byddwn yn parhau i weithredu blwyddyn olaf y rhaglen Dechrau'n Deg estynedig, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd dan anfantais â phlant (0-3 oed) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig penodol. Byddwn yn mynd ati i gynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol a chynaliadwyedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer y grant. (12141)	Mawrth 2017
Byddwn yn parhau i weithredu blwyddyn olaf y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25), a ail-gomisiynwyd, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar i deuluoedd dan anfantais yn y sir. Byddwn yn mynd	Mawrth 2017

ati i gynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol a chynaliadwyedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer y grant. (12142)	
Byddwn yn datblygu rhagor ar gyfleoedd chwarae a gofal plant yn unol â bylchau a blaenoriaethau y manylwyd arnynt yng Nghynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant a Chyfleoedd Chwarae 16/17. (12143)	Mawrth 2017
% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg (5.0.3.1) Targed 2015/16: Canlyniad 31.60%: 33.69	34.20%
Helpu Pobl i gael Gwaith	
% y bobl 16-64 oed mewn Cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin (Hyd 14-Medi 15) (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol) Canlyniad: 69% (Cyfartaledd Cymru 70.3%)	-
% y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith (Ffynhonnell: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru - 2014) 14.8% (Cyfartaledd Cymru 14.6%)	-
Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tloidi	
Byddwn yn cynnal ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyngor a'r cymorth ariannol sydd ar gael i drigolion. (12144)	Mawrth 2017
Byddwn yn helpu cymunedau lleol i ddatblygu prosiectau/gweithgareddau i fynd i'r afael â materion tloidi gwledig drwy astudiaeth tloidi gwledig 2015. (12145)	ar waith
Byddwn yn lleihau nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd (6.6.1.2) (Targed 2015/16: 24.5 diwrnod Canlyniad: 21.76 diwrnod)	23 diwrnod
Byddwn yn cynnal y nifer cyfartalog isel o ddiwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiadau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor (6.6.1.3) (Targed 2015/16: 5 diwrnod Canlyniad: 5.23 diwrnod)	5.5 diwrnod
Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl (6.6.1.9) (Targed 2015/16:94% Canlyniad: 95.45%)	95%
% y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-dal diweithdra (Tach 14 - Tach 15) (Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol) (Canlyniad y Flwyddyn Flaenorol: 12.5% Cyfartaledd Cymru: 12.7%)	-
Byddwn yn helpu rhagor o drigolion yn Sir Gaerfyrddin i drechu tloidi tanwydd yn eu cymunedau drwy gydgyssylltu 'Clybiau Tanwydd' i swmp-brynu olew am bris gostyngol. (12146)	Mawrth 2017 ac ar waith

Fe Ddwedsoch Chi

Fe Wnaethom Ni

Ambell waith roedd yn anodd cysylltu â'r tîm Budd-dal Tai dros y ffôn

- Atgoffwyd goruchwylwyr o bwysigrwydd monitro nifer y galwadau yn rheolaidd a byddant yn addasu lefelau staffio'r tîm galwadau fel y bo'r angen

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

Cymunedau yn Gyntaf

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen amlwg Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd ati i drechu tloidi mewn modd sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'n cefnogi'r bobl sydd o dan fwyaf o anfantais yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda'r nod o helpu i liniaru tloidi parhaus. Nod y rhaglen yw cyfrannu, ochr yn ochr â rhaglenni eraill, at gau'r bylchau addysg/sgiliau, economaidd ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a'r rhai mwy cyfoethog. Mae'n cyflawni ar draws y tri maes canlynol:

- Cymunedau Ffyniannus (Economaidd)
- Cymunedau sy'n Dysgu (Addysg/Sgiliau)
- Cymunedau Iachach (Iechyd)



communities first **cymunedau yn gyntaf**

Cyflwynir y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ddaearyddol ar draws un **Ardal Glwstwr** – Tyisha, Bigyn, Glan-y-môr, Llwynhendy, Hengoed, Lliedi, Rhydaman, Trimsaran a Felin-foel

Canlyniadau Allweddol y llynedd o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

91 o drigolion Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau cyflogaeth	403 wedi cael cymorth drwy gymorth â chyflogaeth	130 o aelwydydd di-waith wedi cael cymorth	161 o oedolion wedi cael cymorth â sgiliau digidol
276 wedi cyrchu cymorth â chynhwysiant ariannol	743 o blant wedi cael cymorth i wneud yn dda yn yr ysgol	327 wedi cymryd rhan mewn gweithdai bwyta'n iach	172 o gymwysterau achrededig wedi cael eu hennill gan oedolion
63 o oedolion wedi cymryd rhan yn ein rhaglen les	Mae mwy nag 800 o bobl wedi gwirfoddoli 9,700 o Gredydau Amser wedi'u hennill	90 o oedolion wedi cael cymorth o ran bod yn rhan o addysg eu plant	208 o oedolion wedi cymryd rhan yn y rhaglenni gweithgareddau corfforol

Cymunedau Ffyniannus: Rydym yn cynnal 5 o Glybiau Amcanion a dau Glwb Amcanion ieuencid 'Cychwyn Arni' yr wythnos mewn lleoliadau cymunedol, sy'n darparu cymorth o ran llunio neu ddiweddarau CV, cymorth Paru Swyddi, ceisiadau swydd ar-lein, cymorth Credyd Cynhwysol, cyrsiau TG, a chymorth dyledion a budd-daliadau.

Rhaglen Esgyn: Mae'r rhaglen yn cefnogi pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers chwe mis neu ragor ac sydd o aelwydydd lle nad oes yr un oedolyn mewn gwaith, er mwyn dod o hyd i swyddi a hyfforddiant cynaliadwy.

Cymunedau Iach: Ers mis Ebrill 2015, mae cyfranogwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl cymedrol a llai difrifol gan gynnwys gorbryder, hunanhyder isel, a hunan-barch isel wedi cael eu cefnogi drwy ein cynllun lles.

Cymunedau sy'n Dysgu: Rydym wedi darparu nifer fawr o gyrsiau hyfforddiant achrededig i wella cynaliadwyedd cyfranogwr gan gynnwys; Cymorth Gyntaf mewn Argyfwng, Adwerthu, Gwasanaeth Cwsmeriaid mewn Lletygarwch, Iechyd a Diogelwch mewn Adeiladu, a Hylendid Bwyd.

Atal Tlodi

- ✓ Cafodd ein gwefan addysg ariannol arloesol a diddorol [Synnwyr Arian \(Money Sense\)](#) ei henwi'n Arddangoswr Awdurdod Lleol Gorayu yng nghynhadledd genedlaethol y [Sefydliad Safonau Masnach Siartredig](#) ym mis Gorffennaf 2015. Bellach mae'r wefan ar gael i holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin a hefyd mae lleoliadau eraill gan gynnwys canolfannau teulu a grwpiau ieuencid yn cael eu treialu. Mae miloedd o blant ar draws y sir wedi cwblhau'r rhaglen, sydd wedi eu helpu i feithrin sgiliau bywyd sy'n hanfodol er mwyn atal tlodi. "Mae plant wrth eu boddau â'r adnodd hwn. Mae'n weledol iawn ac roedden nhw'n dwlu gweld beth oedd cyflogau gwahanol swyddi!" Ysgol Gynradd Gymunedol Talacharn
- ✓ Cynhaliodd Cymunedau yn Gyntaf ddigwyddiad a roddai gyngor am ddim i rieni a mamau beichiog yng Nghanolfan Hamdden Llanelli. Roedd y sesiynau yn cynnwys rhai iaith a chwarae, tylino i fabanod, gweithdai gwnïo, a llawer mwy gan roi cyfle pwysig i rieni grynhoi pob math o gynghorion defnyddiol ynghylch pethau fel maethiad da, sicrhau bod biliau ynni y teulu cyn lleied â phosibl, a gofalu bod eu plant yn ddiogel yn y car.
- ! Dim ond 70.4% o'r plant a oedd yn gymwys i gael lleoliadau gofal plant dechrau'n deg am ddim a gofrestrodd ar eu cyfer yn 2015/16.
- ! Mae 4,200 o blant yn byw mewn 11,200 o aelwydydd heb waith yn Sir Gaerfyrddin



Helpu Pobl i Ddychwelyd i'r Gwaith / Gael gwaith

- ✓ Roedd deg o gyfleoedd ychwanegol i brentisiaid ar gael yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r Rhaglen Barod am Waith sy'n darparu ystod amrywiol o gyflogaeth a phrofiad gwaith mewn lleoliad awdurdod lleol. Dywedodd Daniel Thomas, a dderbyniodd hyfforddiant yn yr adain drafnidiaeth: *"Rwy'n teimlo'n hynod ffodus – roeddwn mewn rhigol mewn gyrfa nad oeddwn eisiau bod ynddi, a nawr mae gen i NVQ mewn gweinyddu busnes ac rwyf wedi cael swydd gyda'r Cyngor, yn yr Adran Cymunedau.*
- ✓ Roedd ffair swyddi a gynhaliwyd gan Un Sir Gâr mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chymunedau yn Gyntaf wedi denu mwy na 500 o bobl i gyfarfod â thros 15 o gyflogwyr lleol er mwyn sicrhau cyfleoedd hyfforddiant neu swyddi.
- ✓ Roeddem wedi lansio rhaglen brawf rygbi am 15 wythnos i gefnogi menywod ifanc yn ardal Rhydaman nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ac nad yw eu ffordd o fyw yn cynnwys gwneud ymarfer corff. Cafodd 25 o leoedd eu cefnogi drwy'r rhaglen er mwyn helpu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed i ddatblygu sgiliau a chadw'n heini ac yn iach.
- ! Daeth y rhaglen Gweithfyrdd i ben yn 2014/15, ond yn ystod y 12 mis diwethaf, mae gwaith wedi'i wneud gyda'n Hawdurdodau Lleol cyfagos i sefydlu prosiect Cyflogadwyedd Oedolion Newydd 'Gweithfyrdd+' o dan y rhaglen UE newydd. Mae'r rhaglen wedi cael ei chymeradwyo bellach a chafwyd cyhoeddiad swyddogol gan Jane Hutt (Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Gyllid/Llywodraethu a Busnes) ar 16^{eg} Chwefror 2016. Dechreuodd y prosiect ar 1^{af} Ebrill 2016 a bydd ar waith hyd at fis Tachwedd 2018.



Prentisiaid y Cyngor gyda chynrychiolwyr Bwrdd Gweithredol y Cyngor a staff

Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tloidi

- ✓ Rydym wedi cefnogi 4,857 o gwsmeriaid fel rhan o'r cynllun prawf Cymorth Cynhwysol a Gyflenwir yn Lleol (USDL) er mwyn helpu dinasyddion i symud i'r system Budd-dal Lles Credyd Cynhwysol newydd. Er bod y cynllun prawf wedi dod i ben ym mis Awst 2015, mae ei holl elfennau yn awr yn rhan annatod o'r busnes arferol, gan sicrhau cymorth parhaus o ran cael cyngor ariannol a digidol.
- ✓ Roedd y tîm Dewisiadau Tai, mewn partneriaeth â Shelter Cymru, wedi lansio sesiynau penodol i roi cyngor ar ddigartrefedd, er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd mewn achosion a geir fel arfer ar ôl y Nadolig. Yn ystod tair wythnos gyntaf y cynllun, daeth 24 o aelwydydd i chwilio am gymorth. Roedd 13 o'r teuluoedd hynny mewn perygl go iawn o fod yn ddigartref ac yn cael cymorth ychwanegol gan y tîm.
- ✓ Mae swyddogion safonau masnach wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Heddlu i glustnodi ac ymweld â phreswylwyr y mae posibilrwydd y gallant gael eu twyllo drwy sgamiau drwy'r post, y rhyngwyd a'r ffôn. Mae'r cynllun prawf wedi bod ar waith yn ardal Rhydaman ac mae'n cael ei ymestyn i Lanelli.
- ! Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae 88% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Sir Gaerfyrddin sydd yn y 30% uchaf o ran yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru mewn perthynas â mynediad i wasanaethau wedi eu lleoli yn ardaloedd gwledig y sir, gan gynnwys tair LSOA sydd yn y 10% uchaf o ran ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn perthynas â mynediad i wasanaethau yng Nghymru.

Gwelliannau eraill ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn cysylltu'r gwasanaeth Llyfrgell Symudol gydag Un Sir Gâr (yr Hwb) er mwyn darparu cyflogadwyedd a gwasanaethau cymorth Digidol ar draws y sir – gan greu cyswllt ag ymgyrch 'Ar-lein Amdani' Sir Gaerfyrddin. (12150)
2. Byddwn yn ail-greu'r trefniadau 'hwb' mewn ardaloedd eraill ar safleoedd yng nghanol y dref neu'n agos at ganol y dref. (12151)

Nod: G6 Creu economi a gweithlu dwyieithog**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2015/16**

Sectorau, Safleoedd, Glan y Môr a Shwmae – Rydym yn sir amrywiol mewn nifer o ffyrdd, ac mae gan ein trefi a'n pentrefi nodweddion unigryw; mae ein dwyieithrwydd yn ein diffinio; mae ein cymuned fusnes yn gweithredu ar draws nifer o sectorau twf newydd allweddol. Mae ein heconomi yn gyfuniad o elfennau y mae pob un ohonynt yn elwa ar safleoedd cyflogaeth strategol, busnesau mewn amrywiol sectorau, ac economi ddwyieithog a chysylltiedig sy'n unigryw ac sy'n cyflwyno cyfleoedd rhagorol. Gall Sir Gaerfyrddin gynnig rhywbeth i bawb, ac mae ei ffordd o fyw, ei threftadaeth a'i synnwyr o le yn draddodiadol, yn fodern ac yn groesawgar.



Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron 80,000 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Gan mai 183,777 yw poblogaeth y sir, mae bron hanner y cwsmeriaid yn siarad Cymraeg. Fel awdurdod lleol mae dyletswydd arnom i annog pobl i ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg. Mae'r egwyddor hon yn rhan bwysig o ymdrechion sector cyhoeddus Cymru i gyfrannu tuag at ffyniant y Gymraeg fel iaith leiafrifol unigryw ond byw.

Mae defnyddio'r Gymraeg yn fanteisiol i fusnesau

Mae cynnig dewis o ran iaith i gwsmeriaid yn arfer da mewn gofal cwsmeriaid ac yn dangos parch i'r cwsmer ac i'r iaith Gymraeg.

Dengys **Safonau'r Gymraeg** sut yr ydym i fod i drin y Gymraeg wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae'r safonau a basiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu pennu ar ein cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac o fis Ebrill 2016 mae'n ofynnol inni gydymffurfio â'r safonau newydd. Mae'r safonau'n nodi na ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg ac y dylem hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y sir.

Safonau Iaith Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Welsh Language Standards

**Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?**

- ✓ Rydym wedi gwneud gwaith paratoi manwl ar gyfer cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys negeseuon hyrwyddo / esboniadol i staff a chanllawiau manwl i'w helpu â'u dyletswyddau o ddydd i ddydd
- ✓ Rydym wedi buddsoddi yn ein Huned Gyfieithu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu helpu swyddogion i weithio'n ddwyieithog a bod yr holl ddogfennau gan y Cyngor yn cael eu llunio hyd at safon uchel
- ✓ Rydym wedi parhau i deilwra ein darpariaeth Cymraeg yn y gweithle i'r staff. Un o'r llwyddiannau allweddol yw cwrs arbenigol i unigolion sy'n darparu gofal i bobl hŷn. Mae hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i fframwaith strategol *Mwy na Geiriau* ar gyfer y Gymraeg yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Sut ydym yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae Fforwm Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin wedi datblygu a chyhoeddi cyfres o ganllawiau ar gyfer Busnesau ar draws y sir, er mwyn eu helpu i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cymorth ymarferol ar y camau y gall busnesau eu cymryd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn egluro manteision gweithio'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys:

- Proffil cyhoeddus uwch a sylfaen gefnogaeth ehangach wrth i fusnesau gynyddu maint eu marchnad darged, a hyrwyddo teyrngarwch y cwsmeriaid
- Mae iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth pawb
- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol yng Nghymru i'r Gymraeg
- Mae rhywun yn gallu mynegi ei hun yn fwy effeithiol yn eu dewis iaith
- Darparu gwasanaethau dwyieithog a chyfrannu at gydraddoldeb ac arferion da
- Parchu dewis iaith siaradwyr Cymraeg a rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg
- Cyfrannu tuag at ddiogelu iaith a diwylliant cynhenid y sir
- Dengys ymchwil fod dwyieithrwydd yn hyrwyddo'r gallu i ddatrys problemau ac i ddysgu ieithoedd eraill
- Meithrin perthynas dda â chleientiaid yn syth

Gweler hefyd Nod F7: Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn y Canlyniad Cynaliadwy

Gwelliannau ar gyfer 2016/17

1. Byddwn yn atgyfnerthu sefyllfa'r iaith Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin drwy weithredu argymhellion adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin' ym mis Mawrth 2014. (12152)
2. Byddwn yn cynyddu % y busnesau sy'n masnachu'n ddwyieithog drwy ein swyddogaeth rheoli cyfrifon busnes gyda busnesau a'r trydydd sector drwy annog busnesau i weld gwerth gwneud busnes yn ddwyieithog. (12173)
3. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr gynnig cyllid grant trydydd parti i gael Polisi Iaith Gymraeg yn ei Le (Targed o 30 o fusnesau). (12174)

ATODIAD A

Mae cyfres o **fesurau Cenedlaethol** ar gyfer pob cyngor yng Nghymru, lle mae'n ofynnol inni eu casglu er mwyn pennu targedau perfformiad a chyhoeddi ein targed a'n perfformiad yn ein Hadroddiad Blynyddol/Cynllun Gwella

Mae dwy brif ffordd o fesur gwelliant:-

- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn – a ddangosir o dan 'A' yn y tabl isod
- Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru – a ddangosir o dan 'B' yn y tabl isod – mae'r rhan fwyaf o'r data cymharol ar gyfer 2014/15 heblaw rhywfaint o'r data Addysg sydd ar gyfer 2015/16 ac sydd wedi'i farcio â #. Bydd holl ganlyniadau 2015/16 ar gyfer holl Awdurdodau Cymru yn cael eu cyhoeddi gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ym mis Medi 2016.

A			B																							
Y 41 o fesurau a gyhoeddwyd gan bob cyngor yng Nghymru, ein canlyniadau ar gyfer 2015/16 a os a ydynt wedi gwella ar 2014/15			Sut mae ein canlyniadau rheng o'u cymharu â 21 awdurdod yng Nghymru ac os oes newid yn ein sefyllfa																							
	Ein canlyniad am 2015/16 a'r newid		22ain	21ain	20fed	19eg	18fed	17eg	16eg	15fed	14eg	13eg	12fed	11eg	10fed	9fed	8fed	7fed	6ed	5ed	4ydd	3ydd	2il	1af		
			Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau												
			Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2013/4 at ein sefyllfa 2014/15																							
Adeiladu Gwell Cyngor																										
1	Nifer o diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. (CHR/002)	10.1	↓																							
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach																										
2	Ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCS/002b)	6905	↓																							
3	% Safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau (PPN/009)	94.98	↑																							
4	Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002)	232	↑																							
5	Oedi wrth drosglwyddo gofal (SCA/001)	4.69	↑																							
6	Cymorth yn y gymuned (65 oed neu drosodd) (SCA/002a)	57.92	↓																							
7	Gofal Preswyl (65 oed neu drosodd) (SCA/002b)	18.74	↑																							
8	% Unedau tai fforddiadwy newydd / holl unedau tai newydd (PLA/006b)	8	↔																							
9	% Anheddau sector preifat gwag wedi llenwi (PSR/004)	5.73	↑																							
10	% Cleientiaid â chynllun gofal ar Fawrth 31ain - wedi adolygu (SCA/007)	74.7	↑																							
11	% Gofalwyr a gafodd gynnig asesiad yn ôl hawl eu hun (SCA/018a)	100.0	↔																							Efo 4
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu																										
12	% Disgyblion sy'n cyrraedd DPC Cyfnod Allweddol 2 (EDU/003)	88.2	↑	#																						
13	% Disgyblion sy'n cyrraedd DPC Cyfnod Allweddol 3 (EDU/004)	85.1	↑	#																						
14	Cyfartaledd y sgôr bwyntiau mewn cymwysterau allanol (EDU/011)	580.3	↑	#																						
15	% disgyblion a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 (EDU/017)	61.1	↑	#																						
16	Nifer o ymwelwyr i Lyfrgelloedd Cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCL/001b)	7,203	↑																							
17	Sgôr y pwyntiau cymwysterau, ar gyfartaledd - plant sy'n derbyn gofal (SCC/037)	334	↑																							
18	% Disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002i)	0.0	↔																							Efo 4

ATODIAD A

				22ain	21ain	20fed	19eg	18fed	17eg	16eg	15fed	14eg	13eg	12fed	11eg	10fed	9fed	8fed	7fed	6ed	5ed	4ydd	3ydd	2il	1af				
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu - parhad																													
19	% Disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002ii)	0.0	↔																							Efo 18			
20	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EDU/016a)	95.2	↑	#																									
21	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EDU016b)	94.2	↑	#																									
22	% Datganiadau AAA sy'n derfynol o fewn 26 wythnos (cynnwys eithriadau) (EDU/015a)	34.8	↑																										
23	% Datganiadau AAA sy'n derfynol o fewn 26 wythnos (eithrio eithriadau) (EDU015b)	80.0	↑																										
24	% Disgyblion sy'n derbyn asesiad athro yn y Gymraeg at CA 3 (EDU/006ii)	43.2	↑																							Un fath			
Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel																													
25	% Cyfeiriadau Diogelu Oedolion – risg wedi'i reoli (SCA/019)	92.61	↓																										
26	% Plant sy'n derbyn gofal sy'n symud ysgol (SCC/002)	3.9	↑																										
27	% Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu'n fwy yn ystod y blwyddyn (SCC/004)	14.9	↓																										
28	% Asesiadau cychwynnol - plant wedi cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol ar ben ei hun (SCC/011b)	46.5	↓																										
29	% Ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal (SCC/025)	98.2	↓																							Un fath			
30	% 19 oed a oedd gynt yn derbyn gofal - Awdurdod Lleol mewn cyswllt (SCC/033d)	100.0	↔																							Efo 6			
31	% 19 oed a oedd gynt yn derbyn gofal sy mewn llety (dim argyfwng) (SCC/033e)	94.7	↑																										
32	% 19 oed mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (SCC/033f)	73.7	↑																										
33	% Y plant sydd â chynllun llwybr yn ôl yr angen (SCC/041a)	100.0	↔																							Efo 9			
34	% o adolygiadau a gafodd eu cynnal o fewn yr amserlenni statudol (SCC/045)	89.4	↔																							Un fath			
Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy																													
35	Newid yn y sgôr gyfartaledd ar Dystysgrif Arddangos Ynni (%) (CAM/037)	7.2	↑	Mesur newydd ar gyfer 2015/16 felly, nid oes data cymharol ar gael																									
36	% Priffyrdd a archwiliwyd ar gyfer safon uchel / derbyniol (STS/005b)	98.9	↓																										
37	% Gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (WMT/004b)	5.24	↑																										
38	% Gwastraff wedi'u aildefnyddio, ei ailgylchu neu eu gompostio (WMT/009b)	63.35	↑																										
39	% Tipio anghyfreithlon adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith (STS/006)	87.24	↓																										
40	% Oedolion 60 oed â thocyn teithio consesiynol (THS/007)	80.6	↓																										
41	% Ffyrdd (A), (B) ac (C) mewn cyflwr gwael (THS/012)	10.7	↑																										

Atodiad B

Mae'r tablau canlynol yn rhoi broffiliau manwl ar gyfer pob un o'r fesurau perfformiad sy'n cael eu mesur gan bob Cyngor yng Nghymru.

Ein mesurau allweddol - canlyniadau 2015/16 a thargedau ar gyfer 2016/17										
Disgrifiad / Cyfeirnod	Pa mor dda ydyn ni wedi'i gwneud? 2014/15	Pa mor dda ydym yn gwneud?							Gwella	
		Gweler Esboniad o'r perfformiad				Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan				
		2015/16	2015/16		2015/16		2015/16		2016/17	
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad gwirioneddol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✕
SCA/001 Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd.	6.18	5.77	4.69	☺	▲	I'w gadarnhau			4.51	✓
Esboniad o berfformiad yn cael ei ddarparu yma pan mae'r canlyniad ddim ar y targed, perfformiad cymharol wael a / neu darged yn y dyfodol wedi cael ei osod i wella.										

Rhif Cyfeirnod 3 llythyr = mesur gosod yn genedlaethol (ee SCA/001) Diffiniad: Hyn yr ydym yn mesur? Disgrifiad byr o'r mesur perfformiad	Sut wnaethom ni berfformio ystod 2014/15?	Ein canlyniad terfynol ar gyfer 2015/16	Cymhariaeth rhwng ein canlyniad 2014/15, ac ein perfformiad 2015/16. Wnaethom ni wella? ▲ (Ie) neu ▼(Na)	Y lefel perfformiad lleiaf sydd ei angen i fod ymysg y 5 uchaf cyngorau Cymru	Sut mae ein canlyniad yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill? * Chwarter Gwaethaf i **** Chwarter Gorau	A yw'r targed perfformiad 2016/17 ar fin gwella ar y canlyniad 2015/16? ✓ (Ie) neu ✕ (Na)
--	---	---	--	---	--	--

Ein targed yn 2015/16	A wnaethom cyrraedd y targed? ☺ (Ie) neu ☹ (Na)	Perfformiad ystod ganol yng Nghymru (dim ond yn berthnasol i fesurau Cenedlaethol) bydd y rhain ar gael ym Medi 2016	Ein targed ar gyfer 2016/17
-----------------------	--	--	-----------------------------

Mesurau Perfformiad a fesurir gan yr holl Gynghorau yng Nghymru ar gyfer 2015/16

Canlyniadau 2014/15 a thargedau ar gyfer 2015/16

	Pa mor dda ydyn ni wedi'i wneud?	Pa mor dda ydym yn gwneud?							Gwella		
		Gweler esboniad o'r perfformiad			Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan						
Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu x	
1 CHR/002 (PAM) Nifer y diwrnodau gwaith / shiftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gollwyd gweithiwr awdurdod lleol oherwydd absenoldeb salwch.	9.6 diwrnod	9.3 diwrnod	10.1 diwrnod	☹	▼	I'w gadarnhau		9.6 diwrnod	✓	Adeiladu Gwell Cyngor	
	<p>Mae'r canlyniad wedi dirywio hanner diwrnod ar gyfer 2015/16 ar ôl gwelliant gwych yn ystod 2014/15. Yn ôl Arolwg y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, mae'r duedd ar gyfer absenoldeb salwch yn y sector cyhoeddus yn dangos cynnydd o un diwrnod.</p> <p>Y prif wasanaethau lle mae absenoldeb salwch wedi cynyddu yw staff ysgol a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae rhai achosion o absenoldeb salwch tymor hir o hyd sydd wedi cael eu rheoli drwy'r broses yn briodol, ond mewn rhai meysydd mae angen rhagor o bwyslais ar gymhwyso'r polisi ac ymyriadau cynt. Mae cynnydd wedi bod mewn salwch o achos straen, iechyd meddwl a lludded, sy'n cyfateb i chwarter cyfanswm y diwrnodau salwch yn ystod 2015/16 o gymharu â 22% y llynedd, ac roedd llawer o'r achosion yn ymwneud â materion gartref. Problemau cyhyrsgerbydol yw'r achos ail fwyaf o absenoldeb (15%) sydd 2% yn is na 2014/15.</p> <p>Byddwn yn hyrwyddo ymhellach reolaeth absenoldeb salwch gadarn mewn adrannau ac rydym yn ystyried pennau targedau adrannol. Hefyd byddwn yn darparu briffiadau wedi'u targedu ac rydym yn gobeithio y byddant yn gwella'r modd y rheolir presenoldeb a chysondeb o ran adroddiadau.</p> <p>Mae defnyddio'r gwasanaethau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol/rheoli straen mewnol yn parhau ac yn canolbwyntio ar roi cefnogaeth ar gyfer straen, gorbryder, ac iselder, ochr yn ochr â chymorth ac ymyriadau rheolaeth.</p>										
2 LCS/002 (NSI) Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn, lle fydd yr ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, fesul 1,000 o'r boblogaeth.	7,028	7,100	6,905	☹	▼	I'w gadarnhau		7,251	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach	
	<p>Roedd diffyg sylweddol o ran presenoldeb yn ystod y chwarter cyntaf, a'r rheswm pennaf dros hynny oedd am fod y Pasg yn gynnar. Ni oedd modd gwneud iawn am hyn dros gweddill y flwyddyn, er gwaethaf Pasg cynnar ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly cafwyd gostyngiad bach o ychydig dan 2% o gymharu â'r llynedd.</p>										

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
3 PPN/009 (PAM) Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	94.16%	93.00%	94.98%	☺	▲	I'w gadarnhau			93.00%	✗	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	Er ein bod yn unol â'r targed ac yn dangos gwelliant ar gyfer 2015/16, nid yw'r targed o 93% ar gyfer 2016/17 wedi'i osod yn uwch ac ystyrir ei fod yn adleisio sector busnes byrhoedlog. Seilir y lefel gydymffurfiaeth ar berfformiad busnes unigol, ac felly nid yw'n adleisio mewnbwn yr Awdurdod Lleol. Mae ffigur o 7% nad yw'n cydymffurfio'n fras wedi'i neilltuo i gyfrif am eiddo sy'n methu, a'r rhain fydd prif ffocws ymyriadau'r Awdurdod Lleol. Y prif fwrriad fydd sicrhau gwell cydymffurfiaeth yn y dyfodol, y gellir ond ei asesu yn yr arolygiad nesaf sydd wedi'i drefnu (sydd fel arfer ar hyd blwyddyn ariannol arall). Bydd monitro perfformiad yn rheolaidd yn parhau gydol y flwyddyn, gan weithio gyda Gweithredwyr Busnesau Bwyd er mwyn cyrraedd safon mor uchel â phosibl.										
4 PSR/002 (NSI) & (PAM) Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	252 diwrnod	235 diwrnod	232 diwrnod	☺	▲	I'w gadarnhau			220 diwrnod	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
5 SCA/001 (NSI) Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd.	6.18	5.77	4.69	☺	▲	I'w gadarnhau			4.51	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	Gwelliant da yn ystod 2015/16 gyda gostyngiad o 113 o gleifion i 87 o gleifion yn profi oedi cyn gadael yr ysbyty. Rydym yn gweithio'n fwyfwy agos gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatrys unrhyw broblemau. Mae tîm amlddisgyblaeth yn gweithio yn y ddau ysbyty cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin i wella'r cysylltiadau rhwng y gymuned a'r sector aciwt. Maent yn datblygu modelau sy'n helpu i osgoi derbyniadau a lleihau hyd arosiadau yn yr ysbyty, gan wella lles y bobl hŷn y gall cael eu derbyn i'r ysbyty gael canlyniadau negyddol iddynt. Hefyd rydym wedi sefydlu gwasanaeth gofal cartref Ymateb Cyflym i ymateb yn syth i osgoi derbyniadau i'r ysbyty, helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a hwyluso rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.										
6 SCA/002a (NSI) Cyfradd o pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth;	61.87	58.93	57.92	☹	▼	I'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	Mae'r mesur statudol hwn yn disgwyl bod cynifer o bobl hŷn â phosibl yn cael cymorth i fyw gartref. Fodd bynnag, fel Cyngor rydym am hyrwyddo byw'n annibynnol ac mae ein hystod arloesol o wasanaethau yn ceisio cefnogi pobl drwy wasanaethau yn y gymuned. Mae gostyngiad wedi bod mewn gofal dydd a darparu pryddau yn sgil ymdrechion i ddod o hyd i ddewisiadau yn y gymuned sy'n eu hannog i gymryd rhan yn eu cymuned leol.										
7 SCA/002b (NSI) Cyfradd o pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth	20.48	19.59	18.74	☺	▲	I'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	Mae'r mesur hwn wedi'i ddileu ar gyfer 2016/17 a bydd mesurau newydd gan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol newydd yn eu disodli.										

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
8 PLA/006b (NSI) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.	8%	9%	8%	☹	▼	I'w gadarnhau			30%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	<p>Mae'r canlyniad hwn yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i seilio ar ddata o ffurflenni'r flwyddyn flaenorol (2014/15) ar gyfer casglu data tai fforddiadwy a data adeiladau newydd. Mae'n rhoi sylw i ddata gan Reoli Adeiladu yr Awdurdod Lleol ond hefyd gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai ac Arolygwyr Awdurdodedig eraill.</p> <p>Mae cynnydd bach wedi bod yn nifer y tai fforddiadwy ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2014/15, sef 47 o gymharu â 40 yn 2013/14, ond o achos cynnydd uwch yn nifer yr unedau o dai ychwanegol a ddarperir, i 579 o 471 mae % y canlyniad wedi aros yr un peth.</p> <p>Hefyd ceir gwahaniaethau mwy hirdymor o achos diffyg cryfder ariannol cymdeithasau tai lleol. Felly mae llai o dai yn cael eu cwblhau heb ddefnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol nag mewn sawl rhan arall o Gymru. Byddwn yn rhoi sylw i'r mater hwn yn ein Cynllun Tai Fforddiadwy ar gyfer Sir Gaerfyrddin, lle bydd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin rôl llawer mwy o ran darparu tai fforddiadwy newydd. Dylai canlyniad 2016/17 gynyddu oherwydd bydd yn cael ei seilio ar ddarparu 185 o dai fforddiadwy drwy'r cynlluniau hyn yn ystod 2015/16.</p>										
9 PSR/004 (NSI) Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.	5.45%	5.24%	5.73%	☺	▲	I'w gadarnhau			6.00%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
10 SCA/007 (PAM) Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn	71.9%	80.0%	74.7%	☹	▲	I'w gadarnhau		Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach	
11 SCA/018a (PAM) Canran y gofaluwr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn	100.0%	100.0%	100.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	I'w gadarnhau		Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach	

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
12 EDU/003 (NSI) & (PAM) Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	87.4%	88.7%	88.2%	☹	▲	I'w gadarnhau			88.7%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
Er nad yw'n unol â'r targed, mae'r canlyniad wedi gwella 0.8 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 87.4% i 88.2%. Mae'r perfformiad a gyflawnir yn cynrychioli canlyniad gorau'r Awdurdod Lleol hyd yn hyn ac yn parhau ein tuedd gynyddol barhaus. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn dal i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran gwell canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae trefniadau cenedlaethol i gefnogi cywirdeb Asesiadau Athrawon wedi cael eu rhoi ar waith a byddant yn parhau i gefnogi gwaith yn ein hysgolion.											
13 EDU/004 (PAM) Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	84.5%	86.5%	85.1%	☹	▲	I'w gadarnhau			85.6%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
Er gwaethaf bod canlyniad 2015/16 ychydig oddi ar y targed, mae'n dangos cynnydd o 0.6 pwynt canran o gymharu â pherfformiad y llynedd. Hefyd y canlyniad yw'r uchaf a gofnodwyd gan yr Awdurdod Lleol, gan barhau ein tuedd gynyddol ers 2011 (68.4%), sef cynnydd o 16.7 pwynt canran. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran gwell canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae trefniadau cenedlaethol i gefnogi cywirdeb Asesiadau Athrawon wedi cael eu rhoi ar waith a byddant yn parhau i gefnogi gwaith ein hysgolion.											
14 EDU/011 (NSI) & (PAM) Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	579.8	599.0	580.3	☹	▲	I'w gadarnhau			581.0	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
Nid yw canlyniad 2015/16 yn cyrraedd y targed ond mae wedi gwella. Hwn yw'r canlyniad gorau erioed i'r Awdurdod Lleol a'r hyn sy'n gyfrifol amdano yw tracio a herio mwy pendant ar ran yr Awdurdod Lleol a Chonsortium ERW (Ein Rhanbarth ar Waith). Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i herio a chefnogi ysgolion a monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn cyrraedd targedau disgyblion, ysgolion a'r Awdurdod Lleol.											
15 EDU/017 (NSI) & (PAM) Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg.	58.7%	61.1%	61.1%	☺	▲	I'w gadarnhau			61.6%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
Mae canlyniad 2015/16 (Blwyddyn Academaidd 2014/15) yn cynrychioli gwelliant da o fwy na 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac am y tro cyntaf mae ysgolion yr Awdurdod wedi rhagori ar y trothwy o 60%. Mae nifer o strategaethau herio, cefnogi ac ymyrryd a weithredir gan y Tîm Gwella Ysgolion mewn partneriaeth ag uwch-arweinwyr mewn ysgolion (yn cynnwys targedu perfformiad adrannau penodol) wedi cyfrannu'n fawr at y llwyddiant hwn. Mae angen i ddwy ysgol wella rhagor ar eu perfformiad. Mae camau ymyrryd gan y Tîm Gwella Ysgolion ar waith ac mae'r rhagolwg presennol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2015/16 yn dda.											
16 LCL/001b (NSI) Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.	6,806	6,840	7,203	☺	▲	I'w gadarnhau			7,274	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
Gwelliant gwych yn ystod 2015/16; mae gwahanol welliannau yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at hyn megis ein gwefan newydd; gosod teclynnau cyfrif pobl yn Llyfrgelloedd Caerfyrddin a Rhydaman, sydd wedi arwain at gasglu ffigurau cywirach o ran nifer yr ymwelwyr. Mae Llyfrgelloedd Cross Hands a Chydwelli wedi ailagor ac mae nifer o leoliadau wedi cael eu hadnewyddu a'u moderneiddio, sydd wedi gwella'r gwasanaeth a ddarperir.											

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
17 SCC/037 (NSI) Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol.	315	318	334	☺	▲	I'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
18 EDU/002i (NSI) & (PAM) Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0%	0.0%	0.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	I'w gadarnhau			0.0%	Ar y canlyniad mwyaf	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
19 EDU/002ii (NSI) Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd.	0.0%	0.0%	0.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	I'w gadarnhau			0.0%	Ar y canlyniad mwyaf	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
20 EDU/016a (PAM) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	95.0%	95.2%	95.2%	☺	▲	I'w gadarnhau			95.4%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Mae cynnydd bach wedi bod unwaith yn rhagor yn ystod 2015/16 (Blwyddyn Academaidd 2014/15) ac rydym bellach yn y 5ed safle yng Nghymru (6ed yn y flwyddyn flaenorol), sy'n welliant sylweddol o gymharu â 15fed ddwy flynedd yn ôl. Mae'r Gwasnaeth Lles Addysg wedi gwella ymgysylltu â rhieni, a bellach mae Penaethiaid yn cael cefnogaeth ar ffurf rhannu a monitro data'n fwy rheolaidd a chywir, ac mae hyn wedi cyfrannu at wella presenoldeb. Ceisir gwneud gwelliannau parhaus drwy fwy o gymorth a herio ysgolion.

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
21 EDU/016b (PAM) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.9%	94.2%	94.2%	☺	▲	I'w gadarnhau		94.4%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	
	Mae canlyniad 2015/16 (Blwyddyn Academaidd 2014/15) wedi gwella a'n safle cymharol dros dro yw 8fed, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol ar ôl codi o 20fed yn 2013/14. Ar sail canran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim fesul Awdurdod Lleol, ein safle disgwylidig oedd 10fed, yr ydym wedi rhagor arno drwy'r canlyniad hwn. Mae ailstrwythuro'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi gwella ymgylltu â Phenaethiaid, ynghyd â rhannu a monitro data'n fwy rheolaidd a chywir, a oedd yn helpu i wella presenoldeb. Disgwylir gwelliannau parhaus drwy fwy o gymorth a herio ysgolion.										
22 EDU/015a (NSI) Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau.	22.9%	25.0%	34.8%	☺	▲	I'w gadarnhau		40.0%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	
	Mae nifer y Datganiadau a ddyroddir wedi lleihau yn ôl y disgwyl, yn dilyn datganoli cyllid Anghenion Ychwanegol i ysgolion, er gwaethaf hyn mae'r ganran a ddyroddir o fewn 26 wythnos yn dal i fod yn fach, ond mae wedi gwella ychydig o gymharu â'r llynedd. Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn dal i gael problemau o ran recriwtio ac mae'n cynnal clinigau ad hoc pan allant gyflogi locwm. Mae hyn yn arwain at oedi parhaus o ran cael asesiadau meddygol. Rydym wedi rhoi sylw i bryderon ag uwch-reolwyr yn y Bwrdd Iechyd Lleol a byddwn yn parhau i 1) Tracio asesiadau i ragdybio oedi lle bo'n bosibl 2) Parhau i ofyn am wybodaeth am pam y mae adroddiadau gan asiantaethau allanol yn hwyr; 3) Rhoi gwybod i rieni pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn oedi'r asesiad; Anfon negesuon atgoffa am rwymedigaeth statudol yr Awdurdod at asiantaethau allanol 4) Gofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi gwybod inni pan nad yw plentyn yn dod i apwyntiad meddygol fel y gallwn gynnig cymorth i rieni wneud trefniadau i fynd â'r plentyn i apwyntiadau er mwyn osgoi 'Heb Fynychu'.										
23 EDU/015b (NSI) Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau.	75.0%	90.0%	80.0%	☹	▲	I'w gadarnhau		90.0%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	
	Er nad yw'n cyrraedd y targed, mae'r mesur hwn yn dangos gwelliant ar y flwyddyn flaenorol. Roedd pedwar asesiad heb gael eu dyroddi o fewn 26 wythnos o achos oedi o ran cael gwybodaeth gan bobl broffesiynol o'r adran. Mae nodyn atgoffa wedi cael ei anfon at yr holl staff Cynhwysiant ynghylch yr angen i gydymffurfio ag amserlenni statudol.										
24 EDU/006ii (NSI) Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	39.0%	40.0%	43.2%	☺	▲	I'w gadarnhau		43.7%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
<p>25 SCA/019 (NSI) & (PAM) Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli</p>	98.98%	98.00%	92.61%	☹	▼	l'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
<p>Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael nifer o atgyfeiriadau mewn perthynas â honiadau o gam-drin oedolion agored i niwed sydd wedi marw cyn bod yr atgyfeiriad wedi cael ei wneud. Hefyd rydym wedi cael atgyfeiriadau gan Heddlu Dyfed-Powys lle mae honiad o gam-drin ariannol wedi cael ei wneud yn uniongyrchol iddynt, ond daeth ymchwiliad dilynol i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiadau. Felly nid ydym yn credu bod y risg i'r oedolion hyn yn gallu cael ei gofnodi'n fel un sydd wedi'i lleihau neu ei gwaredu.</p>											
<p>26 SCC/002 (NSI) Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.</p>	5.4%	10.0%	3.9%	☺	▲	l'w gadarnhau		5.0%	✗		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
<p>Mae'r adran wedi perfformio'n eithriadol o dda yn ystod 2015/16 a dim ond 6 phlentyn sydd wedi newid un ysgol neu fwy. Rhagwelir y bydd y gwaith da yn parhau ond mae'r dangosydd perfformiad hwn yn dibynnu ar nifer y plant oedran ysgol gorfodol y gofelir amdanynt ar 31ain Mawrth, sydd bob amser yn gallu newid, ac sydd, o ganlyniad, yn dylanwadu ar y canlyniad, ac felly mae 5% yn darged realistig ar gyfer 2016/17 ar sail perfformiad yn y gorffennol.</p>											
<p>27 SCC/004 (NSI) & (PAM) Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn</p>	11.7%	11.3%	14.9%	☹	▼	l'w gadarnhau		13.5%	✓		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
<p>Rydym wedi gweld cynnydd mewn lleoliadau pobl ifanc yn eu harddegau heriol yn ystod y flwyddyn, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar sefydlogrwydd lleoliadau. Mae hyn, ynghyd â gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, wedi cael effaith ar y canlyniad. Yn achos llawer o bobl ifanc, nid ydynt eisiau bod yn y system ofal, er bod hynny o fudd iddynt. O ganlyniad mae lleoliadau'n mynd yn fregus ac yn torri i lawr, er gwaethaf ymdrechion gorau'r adran. Ar nodyn cadarnhaol, mae rhai plant wedi dychwelyd i fyw gyda rhiant/perthynas sy'n gofalu amdanynt. Mae Panel Llety wedi cael ei sefydlu i helpu â'r broses baru a dyrannu adnoddau, yn ogystal â Phanel Adnoddau i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gefnogi lleoliadau er mwyn eu hatal rhag torri i lawr. Mae'r adran yn canolbwyntio ar recriwio gofalwyr maeth ar gyfer plant hŷn.</p>											

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
<p>28 SCC/011b (NSI) Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun.</p>	47.3%	48.3%	46.5%	☹	▼	I'w gadarnhau		Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	
<p>Er nad ydym wedi cyrraedd ein targed, mae'r adran yn perfformio'n well na ffigur Cymru Gyfan am 2014/15 sef 44.8%. Yn achos llawer o'r plant, nid ydynt yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain o achos eu hoedran, tra bo eraill yn gwrthod. Ni fydd angen gweld plentyn ar ei ben ei hun ym ymhob achos, ond byddwn yn sicrhau bod hynny'n digwydd lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar natur yr asesiad.</p>											
<p>29 SCC/025 (PAM) Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal yn unol â'r rheoliadau</p>	98.5%	98.0%	98.2%	☺	▼	I'w gadarnhau		Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	
<p>30 SCC/033d (NSI) Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed.</p>	100.0%	95.0%	100.0%	☺	▲	I'w gadarnhau		Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	
<p>31 SCC/033e (NSI) Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed</p>	88.2%	89.5%	94.7%	☺	▲	I'w gadarnhau		Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✘	
32 SCC/033f (NSI) Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed.	64.7%	73.7%	73.7%	☺	▲	I'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
33 SCC/041a (NSI) Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen.	100.0%	100.0%	100.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	I'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
34 SCC/045 (PAM) Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol a'r amserlenni statudol	89.4%	90.0%	89.4%	☹	▼	I'w gadarnhau			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
	Er nad ydym wedi cyrraedd ein targed, rydym yn perfformio'n well na ffigur Cymru Gyfan am 2014/15 sef 88.9% ac rydym yn dal i fod yn gyson â'n canlyniad am 2014/15. Mae cwblhau adolygiadau Plant mewn Angen yn unol ag amserlenni wedi bod yn broblem unwaith eto, gan ddangos dirywiad mewn perfformiad gyda salwch staff yn ffactor sy'n cyfrannu, ac mae hyn wedi cael effaith ar y canlyniad yn gyffredinol. Mae adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac Amddiffyn Plant ill dau wedi gwella yn ystod y flwyddyn hon, sef 96.2% a 99.4%. Bydd Rheolwr y Tîm yn parhau i fonitro adolygiadau Plant mewn Angen. Fodd bynnag, mae salwch y staff wedi bod yn broblem mewn rhai timau. Bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn sicrhau bod yr holl ffurflenni adolygu Asesu Gofal (cofnod electronig) yn cael eu rhoi ar y system fel y bo'r angen.										
35 CAM/037 (PAM) Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr	1.5%	1.1%	7.2%	☺	▲	TBC	TBC	TBC	1.1%	✓	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
36 STS/005b (PAM) Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol	99.2%	92.0%	98.9%	☺	▼	I'w gadarnhau			92.0%	✘	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Er bod canlyniad 2015/16 yn uwch o dipyn na'r targed, mae wedi dangos gostyngiad mewn perfformiad, felly mae'r targed ar gyfer 2016/17 wedi cael ei bennu'n llai gan fod angen i'r gwasanaeth wneud rhagor o arbedion sylweddol.										

ATODIAD B

Disgrifiad / Cyfeirnod	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✘	
37 WMT/004b (NSI) & (PAM) Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi	18.11%	15.00%	5.24%	☺	▲	l'w gadarnhau			10.00%	✘	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Mae targed 2016/17 yn adlewyrchu'r ffaith ein bod ar hyn o bryd yn cyrraedd ein targed statudol ar gyfer 2019/20 a'r ffaith y gallai cost trin gwastraff gweddilliol fod yn llethol yn y dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i gyrraedd ein targed statudol, gan aros o fewn y gyllideb ar yr un pryd.										
38 WMT/009b (NSI) & (PAM) Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall	59.61%	60.00%	63.35%	☺	▲	l'w gadarnhau			62.00%	✘	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Cafodd y gwelliant sylweddol mewn perfformiad o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yn ystod 2015/16 ei gyflawni drwy gyflwyno proses trin gwastraff gweddilliol yn y flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd rydym yn cyrraedd ein targedau statudol ar gyfer 2019/20 o ran lwfans tirlenwi. Mae'r targed ailgylchu cyffredinol o 62% yn adlewyrchu cynllun targedau fesul cam y strategaeth wastraff ar gyfer cyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% erbyn 2025. Byddwn yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau a bennir yn ein strategaeth wastraff, gan aros o fewn y gyllideb ar yr un pryd.										
39 STS/006 (NSI) Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith.	98.70%	98.63%	87.24%	☹	▼	l'w gadarnhau			98.63%	✓	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Yn sgil cerbydau'n torri i lawr a phrinder staff o achos salwch yn chwarter diwethaf y flwyddyn, mae darparu'r adnoddau i glirio gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon wedi bod yn her. Mae hyn wedi achosi ôl-groniad o tua 2 wythnos cyn bod y deunydd yn cael ei glirio, ac felly roedd yn cael effaith ar y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn.										
40 THS/007 (NSI) Nifer o oedolion 60+ oed sy'n dal tocyn bws	81.5%	79.0%	80.6%	☺	▼	l'w gadarnhau			79.0%	✘	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Mae targed 2016/17 wedi cael ei bennu'n is na chanlyniad 2015/16 gan y bydd y drefn barhaus o leihau'r gwasanaethau bysiau a gynigir yn effeithio ar y nifer fydd yn debygol o fanteisio ar y cerdyn teithio rhatach yn y dyfodol.										
41 THS/012 (PAM) Canran y priif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	11.9%	11.9%	10.7%	☺	▲	l'w gadarnhau			9.5%	✓	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Gellir gweld bod y cyllid ychwanegol hwn gan Fenter Bentyca Llywodraeth Leol dros y blynyddoedd diwethaf yn cael effaith uniongyrchol ar wella cyflwr rhwydwaith ein ffyrdd A,B,C. Er bod y ffigur cyfun o 10.7% yn dal yn uwch na lefel 2008 sef 7.1%, mae'r ffigurau diweddaraf yn is na'r uchafbwynt a gyrhaeddwyd yn 2012/13 sef 17.2%, gan fynd yn groes i'r duedd gyffredinol h.y. gostyngiad yn y ganran sydd mewn cyflwr gwael (coch) yn gyffredinol. Cafodd buddsoddiad y Fenter Bentyca Llywodraeth Leol yn Sir Gaerfyrddin ei dargedu'n bennaf ar gyfer ffyrdd A a B, ond mae'n debyg bod buddsoddiad diweddar mewn ffyrdd Dosbarth C wedi helpu i wella'r sefyllfa o 21.8% yn 2012-13 i 13.7% yn 2015-16. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch na'r lefel darged o tua 9.7% ac mae angen buddsoddiad sylweddol i wneud gwelliant pellach. Hefyd mae dirywiad ymylol cyfatebol wedi bod yn y ffigur cyfun ar gyfer Dosbarth A/B o 3.9% (2014-15) i 4.25% (2015-16).										